

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

22/04/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

[1. Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)

[2. Questions to the Counsel General](#)

[3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)

[3. Questions to the Assembly Commission](#)

[4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Cloddio Glo Brig](#)

[4. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Opencast Mining](#)

[5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Economi](#)

[5. Welsh Conservatives Debate: The Economy](#)

[6. Dadl Plaid Cymru: Addysg Ôl-16](#)

[6. Plaid Cymru Debate: Post-16 Education](#)

[7. Cyfnod Pleidleisio](#)

[7. Voting Time](#)

[8. Dadl Fer: Gofal Iechyd yng Nghanolbarth Cymru](#)

[8. Short Debate: Healthcare in Mid Wales](#)

[9. Dadl Fer: Darparu Difidend Datganoli ar gyfer Cymru Gyfan](#)

[9. Short Debate: Delivering a Devolution Dividend for the Whole of Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:30 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

1. Questions to the Minister for Health and Social Services

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The first item this afternoon is questions to the Minister for Health and Social Services, and question 1 is Mark Isherwood.

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a daw cwestiwn 1 gan Mark Isherwood.

Gwasanaethau Iechyd i Gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog

Health Services for Ex-armed Forces Personnel

13:31 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau iechyd a ddarperir i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog? OAQ(4)0571(HSS)

1. Will the Minister make a statement on the health services provided to ex-armed forces personnel? OAQ(4)0571(HSS)

13:31 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I thank the Member for the question. The Welsh Government is fully committed to supporting the armed forces community in Wales through our package of support. I am happy to announce today that the NHS veterans service will receive an additional £100,000 of recurrent funding, to ensure that the improvements that we delivered last year on access times are maintained, going forward.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i gefnogi cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru drwy ein pecyn cymorth. Rwy'n hapus i gyhoeddi heddiw y bydd gwasanaeth cyn-filwyr y GIG yn cael £100,000 yn ychwanegol o gyllid rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau a sicrhawyd gennym y llynedd o ran amseroedd mynediad yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

13:31 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Well, can I welcome that announcement, and my question was intended to call for that announcement. [Laughter.] I know that the Royal British Legion and SSAFA—no, seriously—have been calling for this, as have the Veterans' NHS Wales service themselves. Why did they have to wait until so long? They were calling on the Welsh Government for months before this funding ended on 1 April. They're relying on emergency funding at the moment, which runs out at the end of June. Given that the UK Government announced £8.4 million for NHS England for veterans' mental health services, with a Barnett consequential for Wales, why have they had to wait so long for this announcement?

Wel, gallaf groesawu'r cyhoeddiad, a bwriad fy nghwestiwn oedd galw am y cyhoeddiad hwnnw. [Chwerthin.] Gwn fod y Lleng Brydeinig Frenhinol a Chymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd—na, o ddifrif—wedi bod yn galw am hyn, fel y mae gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr eu hunain. Pam y bu'n rhaid iddynt aros mor hir? Roeddent yn galw ar Lywodraeth Cymru ers misoedd cyn i'r cyllid hwn ddod i ben ar 1 Ebrill. Maent yn dibynnu ar gyllid brys ar hyn o bryd, sy'n dod i ben ar ddiwedd mis Mehefin. O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi £8.4 miliwn i GIG Lloegr ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr, gyda swm canlyniadol Barnett i Gymru, pam y bu'n rhaid iddynt aros mor hir am y cyhoeddiad hwn?

13:32 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

And you were doing so well. The announcement that we have made—in fact, the money that's been rolled forward came because the Welsh Government rolled money forward to allow the service to continue until June, so we could make a decision based on outcomes that had been delivered, to understand the financial case we have. I make no apology for the fact that this Government takes very seriously its responsibility to properly consider each funding bid, in what we understand are incredibly difficult times for the NHS. So, I think this is a good news story for the NHS Wales veterans service, and I hope that Members across the Chamber can recognise that.

Ac roeddech yn gwneud mor dda. Daeth y cyhoeddiad rydym wedi'i wneud—a dweud y gwir, daeth yr arian sydd wedi'i ddwyn ymlaen oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dwyn arian ymlaen i ganiatáu i'r gwasanaeth barhau tan fis Mehefin, er mwyn i ni allu gwneud penderfyniad yn seiliedig ar ganlyniadau a gyflawnwyd, i ddeall yr achos ariannol sydd gennym. Nid wyf yn ymddiheuro am fod y Llywodraeth hon o ddifrif ynglŷn â'i chyfrifoldeb i roi ystyriaeth briodol i bob cais am arian ar adeg hynod o anodd i'r GIG, fel y gwyddom i gyd. Felly, rwy'n credu bod hyn yn newyddion da i wasanaeth GIG Cymru i gyn-filwyr, ac rwy'n gobeithio y gall yr Aelodau ar draws y Siambr gydnabod hynny.

13:32 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The Public Health Wales review of the NHS veterans Wales service highlighted waiting times as an issue for those people accessing the service. What progress has been made to reduce the length of time veterans are waiting for access to the national source of help and support?

Roedd adolygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru o wasanaeth GIG Cymru i gyn-filwyr yn tynnu sylw at amseroedd aros fel mater o bwys i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Pa gynnydd a wnaed ar gwtog'i'r amser y mae cyn-filwyr yn aros i gael mynediad at y ffynhonnell genedlaethol o gymorth a chefnogaeth?

13:32

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for the question. The funding that we made available last year helped to reduce significantly those waiting times, and the money that we've announced today, on a recurrent basis, should ensure that that delivery is maintained. In fact, at present, no health board has waits of more than 17 weeks, which is within the 18-week maximum wait that's been called for in the Royal British Legion 2015 manifesto. Again, this is a service that has been improved, deliberately, and I think the task now is how to ensure that health boards across the country ensure that the progress that we have made is maintained moving forward.

Diolch yn fawr am y cwestiwn. Mae'r cyllid a ryddhawyd gennym y llynedd wedi helpu i gwtogi'r amseroedd aros yn sylweddol, a dylai'r arian rydym wedi'i gyhoeddi heddiw, ar sail reolaidd, sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnal. Yn wir, ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw fwrdd iechyd amseroedd aros o fwy na 17 wythnos, sydd o fewn y terfyn uchaf ar gyfer amseroedd aros o 18 wythnos y galwai maniffesto'r Llenng Brydeinig Frenhinol 2015 amdano. Unwaith eto, dyma wasanaeth sydd wedi cael ei wella, yn fwiadol, ac rwy'n credu mai'r dasg yn awr yw sut i sicrhau bod byrddau iechyd ar draws y wlad yn gwneud yn siŵr fod y cynnydd a wnaed gennym yn cael ei gynnal yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:33

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae un o fy etholwyr i, Mr Halstead, wedi cysylltu â mi, ynglŷn â'r ffordd y mae milwyr a gafodd eu hanafu yn y lluoedd arfog cyn 2005 yn cael eu trin, o'u cymharu â rhai a gafodd eu hanafu ar ôl 2005. Mae'r annhegwch yma—sydd yn annhegwch, achos mae o'n ymwneud â faint o gyfraniad y maen nhw'n gorfod ei wneud i'w gofal—yn rhywbeth y dylai'r Llywodraeth ei gymryd o ddifrif. Rwyf wedi derbyn ateb gan y Gweinidog, Mr Mark Drakeford, sy'n esbonio cymaint y mae'r Llywodraeth yn ceisio ei wneud yn y cyfeiriad yma, ond y gwir amdani ydy bod hwn yn annhegwch sylfaenol. Fedrwn chi ddim trin rhai a gafodd eu hanafu ar ôl 2005 mewn ffordd wahanol i'r rhai a gafodd eu hanafu cyn 2005. Felly, pa ymdrechion y mae'r Llywodraeth wedi eu gwneud yma i geisio unioni'r cam yma?

A constituent of mine, Mr Halstead, has been in touch with me regarding the way in which soldiers injured in the armed forces prior to 2005 are treated as compared with those injured post 2005. This unfairness—which is unfair, because it does relate to the level of contribution that they have to make to their own care—is something that the Government should take seriously. I've received a response from the Minister, Mr Mark Drakeford, which explains what the Government is endeavouring to do in this regard, but the fact of the matter is that this is a basic injustice. You cannot treat those people who were injured post 2005 differently to those who were injured before 2005. So, what efforts is the Government making to try to put right this injustice?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:34

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. I met the British Legion several months ago, and this was an issue they raised, unsurprisingly. We've made clear that our position is that we're reviewing the matter. We do need to think about what changing the rules and the current disregard would mean for local authority finance, but we are committed to looking seriously at the information the legion provides to us, about the scale of the challenge in each of the local authorities. But, in Wales, it's also fair to point out that veterans do still benefit from the cap on charging that this Welsh Government has introduced. So, veterans in Wales are in a better position than their colleagues in the rest of the UK, but I do recognise that it's an issue to take seriously, to consider the evidence the legion provides, and to think how sensibly and seriously the whole Government can respond to the call that's been made.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Cyfarfûm â'r Llenng Brydeinig sawl mis yn ôl, ac nid yw'n syndod fod hwn yn fater a godwyd ganddynt. Rydym wedi gwneud yn glir mai ein safbwynt yw ein bod yn adolygu'r mater. Mae angen i ni feddwl ynglŷn â beth fyddai newid y rheolau a'r diffyg ystyriaeth presennol yn ei olygu o ran cyllid awdurdodau lleol, ond rydym wedi ymrwmo i edrych o ddifrif ar y wybodaeth y mae'r llenng yn ei darparu i ni ynghylch maint yr her ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Ond yng Nghymru, mae hefyd yn deg nodi bod cyn-filwyr yn dal i elwa ar y cap ar daliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno. Felly, mae cyn-filwyr yng Nghymru mewn sefyllfa well na'u cymheiriaid yng ngweddill y DU, ond rwy'n cydnabod bod angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r dystiolaeth y mae'r llenng yn ei darparu a meddwl pa mor synhwyrol a difrifol y gall y Llywodraeth gyfan ymateb i'r alwad a wnaed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:35

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, in February 2011, the Health, Wellbeing and Local Government Committee of the Assembly published a report on post-traumatic stress disorder that raised concerns about primary care awareness of the condition. But, I'm still having constituents saying to me that there's a long waiting time, not from referral to seeing specialist services, but a wait whilst their primary care physicians are recognising that the symptoms that they are presenting are actually post-traumatic stress disorder. The then Minister for health did write to the local health boards and ask them to instigate a programme of training and awareness-raising, and I'm wondering whether you might consider writing to the LHBs again for an update on that.

Ddirprwy Weinidog, ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad adroddiad ar anhwylder straen wedi trawma a fynegai bryderon ynglŷn ag ymwybyddiaeth o'r cyflwr mewn gofal sylfaenol. Ond mae etholwyr yn dal i ddweud wrthyf fod yr amser aros yn hir, nid rhwng atgyfeiriad a gweld gwasanaethau arbenigol, ond yr oedi cyn i'w meddygon gofal sylfaenol gydnabod mai symptomau anhwylder straen wedi trawma yw'r hyn sydd ganddynt mewn gwirionedd. Ysgrifennodd y Gweinidog iechyd ar y pryd at y byrddau iechyd lleol i ofyn iddynt sefydlu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, ac rwy'n meddwl tybed a wnewch chi ystyried ysgrifennu at y Byrddau Iechyd Lleol eto am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. This is an issue that is raised from time to time in this Chamber, and understandably so, given that all of us will have constituents not just in the forces, but in other emergency services affected by PTSD. If she wants to write to me with specific instances, I'll happily take those up and consider a more general refresh with health boards on this particular issue.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae hwn yn fater sy'n codi o bryd i'w gilydd yn y Siambr, ac yn ddealladwy felly, o gofio y bydd gan bob un ohonom etholwyr nid yn unig yn y lluoedd arfog, ond mewn gwasanaethau brys eraill, sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Os yw hi eisiau ysgrifennu ataf gydag achosion penodol, rwy'n hapus i fynd ar eu trywydd ac ystyried adnewyddu cyfarwyddyd yn fwy cyffredinol i fyrdau iechyd ynglŷn â'r mater penodol hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ffyrdd Iachach o Fyw

Healthier Lifestyles

13:36

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw? OAQ(4)0583(HSS)

2. Will the Minister make a statement on Welsh Government action to promote healthier lifestyles? OAQ(4)0583(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. The Welsh Government continues to support people to make healthy lifestyle choices. We recognise the need to address challenges around exercise and smoking in particular. For example, earlier this month, we extended the ban on displaying cigarettes to include all shops as part of our drive to reduce the levels of smoking.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo pobl i wneud dewisiadau byw'n iach. Rydym yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â heriau'n ymwneud ag ymarfer corff ac ysmegu yn arbennig. Er enghraifft, yn gynharach y mis hwn, aethom ati i ymestyn y gwaharddiad ar arddangos sigarêts i gynnwys pob siop fel rhan o'n hymgyrch i leihau lefelau ysmegu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I think in terms of the challenges that the health service faces, the pressure that it constantly has to respond to, and an ageing society, it's very important that we get on the preventative health agenda to ease that pressure and to look long term in terms of the challenges of that ageing society. I wonder whether you would agree with me that it's important to make sure that physical activity and exercise increases in Wales, and if we could identify health boards who are engaged in key partnerships with local authorities, the new trusts that are taking forward leisure services, Sport Wales, sport governing bodies and Communities First for example, and who are building those partnerships effectively to get people more physically active, we could then spread that good practice. I wonder whether you would undertake that exercise.

Weinidog, o ran yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd, y pwysau sy'n rhaid ymateb iddo'n gyson a chymdeithas sy'n heneiddio, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn bwrw iddi â'r agenda iechyd ataliol i leddfu'r pwysau ac i edrych yn hirdymor ar heriau cymdeithas sy'n heneiddio. Tybed a fydddech yn cytuno ei bod yn bwysig gwneud yn siŵr fod lefelau gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff yng Nghymru yn cynyddu, ac os gallwn nodi pa fyrdau iechyd sy'n rhan o bartneriaethau allweddol gydag awdurdodau lleol, yr ymddiriedolaethau newydd sy'n bwrw ymlaen gyda gwasanaethau hamdden, Chwaraeon Cymru, cyrff llywodraethu chwaraeon a Cymunedau yn Gyntaf, er enghraifft, ac sy'n adeiladu'r partneriaethau hynny yn effeithiol i gael pobl yn fwy corfforol egniol, fe allem fynd ati wedyn i ledaenu arfer da o'r fath. Tybed a fydddech yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think that's a helpful suggestion. We already know that some of the more effective methods of getting people physically active do involve a range of delivery partners. Communities First is a good example. Health boards are reaching out, with local authority partners and others too, to try and ensure that there is some consistency in the message that we deliver, because the more sedentary people are, the more likely people are to suffer ill-health later in life. For example, the national exercise referral scheme has been very successful in this regard, with over 26,000 referrals made in 2013, and about nine out of 10 of those people said they would not have considered increasing their level of physical activity without that referral being made.

Byddwn, rwy'n credu ei fod yn awgrym defnyddiol. Rydym eisoes yn gwybod bod rhai o'r dulliau mwy effeithiol o gael pobl yn gorfforol egniol yn cynnwys ystod o bartneriaid cyflawni. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn enghraifft dda. Mae'r byrddau iechyd yn estyn allan, gyda phartneriaid awdurdod lleol ac eraill hefyd, i geisio sicrhau bod y neges a gyflwynwn yn gyson, oherwydd po leiaf egniol yw pobl, y mwyaf tebygol yw hi y bydd pobl yn dioddef salwch yn nes ymlaen mewn bywyd. Er enghraifft, mae'r cynllun cenedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff wedi bod yn llwyddiannus iawn yn hyn o beth, gyda thros 26,000 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn 2013, a dywedodd tua naw o bob 10 o'r bobl hynny na fyddent wedi ystyried cynyddu eu lefel o weithgarwch corfforol pe na bai'r atgyfeiriad wedi'i wneud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:38

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, you may be aware of Alcohol Concern's Communities Together initiative. In Fishguard and Goodwick, students of Ysgol Bro Gwaun have been working with soroptimists and, indeed, others, under the title, 'It's the Alcohol Talking' to look at how drinking impacts on our local communities. Do you agree with me, Deputy Minister, that schemes like these are a great example of joint working across a community to promote healthier living, and can you tell us what specific support the Welsh Government can actually offer these types of initiatives?

Ddirprwy Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol o fenter Cymunedau Ynghyd Alcohol Concern. Yn Abergwaun ac Wdig, mae myfyrwyr yn Ysgol Bro Gwaun wedi bod yn gweithio gyda soroptimyddion, ac eraill yn wir, ar brosiect sy'n dwyn y teitl, 'Yr Alcohol sy'n Siarad' i edrych ar sut y mae yfed yn effeithio ar ein cymunedau lleol. A ydych yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, fod cynlluniau fel y rhain yn enghraifft wych o gydweithio ar draws y gymuned i hybu byw'n iachach, ac a allwch ddweud wrthym pa gymorth penodol y gall Llywodraeth Cymru ei gynnis i'r mathau hyn o fentrau mewn gwirionedd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:39

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the particular example that he mentions, because we do recognise that addressing the amount that people drink on a regular basis, as well as binge drinking, is a particular challenge for us, and alcohol misuse is a significant contributing factor to poor levels of public health. We support a range of initiatives across Wales, but one of the key points that we are especially interested in is minimum unit pricing because we do think that there's good evidence to suggest that it would have a significant health benefit, as well as helping people to make more informed choices. So, this does go into the policy work that I expect every health board and their partners to undertake. This isn't just a matter for the public sector to undertake; it is a matter of partnership with the third sector, to help people make more informed choices in their own daily lives.

Rwy'n croesawu'r enghraifft benodol y mae'n sôn amdani am ein bod yn cydnabod bod mynd i'r afael â faint y mae pobl yn ei yfed yn rheolaidd, yn ogystal â goryfed mewn pyliau, yn her arbennig i ni, ac mae camddefnyddio alcohol yn ffactor sy'n cyfrannu sylweddol at lefelau isel o iechyd cyhoeddus. Rydym yn cefnogi ystod o fentrau ar draws Cymru, ond un o'r pwyntiau allweddol sydd o ddiddordeb arbennig i ni yw gosod isafswm pris uned gan y credwn fod yna dystiolaeth dda i awgrymu y byddai o fudd sylweddol i iechyd yn ogystal â helpu pobl i wneud dewisiadau mwy gwybodus. Felly, mae hyn yn cysylltu â'r gwaith polisi rwy'n disgwyl i bob bwrdd iechyd a'u partneriaid ei gyflawni. Nid mater i'r sector cyhoeddus yn unig ymgymryd ag ef yw hyn; mae'n fater o bartneriaeth â'r trydydd sector, er mwyn helpu pobl i wneud dewisiadau mwy gwybodus yn eu bywydau bob dydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:39

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a gaf fi awgrymu nad yw eich awgrym chi fod pobl yn eistedd am gyfnodau hir yn arwain at ddioddef afiechyd mewn henoed yn bwrpasol iawn yn y Siambr yma, heblaw eich bod yn ein hannog ni i adael y Siambr mor aml ag sy'n bosibl? Ond, Weinidog, a fydddech chi'n cytuno gyda fi ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gwneud yr awgrymiadau yma yn bethau ymarferol i bobl eu gwneud? Er enghraifft, petai Aelodau o'r Cynulliad yn cerdded ar hyd y staerau yn y lle yma yn hytrach na phentyrru i mewn i'r lifft, byddai hynny yn gyfraniad mawr iawn tuag at eu hiechyd corfforol nhw.

Minister, may I suggest that your suggestion that people sitting for long periods of time can lead to illness in later life is not very appropriate in this Chamber, unless you are encouraging us to leave this Chamber as often as possible? Minister, would you agree with me that it's extremely important that we make these suggestions about practical things that people can do? For example, if Assembly Members were to walk the stairs in this place rather than crowd into the lift, that would be a great contribution towards their physical health.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:40

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I won't name individual Members, but there are some with whom I'd like to take up your suggestion of leaving the Chamber and, perhaps, not returning, but that's a different issue. But, I won't say anything. There are always steps that people can take and, of course, before my time here as an Assembly Member, I was a lawyer. That is a very sedentary profession. You're either sat on your backside or stood on your feet. So, in terms of the opportunity to use the office and your normal workplace environment and to have a slightly more active lifestyle, the point is well made. I am sure that other Assembly Members will be dashing for the stairs after today's business to take up Rhodri Glyn's suggestion of a more active lifestyle.

Wel, nid wyf am enwi Aelodau unigol, ond mae yna rai yr hoffwn pe baent yn manteisio ar eich awgrym y dylent adael y Siambr, a pheidio â dychwelyd o bosibl, ond mater arall yw hynny. Ond ni ddywedaf ddim. Mae yna bob amser gamau y gall pobl eu rhoi ar waith ac wrth gwrs, cyn fy amser yma fel Aelod o'r Cynulliad, roeddwn yn gyfreithiwr. Nid oes llawer o ymarfer corff ynghlwm wrth y proffesiwn hwnnw. Rydych chi naill ai'n eistedd ar eich pen-ôl neu'n sefyll ar eich traed. Felly, o ran y cyfle i ddefnyddio'r swyddfa ac amgylchedd eich gweithle arferol a chael ffordd o fyw ychydig yn fwy egniol, mae'n bwynt teg. Rwy'n sicr y bydd Aelodau Cynulliad eraill yn rhuthro am y grisiau ar ôl y trafodion heddiw er mwyn manteisio ar awgrym Rhodri Glyn ynghylch ffordd o fyw mwy egniol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is the Deputy Minister aware of the new research published in April by Cardiff University's violence research group, led by my constituent, Professor Jonathan Shepherd, into the worrying number of intoxicated clubbers being taken to Cardiff's alcohol treatment centre? Are there any measures he thinks that can be used to combat the detrimental effect that alcohol is having on people's health?

A yw'r Dirprwy Weinidog yn ymwybodol o'r gwaith ymchwil newydd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill gan grŵp ymchwil Prifysgol Caerdydd ar drais, dan arweiniad un o fy etholwyr, yr Athro Jonathan Shepherd, a edrychai ar y nifer enbyd o glybwyr meddw sy'n cael eu cludo i ganolfan driniaeth alcohol Caerdydd? A yw'n credu bod mesurau y gellid eu defnyddio i frwydro yn erbyn yr effaith niweidiol y mae alcohol yn ei chael ar iechyd pobl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. I do have some awareness of the study that she refers to and I welcome the innovative approach that is being taken in the alcohol treatment centre. It is nurse-led and aims to minimise the impact of alcohol and prevent people from going to A&E if possible. It's worth noting though that, I think, from the research, a significant majority of people who had problems with alcohol had their last drink at home as opposed to drinking in a pub or club when out. So, this goes to the point about the choices that people make and the education that we can provide so that people make sensible choices about the mix between enjoyment and their own health and safety. But, again, I return to the point about minimum unit pricing, because we do understand that this would have a significant impact on the choice that people make and the harm alcohol can cause.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwy'n weddol ymwybodol o'r astudiaeth y cyfeiria ati ac rwy'n croesawu dull arloesol y ganolfan driniaeth alcohol o weithredu. Mae'n cael ei rhedeg dan arweiniad nyrsys ac yn anelu at leihau effaith alcohol ac atal pobl rhag mynd i adran damweiniau ac achosion brys os yn bosibl. Er hynny, rwy'n meddwl ei bod yn werth nodi bod yr ymchwil yn dangos bod mwyafrif sylweddol y bobl a oedd â phroblemau gydag alcohol wedi cael eu diod olaf yn y cartref yn hytrach na mewn tafarn neu glwb ar noson allan. Felly, mae hyn yn ymwneud â'r pwynt am y dewisiadau y mae pobl yn eu gwneud a'r addysg y gallwn ei darparu fel bod pobl yn gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â chyfuno mwynhad a'u hiechyd a'u diogelwch personol. Ond unwaith eto, dychwelaf at y pwynt am osod isafswm pris uned, gan ein bod yn deall y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar ddewisiadau pobl a'r niwed y gall alcohol ei achosi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:42

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon we have the Welsh Conservatives' spokesperson, Darren Millar.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, figures published last week showed that almost 2,500 patients spent more than 12 hours in Welsh accident and emergency departments last month. In England, the figure was just 39 over the same period. In Morrision Hospital, two out of every five patients waited more than four hours in A&E departments before they were discharged, and, of course, your Government's target of 95 per cent of people being seen and discharged within four hours has not been met once since 2009. What action are you taking to address this very serious problem in our A&E departments?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn dangos bod bron i 2,500 o gleifion wedi treulio mwy na 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru y mis diwethaf. Yn Lloegr, 39 yn unig yw'r ffigur dros yr un cyfnod. Yn Ysbyty Treforys, bu'n rhaid i ddau o bob pump claf aros mwy na phedair awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys cyn iddynt gael eu rhyddhau, ac wrth gwrs, nid yw targed eich Llywodraeth o weld a rhyddhau 95 y cant o bobl o fewn pedair awr wedi cael ei gyrraedd unwaith ers 2009. Pa gamau rydych yn eu gweithredu i fynd i'r afael â'r broblem hynod o ddifrifol hon yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Llywydd, too many patients in Welsh A&E departments wait for 12 hours or more for their treatment to be completed or the next phase of their treatment to begin. The deputy chief medical officer has been in correspondence in this last week with local health boards to ensure that there are plans in place to reduce that number. But, let us not forget that there are a significant proportion of those people who are held for 12 hours in an A&E department because their treatment is actively continuing and because our system is designed to try and make sure that, as much as possible, people are not admitted to hospital when there is no clinical need for that to happen and where, when treatment is complete and when that extra test is completed and that extra period of observation is carried out, people can be safely returned home. In England, by contrast, he will be well aware of this phenomenon of the spike of hospital admissions that takes place after three hours and 58 or 59 minutes of waiting in an A&E department in an entirely artificial way, entirely designed to beat the clock and which leads to clinical detriment for patients and for the service.

Lywydd, mae gormod o gleifion mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru yn aros am 12 awr neu fwy i'w triniaeth gael ei chwblhau neu i ddechrau ar gam nesaf eu triniaeth. Bu'r dirprwy brif swyddog meddygol yn gohebu ynglŷn â hyn yr wythnos diwethaf gyda byrddau iechyd lleol i sicrhau bod cynlluniau ar waith i leihau'r nifer hwnnw. Ond gadewch i ni beidio ag anghofio bod cyfran sylweddol o'r bobl yn cael eu cadw am 12 awr mewn adran damweiniau ac achosion brys am fod eu triniaeth yn parhau ac oherwydd bod ein system wedi'i chynllunio i geisio gwneud yn siŵr i'r graddau sy'n bosibl na chaiff pobl eu derbyn i'r ysbyty pan nad oes angen clinigol i hynny ddigwydd a lle y gellir rhyddhau pobl yn ddiogel i fynd adref pan fo'r driniaeth ar ben a phan fo'r prawf ychwanegol hwnnw wedi'i gwblhau a'r cyfnod ychwanegol hwnnw o arsylwi wedi cael ei wneud. Yn Lloegr, mewn cyferbyniad, fe fydd yn ymwybodol iawn o'r ffenomen lle y gwelir cynnydd sydyn yn y derbyniadau i'r ysbyty sy'n digwydd ar ôl tair awr a 58 neu 59 munud o aros mewn adran damweiniau ac achosion brys mewn ffordd hollol artiffisial, a gynlluniwyd yn gyfan gwbl i drechu'r cloc ac sy'n arwain at niwed clinigol i gleifion a'r gwasanaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That sounds like a very complacent answer to me, Minister, and if your response is simply that there's been some correspondence between the deputy chief medical officer and an emergency department, I think many people will find that response wanting. Isn't the reality of the situation that you have allowed too many beds to be axed from the national health service in recent years? One in five beds has gone and, as a result of that, our emergency departments are under significant pressure.

Mae hynny'n swnio'n ateb hunanfodlon iawn i mi, Weinidog, ac os mai eich ymateb yn syml yw bod gohebiaeth wedi bod rhwng y dirprwy brif swyddog meddygol ac adran achosion brys, rwy'n credu y bydd llawer o bobl yn ystyried bod eich ymateb yn ddiffygiol. Onid realiti'r sefyllfa yw eich bod wedi caniatáu i ormod o welyau gael eu colli o'r gwasanaeth iechyd gwladol yn y blynyddoedd diwethaf? Mae un o bob pump gwely wedi'u colli ac o ganlyniad i hynny, mae ein hadrannau achosion brys o dan bwysau sylweddol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:44 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The issue of beds that are available for people to be admitted from A&E is a real one, but of course the reduction in beds in the Welsh NHS has been considerably slower than the reduction in beds in the English NHS under the stewardship of his party. What we are intent on doing is not making beds the currency of the national health service. That really isn't the way to do things. There are equivalent services that you can provide, particularly in the community, which allow people to continue to be looked after at home without needing a hospital bed. Those services are a more successful way of addressing the problem. The need to find quick ways in which people who need follow-up care can be provided with it is the issue. Beds are not always the answer.
- Mae problem y gwelyau sydd ar gael i bobl gael eu derbyn o'r adran damweiniau ac achosion brys yn un go iawn, ond wrth gwrs mae'r gostyngiad yn nifer y gwelyau yn y GIG yng Nghymru wedi bod yn sylweddol arafach na'r lleihad yn nifer y gwelyau yn y GIG yn Lloegr o dan stiwardiaeth ei blaid. Rydym yn benderfynol o beidio â gadael i bob ystyriaeth o'r gwasanaeth iechyd gwladol ymwneud â nifer y gwelyau. Yn bendant, nid dyna'r ffordd i wneud pethau. Mae yna wasanaethau cyfatebol y gallwch eu darparu, yn enwedig yn y gymuned, sy'n caniatáu i bobl barhau i gael gofal yn y cartref heb fod angen gwely ysbyty. Mae'r gwasanaethau hynny yn ffordd fwy llwyddiannus o fynd i'r afael â'r broblem. Yr angen i ddod o hyd i ffyrdd cyflym o ddarparu ôl-ofal i'r bobl sydd ei angen yw'r hyn sydd dan sylw. Nid gwelyau yw'r ateb bob tro.
- 13:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The problem, Minister, is that these beds have been axed without sufficiently well-developed community services, as you know. Do you agree with me that the fundamental issue here in the Welsh NHS is that it's your responsibility to put the proper level of resourcing in, as a Government, and, regrettably, even though we have told you time and time again that you're not putting sufficient resources in, you have imposed record-breaking cuts to national health service budgets—the only part of the UK to do so. Will you agree with us that it is a matter of deep regret that you have done that, and that you made a mistake?
- Y broblem, Weinidog, yw bod y gwelyau hyn wedi'u colli heb i wasanaethau cymunedol digon da gael eu datblygu, fel y gwyddoch. A ydych yn cytuno mai'r mater sylfaenol yma yn y GIG yng Nghymru yw mai eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r lefel briodol o adnoddau i mewn, fel Llywodraeth, ac yn anffodus, er ein bod wedi dweud wrthyhych dro ar ôl tro nad ydych yn rhoi digon o adnoddau i mewn, rydych wedi torri cyllidebau'r gwasanaeth iechyd gwladol ar lefel na welwyd ei thebyg o'r blaen—yr unig ran o'r DU i wneud hynny. A ydych yn cytuno ei fod yn destun gofid mawr eich bod wedi gwneud hynny, a'ch bod wedi gwneud camgymeriad?
- 13:46 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I entirely reject that charge, as I have every time it is made. The Member knows perfectly well that what has happened here in the Welsh context is that we have protected the system in the round. There is absolutely no use, as his party has done across our border, in artificially robbing the social services departments of local authorities so that English hospitals are jam-packed with people sitting in beds, who cannot be discharged. It's absolutely true. The figures speak for themselves. [Interruption.]
- Rwy'n gwrthod y cyhuddiad yn gyfan gwbl, fel y gwnaf bob tro y caiff ei wneud. Fe wŷyr yr Aelod yn iawn mai'r hyn sydd wedi digwydd yma yng nghyd-destun Cymru yw ein bod wedi diogelu'r system yn ei chyfanrwydd. Nid oes unrhyw werth o gwbl mewn mynd ati'n annidwyll i ddwyn oddi wrth adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, fel y mae ei blaid wedi ei wneud dros y ffin, nes bod ysbytai Lloegr yn llawn dop o bobl yn eistedd mewn gwelyau am na ellir eu rhyddhau. Mae'n hollol wir. Mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain. [Torri ar draws.]
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order, order. Trefn, trefn.
- 13:47 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Delayed transfers of care figures in England have gone up and up and up; whereas last year in Wales, they have been at record lows. That shows that from the patient's point of view, it is not a debate about this nonsensical division of spending. It's about making sure that services are there for people so that they can be treated properly when they need to be in hospital, and they can be discharged from hospital to social care and social services' responsibility when that is needed. That's what we've done in Wales. It is a far more successful way of doing things. All the charges that he continually makes will be exposed on 7 May, when the people of Wales, I am confident, will maintain their 150-year record of rejecting the Conservative Party and everything they stand for.
- Mae ffigurau oedi wrth drosglwyddo gofal yn Lloegr wedi mynd i fyny ac i fyny ac i fyny; ond y llynedd yng Nghymru, maent wedi bod yn is nag erioed. Mae hynny'n dangos nad dadl ynglŷn â'r modd disynnwyr y caiff gwariant ei rannu yw hyn o safbwynt y daf. Mae'n ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bobl er mwyn iddynt gael eu trin yn iawn pan fydd angen iddynt fod yn yr ysbyty, a gallant gael eu rhyddhau o'r ysbyty i ofal cymdeithasol a chyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol pan fo angen. Dyna beth rydym wedi'i wneud yng Nghymru. Mae'n ffordd lawer mwy llwyddiannus o wneud pethau. Bydd yr holl gyhuddiadau y mae'n eu gwneud yn gyson yn cael eu dinoethi ar 7 Mai, pan fydd pobl Cymru, rwy'n hyderus, yn cynnal eu record 150 mlynedd o wrthod y Blaid Geidwadol a phopeth y maent yn sefyll drosto.

13:47	Darren Millar Bywgraffiad Biography Not in Clwyd West, they won't.	Ni fyddant yn gwneud hynny yng Ngorllewin Clwyd.	Senedd.tv Fideo Video
13:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.	Trefn. Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.	Senedd.tv Fideo Video
13:48	Elin Jones Bywgraffiad Biography Weinidog, a ydych chi'n rhoi unrhyw gyfarwyddyd o gwbl i ysgolion meddygol Cymru i hyfforddi yn benodol y genhedlaeth nesaf o doctoriaid ar gyfer NHS Cymru?	Minister, do you give any direction whatsoever to medical schools in Wales to train specifically the next generation of doctors for NHS Wales?	Senedd.tv Fideo Video
13:48	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography Rydym ni'n sgwrsio â'r coleg am hyfforddiant y genhedlaeth nesaf. Rwy'n awyddus i greu'r genhedlaeth nesaf yma yng Nghymru. I fod yn glir gyda'r coleg, rydym ni eisiau iddyn nhw ganolbwyntio ar bobl mewn addysg yn ein hysgolion ni ac i fod yn glir gyda nhw, os ydyn nhw'n bobl sy'n gallu mynd i mewn i'r coleg a chael hyfforddiant, rydym ni eisiau iddyn nhw gael yr hyfforddiant yma yng Nghymru, pan maen nhw eisiau cael yr hyfforddiant yma. Mae mwy yr ydym yn gallu ei wneud yn y maes hwnnw, rwy'n siŵr.	We talk to the college about training the next generation. I am keen to create the next generation here in Wales. To be clear with the college, we want them to focus on people in education in our schools and to be clear with them, if they're people who are able to go to college and receive training, we want them to do that training here in Wales, where they wish to have their training here. There is more that we can do in that area, I am sure.	Senedd.tv Fideo Video
13:48	Elin Jones Bywgraffiad Biography Diolch, Weinidog. Rwy'n falch eich bod chi'n cydnabod bod yna fwy y gallech chi ei wneud, ac rwy'n credu ei bod hi'n amser nawr i wneud mwy na sgwrsio. Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos, os ydych chi'n recriwtio myfyrwyr o ardal leol i mewn i ysgol feddygol, yna mae'r tebygolrwydd y bydd y myfyrwyr hynny'n aros i weithio o fewn y gwasanaeth iechyd yn yr ardaloedd lleol yn llawer uwch, ond nid dyna sy'n digwydd yng nghyd-destun Cymru ar hyn o bryd. A ydych chi'n credu, felly, ei bod hi yn bryd i edrych nawr ar osod cwota penodol o fyfyrwyr o Gymru ar gyfer ysgolion meddygol Cymru a chreu unwaith eto gwir ysgol feddygol genedlaethol yma yng Nghymru?	Thank you, Minister. I'm glad that you acknowledge that there is more that you could do, and I believe it is time now to do more than just talk. International evidence shows that if you recruit students from a local area to a medical school, the likelihood is much higher that those students will remain to work within the health service in that local area, but that is not what is happening in the context of Wales at the moment. Do you believe, therefore, that it is high time that we look at setting a specific quota of students from Wales for Welsh medical schools, to create once again a truly national medical school here in Wales?	Senedd.tv Fideo Video
13:49	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography The Member will be aware that this issue is rehearsed in the report that was published earlier this month on the work led by Mel Evans and with his co-authors, Professor Dick Roberts and Professor Ceri Preece. They do look at this issue and they're not attracted to the idea of a quota. There are legal issues that would have to be faced if students from elsewhere in the European Union were to be rejected for a place at a Welsh college because of a quota system. I agree with the more general point that the Member is making, and I think the report deals with that as well, but when it is possible to offer opportunities for training for people from Wales in Welsh-based institutions, our chances of retaining them and making their careers in Wales may well be enhanced. The college always tells me how hard it works to make sure that Welsh applicants are getting every opportunity to compete for those places, but I am keen to maintain a dialogue with them to make sure that they really do deliver on that idea in the way that they make their decisions.	Fe fydd yr Aelod yn ymwybodol fod y mater hwn yn cael ei ailadrodd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn ar y gwaith a wnaed dan arweiniad Mel Evans a'i gyd-awduron, yr Athro Dick Roberts a'r Athro Ceri Preece. Maent yn edrych ar y mater hwn ac nid ydynt yn cael eu denu at y syniad o gwota. Mae yna faterion cyfreithiol y byddai'n rhaid eu hwynebu pe bai ceisiadau myfyrwyr o fannau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd am le mewn coleg yng Nghymru yn cael eu gwrthod oherwydd system gwota. Cytunaf â'r pwynt mwy cyffredinol y mae'r Aelod yn ei wneud, ac rwy'n meddwl bod yr adroddiad yn ymdrin â hynny hefyd, ond pan fydd yn bosibl cynnig cyfleoedd hyfforddiant i bobl o Gymru mewn sefydliadau yng Nghymru, mae'n bur bosibl y bydd gennym fwy o obaith o'u cadw a'u bod yn dilyn gyrfa yng Nghymru. Mae'r coleg bob amser yn dweud wrthyf pa mor galed y mae'n gweithio i wneud yn siŵr fod ymgeiswyr o Gymru yn cael pob cyfle i gystadlu am y lleoedd hynny, ond rwy'n awyddus i gynnal trafodaeth â hwy i wneud yn siŵr eu bod yn cyflawni ar y syniad hwnnw mewn gwirionedd yn y ffordd y maent yn gwneud eu penderfyniadau.	Senedd.tv Fideo Video

13:50

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae nifer o'n hysbytai ni nawr yn orddibynnol ar feddygon locwm, ac mae'r ffaith hwnnw yn cyfrannu at beryglu statws rhai o'r ysbytai hynny, o bosibl, i'r dyfodol fel ysbytai sydd yn medru cynnig hyfforddiant hefyd. Mae Plaid Cymru yn credu y dylid edrych i gynyddu nifer y doctoriaid sy'n cael eu hyfforddi a'u recriwtio i NHS Cymru o ryw 1,000 o ddoctoriaid dros y ddegawd nesaf yma. Nid yw'n glir i ni beth yw'ch uchelgais chi fel Llywodraeth o ran cynyddu nifer y doctoriaid o fewn NHS Cymru. O bosibl, liciech chi gymryd y cyfle y prynhawn yma i amlinellu i ni a oes gyda chi unrhyw uchelgais i gynyddu nifer y doctoriaid sy'n cael eu hyfforddi a'u recriwtio i wasanaethu yr NHS yng Nghymru.

Minister, a number of our hospitals are now overly dependent on locum doctors, and that fact contributes towards possibly endangering the future status of some of those hospitals as hospitals that are able to offer training as well. Plaid Cymru believes that we should look to increase the number of doctors being trained and recruited to the Welsh NHS by some 1,000 doctors over the coming decade. It is not clear to us what your ambition is as a Government in terms of increasing the number of doctors within the Welsh NHS. Perhaps you would like to take the opportunity this afternoon to outline to us whether you have any ambition to increase the number of doctors being trained and recruited to serve the NHS in Wales.

13:51

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The record of the Welsh Government speaks for itself, because the number of doctors working in the Welsh NHS has risen year after year after year during the period that we have been responsible for the Welsh NHS. We have an ambition to continue with that, but we have a wider ambition than that as well: as I've said before on the floor of the Assembly, the future for the health service rests on the very important work that doctors do, but on placing that work in the context of a growing number of a wider range of health professionals, clinically competent to carry out the work that is necessary, and freeing up, very often, doctors to concentrate on those things that only doctors are competent to discharge.

Mae record Llywodraeth Cymru yn siarad drosti'i hun, gan fod nifer y meddygon sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru wedi codi flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn yn ystod y cyfnod y buom yn gyfrifol am y GIG yng Nghymru. Mae gennym uchelgais i barhau gyda hynny, ond mae gennym uchelgais ehangach na hynny hefyd: fel y dywedais o'r blaen ar lawr y Cynulliad, mae dyfodol y gwasanaeth iechyd yn dibynnu ar y gwaith pwysig iawn y mae meddygon yn ei wneud, ond ar osod y gwaith hwnnw yng nghyd-destun nifer cynyddol o ystod ehangach o weithwyr iechyd proffesiynol, clinigol gymwys i wneud y gwaith sydd ei angen, a rhyddhau meddygon, yn aml iawn, i ganolbwytntio ar y pethau hynny nad oes neb ond meddygon yn gymwys i'w gwneud.

13:52

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Kirsty Williams.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:52

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Thank you, Presiding Officer. Minister, you have just admitted that the A&E figures for last month are not good enough. If a simple letter to local health boards was going to make the difference, I'm sure we'd see improvements by now. Would you agree with me, if we're going to see improvements in A&E figures, we need to have a proper, comprehensive understanding of what it is that is preventing the service from being able to meet your own targets? What analysis has your Government carried out, or asked the LHBs to carry out, to understand what percentage of the problems arise from: one, inappropriate attendance at A&E; two, capacity within A&E departments themselves; three, bed capacity in the rest of the hospital; or, four, delayed transfers of care?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, rydych newydd gyfaddef nad oedd y ffigurau damweiniau ac achosion brys ar gyfer y mis diwethaf yn ddigon da. Pe bai llythyr syml at fyrddau iechyd lleol yn mynd i wneud gwahaniaeth, rwy'n siŵr y byddem yn gweld gwelliannau bellach. Os ydym yn mynd i weld gwelliannau yn y ffigurau damweiniau ac achosion brys, a fydddech yn cytuno fod angen i ni gael dealltwriaeth briodol a chynhwysfawr o beth sy'n atal y gwasanaeth rhag gallu cyrraedd eich targedau eich hunain? Pa ddadansoddiad y mae eich Llywodraeth wedi ei wneud, neu wedi gofyn i'r BILlau ei wneud, er mwyn deall pa ganran o'r problemau sy'n codi o: un, presenoldeb amhriodol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys; dau, capasiti o fewn yr adrannau damweiniau ac achosion brys eu hunain; tri, nifer y gwelyau yng ngweddill yr ysbyty; a pedwar, oedi wrth drosglwyddo gofal?

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, let me just put on record the facts about A&E and emergency care in Wales before I answer the substantive point. Patients who turn up at our A&E departments, when they go to a minor injuries unit, the standard waiting time from being seen to being treated to being on your way home is somewhere around 50 minutes, and even in a major accident and emergency department, people are seen, treated and are on to the next part of the patient journey in just over two hours, at the standard point. We treat more people than ever before in our emergency departments. This is a service that does an enormous amount and does it very successfully most of the time.

The point that the leader of the Liberal Democrats makes, however, is the most important one, but you cannot understand emergency care without its connections to every other part of the system. Some very successful work has gone on in parts of Wales, particularly in Cwm Taf, looking at what is called, in the jargon of the service, the 'flow'—how patients flow through the system. So, we have very good analysis of the number of people who come to an A&E department who could have more successfully received a service in another part of the system, and of the number of beds you need elsewhere in the system in order to allow people to move through, and then, at the other end of the hospital, to be discharged into the community and their own homes. I think we're lucky with the quality of the information we have, and what we now need to do is make sure that the learning that is there to be taken is applied successfully in all other parts of the NHS.

Llywydd, gadewch i mi gofnodi'r ffeithiau am ofal adrannau damweiniau ac achosion brys a gofal brys yng Nghymru cyn i mi ateb y pwynt sylweddol hwnnw. Mae cleifion sy'n dod i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys, pan fyddant yn mynd i uned mân anafiadau, mae'r amser aros safonol rhwng cael eu gweld a chael eu trin i fod ar eu ffordd adref oddeutu 50 munud, a hyd yn oed mewn adran damweiniau ac achosion brys fawr, caiff pobl eu gweld, eu trin a bod ar y rhan nesaf o daith y claf mewn ychydig dros ddwy awr, ar y pwynt safonol. Rydym yn trin mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn ein hadrannau achosion brys. Dyma wasanaeth sy'n gwneud llawer iawn o waith ac mae'n ei wneud yn llwyddiannus iawn y rhan fwyaf o'r amser.

Y pwynt y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud, fodd bynnag, yw'r un pwysicaf, sef na allwch ddeall gofal brys heb ei gysylltiadau â phob rhan arall o'r system. Mae gwaith llwyddiannus iawn wedi'i wneud mewn rhannau o Gymru, yn enwedig yng Nghwm Taf, yn edrych ar yr hyn a elwir yn jargon y gwasanaeth yn 'llif'—sut y mae cleifion yn llifo drwy'r system. Felly, mae gennym ddadansoddiad da iawn o nifer y bobl sy'n dod i adran damweiniau ac achosion brys a allai fod wedi cael gwasanaeth yn fwy llwyddiannus mewn rhan arall o'r system, ac o nifer y gwelyau sydd eu hangen arnoch mewn mannau eraill yn y system er mwyn caniatáu i bobl i symud drwodd, ac yna, ar ben arall yr ysbyty, i gael eu rhyddhau i'r gymuned a'u cartrefi eu hunain. Rwy'n credu ein bod yn ffodus o ran ansawdd y wybodaeth sydd gennym, a'r hyn sydd angen i ni ei wneud yn awr yw gwneud yn siŵr bod y gwersi sydd yno i'w dysgu yn cael eu cymhwyso'n llwyddiannus ym mhob rhan arall o'r GIG.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm glad, Minister, that you've mentioned the role of minor injuries units. We know that they can provide a fast and effective alternative for patients who would otherwise end up in a major A&E department, waiting for a considerable amount of time. Yet we know that there is not a comprehensive network of minor injuries units that are open seven days a week, 24 hours a day, 365 days of the year. What is your Government doing to map the provision of minor injuries units and to ensure that those areas that do not have access to those services have access to that alternative to A&E, because, as you've just said, it can work?

Weinidog, rwy'n falch eich bod wedi crybwyll rôl unedau mân anafiadau. Gwyddom y gallant gynnig dewis arall yn gyflym ac yn effeithiol i gleifion a fyddai fel arall yn mynd i adran ddamweiniau ac achosion brys fawr, ac yn aros am gryn dipyn o amser. Eto i gyd fe wyddom nad oes rhwydwaith cynhwysfawr o unedau mân anafiadau sydd ar agor saith niwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ar gael. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i fapio'r ddarpariaeth o unedau mân anafiadau ac i sicrhau bod ardaloedd heb ffordd o fanteisio ar y gwasanaethau hynny'n gallu gwneud defnydd o ddewis o'r fath yn lle adran ddamweiniau ac achosion brys oherwydd, fel rydych newydd ei ddweud, fe all weithio?

13:55

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree that, where a minor injury unit can be demonstrated to meet a need, we need to look to make sure that we have a full network in place. There are outstanding examples in Wales, for example at Neath Port Talbot Hospital. The name is sometimes confusing to patients, I think, because they don't realise the range of services that a minor injuries unit is able to provide. But we do have examples elsewhere in Wales of minor injury units where the number of patients attending simply does not meet the royal college standard that allows you to go on employing staff there to provide a service. You've got to be carefully able to match the supply of a service with the need for it. I don't dissent at all from what the Member has said about the need to make sure that we do that successfully.

Lle y gellir dangos bod uned mân anafiadau yn diwallu angen, rwy'n cytuno'n llwyr fod angen i ni geisio gwneud yn siŵr fod gennym rwydwaith llawn ar waith. Ceir enghreifftiau rhagorol yng Nghymru, er enghraifft yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot. Weithiau mae'r enw'n ddryslyd i gleifion, rwy'n credu, am nad ydynt yn sylweddoli cymaint o amrywiaeth o wasanaethau y gall uned mân anafiadau eu darparu. Ond mae gennym enghreifftiau mewn mannau eraill yng Nghymru o unedau mân anafiadau lle nad yw nifer y cleifion sy'n mynychu yn cyrraedd safon y coleg brenhinol sy'n eich galluogi i barhau i gyflogi staff i ddarparu gwasanaeth yno. Mae'n rhaid i chi allu paru darpariaeth gwasanaeth yn ofalus â'r angen amdano. Nid wyf yn anghytuno o gwbl â'r hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud am yr angen i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud hynny'n llwyddiannus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, there is a step before minor injuries units that can be usefully employed to try and stop people either entering an A&E department or being admitted to a district general hospital at all and therefore taking up a bed. You've seen first hand, Minister, the work of the GPs, the district nurses and social care teams in south Powys in their virtual ward project keeping people at home, out of hospital, and actually saving the NHS money. What can you do as a Welsh Government to support such projects and ensure that they are replicated across the whole of Wales, where people actually get the care they need and want, which is often in their own home and in their own communities?

Wrth gwrs, mae yna gam cyn yr unedau mân anafiadau y gellid ei ddefnyddio'n llwyddiannus i geisio atal pobl naill ai rhag mynd i adran damweiniau ac achosion brys neu gael eu derbyn i ysbyty cyffredinol dosbarth, ac felly gymryd gwely. Weinidog, rydych wedi gweld drosoch eich hun y gwaith y mae meddygon teulu, nyrsys ardal a thimau gofal cymdeithasol yn ne Powys yn ei wneud yn eu prosiect ward rithwir sy'n cadw pobl yn eu cartrefi, allan o'r ysbyty, gan arbed arian i'r GIG mewn gwirionedd. Beth allwch chi ei wneud fel Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau o'r fath a sicrhau eu bod yn cael eu hailadrodd ledled Cymru, lle y bydd pobl yn cael y gofal sydd ei angen a'i eisiau arnynt mewn gwirionedd, yn aml yn eu cartrefi ac yn eu cymunedau eu hunain?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Kirsty Williams for drawing attention to the virtual ward project in Brecon, which I was able to visit with her—and a very impressive visit it was, too. I'm pleased to say that Powys local health board, using part of the £10 million extra investment in primary care that we have already announced for this financial year, have decided to use part of that money to extend the virtual ward arrangement to the whole of the rest of Powys, and I've seen those plans. The success of the virtual ward was both in its very detailed information—that it was able to demonstrate its ability to divert patients from hospital admissions—but also in the fantastic sense of teamwork that you could see there, which was clearly enhancing the job experience, not just of GPs, but of all the rest of the team that they used there. I am very keen to use the £40 million that we have also set aside for primary care development across Wales this year to advocate for that solution in other parts of Wales where it might be a success.

Diolch i Kirsty Williams am dynnu sylw at brosiect y ward rithwir yn Aberhonddu y bŵm yn ei weld gyda hi—ac roedd yn ymweliad a wnaeth argraff fawr arnaf. Rwy'n falch o ddweud bod bwrdd iechyd lleol Powys wedi penderfynu defnyddio rhan o'r buddsoddiad ychwanegol o £10 miliwn mewn gofal sylfaenol a gyhoeddwyd gennym eisoes ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i ymestyn trefniadau'r ward rithwir i weddill Powys, ac rwyf wedi gweld y cynlluniau hynny. Deillia llwyddiant prosiect y ward rithwir o'i wybodaeth fanwl iawn—gallai ddangos ei allu i ddargyfeirio cleifion rhag cael eu derbyn i'r ysbyty—a hefyd o'r teimlad gwych o weithio mewn tîm y gallech ei weld yno, ac a oedd yn amlwg yn gwella'r profiad gwaith, nid yn unig i feddygon teulu, ond i weddill y tîm a ddefnyddient yno. Rwy'n awyddus iawn hefyd i ddefnyddio'r £40 miliwn rydym wedi'i neilltuo eleni ar gyfer datblygu gofal sylfaenol ar draws Cymru i hyrwyddo'r ateb hwn mewn rhannau eraill o Gymru lle y gallai fod yn llwyddiant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from Bethan Jenkins.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur. Daw cwestiwn 3 gan Bethan Jenkins.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed

Child and Adolescent Mental Health Services

- 13:58 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0580(HSS)
3. Will the Minister make a statement on children and adolescent mental health service provision in South Wales West? OAQ(4)0580(HSS)
- 13:58 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
While the NHS proceeds with the CAMHS service redesign and development programme, improvements continue to be made to services in South Wales West. Additional beds have been commissioned at Tŷ Lliardiard in Bridgend, and all parts of the region now have operational community intensive support teams in place.
Er bod y GIG yn bwrw yn ei flaen gydag ailgynllunio gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a rhaglen ddatblygu, mae gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud i wasanaethau yng Ngorllewin De Cymru. Comisiynwyd gwelyau ychwanegol yn Nhŷ Lliardiard ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae gan bob rhan o'r rhanbarth dimau cymorth dwys cymunedol gweithredol ar waith bellach.
- 13:59 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that response, and I do acknowledge some of that progress, but I have a constituent in Aberavon whose son waited over 14 months for his first appointment with the CAMHS service in the area, having been referred via the autistic spectrum disorder pathway. CAMHS provision in South Wales West, as you will appreciate, through Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board is run by Cwm Taf and, while steps are now being taken—I think a lot of it is to do with intervention from people like me—and the length of the delay has gone down somewhat, I would like to know what you are doing to talk to the health board to make sure that these waiting times are becoming more acceptable, because in the meantime, people's conditions are worsening.
Diolch am eich ateb, ac rwy'n cydnabod rhywfaint o'r cynnydd, ond mae gennyf etholwr yn Aberafan y mae ei mab wedi aros dros 14 mis am ei apwyntiad cyntaf gyda'r gwasanaeth CAMHS yn yr ardal, ar ôl cael ei gyfeirio drwy'r llwybr anhwylder ar y sbectrum awtistig. Fel y deallwch, caiff darpariaeth CAMHS Gorllewin De Cymru, drwy Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ei redeg gan Gwm Taf ac er bod camau ar y gweill bellach—rwy'n meddwl bod llawer ohono'n ymwneud ag ymyrraeth pobl fel fi—ac mae hyd yr oedi wedi lleihau rhywfaint, hoffwn wybod beth rydych yn ei wneud i siarad â'r bwrdd iechyd i wneud yn siŵr fod yr amseroedd aros yn dod yn fwy derbynol, oherwydd yn y cyfamser, mae amgylchiadau pobl yn gwaethygu.
- 13:59 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Well, I very much acknowledge the interest that the Member has taken in these matters and her persistent pursuit of some of the tricky issues that we know are there in improving CAMHS services for the future.
Wel, rwy'n cydnabod y diddordeb y mae'r Aelod wedi'i ddangos yn y materion hyn a'r modd diflino y mae wedi mynd ar drywydd rhai o'r materion anodd y gwyyddom eu bod yno o ran gwella gwasanaethau CAMHS ar gyfer y dyfodol.
My approach, as she will know, is this. Part of the reason why some people wait far too long to be seen by CAMHS services is because CAMHS services spend their time doing assessments of people who turned out never to be candidates for that service in the first place. And, in the process, those inappropriate referrals are getting in the way of those people who really do need the CAMHS service from being seen in a timely fashion. So, the review that is being carried out, and the work that Professor Sue Bailey and others are conducting, is to try and take the whole system into account to make sure that CAMHS services can concentrate on those people who really need that service, and strengthening other parts of the system to provide a proper service to young people who have a mental health issue that needs proper attention, but where a specialist secondary care service is not the right response.
Fy agwedd i, fel y bydd yn gwybod, yw hyn. Rhan o'r rheswm pam y mae rhai pobl yn aros yn llawer rhy hir i gael eu gweld gan wasanaethau CAMHS yw'r ffaith fod gwasanaethau CAMHS yn treulio eu hamser yn asesu pobl y gwelir nad oes angen y gwasanaeth arnynt yn y lle cyntaf. Ac yn y broses, mae atgyfeiriadau amhriodol o'r fath yn rhwystro'r bobl sydd wir angen y gwasanaeth CAMHS rhag cael eu gweld yn amserol. Felly, mae'r adolygiad sydd ar y gweill, a'r gwaith y mae'r Athro Sue Bailey ac eraill yn ei wneud, yn ceisio ystyried y system gyfan er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau CAMHS ganolbwyntio ar y bobl sydd angen y gwasanaeth mewn gwirionedd a chryfhau rhannau eraill o'r system er mwyn darparu gwasanaeth priodol i bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl sydd angen sylw priodol, ond lle nad yw gwasanaeth gofal eilaidd arbenigol yn ymateb cywir.

- 14:01 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister, because I think I may well have been contacted by the same constituent about his son who has a long delay in waiting time for treatment. But they also want treatment closer to home, and what we're seeing is many vulnerable young people actually being sent hundreds of miles away for in-patient care. What services are available to reduce that so that patients and young people can actually have that care closer to home, closer to their families?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, oherwydd rwy'n credu bod yr un etholwr wedi cysylltu â mi ynglŷn â'i fab sydd wedi wynebu oedi hir yn aros am driniaeth. Ond maent hefyd yn awyddus i gael triniaeth yn agosach at eu cartref, a'r hyn rydym yn ei weld yw llawer o bobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael eu gyrru ganuoedd o filltiroedd i ffwrdd i gael gofal i gleifion mewnol. Pa wasanaethau sydd ar gael i leihau'r peltter fel bod modd i gleifion a phobl ifanc gael gofal o'r fath yn agosach at eu cartrefi, yn agosach at eu teuluoedd?
- 14:01 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It's an important ambition of mine, Llywydd, to make sure that we look after more young people from Wales in Wales—that we bring the funding that goes beyond our border when we are obliged to place people outside Wales and then to invest that money back in providing a better service here in Wales. And there is some good news. In 2012, 27 young people from Wales were placed across our border. In 2013, that was reduced to 26, and in 2014 it was reduced to 15. So, we are succeeding, and part of that success is the opening of a second high-care ward at Tŷ Llidiard, which has now been in operation since 1 April.
- Mae'n uchelgais pwysig i mi, Lywydd, i wneud yn siŵr ein bod yn gofalu am fwy o bobl ifanc o Gymru yng Nghymru—ein bod yn dod â'r cyllid sy'n mynd dros y ffin pan fo'n rhaid i ni i leoli pobl mewn mannau y tu allan i Gymru a buddsoddi'r arian er mwyn darparu gwell gwasanaeth yma yng Nghymru. Ac mae yna newyddion da. Yn 2012, lleolwyd 27 o bobl ifanc o Gymru dros y ffin. Yn 2013, gostyngodd y nifer i 26, ac yn 2014 disgynnodd i 15. Felly, rydym yn llwyddo, a rhan o'r llwyddiant yw agor ail ward gofal dwys yn Nhŷ Llidiard, sydd bellach wedi bod yn weithredol ers 1 Ebrill.
- 14:02 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, with the pressure on local authority budgets, can you tell me what conversations you've had with the education Minister to ensure that children and adolescents who are educated outside school because of their mental health needs are receiving their full statutory entitlement to education in a way that meets their mental health support needs? Thank you.
- Weinidog, gyda'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol, a allwch ddweud wrthyf pa sgysiau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog addysg i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol oherwydd eu hanghenion iechyd meddwl yn cael eu hawl statudol llawn i addysg mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion cymorth iechyd meddwl? Diolch yn fawr.
- 14:02 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd, I know that the education of children outside school, home-schooled children, for example, and children who are educated in other places, has been a source of interest to successive education Ministers. We work closely on these joint agendas. We've recently published together a document about the education prospects of looked-after children, and I'm very well aware of the mental health component that can play its part in those children's needs.
- Llywydd, rwy'n gwybod bod addysg plant y tu allan i'r ysgol, plant a addysgir yn y cartref, er enghraifft, a phlant sy'n cael eu haddysgu mewn mannau eraill, wedi bod yn fater o ddiddordeb i Weinidogion addysg olynol. Rydym yn gweithio'n agos ar cyd-agendâu hyn. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd dogfen ar y cyd gennym ynghylch rhagolygon addysg plant sy'n derbyn gofal, ac rwy'n ymwybodol iawn o'r elfen iechyd meddwl sy'n gallu chwarae rhan yn anghenion y plant hynny.
- 14:03 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the waiting time for a first appointment in Cwm Taf is currently anything up to 64 weeks, and there are over 1,100 patients who are waiting for their first assessment under the CAMHS service. As a result of that, the board is prioritising mental health problems, which means that children waiting for a neurodevelopment assessment remain under the referring agency, such as education, paediatrics or primary care. That is having a particular impact on young people suffering with autism, who are waiting a long time or not receiving appropriate assessment at all. Can I ask you what you're doing to deal with that particularly, especially given the Welsh Government's emphasis on their autism strategy?
- Ar hyn o bryd, Weinidog, mae'r amser aros am apwyntiad cyntaf yng Nghwm Taf yn gallu bod yn unrhyw beth hyd at 64 o wythnosau, ac mae dros 1,100 o gleifion yn aros am eu hasesiad cyntaf drwy'r gwasanaeth CAMHS. O ganlyniad i hynny, mae'r bwrdd yn blaenoriaethu problemau iechyd meddwl, sy'n golygu bod plant sy'n aros am asesiad niwroddatblygol yn parhau o dan yr asiantaeth atgyfeirio, megis addysg, pediatreg neu ofal sylfaenol. Mae hynny'n cael effaith sylweddol ar bobl ifanc awtistig, sy'n aros am amser hir neu'n mynd heb asesiad priodol o gwbl. A gaf fi ofyn beth rydych yn ei wneud i ymdrin â hynny'n benodol, yn enwedig o ystyried pwyslais Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth awtistiaeth?

14:03	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Llywydd, we debated the regional autism services on the floor of this Assembly shortly before the Easter break. I said then we would be bringing forward a partial refresh of the autism strategy while the team of stakeholders who've been working on the strategy as a whole take a little bit more time to work through some of the most pressing issues, including waiting times. We're very close to publishing that partial refresh, and there'll be things in there and its future work that I know the Member will be interested to see.</p>	<p>Llywydd, fe drafodwyd y gwasanaethau awtistiaeth rhanbarthol gennym ar lawr y Cynulliad hwn ychydig cyn gwyliau'r Pasg. Dywedais bryd hynny y byddem yn cyflwyno adnewyddiad rhannol o'r strategaeth awtistiaeth wrth i'r tîm o randdeiliaid a fu'n gweithio ar y strategaeth yn ei chyfanrwydd gymryd ychydig mwy o amser i weithio drwy rai o'r materion pwysicaf, gan gynnwys amseroedd aros. Rydym yn agos iawn at gyhoeddi'r adnewyddiad rhannol, a bydd pethau ynddo ac yn ei waith yn y dyfodol y gwn y bydd gan yr Aelod ddiddordeb yn eu gweld.</p>
	Y Carchar Newydd yn Wrecsam (Gwasanaethau Iechyd)	The New Jail in Wrexham (Health Services)
14:04	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>4. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch ariannu gwasanaethau iechyd ar gyfer y carchar newydd yn Wrecsam? OAQ(4)0573(HSS)</i></p>	<p><i>4. What discussions has the Welsh Government had with the Ministry of Justice regarding funding health services for the new jail in Wrexham? OAQ(4)0573(HSS)</i></p>
14:04	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Mae trafodaethau wedi parhau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan ei gwneud yn hollol glir mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fydd yn talu'r costau iechyd a gofal cymdeithasol llawn sy'n gysylltiedig â'r carchar newydd.</p>	<p>My officials are in regular discussions with the Ministry of Justice to make it absolutely clear that the full health and social care costs associated with the new prison are met by the UK Government.</p>
14:04	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch am yr ymateb. Mae hynny'n eithaf clir erbyn hyn, ond mae yna bryderon yn cael eu creu gan rai sy'n gwrthwynebu'r carchar yn yr ardal i ddweud bod yna adnoddau yn mynd i gael eu sugno mewn oddi wrth y bwrdd iechyd er mwyn cyrraedd y gost o wasanaethau iechyd. Felly, a ydych chi'n barod y prynhawn yma i gadarnhau na fydd adnoddau'n cael eu tynnu oddi wrth y bwrdd iechyd i gyrraedd y gost yna?</p>	<p>Thank you for that response. That is now quite clear, but there are concerns among those who oppose the prison in the area saying that resources will be sucked in from the health board in order to meet the cost of health services in this case. So, are you ready this afternoon to confirm that no resources will be taken from the health board to actually meet those costs?</p>
14:05	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Wel, rwy'n hollol glir, Llywydd, mai cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw talu am y gwasanaethau newydd. Nid wyf yn fodlon gweld yr arian sydd ar gael ar gyfer bobl leol yn y bwrdd iechyd neu'r awdurdodau lleol yn cael ei dynnu mas i dalu am y gwasanaethau newydd.</p>	<p>Well, I am totally clear, Llywydd, that it is the responsibility of the United Kingdom Government to pay for the new services. I'm not willing to allow the funding available for local people in the health board or in the local authority to be taken out to pay for the new services.</p>
	<p>Ysgrifennais i at Andrew Selous, sef y 'Parliamentary Under-Secretary of State' yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Lloegr, gan ddweud:</p>	<p>I wrote to Andrew Selous, namely the Parliamentary Under-Secretary of State in the Ministry of Justice in England, stating:</p>
	<p>'I require a credible assurance that future funding through the Ministry of Justice would provide the full balance of costs necessary to deliver all aspects of services.'</p>	<p>'Rwyf angen sicrwydd credadwy y byddai cyllid yn y dyfodol drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu'r cydbwysedd llawn o gostau sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu pob agwedd ar wasanaethau.'</p>
	<p>Fe ges i ymateb digon adeiladol. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen ar y 'basis' yna.</p>	<p>I received quite a constructive response. The work is ongoing on that basis.</p>

14:06

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in your discussions around the health of prisoners in the new prison in Wrexham, would you consider whether mindfulness would be an opportunity that prisoners may be able to take part in? There is evidence to show that people who go through a mindfulness course have less reliance on anti-depressant drugs and it's also a state of mental health. Also, people who have gone through the mindfulness course are less likely to reoffend, although the reoffending rates or reoffending—. The slip back into depression—. The gap isn't as wide, but, nevertheless, the gap is less if you've attended a mindfulness course. Is this something you could consider for the health of prisoners within the new jail in Wrexham?

Weinidog, yn eich trafodaethau ynghylch iechyd carcharorion yn y carchar newydd yn Wrecsam, a wneuch chi ystyried rhoi cyfle i garcharorion gymryd rhan mewn ymwybyddiaeth ofalgar? Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl sydd wedi dilyn cwrs ymwybyddiaeth ofalgar yn llai dibynnol ar gyffuriau gwrth-iselder a hefyd mae'n dangos iechyd meddwl da. Hefyd, mae pobl sydd wedi dilyn y cwrs ymwybyddiaeth ofalgar yn llai tebygol o ailddroeddu, er bod y cyfraddau ailddroeddu neu ailddroeddu—. Mae'r llythron ôl i iselder—. Nid yw'r bwlch mor llydan, ond er hynny, mae'r bwlch yn llai os ydych wedi mynychu cwrs ymwybyddiaeth ofalgar. A yw hyn yn rhywbeth y gallech ei ystyried ar gyfer iechyd carcharorion yn y carchar newydd yn Wrecsam?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:06

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ann Jones for that question. I'm aware of the research that she has mentioned, and, of course, much of the most significant research on mindfulness is carried out in north Wales itself. The mental health needs of people who will be at the new prison are every bit as important as any other health need and I'll make sure that the points that she has made this afternoon are drawn to the attention of those who are planning for those services.

Diolch i Ann Jones am y cwestiwn. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith ymchwil y mae wedi'i grybwyll, ac wrth gwrs, mae llawer o'r ymchwil mwyaf arwyddocaol ar ymwybyddiaeth ofalgar yn cael ei wneud yng ngogledd Cymru ei hun. Mae anghenion iechyd meddwl pobl a fydd yn y carchar newydd yr un mor bwysig ag unrhyw angen iechyd arall a byddaf yn gwneud yn siŵr fod y pwyntiau a wnaeth y prynhawn yma'n cael eu dwyn i sylw'r rhai sy'n cynllunio'r gwasanaethau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:07

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf bigo i fyny ar eich ateb chi i Aled Roberts? Roeddech chi'n sôn am y llythyr rŷch chi wedi ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn ag ariannu'r costau iechyd. A yw'ch cais chi'n estyn i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd carchardai presennol Cymru? Oherwydd mae yna ymchwil gan Ganolfan Rheolaeth Cymru sy'n dangos bod yna gyfraniad o £2.5 miliwn yn dod o Lywodraeth y Deyrnas Unedig pan fo'r costau iechyd yn £3.9 miliwn, a byrddau iechyd Cymru sy'n pigo'r gwahaniaeth i fyny. Felly, a gaf i gadarnhad eich bod yn disgwyl yr un ddêl ar gyfer carchardai eraill Cymru, yn ogystal â Wrecsam?

May I pick up on your response to Aled Roberts? You mentioned the letter that you'd written to the UK Government on funding the health costs. Does your request extend to the provision of health services in current prisons in Wales? Because there is research by the Wales Management Centre that shows that there's a contribution of £2.5 million made by the UK Government when the health costs are £3.9 million, and Welsh health boards are picking up the difference. So, can I have confirmation that you expect the same deal for the other prisons in Wales, as well as Wrexham?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:07

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, I'm not in a position to go back and reopen arrangements that were concluded as far back as 2003. There was a settlement at that point in which the Welsh Government received a transfer of resources to match the transfer of responsibilities for prison healthcare. It may well be that greater needs and different sorts of services mean that we're investing more in prisoner health now than we were at that time, but those will be conscious decisions that we are making as a result of the needs that people in those circumstances have.

Lywydd, nid wyf mewn sefyllfa i fynd yn ôl i ailagor trefniadau a gwblhawyd mor bell yn ôl â 2003. Cafwyd cytundeb bryd hynny a derbyniodd Llywodraeth Cymru drosglwyddiad o adnoddau i gyfateb i drosglwyddo cyfrifoldeb dros ofal iechyd yn y carchardai. Mae'n ddigon posibl bod anghenion ehangach a gwahanol fathau o wasanaethau yn golygu ein bod yn buddsoddi mwy yn iechyd carcharorion yn awr nag a wnaem bryd hynny, ond byddant yn benderfyniadau ymwybodol o ganlyniad i anghenion pobl yn yr amgylchiadau hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gofal Iechyd yng Nghymru Wledig

Healthcare in Rural Wales

14:08

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ardaloedd gwledig Cymru? OAQ(4)0569(HSS)

5. Will the Minister make a statement on the provision of healthcare services in rural areas of Wales? OAQ(4)0569(HSS)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:08 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Following publication of the Longley review into healthcare in mid Wales, a very successful conference was held in Newtown on 12 March. It discussed approaches to rural health services from elsewhere in the United Kingdom and beyond.
- Yn dilyn cyhoeddi adolygiad Longley ar ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru, cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus iawn yn y Drenewydd ar 12 Mawrth. Roedd yn trafod dulliau o weithredu gwasanaethau iechyd gwledig mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.
- 14:08 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister, for that answer. That was a conference I attended myself for part of the day and a very good conference it was as well. But one aspect I thought was missed at that conference was cross-border issues. It very much focused on issues more towards Bronglais, and quite rightly so. But, as you know, there are issues in Shropshire, which are currently under review, for an emergency care treatment centre, surrounded by a network of urgent care centres. So, what discussions have you had with Powys local health board regarding the creation of an urgent care centre in Montgomeryshire to serve the residents of rural mid Wales?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Roedd honno'n gynhadledd a fynychais fy hun am ran o'r diwrnod a chynhadledd dda iawn oedd hi hefyd. Ond un agwedd na chafodd sylw yn y gynhadledd, rwy'n credu, oedd materion trawsffiniol. Canolbwyntiair'n helaeth ar faterion a oedd yn ymwneud mwy â Bronglais, a hynny'n gwbl briodol. Ond fel y gwyddoch, mae mater yn codi ynghylch y ganolfan triniaethau gofal mewn argyfwng yn Swydd Amwythig, sy'n destun adolygiad ar hyn o bryd, gyda rhwydwaith o ganolfannau gofal brys o'i chwmpas. Felly, pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda bwrdd iechyd lleol Powys ynglŷn â chreu canolfan gofal brys yn Sir Drefaldwyn i roi gwasanaeth i drigolion cefn gwlad canolbarth Cymru?
- 14:09 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that question. Powys local health board are full members of the group that are carrying out the review under the Future Fit programme in that part of our border between Powys and England. I'm aware that, on the English side of the border, consideration is being given to whether existing minor injury units might be developed into urgent care centres. Powys local health board is looking at its own minor injury units at both Newtown and Welshpool in that context and looking to bring forward proposals for formal consultation later this year.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae bwrdd iechyd lleol Powys yn aelodau llawn o'r grŵp sy'n cynnal yr adolygiad o dan y rhaglen Future Fit yn y rhan honno o'n ffin rhwng Powys a Lloegr. Rwy'n ymwybodol fod sylw'n cael ei roi ar ochr Lloegr i'r ffin i'r posibilrwydd o ddatblygu unedau mân anafiadau presennol yn ganolfannau gofal brys. Mae bwrdd iechyd lleol Powys yn edrych ar ei unedau mân anafiadau ei hun yn y Drenewydd a'r Trallwng yn y cyd-destun hwnnw ac yn ystyried cyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol yn ddiweddarach eleni.
- 14:10 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the Longley report into healthcare in mid Wales held up Prince Philip Hospital as a new example of how to provide emergency care, which Nia Griffith and I discussed with the chairman and chief executive of Hywel Dda university health board on Monday. Whilst I am glad that the Llanelli model has gained recognition and is engaging with local initiatives, what steps are being taken to apply the Llanelli way of working to other parts of Wales?
- Weinidog, cyfeiriodd adroddiad Longley ar ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru at Ysbyty Tywysog Philip fel enghraifft newydd o sut i ddarparu gofal brys, a bu Nia Griffith a minnau yn trafod hyn gyda chadeirydd a phrif weithredwr bwrdd iechyd prifysgol Hywel Dda ddydd Llun. Er fy mod yn falch fod model Llanelli wedi cael cydnabyddiaeth ac yn ymgysylltu â mentrau lleol, pa gamau sydd ar y gweill i gymhwyso ffordd Llanelli o weithio mewn rhannau eraill o Gymru?
- 14:10 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd, can I thank Keith Davies for that? It's been one of the encouraging things during the period that I've been health Minister to see the way in which the new model of care at Llanelli has been taken forward by clinicians and has a new level of support, I believe, from the local population. Keith Davies is absolutely right that the Marcus Longley report comments positively on developments at Llanelli, and I am sure he is right to say that there are lessons that can be learnt from that experience. We need to make sure that, wherever we have successful new initiatives in Wales, we do our best to draw the learning and to generalise the advantage.
- Llywydd, a gaf fi ddiolch i Keith Davies am hynny? Un o'r pethau calonogol yn ystod y cyfnod y bŵm yn Weinidog iechyd yw gweld y ffordd y mae'r model newydd o ofal yn Llanelli wedi cael ei ddatblygu gan glinigwyr a'r lefel newydd o gefnogaeth sydd iddo, yn fy marn i, o blith y boblogaeth leol. Mae Keith Davies yn llygad ei le fod adroddiad Marcus Longley yn gwneud sylwadau cadarnhaol ynghylch y datblygiadau yn Llanelli, ac rwy'n sicr ei fod yn iawn i ddweud bod gwersi y gellir eu dysgu o'r profiad hwnnw. Lle bynnag y mae gennym fentrau newydd llwyddiannus yng Nghymru, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud ein gorau i ddysgu gwersi ohonynt er budd cyffredinol.

14:11

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn cytuno ei bod hi'n bwysig sicrhau bod lefelau staffio digonol mewn ysbytai er mwyn darparu gwasanaeth iechyd mewn ardaloedd gwledig. Mi wnes i godi yn ddiweddar yma achos Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaerdybi. Mi ddywedodd y Prif Weinidog mai mater dros dro oedd y broblem staffio wnaeth arwain at gau ward, a hynny oherwydd salwch staff ac ati. Gwnaeth cyn nyrs asiantaeth yn yr ysbyty gysylltu â fi a dweud hyn:

'I had not witnessed such a poorly staffed area in view of the vulnerability and dependencies of such a client group before.'

Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

'I would say that no-one with the kind of workload [there] ...could not fail to become ill as a result of this situation.'

Mi oedd yn canmol y staff oedd yna, mae'n rhaid dweud, yn fawr iawn. Ond sut mae'r Llywodraeth wedi caniatáu i'r fath yma o bwysau staffio ddiwydd mewn ysbyty sy'n gwasanaethu ardal wledig fel Ysbyty Penrhos Stanley?

I'm sure the Minister would agree that it's important to ensure that there are adequate staffing levels in hospital in order to provide health services in rural areas. I recently raised the case here of Ysbyty Penrhos Stanley in Holyhead. The First Minister said that the staffing problem that led to closing of a ward was a temporary issue, because of staff sickness and so on. A former agency nurse in the hospital contacted me and said this:

'Nid oeddwn wedi gweld ardal wedi'i staffio mor wael o'r blaen o ystyried pa mor agored i niwed a dibynnol yw'r grŵp cleientiaid.'

And went on to say:

'Fe ddywedwn na allai neb gyda'r math o lwyth gwaith [ag a geir yno]... fethu â mynd yn sâl o ganlyniad i'r sefyllfa hon.'

The nurse praised the staff that were there, I have to say. But how has the Government allowed these kind of staffing pressures to develop in a hospital that serves a rural area such as Ysbyty Penrhos Stanley?

14:12

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I agree with the Member that proper levels of staffing, of course, are necessary in our hospitals and that they have a part to play in making sure that we are able to sustain the services that those hospitals provide. My understanding is that the closure of the facilities at Penrhos was, indeed, a temporary measure and that they have now reopened.

Wel, rwy'n cytuno â'r Aelod fod lefelau staffio priodol yn angenrheidiol yn ein hysbytai wrth gwrs a bod ganddynt ran i'w chwarae yn sicrhau ein bod yn gallu cynnal y gwasanaethau y mae'r ysbytai hyn yn eu darparu. Fy nealltwriaeth i yw mai mesur dros dro oedd cau'r cyfleusterau ym Mhenrhos mewn gwirionedd a'u bod bellach wedi ailagor.

Pobl sy'n Byw gyda Nam ar y Synhwyr

People Living with Sensory Loss

14:12

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

6. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2015 i wella gwasanaethau i bobl yng Nghymru sy'n byw gyda nam ar y synhwyr? OAQ(4)0570(HSS)

6. What action will the Welsh Government take in 2015 to improve services for people in Wales living with sensory loss? OAQ(4)0570(HSS)

14:13

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for the question. The Welsh Government launched the all-Wales standards for accessible communications and information for people with sensory loss in December 2013. These set out standards that people with sensory loss have a right to expect when accessing healthcare in Wales. In the near future, I will be meeting with Action on Hearing Loss Cymru and the Royal National Institute of Blind People Cymru to review progress that has already been made and to understand the further progress that is still required.

Diolch am y cwestiwn. Lansiodd Llywodraeth Cymru safonau Cymru gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i bobl â nam ar y synhwyr yn Rhagfyr 2013. Mae'r rhain yn nodi safonau y mae gan bobl â nam ar y synhwyr hawl i'w disgwyl wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Yn y dyfodol agos, byddaf yn cyfarfod ag Action on Hearing Loss Cymru a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru i adolygu'r cynnydd a wnaed eisoes ac i ddeall y cynnydd pellach sydd ei angen o hyd.

14:13 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, for that answer. A recent report produced by three charities revealed that 600,000 people in Wales living with sensory loss are not having their basic healthcare needs met. They say that new standards introduced by the Welsh Government over a year ago to ensure equal access to healthcare for deaf and blind people have resulted in little progress being made. Will the Deputy Minister agree to look again at this issue and take the action required to improve services for deaf and blind people in Wales?

Diolch am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Mae adroddiad diweddar a gynhyrwyd gan dair elusen wedi datgelu nad yw anghenion gofal iechyd sylfaenol 600,000 o bobl yng Nghymru sy'n byw â nam ar y synhwyrâu yn cael bodloni. Maent yn dweud nad yw'r safonau newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru dros flwyddyn yn ôl i sicrhau mynediad cyfartal at ofal iechyd i bobl fyddar a dall wedi arwain at fawr o gynnydd. A wnaiff y Dirprwy Weinidog gytuno i edrych eto ar y mater a rhoi'r camau angenrheidiol ar waith i wella gwasanaethau i bobl fyddar a dall yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his supplementary question. I understand the survey that the Member refers to, and I'm sure that'll be an issue that I'll discuss when I meet the two relevant charities that I mentioned earlier. It's fair to point out there is an all-Wales senior implementation officers group—that's somebody from each health board in Wales—who meet with a range of the different stakeholders to understand what is already happening. We do understand there is a challenge, especially in primary care, in people being able to record their preferences for communication not just in terms of meeting a health professional, but when in a waiting area, for example, as well. So, it is a challenge that we recognise and, actually, the Royal College of General Practitioners have been very helpful in trying to engage the profession in understanding their own training needs to help properly serve their patients.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn atodol. Rwy'n deall yr arolwg y cyfeiria'r Aelod ato, ac rwy'n siŵr y bydd yn fater y byddaf yn ei drafod pan fyddaf yn cyfarfod â'r ddwy elusen berthnasol a grybwyllais yn gynharach. Mae'n deg nodi fod grŵp o uwch-swyddogion gweithredol ar gyfer Cymru gyfan—rhywun o bob bwrdd iechyd yng Nghymru—yn cyfarfod ag ystod o wahanol randdeiliaid i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn barod. Rydym yn deall fod yna her, yn enwedig mewn gofal sylfaenol, o ran gallu pobl i gofnodi eu dewisiadau ar gyfer cyfathrebu nid yn unig mewn perthynas â chyfarfod â gweithiwr iechyd proffesiynol, ond mewn mannau aros hefyd, er enghraifft. Felly, mae'n her rydym yn ei chydabod ac mewn gwirionedd, mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wedi bod o gymorth mawr wrth geisio ymgysylltu â'r proffesiwn i ddeall eu hanghenion hyfforddi eu hunain er mwyn helpu i roi gwasanaeth iawn i'w cleifion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I'm going to talk about services to the deaf community. Some GP practices insist that people phone in to book an appointment, often at eight o'clock in the morning. This obviously discriminates against those with hearing loss. I know of one constituent who has to get a neighbour to phone in for them, and actually pretend to be them in order to be able to book an appointment. I'm sure that you'll agree that that is not acceptable. So, will the Deputy Minister provide advice to GPs on the booking of appointments by people who are suffering from hearing loss?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n mynd i siarad am wasanaethau i'r gymuned fyddar. Mae rhai practisau meddygon teulu yn mynnu bod pobl yn ffonio i drefnu apwyntiad, yn aml am wyth o'r gloch y bore. Mae hyn yn amlwg yn gwahaniaethu yn erbyn rhai sydd â nam ar eu clyw. Gwn am un etholwr sy'n gorfod gofyn i gymydog ffonio ar ei ran ac esgus mai ef ydyw mewn gwirionedd er mwyn gallu trefnu apwyntiad. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno nad yw hynny'n dderbyniol. Felly, a wnaiff y Dirprwy Weinidog roi cyngor i feddygon teulu ynghylch trefnu apwyntiadau â phobl sy'n dioddef nam ar eu clyw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's an important point that the Member makes. We understand that people with sensory loss should be able to make an appointment through a variety of contact methods, as we do understand that a telephone-based appointment system may be inaccessible to them. That should include e-mail, texts, textphones and websites. A good example is My Health Online, which allows people to actively manage their own care by booking appointments as well as ordering repeat prescriptions. There is an increasing number of people making use of that service, but it reiterates my earlier point that this is about engaging the profession and understanding how they meet the communication needs of their patients so that they can properly then take account of their healthcare needs, which go well beyond that.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig. Rydym yn deall y dylai pobl â nam ar eu synhwyrâu allu gwneud apwyntiad drwy amrywiaeth o ddulliau cyswllt, gan ein bod yn deall y gall system apwyntiadau dros y ffôn fod yn anhygyrch iddynt. Dylai hynny gynnwys e-bost, negeseuon testun, ffonau testun a gwefannau. Enghraifft dda yw Fy Iechyd Ar-lein, sy'n caniatáu i bobl fynd ati i reoli eu gofal eu hunain drwy drefnu apwyntiadau yn ogystal â threfnu presgripsiynau amlroddadwy. Mae mwyfwy o bobl yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth hwnnw, ond mae'n ategu fy mhwynt cynharach fod hyn yn ymwneud ag ymgysylltu â'r proffesiwn a deall sut y maent yn bodloni anghenion cyfathrebu eu cleifion er mwyn iddynt allu rhoi sylw i'w hanghenion gofal iechyd, sy'n mynd ymhell y tu hwnt i hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Deputy Minister, since the number of over-70s with vision and hearing loss is predicted to rise significantly over the next 15 years, what discussions will you be having, please, with local health boards and local authorities to make sure that not only are they aware of this situation, but also have plans, resources and services to cope with this increased demand?

Ddirprwy Weinidog, gan y rhagwelir y bydd nifer y bobl dros 70 oed sydd â nam ar eu golwg a'u clyw yn cynyddu'n sylweddol dros y 15 mlynedd nesaf, pa drafodaethau y byddwch yn eu cael gyda byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i wneud yn siŵr, nid yn unig eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa hon, ond hefyd fod ganddynt gynlluniau, adnoddau a gwasanaethau i ymdopi â galw cynyddol o'r fath?

14:16 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for the question. He makes an important point, again, about the celebration of an ageing population. We are all living longer, but it does come with additional challenges. The ophthalmology eyecare plan that we launched in recent months is a good example of drawing together that expertise to understand where our capacity lies and how we need to have more effective means of actually using the capacity as it exists. There are some systems that are inefficient, and there is good evidence from pilots in north Wales and in the Swansea area about how to more effectively manage patients. We will be doing the same thing on audiology. We'll be having a stakeholder event drawn together from the profession, and then a wider stakeholder group in July to understand the needs and what we could and should do within the NHS in Wales. It's very much part of the agenda of this Government and I'd be very happy to report back to Members in future months on what progress is being made.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n gwneud pwynt pwysig, unwaith eto, am ddatlu poblogaeth sy'n heneiddio. Rydym i gyd yn byw yn hwy, ond daw heriau ychwanegol yn sgil hynny. Mae'r cynllun gofal offthalmoleg a lansiwyd gennym yn ystod y misoedd diwethaf yn enghraifft dda o ddwyn ynghyd yr arbenigedd i ddeall lle y mae gennym gapasiti a sut y mae angen i ni gael dull mwy effeithiol o ddefnyddio'r capasiti fel y mae mewn gwirionedd. Mae rhai systemau'n aneffeithlon, ac mae tystiolaeth dda o gynlluniau pilot yng ngogledd Cymru ac yn ardal Abertawe ynghylch sut i reoli cleifion yn fwy effeithiol. Byddwn yn gwneud yr un peth gydag awdioleg. Byddwn yn trefnu digwyddiad rhanddeiliaid ar gyfer y proffesiwn, a grŵp ehangach o randdeiliaid ym mis Gorffennaf i ddeall yr anghenion a beth y gallem ac y dylem ei wneud yn y GIG yng Nghymru. Mae'n rhan bendant o agenda'r Llywodraeth hon a byddwn yn hapus iawn i roi gwybod i'r Aelodau pa gynnydd a wneir dros y misoedd i ddod.

Gofal Diwedd Oes

14:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella gofal diwedd oes yng Nghymru? OAQ(4)0577(HSS)

7. Will the Minister outline Welsh Government plans to improve end-of-life care in Wales? OAQ(4)0577(HSS)

14:17 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Suzy Davies for that question. Plans to improve end-of-life care in Wales were set out in the end-of-life care delivery plan, published in April 2013. The first annual report, published last year, identified a series of improvements and a set of priorities for further development.

Diolch i Suzy Davies am y cwestiwn. Nodwyd cynlluniau i wella gofal diwedd oes yng Nghymru yn y cynllun cyflawni ar gyfer gofal diwedd oes, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013. Nododd yr adroddiad blynyddol cyntaf, a gyhoeddwyd y llynedd, gyfres o welliannau a chyfres o flaenoriaethau ar gyfer datblygu pellach.

14:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I do thank you for that reply but I'd like to take you right to the very beginning of that process. It is traumatic—I think you'd agree—to face the news of a diagnosis of terminal illness, but the experience can be so much worse if that news is conveyed by a practitioner who perhaps handles the conversation clumsily. Now, some doctors will be better in these situations than others, but none will want to be responsible for further anguish to the patient and their family. So, what plans do you have to ensure that primary care practitioners and consultants have some training about how to handle these very difficult conversations, impressing upon them, in particular, the need to take an active role in signposting patients and their families to relevant support services?

Weinidog, diolch i chi am eich ateb ond hoffwn fynd â chi'n ôl i ddechrau'r broses honno. Mae'n drawmatig—rwy'n meddwl y byddech yn cytuno—i wynebu newyddion am ddiagnosis o salwch terfynol, ond gall y profiad fod cymaint yn waeth os yw'r newyddion yn cael ei gyfleu gan ymarferydd sydd efallai'n cynnal y sgwrs mewn modd trwsogl. Nawr, bydd rhai meddygon yn well yn y sefyllfaoedd hyn nag eraill, ond ni fydd yr un ohonynt am fod yn gyfrifol am beri gofid pellach i'r claf a'i deulu. Felly, pa gynlluniau sydd gennych i sicrhau bod ymarferwyr gofal sylfaenol a meddygon ymgynghorol yn cael hyfforddiant ar gynnal y sgwrsiau anodd hyn, gan bwysleisio, yn arbennig, yr angen i gymryd rhan weithredol yn y broses o gyfeirio cleifion a'u teuluoedd at wasanaethau cymorth perthnasol?

14:18	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I'm sure that the Member is right in what she says. Where we have specialist staff in palliative care in Wales, the training that they get is very significant in that area. The response that patients make to that service through the iWantGreatCare survey—an independent survey—demonstrates just how much they appreciate the careful way in which their care is navigated. But not everybody who ends up having to relay such a difficult message will be in that specialist role. Through our newly negotiated contract with GPs in Wales, one of our priorities for this coming year is to concentrate on the role that they play in end-of-life care. I'm sure that being prepared for those conversations will be part of that effort.</p>	<p>Rwy'n siwr bod yr Aelod yn iawn yn yr hyn y mae'n ei ddweud. Lle y mae gennym staff arbenigol ym maes gofal lliniarol yng Nghymru, mae'r hyfforddiant a gânt yn arwyddocaol iawn yn y maes hwn. Mae ymateb cleifion i'r gwasanaeth hwnnw drwy arolwg iWantGreatCare—arolwg annibynnol—yn dangos cymaint y maent yn gwerthfawrogi'r modd gofalus y caiff eu gofal ei lywio. Ond nid yw pawb sy'n gorfod rhoi neges mor anodd yn cyflawni'r rôl arbenigol honno. Drwy ein contract sydd newydd ei negodi gyda meddygon teulu yng Nghymru, un o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yw canolbwyntio ar eu rôl mewn gofal diwedd oes. Rwy'n siwr y bydd paratoi ar gyfer sgysiau o'r fath yn rhan o'r ymdrech honno.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:19	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:19	<p>2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to item 2, which is questions to the Counsel General. Question 1 is Simon Thomas.</p>	<p>2. Questions to the Counsel General</p> <p>Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. Daw cwestiwn 1 gan Simon Thomas.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Mynediad gan y Cyhoedd at Ddeddfwriaeth Ddatganoledig</p>	<p>Access by the Public to Devolved Legislation</p>		
14:19	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. Pa gamau a gymerwyd yn ddiweddar i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at ddeddfwriaeth ddatganoledig? OAQ(4)076(CG)</i></p>	<p><i>1. What recent steps have been taken to ensure access by the public to devolved legislation? OAQ(4)076(CG)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:19	<p>Theodore Huckle</p> <p><i>Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General</i></p> <p>Good afternoon, everyone. There have been three recent steps. The first is that we are nearing the completion of the first phase of developing our 'Law Wales' website, the site that is intended to provide explanatory material about the Welsh constitution and laws. We are hoping to launch the site here in the Senedd on 9 June, though that date is yet to be confirmed. The second is that work by the National Archive on Legislation.gov.uk has been accelerating and the Queen's Printer has assured me—and indeed, as I understand it, the Constitutional and Legislative Affairs Committee—that they remain on track to have amendments to existing primary legislation up to date on the site by the end of this year. The third is that the Law Commission is continuing its work on how access to legislation in Wales can be improved. We'll be issuing a consultation paper on this issue in June.</p>	<p>Prynhawn da, bawb. Cafwyd tri cham yn ddiweddar. Y cyntaf yw ein bod yn agosáu at gwblhau cam cyntaf y broses o ddatblygu ein gwefan 'Cyfraith Cymru', y wefan y bwriedir iddi ddarparu deunydd esboniadol am gyfansoddiad a deddfau Cymru. Rydym yn gobeithio lansio'r wefan yma yn y Senedd ar 9 Mehefin, er bod y dyddiad hwnnw eto i'w gadarnhau. Yr ail yw bod gwaith yr Archif Genedlaethol ar Ddeddfwriaeth.gov.uk wedi bod yn cyflymu ac mae Argraffydd y Frenhines wedi fy sicrhau—ac yn ôl a ddeallaf, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Ddedfwriaethol—eu bod yn parhau ar y trywydd iawn i gael diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol sydd eisoes yn bodoli yn gyfredol ar y wefan erbyn diwedd y flwyddyn. Y trydydd yw bod Comisiwn y Gyfraith yn parhau â'i waith ar wella mynediad at ddeddfwriaeth yng Nghymru. Byddwn yn cyhoeddi papur ymgynghorol ar y mater ym mis Mehefin.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:20	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch yn fawr i'r cwnsler am yr ateb yna. Rwy'n falch gweld bod mwy o gynnydd yn ddiweddar wedi bod ar y materion hyn. Roeddwn yn falch hefyd, yn nigwyddiad Comisiwn y Gyfraith cyn y Pasg yn y Pierhead, i weld enghraifft o dudalen o wefan 'Cyfraith Cymru' ac i weld, os liciwch chi, pa mor 'user-friendly' mae'n gallu bod. Felly, er fy mod yn deall nad oes dyddiad pendant ar gyfer lansio'r wefan yma, a all y cwnsler amlinellu pa gamau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i hyrwyddo'r wefan, i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r wefan ac yn arbennig i sicrhau bod y cyhoedd lleyg yn gallu cael mynediad at ddeddfwriaeth yng Nghymru?</p>	<p>I thank the Counsel General very much for that response, and I am pleased to see that there has been more progress recently on these issues. I was pleased also at the Law Commission event prior to Easter in the Pierhead to see an example of the 'Law Wales' website page and to see how user-friendly that can be. Although I understand there is no specific date for the launch of this website, can the Counsel General outline what steps the Government will take to promote the website, to ensure that users can make use of it and to ensure that lay members of the public can access legislation in Wales?</p>
14:20	Theodore Huckle	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It would be wrong for me to suggest that I know about the detail of the communications strategy in relation to it, but there will be a communications strategy in the ordinary way. Obviously, launching the website is about both establishing it and about making it known.</p>	<p>Ni fyddai'n iawn i mi awgrymu fy mod yn gwybod manylion y strategaeth gyfathrebu mewn perthynas â hyn, ond fe fydd yna strategaeth gyfathrebu yn y ffordd arferol. Yn amlwg, mae lansio'r wefan yn ymwneud â'i hyrwyddo yn ogystal â'i sefydlu.</p>
14:21	Peter Black Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Counsel General, one way the public can access legislation is online at their local library. What training is available for librarians to make them aware of this facility and to assist the public to do that?</p>	<p>Gwnsler Cyffredinol, un ffordd y gall y cyhoedd gael mynediad at ddeddfwriaeth yw ar-lein yn eu llyfrgell leol. Pa hyfforddiant sydd ar gael i lyfrgellwyr i'w gwneud yn ymwybodol o'r cyfleuster ac i gynorthwyo'r cyhoedd i wneud hynny?</p>
14:21	Theodore Huckle	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for the question, but it is not something about which I have direct knowledge. I can certainly enquire into it and either respond myself to that question or have it responded to.</p>	<p>Diolch am y cwestiwn, ond nid yw'n rhywbeth y mae gennyf wybodaeth uniongyrchol yn ei glych. Gallaf yn sicrholi i weld a naill ai ymateb fy hun i'r cwestiwn neu sicrhau bod rhywun yn ymateb iddo.</p>
14:21	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I have no further questions to the Counsel General.</p>	<p>Nid oes gennyf unrhyw gwestiynau pellach i'r Cwnsler Cyffredinol.</p>
14:21	3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad	Y Senedd.tv Fideo Video
	Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	3. Questions to the Assembly Commission
	<p>We now move on to item 3, which are the questions to the Assembly Commission. This afternoon they'll be answered by Rhodri Glyn Thomas. Question 1 is Bethan Jenkins.</p>	<p>Symudwn yn awr at eitem 3, sef y cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad. Y prynhawn yma byddant yn cael eu hateb gan Rhodri Glyn Thomas. Daw cwestiwn 1 gan Bethan Jenkins.</p>
	Comisiynydd Iaith Cymru (y Cynllun Ieithoedd Swyddogol)	The Welsh Language Commissioner (the Official Languages Scheme)
14:21	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>1. A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda Chomisiynydd Iaith Cymru ynghylch Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad? OAQ(4)087(AC)</p>	<p>1. Will the Commissioner make a statement on any discussions that he has held with the Welsh Language Commissioner regarding the Assembly's Official Languages Scheme? OAQ(4)087(AC)</p>

14:22

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner

Yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, nid yw'r Cynulliad, wrth gwrs, yn atebol i Gomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, rwyf wedi manteisio ar gyfleoedd i gael sgysiaau anffurfiol gyda Chomisiynydd y Gymraeg, yn ymwneud yn bennaf â'r dulliau rydym ni'n eu hyrwyddo o fewn y Cynulliad i gynnig cyfleusterau a gwasanaethau dwyieithog o'r safon uchaf i'n Haelodau, i'r staff ac i'r cyhoedd, ac i weld sut y gallwn ni rannu gwybodaeth ac arfer dda gyda sefydliadau eraill.

In accordance with the National Assembly for Wales (Official Languages Act) 2012, we are not accountable, of course, to the Welsh Language Commissioner. However, I've taken advantage of opportunities to have informal conversations with the Welsh Language Commissioner, primarily relating to the methods that we use in the Assembly to provide bilingual facilities and services of the highest standard for our Members, the staff and the public, and to see how we can share information and best practice with other institutions.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am yr ateb hwnnw. Rydych yn gwybod, yn y cynllun ieithoedd swyddogol, fod blaenoriaeth i symud tuag at sefyllfa lle byddai mwy o ddogfennau, gan gynnwys Cofnod y Trafodion, ar gael yn y ddwy iaith. A oes modd i chi ddweud a fydd hyn yn digwydd, ynteu a ydych chi, fel rhan o'r adolygiad, yn bwriadu peidio â gwneud hynny? Hefyd, rwy'n deall nad oes rôl ffurfiol gan Gomisiynydd y Gymraeg i roi cyngor ar y materion hyn, ond a allwch chi gadarnhau y byddwch chi'n ymgynghori â hi oherwydd ei harbenigedd yn y maes, a chadarnhau na fydddech yn gweithredu'n groes i unrhyw argymhellion y byddai hi'n gallu eu rhoi, ynteu a fyddant yn parhau i fod yn drafodaethau anffurfiol? A fyddai'n bosib cael rhyw fath o berthynas mwy ffurfiol yn dyfodol?

Thank you for that response. You will know that, in the official languages schemes, priority was given to moving towards a situation where more documents, including the Record of Proceedings, were available in both languages. Can you tell us whether this will actually be achieved, or do you, as part of the review, intend not to move in that direction? I also understand that the Welsh Language Commissioner has no formal role in advising on these issues, but can you confirm that you will consult with her because of her expertise in this area, and confirm that you would not act contrary to any recommendations that she may make, or would there continue to be informal discussions? Would it be possible for there to be a more formal relationship in the future?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig nodi bod Comisiwn y Cynulliad, sydd yn gyfrifol am ddatblygu'r cynllun ieithoedd swyddogol, yn atebol i'r Siambr yma, a rôl Aelodau yn y Siambr yma ydy sgrwtineiddio yr hyn sy'n digwydd. Rydym ni, yn fewnol o fewn y Comisiwn, yn asesu yn gyson yr hyn sy'n digwydd. Mae yna arolwg yn digwydd ar hyn o bryd o'r modd y mae'r Cofnod yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog a hefyd y gwasanaethau cyffredinol i Aelodau. Rŷm ni wedi ymateb yn gadarnhaol i bob cais sydd wedi dod gan unrhyw Aelod o'r Cynulliad ynglŷn â'r hyn y gallwn ni ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Yr hyn sydd yn rhwystredig iawn i mi ydy nad ydy Aelodau sydd yn medru'r Gymraeg yn gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau hynny, oherwydd dyna fyddai'n symud y broses yn ei blaen.

Well, I think that it's important to note that the Assembly Commission, which is responsible for developing the official languages scheme, is accountable to this Chamber, and it is the role of Members in this Chamber to scrutinise our actions. We, internally within the Commission, continually assess what is happening and there is a review taking place at present of the way in which the Record of Proceedings is delivered bilingually, and also the general services for Members. We have responded positively to every request that has been received from any Member of the Assembly as to what we can do to promote the use of the Welsh language, and what is very frustrating for me is that the Members who are able to speak Welsh don't make greater use of those facilities, because that would move the process forward.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mi fyddwn ni, yn unol â chynllun ieithoedd swyddogol y Cynulliad, yn cyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad ar ddiwedd y sesiwn yma, cyn toriad yr haf, a bydd hynny'n gyfle, unwaith yn rhagor, i sgrwtineiddio'r hyn rydym yn ei wneud. Nid oes yna fwriad—nid wyf yn gwybod o ble mae hynny wedi dod—o gwbl i beidio â chofnodi yn llawn ac yn ddwyieithog y Cofnod o drafodaethau'r Siambr. Yr hyn sy'n digwydd yw bod yr hyn rydym wedi'i wneud, o ran bod ar flaen y gad o ran datblygu gwasanaethau yn ddwyieithog, yn golygu ein bod ni'n gallu darparu mwy yn gyflymach. Rydym yn manteisio ar hynny i ymateb i geisiadau gan Aelodau, gan staff a chan y cyhoedd am wasanaethau sy'n eu galluogi nhw, ar unrhyw adeg, yng nghyd-destun eu hymwneud â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall. Mae hynny yn ein gosod ni, fel sefydliad dwyieithog, mewn sefyllfa unigryw.

In accordance with the official languages scheme of the Assembly, we will be presenting a report before the Assembly at the end of this session, before the summer recess, and that will be an opportunity once more to scrutinise our actions. There is no intention—I don't know where that's come from—whatsoever not to report our proceedings fully and bilingually in the Record of Proceedings from the Chamber. What has happened is that what we have been doing, in terms of being in the vanguard as regards developing bilingual services, means that we can deliver more, more quickly. We respond to requests from Members, from staff and from the public for services that enable them, at any time in the context of their engagement with the National Assembly for Wales, to use either of the official languages. That sets us, as a bilingual institution, in a unique position.

14:25	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Gomisiynydd, yn ystod y trafodaethau ynghylch y cynllun ieithoedd swyddogol, roedd yna amserlen wedi'i gosod allan ynghylch pryd y byddem yn ymestyn y defnydd o'r Gymraeg. A ydych yn fodlon, wrth ichi baratoi tuag at yr adroddiad yma ynglŷn â'r cynllun ar hyn o bryd, eich bod yn gallu cyrraedd y nod o ran yr amserlen wreiddiol honno?</p>	<p>Commissioner, during the discussions on the official languages scheme, a timetable was set out in terms of when we would expand the use of the Welsh language. Are you content, as you prepare for this report on the official languages scheme, that you will actually reach your objectives in terms of that original timetable?</p>
14:26	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Wel, mae'r amserlen yn dweud ein bod ni'n gweithio tuag at gynhyrchu mwy yn gyflymach, a dyna sydd yn digwydd. Rydym wedi sicrhau bod effeithlonrwydd wedi cynyddu o ryw 20 y cant, sy'n golygu ein bod ni'n paratoi mwy o ddogfennau. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal arolwg cynhwysfawr o'r hyn rydym yn ei wneud, ac os oes gan yr Aelod rywbeth i'w fwydo i mewn i'r arolwg hwnnw, byddem yn falch iawn o glywed ganddo. Byddwn yn cyflwyno casgliadau'r arolwg hwnnw i'r Cynulliad er mwyn i Aelodau'r Cynulliad eu sgrwtineiddio a mynegi barn arnynt. Rwyf yn dod yn ôl at y pwynt a wnes i yn gynharach: mwya'n byd o Aelodau'r Cynulliad sydd yn manteisio ar y cyfleoedd rydym yn eu rhoi iddyn nhw i ddefnyddio'r Gymraeg, dyna fydd y cam pwysicaf o ran datblygu sefyllfa lle mae'r ieithoedd, yn ôl y nod rydym wedi'i osod yn y cynllun ieithoedd swyddogol, yn datblygu i gael statws cyfartal. Ni allaf orfodi Aelodau i ddefnyddio'r Gymraeg. Y cyfan y gallaf i a'r Comisiwn ei wneud yw sicrhau nad oes unrhyw rwystr i chi rhag gwneud hynny.</p>	<p>Well, the timetable states that we are working towards producing more, more quickly, and that is what is happening. We have ensured that efficiency has increased by about 20 per cent, which means that we are producing more documents than previously. At the moment, we are undertaking a comprehensive review of the status quo, and if the Member has anything to feed into that, I would be very pleased to hear from him. We will be presenting the conclusions of that review to the Assembly so that Assembly Members can scrutinise that and express a view on it. But I come back to the point that I made earlier: if more Assembly Members took advantage of the opportunities that we afford them to use the Welsh language, that would be the most important step from the point of view of developing a situation where the languages, according to the aim that we have set ourselves in the official languages scheme, develop to become of equal status. I cannot force Members to use the Welsh language. All that I and the Commission can do is ensure that there's no barrier to doing so.</p>
14:27	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Commissioner.</p>	<p>Diolch i chi, Gomisiynydd.</p>
14:27	4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Cloddio Glo Brig	4. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Opencast Mining
	Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We now move to item 4, which is a debate by individual Members under Standing Order 11.21, and it's on opencast mining. I call on Lynne Neagle to move the motion.</p>	<p>Symudwn yn awr at eitem 4, sef dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21, ac mae'n ymwneud â chloddio glo brig. Galwaf ar Lynne Neagle i gynnis y cynnig.</p>
	<p>Cynnig NNDM5715 Bethan Jenkins, William Graham, Lynne Neagle, William Powell</p>	<p>Motion NNDM5715 Bethan Jenkins, William Graham, Lynne Neagle, William Powell</p>
	<p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p>	<p>To propose that the National Assembly for Wales:</p>
	<p>Yn galw ar Lywodraeth Cymru i</p>	<p>Calls upon the Welsh Government to</p>
	<p>a) annog moratoriwm ar gloddio glo brig ledled Cymru, er mwyn canfod a yw cyfraith cynllunio a chanllawiau cyfredol yn darparu digon o amddiffyniad i gymunedau yr effeithir arnynt gan gloddio glo brig;</p>	<p>a) instigate a moratorium on opencast mining across Wales, in order to ascertain whether planning law and current guidance provides sufficient protection for communities affected by opencast mining;</p>
	<p>b) ymateb i ymchwil i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn ne Cymru, gan ddatgan yn benodol sut y gallai fynd i'r afael â phryderon ynghylch pa mor ymarferol yw MTAN2 a'r glustogfa 500 medr; ac</p>	<p>b) respond to the Research into the Failure to Restore Opencast Coal Sites in South Wales, stating specifically how it might address concerns about the workability of MTAN2 and the 500m buffer zone; and</p>

c) cynorthwyo awdurdodau lleol yr effeithir arnynt i wneud heriau cyfreithiol, lle bo angen, wrth geisio adfer safleoedd.

c) support affected local authorities to make legal challenges, where required, when pursuing restoration.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

14:27

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I am grateful for the opportunity to open this individual Members debate and to formally move the motion on the future of opencast in Wales. I think it says a lot that, in the midst of a general election campaign, where, understandably, the focus of our respective parties is on what divides rather than unites us politically, there is genuine cross-party and public support for the moratorium I first called for back in January. Indeed, I am very grateful to William Powell, William Graham and, in particular, to Bethan Jenkins, whose determination was vital in securing this debate today.

Diolch i chi, Lywydd. Diolch am y cyfle i agor y ddaidl i Aelodau unigol ac i gynnis y cynnig ar ddyfodol glo brig yng Nghymru yn ffurfiol. Ynghanol ymgyrch etholiad cyffredinol lle y mae ffocws ein gwahanol bleidiau, yn ddealladwy, ar yr hyn sy'n ein rhannu yn hytrach na'r hyn sy'n ein huno yn wleidyddol, rwy'n credu ei fod yn dweud llawer fod cefnogaeth go iawn ar draws y pleidiau ac ymhlith y cyhoedd i'r moratoriwm y gelwais amdano'n gyntaf yn ôl ym mis Ionawr. Yn wir, rwy'n ddiolchgar iawn i William Powell, William Graham ac yn arbennig i benderfyniad Bethan Jenkins a oedd mor allweddol i sicrhau'r ddaidl hon heddiw.

Of course, there are differences of opinion and approach amongst those of us who have signed this motion, just as there will be a range of views across the various groups and individuals from across Wales who have gathered here at the Senedd to protest in support of this debate. But I think we all agree on one fundamental point: that we need a pause on new and current opencast applications—a moratorium so that the Welsh Government has the breathing space I believe it needs to carry out a strategic review into the impact of opencast in Wales and our future strategy for the industry. As this motion sets out, the overriding issue to be addressed is whether minerals technical advice note 2, a policy that took years of discussion and debate in this Assembly to develop, is actually offering the protection for communities it was designed to deliver, at the same time as striking that admittedly tricky balance between society's need for coal and the impact on communities directly affected.

Wrth gwrs, mae yna wahaniaeth barn ac ymagwedd ymysg y rhai ohonom sydd wedi llofnodi'r cynnig hwn, yn union fel y bydd amrywiaeth o safbwyntiau ar draws y gwahanol grwpiau ac unigolion o bob rhan o Gymru sydd wedi ymgasglu yma yn y Senedd i brotestio yn eu cefnogaeth i'r ddaidl hon. Ond rwy'n credu ein bod i gyd yn cytuno ar un pwynt sylfaenol: fod angen oedi ceisiadau glo brig newydd a chyfredol—moratoriwm er mwyn i Lywodraeth Cymru gael y lle i anadlu y credaf sydd ei angen arni i gynnal adolygiad strategol o effaith cloddio glo brig yng Nghymru a'n strategaeth ar gyfer y diwydiant yn y dyfodol. Fel y mae'r cynnig hwn yn ei nodi, y mater pwysicaf i fynd i'r afael ag ef yw i ba raddau y mae nodyn cyngor technegol mwynau 2, polisi y treuliodd blynyddoedd o drafod a dadlau yn y Cynulliad hwn yn ei ddatblygu, yn cynnig y diogelwch i gymunedau y'i cynlluniwyd i'w ddarparu mewn gwirionedd, ar yr un pryd â sicrhau'r cydbwysedd anodd rhwng angen cymdeithas am lo a'r effaith ar y cymunedau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.

I'm afraid my long experience in Varteg, where local residents and campaigners have now spent more than a decade fighting plans that would see 250,000 tonnes of coal extracted less than 100m from people's homes and a local school, shows me that, for all its good intentions, MTAN 2 is not delivering for the people I represent. To be clear, I'm hugely grateful to the Minister for doing the right thing back in 2013 and rejecting the planning inspectorate's wrong-headed recommendation to allow Varteg opencast to go ahead on appeal. But the fact that the developers view Varteg as a test case, and have since submitted another application nigh on identical to those lodged previously, to me just underlines the fact that we urgently need clarity on our policy in this area. On the one hand, it would ease the uncertainty that's blighted the lives of people in places like Varteg, but, crucially, it would give local authorities like Torfaen—which rightly rejected the Varteg plans, on the basis they breached the MTAN's buffer zone—the confidence that they won't later have the rug pulled from under them by planning inspectors with vastly different interpretations of what that guidance should mean in practice.

Rwy'n ofni bod fy mhrofiad hir yn y Farteg, lle y mae trigolion ac ymgyrchwyr lleol bellach wedi treulio dros ddegawd yn ymladd cynlluniau a fyddai'n arwain at gloddio 250,000 o dunelli o lo lai na 100m o gartrefi pobl ac ysgol leol, yn dangos i mi, er ei holl fwriadau da, nad yw MTAN 2 yn cyflawni ar gyfer y bobl rwy'n eu cynrychioli. I fod yn glir, rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Gweinidog am wneud y peth iawn yn ôl yn 2013 a gwrthod argymhelliad cyfeiliornus yr arolygiaeth gynllunio i ganiatáu i gloddio glo brig fynd yn ei flaen ar apêl yn y Farteg. Ond i mi, mae'r ffaith fod y datblygwyr yn gweld y Farteg fel achos prawf, ac wedi cyflwyno cais arall ers hynny sydd bron yn union yr un fath â'r rhai a gyflwynwyd yn flaenorol, yn tanlinellu'r angen am eglurder ar frys ynghylch ein polisi yn y maes hwn. Ar y naill law, byddai'n lleddfu'r ansicrwydd sydd wedi bod yn falltod ar fywydau pobl mewn llefydd fel y Farteg, ond yn allweddol, byddai'n rhoi hyder i awdurdodau lleol fel Torfaen—a oedd yn iawn i wrthod cynlluniau'r Farteg ar y sail eu bod yn torri amodau dustogfa'r MTAN—na fydd y mat yn cael ei dynnu o dan eu traed yn nes ymlaen gan arolygwyr cynllunio gyda dehongliadau eithriadol o wahanol o'r hyn y dylai'r canllawiau ei olygu'n ymarferol.

14:30

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I intervene?

A gaf fi ymyrryd?

14:30 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll take an intervention.

Fe gymeraf ymyriad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:30 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say, you're making an excellent case, Lynne, and you have considerable support, not only across the Chamber, but also on these backbenches? I think many of us who've grown up with opencast understand the impact of it on communities. And also, the Government has asked us to vote for the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, will be asking us to vote for the environment Bill, and it is simply not compatible with those ambitions, and those visions, to then have a policy that permits the expansion of opencast.

A gaf fi ddweud eich bod yn cyflwyno achos ardderchog, Lynne, ac mae gennych gefnogaeth sylweddol, nid yn unig ar draws y Siambr, ond ar y meinciau cefn hyn hefyd? Rwy'n credu bod llawer ohonom sydd wedi tyfu i fyny gyda glo brig yn deall ei effaith ar gymunedau. A hefyd, mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ni bleidleisio dros Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a bydd yn gofyn i ni bleidleisio dros Fil yr amgylchedd, ac yn syml, nid yw'n gydnaws â'r uchelgeisiau hynny, a'r gweledigaethau hynny, i gael polisi sy'n caniatáu ehangu gweithgarwch cloddio glo brig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:30 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Alun; your points are very well made, and very welcome.

Diolch i chi, Alun; gwnaethoch eich pwyntiau'n dda iawn, ac maent i'w croesawu'n fawr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I think that it's all the more important, at a time when councils are facing huge pressure on their resources, and when the risk of legal challenges, and the costs associated with lengthy public inquiries, leave local planners, and councillors, between a rock and a hard place when it comes to making decisions on opencast applications.

Credaf ei bod yn bwysicach fyth, ar adeg pan fo cynghorau'n wynebu pwysau enfawr ar eu hadnoddau, a phan fo'r risg o heriau cyfreithiol a'r costau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau cyhoeddus hirfaith, yn gorfodi cynllunwyr a chynghorwyr lleol i ddewis rhwng dau ddrwg wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau glo brig.

We'll be debating this issue again in the months ahead, when the Petitions Committee publishes its report into calls for MTAN to be made law. And, while I recognise that there are disagreements as to whether it is appropriate, or necessary, to enshrine the buffer zone in statute, however it is best achieved in the end, we simply cannot afford to let the current confusion reign. Equally, I know that there are those who will say that a moratorium is impossible to deliver, that somehow we should just throw our hands up in the air and accept that there's nothing we can do in Wales to try to get a grip of this situation. But, whether we need to look at devolving new powers from Westminster that would give us more control over the licensing system opencast developers operate under, whether we need to look at including opencast sites within the category of developments of national significance that are dealt with at Welsh Government level, or whether it's simply about using our current powers more effectively and more creatively, I believe anything, quite frankly, is possible, if there is enough political will and momentum behind it.

Byddwn yn trafod y mater hwn eto yn y misoedd nesaf, pan fydd y Pwyllgor Deisebau yn cyhoeddi ei adroddiad ar alwadau i MTAN gael ei wneud yn gyfraith. Ac er fy mod yn cydnabod bod anghytundeb ynglŷn ag a yw'n briodol, neu'n angenrheidiol, i gynnwys y glustogfa mewn statud, sut bynnag y caiff ei gyflawni orau yn y diwedd, ni allwn fforddio gadael i'r dryswch sy'n bodoli ar hyn o bryd i barhau. Yn yr un modd, gwn y bydd rhai'n dweud bod ei bod yn amhosibl cyflawni moratoriwm, y dylem rywsut ildio a derbyn nad oes dim y gallwn ei wneud yng Nghymru i geisio rheoli'r sefyllfa hon. Ond pa un a oes angen inni edrych ar ddatganoli pwerau newydd o San Steffan a fyddai'n rhoi mwy o reolaeth dros y system drwyddedu y mae datblygwyr glo brig yn gweithredu oddi tani, pa un a oes angen inni edrych ar gynnwys safleoedd glo brig yng nghategori datblygiadau o bwys cenedlaethol yr ymdrinnir â hwy ar lefel Llywodraeth Cymru, neu ba un a yw'n ymwneud yn syml â defnyddio ein pwerau presennol yn fwy effeithiol ac yn fwy creadigol, rwy'n credu bod unrhyw beth yn bosibl, a dweud y gwir, os oes digon o ewyllys gwleidyddol a momentwm y tu ôl iddo.

As the second key element of this motion sets out, there's a wider issue in question when it comes to the opencast industry in Wales, one that's powerfully symbolised by the scarred landscapes, and abandoned holes in the ground, left at Margam and East Pit, and by the glaring disparity between the amount needed to restore those sites and the money that's so far been set aside. I don't wish to tar an entire industry with the same brush—the circumstances at every site are different, and at Garn Lakes in my constituency, there is a tangible example of how land restoration, via opencast, can, if well managed and supported by the community, deliver the environmental improvements and social benefits that are routinely promised when applications to opencast are made. But, like it or not, the dodgy dealings, the shady offshore companies, and the huge questions around trust and accountability that have emerged in relation to the Celtic Energy saga, have, I'm afraid, cast a dark shadow over the reputation of the industry. It's telling that the First Minister took the unusual step of publicly intervening in his role as a constituency Member, and I agree entirely with my colleague David Rees's assessment that it cannot be right for the surface mining industry to be so dependent on developing new sites, simply to fund their existing restoration obligations.

Not only would a moratorium give the Welsh Government the time and space it needs to look again at that all-important planning guidance, it would allow for a wide-ranging and truly strategic review that explores all of these wider questions: a review that looks again at public attitudes towards opencast in twenty-first century Wales, and whether land restoration is as much of a priority for communities as it has been in the past, that examines where the industry fits within the wider strategy for the Welsh economy of the future, and, vitally, whether the status quo is compatible with that push towards sustainable development that we're consistently told is the driving principle underpinning this Welsh Government's vision of Wales's future. Thank you.

Fel y mae ail elfen allweddol y cynnig hwn yn ei nodi, mae yna fater arall yn gysylltiedig â'r diwydiant glo brig yng Nghymru, un a symboleiddir yn rymus gan y creithiau ar dirweddau, a hen dyllau yn y ddaear a adawyd ar ôl ym Margam ac East Pit, a chan y gwahaniaeth amlwg rhwng y swm sydd ei angen i adfer y safleoedd hynny a'r arian a neilltuwyd hyd yn hyn. Nid wyf yn dymuno pardduo diwydiant cyfan yn ddiwahân—mae'r amgylchiadau ar bob safle yn wahanol, ac yn Llynnoedd y Garn yn fy etholaeth, ceir enghraifft bendant o sut y gall gwaith adfer tir, drwy'r glo brig, o'i reoli'n dda a thrwy gefnogaeth y gymuned, gyflawni'r gwelliannau amgylcheddol a'r manteision cymdeithasol a addewir fel mater o drefn pan fydd ceisiadau glo brig yn cael eu cyflwyno. Ond pa un a ydych yn ei hoffi neu beidio, mae trafodion amheus, cwmnïau tramor amheus, a'r cwestiynau enfawr ynghylch ymddiriedaeth ac atebolrwydd sydd wedi dod yn amlwg mewn perthynas â saga Celtic Energy, wedi taflu cysgod tywyll dros enw da'r diwydiant, yn anffodus. Mae'n dweud rhywbeth fod y Prif Weinidog wedi cymryd y cam anarferol o ymyrryd yn gyhoeddus yn ei rôl fel Aelod etholaeth, a chytunaf yn llwyr gydag asesiad fy nghyd-Aelod David Rees na all fod yn iawn fod y diwydiant cloddio glo brig mor ddibynnol ar ddatblygu safleoedd newydd, yn syml er mwyn ariannu eu rhwymedigaethau adfer cyfredol.

Nid yn unig y byddai moratoriwm yn rhoi'r amser a'r lle sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru i edrych eto ar y canllawiau cynllunio hollbwysig hynny, ond byddai'n caniatáu ar gyfer adolygiad eang a gwirioneddol strategol sy'n archwilio pob un o'r cwestiynau ehangach hyn: adolygiad i edrych eto ar agweddau'r cyhoedd tuag at gloddio glo brig yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain, ac a yw adfer tir yn gymaint o flaenoriaeth i gymunedau ag y bu yn y gorffennol; sy'n archwilio lle'r diwydiant yn y strategaeth ehangach ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol; ac yn hanfodol, i ba raddau y mae'r status quo yn gydnaws â'r ymdrech tuag at ddatblygu cynaliadwy sef yr egwyddor sy'n sail i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol Cymru fel y cawn ein hatgoffa'n gyson. Diolch yn fawr.

14:34

William Graham [Bywgraffiad Biography](#)

May I re-emphasise that this motion calls for a moratorium on opencast mining, not a complete ban? It offers time for reflection and the examination of existing projects, to consider whether any further amendments may be needed to the Planning (Wales) Bill, and to listen to those affected by existing opencast mining. It will not stop existing applications.

A gaf fi ailbwysleisio mai am foratoriwm ar gloddio glo brig y mae'r cynnig yn galw, nid gwaharddiad llwyr? Mae'n caniatáu amser i fyfyrto ac archwilio prosiectau sy'n bodoli eisoes, i ystyried yr angen am ddiwygiadau pellach i Fesur Cynllunio (Cymru), ac i wrando ar y rhai yr effeithir arnynt gan gloddio glo brig sy'n digwydd ar hyn o bryd. Ni fydd yn atal ceisiadau sy'n bodoli eisoes.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

May I draw Members' attention to four opencast projects within South Wales East, which encapsulate the need for this motion? Ffos-y-fran at Merthyr Tydfil: challenged at every level, from local authority to Europe, having a huge role in the recognition of a 500m buffer zone. Varteg at Pontypool: extraction within 120m of a school and residential properties; planning application refused by the local authority, Torfaen, but appealed by the developer; minded to be accepted by one Welsh Government Minister, then refused by another; the developer is planning a revised application. The British, Talywain, Pontypool: application submitted in 2008, not yet determined, and the site is accessed along the B4246 either through residential areas or the Blaenavon world heritage landscape site. Nant Llesg at Rhymney: the cosmetic firm, Richards and Applebey, which employs 140 staff at its factory, says that it will have to relocate if the mine suggested exactly opposite their site goes ahead.

I refer to these proposals for they encapsulate all aspects of the protection that our communities deserve: security of their health and safety, their environment, their employment opportunities and the future of the landscape around their homes. Members will be fully aware that the acceptance of the 500m buffer zone was given wide consideration by the Assembly. It was not always universally accepted. The First Minister, who was then the environment Minister, produced a draft planning policy recommending a 350m zone. There's no need to revisit these arguments that support a 500m zone; they're clearly well accepted. I'd like to pay tribute, if I may, to Lynne Neagle and her exemplary record on fighting for the people of Varteg—a truly worthwhile exercise, which will hopefully have a proper result at the end. Many Members have pressed the First Minister on the necessity to be able to enforce the 500m buffer zone and his reply was that the whole basis of the planning system is for both local authorities and planning inspectors to take into account buffer zone policy's application in any given case and to accord it appropriate weight in decision making. These words are not enough.

I refer to the revised application for opencast mining at Varteg. I accept that there is a need to test laws to demonstrate that they are sound and reasonable. I also accept that the planning system allows applicants to make more than one application for the project. One of the present shortcomings, of course, is that the applicant may revise their application after consultation and objection, but there is no further public comment. This example epitomises why I ask Members to agree this motion: to allow us to determine whether all the relevant factors have been considered and incorporated into planning guidance and law, and to give confidence to our communities that we've prescribed the correct protection they'll be given for proposals for opencast mining. Local authorities must be able to dismiss applications, particularly retrospective applications, such as the Varteg proposal, if there is no provision for the adequate 500m zone. Developers must be aware that a 500m buffer zone would be paramount and that any exceptional circumstances that override this principle must be truly and demonstrably exceptional.

A gaf fi dynnu sylw'r Aelodau at bedwar prosiect cloddio glo brig yn Nwyrain De Cymru, sy'n crisialu'r angen am y cynnig hwn? Ffos-y-frân ym Merthyr Tudful: fe'i heriwyd ar bob lefel, o'r awdurdod lleol i Ewrop, ac mae'n chwarae rhan fawr o ran cydnabod clustogfa 500m. Y Farteg ym Mhont-y-pŵl: cloddio o fewn 120m i ysgol ac eiddo preswyl; gwrthodwyd cais cynllunio gan yr awdurdod lleol, Torfaen, ond cafwyd apêl gan y datblygwr; roedd un o Weinidogion Llywodraeth Cymru yn ystyried derbyn y cais, cyn iddo gael ei wrthod gan un arall; mae'r datblygwr yn bwriadu cyflwyno cais diwygiedig. Y British, Talywain, Pont-y-pŵl: cyflwynwyd cais yn 2008, ac ni phenderfynwyd yn ei gylch hyd yma; ceir mynediad i'r safle ar hyd y B4246 naill ai drwy ardaloedd preswyl neu safle treftadaeth y byd Blaenafon. Nant Llesg yn Rhymni: mae'r cwmni nwyddau cosmetig, Richards and Applebey, sy'n cyflogi 140 o staff yn ei ffatri, yn dweud y bydd yn rhaid iddo symud os bydd awgrym i agor cloddfa yn union gyferbyn â'i safle yn mynd yn ei flaen.

Cyfeiriaf at y cynnig hyn am eu bod yn crisialu pob agwedd ar y diogelwch y mae ein cymunedau yn ei haeddu: sicrwydd i'w hiechyd a'u diogelwch, eu hamgylchedd, eu cyfleoedd cyflogaeth a dyfodol y dirwedd o amgylch eu cartrefi. Bydd yr Aelodau yn hollol ymwybodol fod derbyn y glustogfa 500m yn fater a ystyriwyd yn drylwyr gan y Cynulliad. Nid oedd yn dderbyniol gan bawb bob amser. Cynhyrchodd y Prif Weinidog, a oedd yn Weinidog yr amgylchedd ar y pryd, bolisi cynllunio drafft yn argymhell clustogfa 350m. Nid oes angen ailedrych ar y dadleuon hyn sy'n cefnogi clustogfa 500m; maent yn amlwg yn cael eu croesawu. Hoffwn roi teyrnged, os caf, i Lynne Neagle a'i hanes rhagorol o ymladd dros bobl y Farteg—gwaith gwerthfawr yn wir, a fydd, gobeithio, yn arwain at ganlyniad da yn y diwedd. Mae llawer o'r Aelodau wedi pwysu ar y Prif Weinidog ynglŷn â'r angen i allu gorfodi'r glustogfa 500m, a'i ateb oedd mai'r holl sail dros y system gynllunio yw i awdurdodau lleol ac arolygwyr cynllunio ystyried cymhwysu polisi clustogfa mewn unrhyw achos a rhoi'r pwyslais priodol i hynny wrth wneud penderfyniadau. Nid yw'r geiriau hyn yn ddigon.

Cyfeiriaf at y cais diwygiedig ar gyfer cloddio glo brig yn y Farteg. Rwy'n derbyn bod angen profi deddfau i ddangos eu bod yn gadarn ac yn rhesymol. Rwyf hefyd yn derbyn bod y system gynllunio yn caniatáu i ymgeiswyr wneud mwy nag un cais ar gyfer y prosiect. Un o'r diffygion presennol, wrth gwrs, yw y gall ymgeiswyr ddiwygio eu cais ar ôl ymgynghoriad a gwrthwynebiad, ond nid oes unrhyw sylwadau cyhoeddus pellach. Mae'r enghraifft hon yn crynhoi pam rwy'n gofyn i'r Aelodau dderbyn y cynnig hwn: er mwyn ein galluogi i bennu a yw'r holl ffactorau perthnasol wedi eu hystyried a'u hymgorffori mewn canllawiau a chyfraith cynllunio, ac i roi hyder i'n cymunedau ein bod wedi pennu'r amddiffyniad cywir i'w roi iddynt ar gyfer ceisiadau cloddio glo brig. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol allu gwrthod ceisiadau, yn enwedig ceisiadau ôl-weithredol, megis cais y Farteg, os nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer clustogfa 500m briodol. Mae'n rhaid i ddatblygwyr fod yn ymwybodol y byddai clustogfa 500m yn hollbwysig a bod yn rhaid i unrhyw amgylchiadau eithriadol sy'n drech na'r egwyddor hon fod yn wirioneddol eithriadol ac y gellir dangos hynny'n amlwg.

Members will be aware that 'Minerals Planning Policy Wales' determined that land will be restored to a high standard and to a beneficial and suitable after-use. Too often, the standards of restoration are questionable, especially when there's been a long period between the process of retrieval and the restoration of the land. Perhaps this matter could be partly resolved if an insurance bond could be required, such as is presently used for road and sewer bonds. This would be a guarantee from the developer that they will complete the restoration to the required standard within a defined time frame, and perhaps also it will be able to prevent them avoiding liability for restoration, as is the case in Wales at the moment.

The motion seeks to provide specific guidance on buffer zones. It will allow us to clearly demonstrate the protection, both in law and planning guidance, that our communities deserve; to support local authorities that find it necessary to make legal challenges; and to secure the restoration of land to a beneficial and suitable after-use in the interest of all our communities.

14:39

William Powell [Bywgraffiad Biography](#)

I'm very pleased indeed that we've been able to bring forward this important debate today, and in doing so, I pay tribute particularly to the United Valleys Action Group for the sheer dedication that they've committed to this issue. Having attended a number of demonstrations in the past, and also played my part in the deliberations of the Petitions Committee, as Chair, on this matter, I'd also like to share and to echo many of the points that have been already raised by colleagues today. It is vital that we see a consistency of approach in terms of planning, particularly when it comes to technical advice notes. If a 500m buffer zone is recommended by MTAN, any decision to allow coal working to take place within that zone has to be very carefully and transparently justified.

One of the key risks identified, and Lynne Neagle has already referred to this, in the 'Research into the failure to restore opencast coal sites in south Wales' report, was when the bond or surety held by a specific local planning authority falls short of the level that would be required to restore that site in accordance with the planning permission, should that site be abandoned or be left unrestored. Mining techniques have obviously significantly changed over time since the original figures were calculated. For example, there was a recent example of a £15 million bond set aside for reinstatement plans costing in excess of £100 million. These funding shortfalls are colossal and this issue absolutely must be addressed. The market conditions for domestic coal are getting increasingly challenging, with increased competition from imported coal and gas and tighter regulations on the use of the fuel within power plants. With the value of coal reducing and the profits made by mining companies getting thinner, it is getting increasingly likely that companies are going to be unable to finish projects that they have started. The need for adequate bonds is becoming ever more acute.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' wedi pennu y bydd tir yn cael ei adfer i safon uchel ac ar gyfer ei ddefnyddio'n fuddiol ac yn addas wedyn. Yn rhy aml, mae'r safonau adfer yn amheus, yn enwedig pan fo cyfnod hir wedi bod rhwng y broses o adennill ac adfer y tir. Efallai y gellid datrys y mater yn rhannol pe bai angen bond yswiriant, fel a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer bondiau ffyrdd a charthffosydd. Byddai'n warant gan y datblygwr y bydd yn cwblhau'r gwaith adfer i'r safon ofynnol o fewn cyfnod diffiniedig, ac efallai hefyd y gallai eu hatal rhag osgoi rhwymedigaeth i adfer, fel sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

Nod y cynnig yw darparu canllawiau penodol ar glustogfeydd. Bydd yn ein galluogi i ddangos yn eglur yr amddiffyniad, o ran y gyfraith a chanllawiau cynllunio, y mae ein cymunedau yn ei haeddu; i gynorthwyo awdurdodau lleol sy'n teimlo bod angen cyflwyno heriau cyfreithiol; ac i sicrhau bod tir yn cael ei adfer ar gyfer ei ddefnyddio'n fuddiol ac yn addas wedyn er budd ein holl gymunedau.

Rwy'n falch iawn ein bod wedi gallu cyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw, ac wrth wneud hynny, rhoddaf deyrnged arbennig i United Valleys Action Group am eu hymroddiad llwyr i'r mater hwn. Ar ôl mynychu nifer o brotestiadau yn y gorffennol, a chwarae fy rhan yn nhrefodaethau'r Pwyllgor Deisebau, fel Cadeirydd, ar y mater hwn, hoffwn rannu ac adleisio llawer o'r pwyntiau sydd wedi'u codi eisoes gan fy nghyd-Aelodau heddiw. Mae'n hanfodol ein bod yn gweld dull cyson o weithredu o ran cynllunio, yn enwedig o ran nodiadau cyngor technegol. Os yw MTAN yn argymhell clustogfa 500m, mae'n rhaid cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ganiatáu gwaith glo o fewn y glustogfa yn ofalus ac mewn modd tryloyw iawn.

Cyfeiriodd Lynne Neagle eisoes at un o'r risgiau allweddol a nodwyd yn yr adroddiad, 'Ymchwil i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn ne Cymru'. Pan fo'r bond neu warant a ddelir gan awdurdod cynllunio lleol penodol yn methu cyrraedd y safon a fyddai'n ofynnol i adfer y safle yn unol â'r caniatâd cynllunio, a ddylid rhoi'r gorau i'r safle neu ei adael heb ei adfer. Yn amlwg, mae technegau cloddio wedi newid yn sylweddol dros amser ers i'r ffigurau gwreiddiol gael eu cyfrifo. Er enghraifft, roedd achos diweddar o fond £15 miliwn a neilltuwyd ar gyfer cynlluniau adfer yn costio dros £100 miliwn. Mae'r diffygion cyllidol hyn yn anferthol a rhaid mynd i'r afael â'r mater. Mae'r farchnad ar gyfer glo domestig yn mynd yn fwyfwy heriol, gyda mwy o gystadleuaeth gan lo a nwy wedi'u mewnforio a rheoliadau tynnach ar y defnydd o danwydd mewn gorsafoedd ynni. Wrth i werth glo ostwng ac wrth i'r elw a wneir gan gwmnïau mwyngloddio leihau, mae'n fwyfwy tebygol na fydd cwmnïau yn gallu gorffen prosiectau y maent wedi'u dechrau. Mae'r angen am fondiau digonol yn dod yn gynyddol ddifrifol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The report also highlights that international guidance and best practice has, in some respects, more robust mechanisms to achieve restoration than is currently the case in Wales. I hope that the Minister can look at some of these in detail to see what lessons can be learnt from operations overseas. The report, in addition, found that, in general, the international mining community places a greater emphasis on early planning for closure than is currently the case here in Wales. It also recommends a greater level of public consultation on mine closure and after-use by way of having more rigorous requirements for restoration planning. This issue of public consultation and engagement is at the very heart of the topic. Many of the people living in close proximity to opencast sites feel that they have little say over the way in which these sites affect—indeed, blight—their lives and the area in which they live. People are affected in a variety of ways, whether it be air quality and related health risks, noise interference or loss of value of their properties. These are all issues that local people cite as some of the knock-on effects of living near such a development. The Aarhus convention specifies the right to public participation in environmental decision making. I would maintain strongly that opencast mining is not exempt from these requirements.

I would also like to return to the issue of coal itself. As Terry Evans, chair of the United Valleys Action Group, said in correspondence to the Petitions Committee, the use of coal is simply not sustainable in the long term or even the medium term, and I would hope that the Minister agrees that we should be maximising our efforts to move away from our dependency on coal. As was said in the transport Minister's statement on energy in Wales, issued just yesterday,

'The energy system in Wales...is on the threshold of great change driven by new energy, technology and low carbon energy transition objectives.'

The motion in today's debate seems to me to be entirely consistent with that thinking. We must commit ourselves to developing, and to developing at pace, a full range of renewable resources with an emphasis on community ownership. We are lucky here in Wales that we are so rich in resources, but that is not to say that we must continue exploiting those resources without due and proper regard for the environment and, indeed, of course, the wellbeing of future generations. As George Monbiot commented with regard to the Ffos-y-fran mine,

'There has never been a hole quite like it.'

Our Government's climate change policies are about to fall into it. We need to find a way to keep the lights on, but this cannot be at the expense of the environment or by blighting communities across Wales. Diolch yn fawr.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod gan ganllawiau ac arferion gorau rhyngwladol systemau mwy cadarn, mewn rhai ffyrdd, o gyflawni gwaith adfer na'r hyn a geir yng Nghymru ar hyn o bryd. Rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog edrych ar rai o'r rhain yn fanwl i weld pa wersi y gellir eu dysgu o weithrediadau tramor. Darganfu'r adroddiad hefyd fod y gymuned gloddio ryngwladol yn gyffredinol yn rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio'n gynnar ar gyfer cau nag yma yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae hefyd yn argymhell mwy o ymgynghori cyhoeddus ar gau cloddfeydd a defnydd o'r tir wedyn drwy gael gofynion llymach ar gyfer cynllunio gwaith adfer. Mae'r mater hwn o ymgynghori ac ymgysylltiad cyhoeddus yn ganolog i'r mater. Mae llawer o'r bobl sy'n byw yn agos at safleoedd cloddio glo brig yn teimlo nad oes fawr o lais ganddynt ynghylch y ffordd y mae'r safleoedd hyn yn effeithio ar—yn wir, yn falltod ar—eu bywydau a'r ardal lle y maent yn byw. Mae pobl yn cael eu heffeithio mewn nifer o ffyrdd, naill ai gan ansawdd yr aer a'r peryglon iechyd cysylltiedig, ymyrraeth sŵn neu werth eiddo'n gostwng. Mae'r rhain i gyd yn faterion y mae pobl leol yn eu crybwyll fel rhai o sgil-ffeithiau byw yn agos i ddatblygiad o'r fath. Mae confensiwn Aarhus yn nodi hawl y cyhoedd i gyfranogi wrth wneud penderfyniadau amgylcheddol. Byddwn yn parhau i bwysleisio nad yw cloddio glo brig yn eithriad i'r gofynion hyn.

Hoffwn hefyd ddychwelyd at fater y glo ei hun. Fel y dywedodd Terry Evans, cadeirydd yr United Valleys Action Group, mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Deisebau, nid yw'r defnydd o lo yn gynaliadwy yn y tymor hir neu hyd yn oed yn y tymor canolig, a gobeithiaf fod y Gweinidog yn cytuno y dylem fod yn ymdrechu i'r eithaf i symud oddi wrth ein dibyniaeth ar lo. Fel y dywedwyd yn natganiad y Gweinidog trafniadaeth ar ynni yng Nghymru, a gyhoeddwyd ddoe,

'Mae newid mawr ar droed i'r system ynni yng Nghymru, a hynny'n cael ei yrru gan amcanion newydd ym maes ynni, technoleg a symud tuag at ynni carbon isel.'

Ymddengys i mi fod y cynnig yn y ddadl heddiu yn gwbl gyson â'r meddylfryd hwnnw. Mae'n rhaid i ni ymrwymo i ddatblygu, ac i ddatblygu'n gyflym, ystod lawn o adnoddau adnewyddadwy gyda phwyslais ar berchnogaeth gymunedol. Rydym yn lwcus yma yng Nghymru ein bod mor gyfoethog o ran adnoddau, ond nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i ni barhau i fanteisio ar yr adnoddau hynny heb ystyriaeth ddyledus a phriodol i'r amgylchedd, ac yn wir, i les cenedlaethau'r dyfodol, wrth gwrs. Fel y dywedodd George Monbiot ynghylch cloddfa Ffos-y-frân,

'Ni fu twll o'i fath erioed.'

Mae polisïau newid yn yr hinsawdd ein Llywodraeth ar fin syrthio i mewn iddo. Mae angen i ni ddod o hyd i ffordd o gadw'r goleuadau ymlaen, ond ni all hynny fod ar draul yr amgylchedd neu drwy amharu ar gymunedau ledled Cymru. Diolch yn fawr.

The constituency I represent was built upon coal. It defined our past and it will be part of our future. In the long term, we must and we will move to sustainable sources of energy, but if carbon capture technology, such as that being piloted in the Aberthaw power station, is proven to be viable, then coal may well continue to power a cleaner, greener future for our children. For now, there is coal to be won and there are hundreds of families in my constituency that depend upon its extraction for their livelihoods. I say all this because I wish to be completely clear: I do not stand against responsible mining and never will, but I will be voting for this motion today and I'll explain why. Nine years ago, I wrote to the then Minister for environment, suggesting actions slightly short of a moratorium—a presumption against new opencast applications unless it could be absolutely demonstrated that surrounding communities could be adequately protected. Subsequent events have only reconfirmed my belief that this is an appropriate course of action. I am pleased that the Welsh Government is reviewing MTAN 2. Again, my opinions on this have not changed. The 500m buffer zone is a necessary protection, but the guidance on when it is permissible to move within 500m needs to be far, far clearer than it is.

I am also happy to acknowledge that the Welsh Government does offer support to councils that wish to take on developers through the courts. That is as it should be. The contest between companies able to pay £250,000 for a single barrister's opinion and cash-strapped local authorities is a fight between David and Goliath. It's only right that the Welsh Government should offer help and support—any help and support that it can.

Looming over considerations of this matter is the East Pit opencast. The first opencast on that site opened in 1948, as I've told this Chamber before. We were promised then that when it was complete, the land would be restored. That promise has been repeated to three generations. It has grown weighty over the years, and now, when that crater has crept across the common for 67 years and now that it has found its final rest, we are told that it's not to be. We are told that instead we must have a lake and that a 'twmp' as high as Swansea's town hall clock must remain in perpetuity. In Margam, a vast and accidental lake is the problem; in East Pit, we are told that it is the solution. The only difference I can see between the two cases is a reinforced eastern wall at the Cwmllynfell end of the site—a wall that will need to hold back tens of thousands of cubic litres of water and in whose integrity residents will have to place their faith for generation after generation; indeed, forever.

Those of us who have lived by this site for 67 years ask only for what we were promised. But now we are told that despite decades of coaling and despite the millions made from this mine, there is no money. As we say in Welsh, 'dyled ar bawb ei addewid'. Llywydd, the East Pit demonstrates, with a savage urgency, the need to protect communities from the consequences of opencasting. I am pleased to support this motion.

Mae'r etholaeth rwy'n ei chynrychioli wedi'i hadeiladu ar lo. Mae wedi diffinio ein gorffennol a bydd yn rhan o'n dyfodol. Yn y tymor hir, mae'n rhaid i ni symud tuag at ffynonellau ynni cynaliadwy, ac fe wnawn hynny, ond os profir bod technoleg dal carbon, fel yr hyn sy'n cael ei dreialu yng ngorsaf bŵer Aberddawan, yn hyfyw, yna efallai y gall glo barhau i bweru dyfodol glanach, gwyrddach i'n plant. Am y tro, mae yna lo yno i'w ennill ac mae bywoliaeth cannoedd o deuluoedd yn fy etholaeth yn dibynnu ar ei gloddio. Dywedaf hyn oll am fy mod yn dymuno bod yn gwbl glir: nid wyf yn gwrthwynebu cloddio cyfrifol ac ni fyddaf byth yn ei wrthwynebu, ond byddaf yn pleidleisio o blaid y cynnig hwn heddiw, ac rwyf am egluro pam. Naw mlynedd yn ôl, ysgrifennais at Weinidog yr amgylchedd, yn awgrymu camau gweithredu heb fynd mor bell â moratoriwm—rhagdybiaeth yn erbyn ceisiadau newydd i gloddio glo brig oni bai y gellid dangos yn glir y gellid diogelu cymunedau cyfagos yn ddigonol. Nid yw digwyddiadau dilynol ond wedi ategu fy nghred mai dyma oedd y ffordd briodol o weithredu. Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru yn adolygu MTAN 2. Unwaith eto, nid yw fy marn ar hyn wedi newid. Mae'r glustogfa 500m yn amddiffyniad angenrheidiol, ond mae angen i'r canllawiau ynglŷn â pha bryd y caniateir symud o fewn 500m fod yn llawer, llawer diriach nag y maent.

Rwyf hefyd yn hapus i gydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i gynghorau sy'n dymuno herio datblygwyr drwy'r llysoedd. Dyna fel y dylai pethau fod. Mae'r gystadleuaeth rhwng cwmnïau sy'n gallu talu £250,000 am farn un bargyfreithiwr ac awdurdodau lleol sy'n brin o arian yn frwydr rhwng Dafydd a Goliath. Nid yw ond yn iawn fod Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth a chefnogaeth—unrhyw gymorth a chefnogaeth o fewn ei gallu.

Y cysgod mawr dros ystyriaethau ynglŷn â'r mater hwn yw cloddfa lo brig East Pit. Agorodd y gloddfa lo brig gyntaf ar y safle ym 1948, fel y dywedais wrth y Siambur hon o'r blaen. Cawsom addewid bryd hynny y byddai'r tir yn cael ei adfer pan fyddai wedi'i gwblhau. Mae'r addewid hwnnw wedi cael ei ailadrodd wrth dair cenhedlaeth. Mae wedi trymhu dros y blynyddoedd, ac yn awr, wedi i'r crater grafu dros y comin am 67 o flynyddoedd, a'i fod bellach wedi dod i ddiwedd ei oes, dywedir wrthym na fydd hynny'n digwydd. Dywedir wrthym, yn lle hynny, fod yn rhaid i ni gael llyn a bod yn rhaid i 'dwmp' cyfuch â chloc neuadd tref Abertawe barhau am byth. Ym Margam, llyn enfawr a damweiniol yw'r broblem; yn East Pit, dywedir wrthym mai dyna'r ateb. Yr unig wahaniaeth y gallaf ei weld rhwng y ddau achos yw'r wal gyfnerth ddwyreiniol ar ben Cwmllynfell i'r safle—wal y bydd angen iddi ddal degau o filoedd o litrau ciwbig o ddŵr ac y bydd yn rhaid i drigolion roi eu ffydd ynddi o genhedlaeth i genhedlaeth; am byth, yn wir.

Nid yw'r rhai ohonom sydd wedi byw ger y safle ers 67 o flynyddoedd ond yn gofyn am yr hyn a addawyd i ni. Ond yn awr dywedir wrthym nad oes unrhyw arian er gwaethaf degawdau o gloddio ac er gwaethaf y miliynau a wnaed o'r gloddfa hon. Fel y mae'r dywediad Cymraeg yn ei ddweud, 'dyled ar bawb ei addewid'. Lywydd, mae East Pit yn dangos, fel mater o frys eithafol, yr angen i amddiffyn cymunedau rhag canlyniadau cloddio glo brig. Mae'n bleser gennyf gefnogi'r cynnig hwn.

Can I join with my colleague Gwenda Thomas in highlighting that it is important that we recognise the importance of coal to the economy of Wales, both historically and currently, and also of the other heavy industries in Wales because, as many know, the Port Talbot steelworks are in my constituency and it uses a large amount of coal? It is an industry that has employed many people and provides for their families. However, the question now, as we move to a reduced carbon emissions agenda and greater use of renewable energies, is: how can we extract the coal that will still be required in the future for some of these industries? That process is what we are debating today.

The debate looks at the future of the applications and the planning authorities and how they will work, but we need to look back at the history to give us guidance on opencast mining, how the developers have acted and the likely consequences that will arise as a consequence.

Lynne Neagle highlighted both the good practices and the bad practices that we see, and I will focus on the latter in the Parc Slip site. The site has been operating since 1947, but it currently straddles two county borough areas, and that is one of the difficulties as we have two planning authorities involved. In 1994, the ownership was transferred under the Coal Industry Act of 1994 from British Coal to a private company, and the then Tory Government actually didn't ensure that restoration funds would be protected and guaranteed. Indeed, in fact, they got a 10-year bond holiday in that transfer.

The Act also gave the department of trade and its successors powers to ensure full continuity of British Coal's obligations to successor companies and it is a shame that that has not been enacted in that time.

Now, I highlight these points because there is a clear role for both Westminster and other devolved bodies in this aspect, particularly highlighting where we can find funds from, because it is not a Wales-only issue; it is a UK issue that covers opencast mining across the United Kingdom. After 7 May, whichever new Government is in power—I obviously have hopes of a Labour Government—I will work with my parliamentary colleagues to see how we can actually work in Westminster to actually access some of the funds, because there were levies put on, and we still don't know what happened to those levies as a consequence of that Act. However, we have a blight and a hazard in Margam. Mining ceased in 2008, leaving a huge void and many dangers. Following Celtic Energy's failure to win approval for further mining, the site was left derelict, and we have seen the void filled with water to depths in excess of 50m. Effectively, restoration was ignored and, subsequently, dangers exist to the public. That is something that we should not have allowed to happen and we should not let continue.

A gaf fi ymuno â fy nghyd-Aelod Gwenda Thomas i nodi ei bod yn bwysig i ni gydnabod pwysigrwydd glo i economi Cymru, yn hanesyddol ac yn gyfredol, ynghyd â phwysigrwydd y diwydiannau trwm eraill yng Nghymru oherwydd, fel y gwŷr llawer, mae gwaith dur Port Talbot yn fy etholaeth ac mae'n defnyddio llawer iawn o lo? Mae'n ddiwydiant sydd wedi cyflogi nifer o bobl ac sy'n darparu ar gyfer eu teuluoedd. Fodd bynnag, y cwestiwn yn awr, wrth inni symud at agenda ar gyfer lleihau allyriadau carbon a mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy, yw hwn: sut y gallwn gloddio'r glo y bydd ei angen o hyd yn y dyfodol ar gyfer rhai o'r diwydiannau hyn? Y broses honno yw'r hyn rydym yn ei drafod heddiw.

Mae'r ddadl hon yn edrych ar ddyfodol ceisiadau a'r awdurdodau cynllunio a sut y byddant yn gweithio, ond mae angen i ni edrych yn ôl ar yr hanes i roi arweiniad i ni ar gloddio glo brig, sut y mae'r datblygwyr wedi gweithredu a'r canlyniadau tebygol a fydd yn codi o ganlyniad i hynny.

Amygodd Lynne Neagle yr arferion da a'r arferion gwael a welwn, a byddaf yn canolbwyntio ar yr arferion gwael ar safle Parc Slip. Mae'r safle wedi bod yn weithredol ers 1947, ond ar hyn o bryd mae'n pontio dwy ardal fwrdeistref sirol, a dyna un o'r anawsterau gan fod dau awdurdod cynllunio ynghlwm wrth hyn. Ym 1994, trosglwyddodd y berchnogaeth o dan Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 oddi wrth Gorfforaeth Glo Prydain i gwmni preifat, ac ni sicrhodd y Llywodraeth Doriaidd ar y pryd y byddai cronfeydd adfer yn cael eu diogelu a'u gwarantu. Mewn gwirionedd, cawsant fod yn rhydd o'r bond am 10 mlynedd yn sgil y trosglwyddiad.

Hefyd rhoddodd y Ddeddf bŵer i'r adran fasnach a'i hollynwyr sicrhau bod rhwymedigaethau Glo Prydain yn parhau i gwmnïau olynol ac mae'n drueni nad yw hynny wedi cael ei weithredu ar yr adeg honno.

Nawr, rwy'n tynnu sylw at y pwyntiau hyn gan fod rôl glir i San Steffan a chyrrff datganoledig eraill yn hyn o beth, yn enwedig o ran amlygu lle y gallwn ddod o hyd i arian, oherwydd nid mater i Gymru'n unig yw hwn; mae'n fater i'r DU sy'n ymgorffori cloddio glo brig ledled y Deyrnas Unedig. Ar ôl 7 Mai, pa Lywodraeth bynnag a ddaw i rym—rwy'n obeithiol mai Llywodraeth Lafur fydd hi wrth gwrs—byddaf yn gweithio gyda fy nghydweithwyr seneddol i weld sut y gallwn weithio yn San Steffan i gael gafael ar rai o'r cronfeydd, oherwydd cafodd ardollau eu gosod, ac nid ydym eto'n gwybod beth a ddigwyddodd i'r ardollau o ganlyniad i'r Ddeddf honno. Fodd bynnag, mae gennym falltod a pherygl ym Margam. Daeth y cloddio i ben yn 2008, gan adael gwagle anferth a nifer o beryglon. Yn dilyn methiant Celtic Energy i ennill cymeradwyaeth ar gyfer cloddio pellach, gadwyd y safle'n ddiffaith, ac rydym wedi gweld y gwagle'n llenwi â dŵr hyd at ddyfnder o dros 50m. I bob pwrpas, anwybyddwyd y gwaith adfer, ac yn dilyn hynny, mae peryglon i'r cyhoedd. Mae hynny'n rhywbeth na ddylem fod wedi caniatáu iddo ddigwydd ac na ddylem adael iddo barhau.

The local authority had developed a restoration scheme but, to date, it has failed to enforce any restoration. I note their continual argument on funding and the possibility of pushing the owners or operators into liquidation. We also know that, in this particular site, there was a transfer of ownership from the original owners, but now the operators, to an offshore company in the Virgin Islands, and that creates more problems and has difficulties when we're trying to enforce, because who do you enforce against? Now, we must support local authorities and local residents in this, so that the residents are not left with both a physical and an environmental danger.

Minister, I welcome the Welsh Government's approaches to end TAN 2 as well as far as planning's concerned, but I have concerns over the buffer zone and the word 'settlement' in that aspect, and I would ask you to look at the word 'settlement', to change it to 'property', which I think is far more important.

Minister, private companies have come in, they've applied to opencast mine, they've mined, they've taken the profits. They then leave without meeting their restoration obligations. Local communities suffer the pollution and the blight, and William Powell highlighted various issues relating to the environmental aspects that these communities are suffering. They are left with hazards and fears; dangers to young people. It's not right, it's not acceptable, and we need to act to support our communities. Minister, I hope you will.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu cynllun adfer, ond hyd yn hyn, mae wedi methu gorfodi unrhyw waith adfer. Nodaf eu dadl barhaus ynghylch cyllid a'r posibilrwydd o wthio'r perchnogion neu'r gweithredwyr i fynd yn fethdalwyr. Gwyddom hefyd, ar y safle penodol hwn, fod perchnogaeth wedi trosglwyddo oddi wrth y perchnogion gwreiddiol, ond y gweithredwyr erbyn hyn, i gwmni tramor ar Ynysoedd y Wryf, ac mae hynny'n creu mwy o broblemau ac anawsterau wrth geisio gorfodi, oherwydd yn erbyn pwy rydych chi'n rhoi camau gorfodi ar waith? Nawr, mae'n rhaid i ni gynorthwyo awdurdodau lleol a thrigolion lleol yn hyn, fel nad oes perygl corfforol ac amgylcheddol i'r trigolion.

Weinidog, croesawaf y modd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i roi terfyn ar TAN 2 a hefyd o ran cynllunio, ond mae gennyf bryderon ynghylch y glustogfa a'r gair 'anheddiad' yn hynny o beth, a byddwn yn gofyn i chi edrych ar y gair 'anheddiad', i'w newid i 'eiddo', sy'n llawer pwysicach yn fy marn i.

Weinidog, mae cwmnïau preifat wedi dod i mewn, maent wedi cyflwyno ceisiadau cloddio glo brig, maent wedi cloddio, maent wedi mynd â'r elw. Yna maent yn gadael heb fodloni eu rhwymedigaethau i adfer y tir. Mae cymunedau lleol yn dioddef y llygredd a'r malltod, a thynnodd William Powell sylw at amryw o faterion yn ymwneud â'r agweddau amgylcheddol y mae'r cymunedau hyn yn eu dioddef. Cânt eu gadael i wynebu peryglon ac ofnau; peryglon i bobl ifanc. Nid yw hyn yn iawn, nid yw'n dderbyniol, ac mae angen i ni weithredu i gefnogi ein cymunedau. Weinidog, gobeithiaf y byddwch yn gwneud hynny.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Natural Resources to speak on behalf of the Government—Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i siarad ar ran y Llywodraeth—Carl Sargeant.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:52 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Thank you, Presiding Officer. Very helpful information from Members across the Chamber this afternoon. Coal extraction is clearly a very emotive issue, and whilst I acknowledge that the context for the request for a moratorium is a strategic issue, my comments this afternoon relate to general matters and are not related in any way to any specific site or application.

Diolch, Lywydd. Cafwyd gwybodaeth ddefnyddiol iawn gan yr Aelodau ar draws y Siambr y prynhawn yma. Mae cloddio am lo yn amlwg yn fater emosynol iawn, ac er fy mod yn cydnabod bod y cyd-destun ar gyfer y cais am foratoriwm yn fater strategol, mae fy sylwadau y prynhawn yma yn ymwneud â materion cyffredinol ac nid ydynt yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd ag unrhyw safle neu gais penodol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The first motion asks that I instigate a moratorium on opencast coal, and whilst I am sympathetic to the Member's call, this will not help resolve the situation that we find ourselves in. Nor will it help us secure effective restoration across Wales. The situation presents different challenges from those raised by the fracking debate. Fracking is a new industry and, by contrast, the coal industry is a mature one, as indeed colleagues have referenced here this afternoon. This is deeply embedded in our communities and, indeed, our landscape. There are current operations and live planning applications, which are interlinked in a very complex way, as Dai Rees and others have alluded to. It would be unreasonable not to acknowledge that these very difficult challenges that we face on opencast coal would still be there even if we were able to introduce this moratorium. It is something that we need to think of very carefully.

The biggest part and the most emotive problems we now face are a direct result, I believe, of actions of a previous UK Government, who privatised the coal industry without adequate consideration of the future effects on our communities. This ill-conceived, market-driven policy has wrought uncertainty and environmental blight on our communities, with the financial bonding provisions to restore sites in several cases being shamefully inadequate. As a direct result of privatisation, commercial companies now enjoy—

Peter Black a gododd—

Mae'r cynnig cyntaf yn gofyn i mi gyflwyno moratoriwm ar gloddio glo brig, ac er fy mod yn cydymdeimlo â galwad yr Aelod, ni fydd hyn yn helpu i ddatrys ein sefyllfa. Ni fydd ychwaith yn ein helpu i sicrhau gwaith adfer effeithiol ledled Cymru. Mae'r sefyllfa'n cyflwyno heriau gwahanol i'r rhai a godwyd yn y ddadl ynglŷn â ffracio. Mae ffracio'n ddiwydiant newydd, ac mewn cyferbyniad, mae'r diwydiant glo yn un aeddfed, fel y mae fy nghyd-Aelodau wedi'i nodi yma y prynhawn yma. Mae'n rhan annatod o'n cymunedau, ac o'n tirwedd, yn wir. Ar hyn o bryd mae gweithrediadau a cheisiadau cynllunio byw, sy'n gydgysylltiedig mewn modd cymhleth iawn, fel y mae Dai Rees ac eraill wedi ei grybwyll. Byddai'n afresymol peidio â chydabod y byddai'r heriau anodd iawn a wynebwn ynghylch cloddio glo brig yn dal yno hyd yn oed pe gallem gyflwyno'r moratoriwm hwn. Mae'n rhywbeth y mae angen i ni feddwl yn ofalus iawn yn ei glych.

Mae'r rhan fwyaf o'r problemau a'r rhai mwyaf emosiynol a wynebwn bellach yn deillio'n uniongyrchol, rwy'n credu, o weithredoedd un o Lywodraethau blaenorol y DU, a breifateiddiodd y diwydiant glo heb ystyriaeth ddigonol o'r effeithiau ar gymunedau'r dyfodol. Mae'r polisi annoeth hwn, a yrrwyd gan y farchnad, wedi peri ansicrwydd a mallod amgylcheddol i'n cymunedau, ac mae'r darpariaethau ar gyfer bondiau ariannol i adfer safleoedd yn warthus o annigonol mewn sawl achos. O ganlyniad uniongyrchol i breifateiddio, mae cwmnïau masnachol yn awr yn mwynhau—

Peter Black rose—

- 14:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Are you taking an intervention? A ydych yn derbyn ymyriad?
- 14:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
In a little while, I will. As a direct result of privatisation, commercial companies now enjoy many of the rights afforded to state-owned enterprises whilst retaining very little by way of safeguards. I will take an intervention. Fe wnaif yn y man. O ganlyniad uniongyrchol i breifateiddio, mae cwmnïau masnachol yn awr yn mwynhau llawer o'r hawliau a roddir i fentrau'r wladwriaeth ond ychydig iawn o fesurau diogelu sy'n cael eu cynnal ganddynt. Fe dderbyniaf ymyriad.
- 14:55 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the Minister for giving way. I don't dispute that one of the problems with restoration is down to the way that the coal industry was privatised, and the legislation that took place under the previous Government. However, other Governments, in Scotland in particular, are pursuing the UK Government for funds to try to get restoration of these sites, such as Margam, such as East Pit, in my own region. Will you join them in actually doing the same thing—in actually pursuing UK Government Ministers after the general election to see whether they will help fund those restorations? Diolch i'r Gweinidog am ildio. Nid wyf yn amau fod un o'r problemau gydag adfer yn ymwneud â'r ffordd y preifateiddiwyd y diwydiant glo, a'r ddeddfwriaeth a ddigwyddodd o dan y Llywodraeth flaenorol. Fodd bynnag, mae Llywodraethau eraill, yn yr Alban yn arbennig, yn pwyso ar Lywodraeth y DU am arian i geisio adfer safleoedd fel Margam, fel East Pit, yn fy rhanbarth fy hun. A wnewch chi ymuno â hwy i wneud yr un peth—mynd ati i bwysu ar Weindogion Llywodraeth y DU wedi'r etholiad cyffredinol i weld a ydynt yn mynd i helpu i ariannu'r gwaith adfer?
- 14:55 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
If you let me continue, I will bring, hopefully, a smile to the Member's face. Os gadewch i mi barhau, fe ddof â gwên i wyneb yr Aelod, gobeithio.

Before privatisation, south Wales had a set of local Acts that provided financial security and minimised risks. Privatisation swept them aside by putting local planning authorities on the back foot. I will act in the best interests of the public and those directly affected by the coal industry, as well as the taxpayer. The UK Government cannot shirk its responsibilities in this context, regardless of which party is in power.

Turning to the second point of the motion, the purpose of the national planning policy and technical advice notes in relation to minerals is to ensure that a proper balance is achieved between the prudent use of resources and the protection of amenity and the environment. 'Mineral Planning Policy Wales' and MTAN 2 outline how this should be done in relation to opencast mining. Indeed, MTAN 2 is wide-ranging in its coverage, including restoration, buffer zones, health impact assessments and public involvement, and I know that Lynne Neagle has been through MTAN 2 on many occasions and often alludes to that in the corridors of this place. She is a very vociferous campaigner, as many of her colleagues are in this Chamber, too. Our policy makes it very clear that future restoration is an essential consideration when planning applications are determined. Since the privatisation moratorium was lifted, restoration finance is accumulating in line—

David Rees a gododd—

Cyn preifateiddio, roedd gan dde Cymru set o Ddeddfau lleol a oedd yn rhoi sicrwydd ariannol ac yn lleihau risgiau. Cafodd preifateiddio wared arnynt drwy gadw awdurdodau cynllunio lleol ar y droed ôl. Byddaf yn gweithredu er lles y cyhoedd a'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y diwydiant glo, yn ogystal â'r trethdalwr. Ni all Llywodraeth y DU osgoi ei chyfrifoldebau yn y cyd-destun hwn, pa blaid bynnag sydd mewn grym.

Gan droi at ail bwynt y cynnig, pwrpas y polisi cynllunio cenedlaethol a'r nodiadau cyngor technegol mewn perthynas â mwynau yw sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y defnydd doeth o adnoddau a diogelu amwynder a'r amgylchedd. Mae 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' a MTAN 2 yn amlinellu sut y dylid gwneud hyn mewn perthynas â chloddio glo brig. Yn wir, mae MTAN 2 yn eang ei gwmpas, ac yn cynnwys adfer, clustogfeydd, asesiadau o'r effaith ar iechyd a chyfranogiad y cyhoedd, a gwn fod Lynne Neagle wedi bod drwy MTAN 2 ar sawl achlysur ac yn aml yn cyfeirio at hynny yng nghoridorau'r lle hwn. Mae hi'n ymgyrchydd croch iawn, fel llawer o'i chyd-Aelodau yn y Siambr hon. Mae ein polisi yn ei gwneud yn gwbl glir fod adfer yn y dyfodol yn ystyriaeth hanfodol wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Ers i'r moratoriwm ar breifateiddio gael ei godi, mae cyllid adfer yn cronni yn unol—

David Rees rose—

- 14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I think that he'll take an intervention in a moment. Credaf y bydd yn derbyn ymyriad mewn munud.
- 14:57 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Continues.]—with planning conditions imposed. [Yn parhau.]—â'r amodau cynllunio a osodwyd.
- 14:57 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for taking the intervention. You mentioned that restoration should be guaranteed. Would you agree with me that there needs to be some upfront guarantee, because the problem is, with Margam, the escrow account actually currently holds £5.7 million when we anticipate that the full cost of restoration is nearly £100 million. Therefore, there needs to be an upfront guarantee bond. Diolch am dderbyn yr ymyriad. Fe sonioch y dylai gwaith adfer gael ei warantu. A fydddech yn cytuno bod angen cael rhyw warrant ymlaen llaw, oherwydd y broblem gyda Margam yw bod £5.7 miliwn yn y cyfrif ysgrow ar hyn o bryd, ond rhagwelwn y bydd y gost lawn ar gyfer adfer bron yn £100 miliwn. Felly, mae angen bond gwarant ymlaen llaw.
- 14:57 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
As the Member will know, I can't comment on any particular application, but the coal restoration report includes a recommendation for a review of MTAN 2 in relation to the accumulation and management of bonds. I intend to undertake a focused review on these elements to ensure that, during the course of an operation, there is not a greater liability than the value of the bond at any time. I've met with the coal authority, who are already supporting three local planning authorities. Their help has resulted in an increase in the value of the bond held. I'll be asking them to prepare further detailed guidance on assessing restoration liabilities, risks and bonding arrangements on active sites. MTAN 2 is also clear that the track record of an operator should be taken into account when considering extensions to sites. Fel y gŵyr yr Aelod, ni allaf roi sylwadau ynglŷn ag unrhyw gais penodol, ond mae'r adroddiad ar adfer gweithfeydd glo yn cynnwys argymhelliad i adolygu MTAN 2 mewn perthynas â chronni a rheoli bondiau. Bwriadaf gynnal adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr elfennau hyn i sicrhau, yng nghwrs gweithrediad, nad oes mwy o rwmedigaeth na gwerth y bond ar unrhyw adeg. Rwyf wedi cwrdd â'r awdurdod glo, sydd eisoes yn cefnogi tri awdurdod cynllunio lleol. Mae eu cymorth wedi arwain at gynnydd yng ngwerth y bond a ddelir. Byddaf yn gofyn iddynt baratoi canllawiau manwl pellach ar asesu atebolrwydd, risgiau a threfniadau bondio gwaith adfer ar safleoedd gweithredol. Mae MTAN 2 hefyd yn glir y dylid ystyried hanes gweithredydd wrth ystyried estyniadau i safleoedd.

The buffer zone policy in MTAN 2 is another area for debate. I can see the simplicity of the fixed buffer approach, but the complexities around this that we face are numerous. Many south Wales Valleys communities are built on coal, and so many still lie very close to both the coal resource and the unwanted legacy around that. What we cannot do is take action that results in restoration solutions being taken off the table, and we need some flexibility going forward to work with stakeholders to find solutions.

Turning to the last point of the motion—supporting local authorities to make legal challenges—we have and we will continue to make available support to deliver their planning services. The new proposals I've outlined today will also assist local planning authorities in their conclusions.

In conclusion for my contribution, Presiding Officer, the flawed business model that has resulted directly, I believe, from privatisation is now apparent, particularly as the market for coal has declined. Therefore, I demand that the UK Government resolves the situation that privatisation has created. I will be undertaking a focused review of MTAN 2, and I am also asking the coal authority to continue their work with local authorities and prepare further advice for me. I'm very proud of the fact that the Well-being of Future Generations (Wales) Bill has just cleared its final hurdle to become an Act, and the Act is about balancing the needs of communities, the environment and the economy. Opencast clearly impacts on all three. We need to find a way forward that takes proper account of the jobs that the industry provides, the needs of local communities, and the protection of our landscapes. That's why I will be convening a summit for the key stakeholders shortly, with a view to developing a very distinct Welsh opportunity and control around opencast. I look forward to the support of Members when I take these events forward. Diolch yn fawr.

Mae'r polisi clustogfeydd yn MTAN 2 yn faes arall i'w drafod. Gallaf weld symlrwydd gosod clustogfa benodol, ond mae'r cymhlethdodau sy'n ein hwynebu ynghylch hyn yn niferus. Mae llawer o gymunedau Cymoedd y de wedi eu hadeiladu ar lo, ac felly mae llawer yn dal i fod yn agos iawn at yr adnodd glo a'r hyn a adawyd ar ôl ynghlwm wrth hynny nad oes neb ei eisiau. Yr hyn na allwn ei wneud yw rhoi camau ar waith sy'n arwain at ddiystyru atebion ar gyfer adfer, ac mae angen rhywfaint o hyblygrwydd wrth symud ymlaen i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn dod o hyd i atebion.

Gan droi at bwynt olaf y cynnig—cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud heriau cyfreithiol—rydym wedi sicrhau bod cymorth ar gael i ddarparu eu gwasanaethau cynllunio, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Hefyd, bydd y cynigion newydd a amlinellais heddiw yn cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol gyda'u penderfyniadau.

I gloi fy nghyfraniad, Lywydd, mae'r model busnes diffygiol sy'n ganlyniad uniongyrchol i breifateddio yn fy marn i, yn amlwg erbyn hyn, yn enwedig gan fod y farchnad lo wedi lleihau. Felly, rwy'n mynnu bod Llywodraeth y DU yn datrys y sefyllfa y mae preifateiddio wedi'i chreu. Byddaf yn cynnal adolygiad â ffocws pendant o MTAN 2, ac rwyf hefyd yn gofyn i'r awdurdod glo barhau â'u gwaith gydag awdurdodau lleol a pharatoi cyngor pellach ar fy nghyfer i. Rwy'n falch iawn o'r ffaith fod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) newydd groes i'r bont olaf i ddod yn Ddeddf, ac mae'r Ddeddf yn ymwneud â chybwyso anghenion cymunedau, yr amgylchedd a'r economi. Mae'n amlwg fod cloddio glo brig yn effeithio ar bob un o'r tri. Mae angen i ni ddod o hyd i ffordd ymlaen sy'n rhoi ystyriaeth briodol i'r swyddi y mae'r diwydiant yn eu darparu, anghenion cymunedau lleol, a diogelu ein tirweddau. Dyna pam y byddaf yn cynnal uwchgynhadledd i'r rhanddeiliaid allweddol cyn bo hir, gyda golwg ar ddatblygu cyfle unigryw iawn i Gymru a rheolaeth ar gloddio glo brig. Edrychaf ymlaen at gefnogaeth yr Aelodau pan fyddaf yn mynd ati i gynnal y digwyddiadau hyn. Diolch yn fawr.

15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Bethan Jenkins to reply to the debate.

Galwaf ar Bethan Jenkins i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:00 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Thank you to all those who have taken part in the debate, including, of course, the core proposers, Lynne Neagle, Bill Powell and William Graham—and for your efforts in making this happen. It is refreshing at a time of election to be able to work on a cross-party basis. I'd also like to thank some of the campaigners from Merthyr, Torfaen, Kenfig Hill, Margam and Cwmllynfell who have come down today. Sorry if I've missed any names out, but it's important that you've come to listen.

Diolch yn fawr. Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl, gan gynnwys y cynigwyr gwreiddiol wrth gwrs, Lynne Neagle, Bill Powell a William Graham—ac am eich ymdrechion i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mewn cyfnod etholiadol, mae'n braf gallu gweithio ar sail drawsbleidiol. Hoffwn hefyd ddiolch i rai o'r ymgyrchwyr o Ferthyr, Torfaen, Mynydd Cynffig, Margam a Chwmllynfell sydd wedi dod i lawr heddiw. Mae'n ddrwg gennyf os ydw i wedi anghofio rhywun, ond mae'n bwysig eich bod wedi dod i wrando.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

This debate has proven that there is a huge concern and a real depth of feeling about opencast mining. It really is time that we put in place a fit-for-purpose system that controls and regulates opencast mining to the satisfaction of the people who live close to them. This is crucial, and it has to be done here in Wales. This country is unique. It's not like Scotland where the coal is miles from communities. Our constituents live cheek by jowl with these pits.

I'll turn to the contributions in a moment, but let me first outline why I think the moratorium is important, contrary to the Minister's belief. We need to use this time to put in place further safeguards, some of which we've already heard about and some that I will outline now. I want this to be a constructive contribution, and I would ask the Minister that he carefully considers the following ideas.

Firstly, implement the findings of the Welsh Government-commissioned research into the failure to restore opencast sites in south Wales, published over a year ago. It's not a perfect document—I particularly don't like the way in which it pities the developer and hardly makes any mention of communities—but I fully support its call to reform and strengthen the MTAN. There can't be a credible voice that suggests these guidelines are regarded as effective in protecting communities, and we've heard that already today.

Secondly, the Welsh Government should create and run a mineral planning centre of excellence in Wales, providing a platform for planning authorities, academics and communities and their representatives to interact and share good practice. It should also support local authorities, financially and technically, in bringing enforcement action against opencast companies found to be in breach of planning conditions.

Thirdly, create an ex-miners' liaison panel for every pit in Wales. This would create forums of former colliers, engineers and other mining trades to provide both technical insight, often not found among planning officers, as well as providing informed assessments on the impact of opencast mining in the communities that they still live in. I've said time and again in these debates, communities have had to become specialists in their area because of the fact that certain planning officers may not have the specialisms themselves. [Interruption.]

I'm sorry, is there a—?

Mae'r ddadl hon wedi profi bod pryder enfawr a theimlad gwirioneddol ddwfn ynglŷn â chloddio glo brig. Mae'n hen bryd i ni sefydlu system addas i'r diben sy'n rheoli ac yn rheoleiddio cloddio glo brig er boddhad y bobl sy'n byw yn agos atynt. Mae hyn yn hanfodol, ac mae'n rhaid iddo gael ei wneud yma yng Nghymru. Mae'r wlad hon yn unigryw. Nid yw fel yr Alban lle y mae miltiroedd rhwng y cymunedau a'r glo. Mae ein hetholwyr yn byw wrth ymyl y pyllau hyn.

Trof at y cyfraniadau yn y man, ond gadewch imi amlinellu'n gyntaf pam y credaf fod y moratorium yn bwysig, yn groes i'r hyn y cred y Gweinidog. Mae angen i ni ddefnyddio'r amser hwn i roi mesurau diogelwch pellach ar waith, rhai rydym eisoes wedi clywed amdanynt a rhai rwyf am eu hamlinellu yn awr. Rwyf am i hwn fod yn gyfraniad adeiladol, a gofynnaf i'r Gweinidog ystyried y syniadau canlynol yn ofalus.

Yn gyntaf, gweithredu canfyddiadau'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r methiant i adfer safleoedd cloddio glo brig yn ne Cymru a gyhoeddwyd dros flwyddyn yn ôl. Nid yw'n ddogfen berffaith—yn benodol, nid wyf yn hoff o'r ffordd y mae'n cydymdeimlo â'r datblygwr a phrin yn sôn am gymunedau—ond rwy'n llwyr gefnogi'r alwad i ddiwygio a chryfhau'r MTAN. Ni all fod llais credadwy yn unman sy'n awgrymu bod y canllawiau hyn yn cael eu hystyried yn effeithiol o ran diogelu cymunedau, ac rydym wedi clywed hynny eisoes heddiw.

Yn ail, dylai Llywodraeth Cymru greu a rhedeg canolfan ragoriaeth ar gyfer cynllunio mwynau yng Nghymru, gan ddarparu llwyfan ar gyfer awdurdodau cynllunio, academyddion a chymunedau a'u cynrychiolwyr i ryngweithio a rhannu arferion da. Dylai hefyd gynorthwyo awdurdodau lleol, yn ariannol ac yn dechnegol, i ddwyn camau gorfodi yn erbyn cwmnïau glo brig y gwelir eu bod yn torri amodau cynllunio.

Yn drydydd, creu panel cyswllt i gyn-lowyr ar gyfer pob pwll yng Nghymru. Byddai hyn yn creu fforymau o gyn-lowyr, peirianwyr a chrefftau mwynloddio eraill i ddarparu mewnwleidiad technegol, nad yw i'w weld yn aml ymhlith swyddogion cynllunio, yn ogystal â darparu asesiadau gwybodus ar effaith cloddio glo brig ar y cymunedau y maent yn dal i fyw ynddynt. Rwyf wedi dweud dro ar ôl tro yn y dadleuon hyn fod cymunedau wedi gorfod dod yn arbenigwyr yn eu meysydd am nad yw rhai o'r swyddogion cynllunio eu hunain yn meddu ar arbenigedd o'r fath o bosibl. [Torri ar draws.]

Mae'n ddrwg gen i, a oes—?

15:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You should be addressing the Chamber, not the public gallery. Go on. Carry on.

Dylech fod yn siarad â'r Siambr, nid yr oriel gyhoeddus. Ewch ymlaen. Parhewch.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:03 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry.

Mae'n ddrwg gen i.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Fourthly, compel local—. I thought it was good that we had people in to watch debates. I'm sorry.

Yn bedwerydd, annog—. Roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n beth da fod gennym bobl yn gwyllo'r trafodaethau. Mae'n ddrwg gen i.

15:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, it is. It's wonderful, but you speak to the Members.

Ydy. Mae'n wych, ond rydych yn siarad â'r Aelodau.

15:03 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fourthly, compel local authorities responsible for areas where there is opencast mining to retain mineral planning officers. It cannot be right that Neath Port Talbot County Borough Council, which has four pits either wholly or partly within its boundaries, has no such officer or post at present dedicated to taking responsibility for them.

Yn bedwerydd, annog awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ardaloedd gyda chloddfeydd glo brig i gadw swyddogion cynllunio mwynau. Ni all fod yn iawn nad oes swyddog neu swydd o'r fath gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd i fod yn gyfrifol am y pedwar pwell sydd naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ei ffiniau.

Fifth, we should support opencast companies and those in the industry to retrain and move towards renewables, as William Powell was saying. This forms part of our, as a party, wider thinking in moving away from fossil fuels while ensuring those dependent upon them are not left workless. The party's proposals for a green skills college in the Valleys, contained in our 2015 manifesto, would provide a good example here of what is possible. As an Assembly, we should look to amend forthcoming planning legislation so that the economic and wellbeing needs of communities are prioritised over companies who apply to opencast. At present, there is a strong argument that the law works in favour of the applicant.

Yn bumed, dylem gefnogi cwmnïau glo brig a phobl yn y diwydiant i ailhyfforddi a symud tuag at ynni adnewyddadwy, fel y dywedodd William Powell. Mae hyn yn rhan o'n meddylfryd ehangach, fel plaid, o ran ymbellhau oddi wrth danwyddau ffosil gan sicrhau ar yr un pryd nad yw'r rhai sy'n dibynnu arnynt yn cael eu gadael heb wait. Byddai argymhellion y blaid am goleg sgiliau gwyrdd yn y Cymoedd, sydd wedi eu cynnwys yn ein maniffesto ar gyfer 2015, yn enghraifft dda o'r hyn sy'n bosibl. Fel Cynulliad, dylem geisio diwygio'r ddeddfwriaeth gynllunio sydd ar y ffordd fel bod anghenion economaidd a lles cymunedau yn cael eu blaenoriaethu dros gwmnïau sy'n cyflwyno ceisiadau cloddio glo brig. Ar hyn o bryd, ceir dadl gref fod y gyfraith yn gweithio o blaid y ceisydd.

We could also consider whether companies that apply to mine coal should be forced to own the land they're working on. As challenging as this may be, it would avoid the restoration impasse we are currently facing at Parc Slip.

Gallem hefyd ystyried a ddylai cwmnïau sy'n cyflwyno cais cloddio glo gael eu gorfodi i fod yn berchen ar y tir y maent yn gweithio arno. Er y gallai hon fod yn her fawr, byddai'n osgoi'r cyfyngder rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd mewn perthynas â gwaith adfer ym Mharc Slip.

I think what I'd like to do is go through some of the comments that AMs have raised directly here, starting with Lynne Neagle. Of course, you have been vociferous in your challenge of the situation in Varteg, and I hold my hand up to that. It's certainly very hard to do, sometimes, when you're faced with so many barriers, especially when you have a second application that probably mirrors the application that you first had. I think that you're right to say, actually, that the MTAN is not delivering for the people you represent. The interpretation of the guidance varies so significantly that we cannot really exist in a situation where it's not amended and reviewed in the future.

Rwy'n credu mai'r hyn yr hoffwn ei wneud yw mynd drwy rai o'r sylwadau y mae'r ACau wedi eu codi yma'n uniongyrchol, gan ddechrau gyda Lynne Neagle. Wrth gwrs, rydych wedi bod yn herio'r sefyllfa yn y Farteg yn groch, ac rwy'n parchu hynny. Mae'n sicr yn anodd iawn gwneud hynny, weithiau, pan fo cymaint o rwystrau'n eich wynebu, yn enwedig pan fo ail gais yn ôl pob tebyg yn adlewyrchu'r cais cyntaf. Rwy'n credu eich bod yn iawn i ddweud, mewn gwirionedd, nad yw'r MTAN yn cyflawni ar gyfer y bobl rydych yn eu cynrychioli. Mae'r dehongliadau o'r canllawiau yn amrywio mor sylweddol fel na allwn barhau heb ei ddiwygio a'i adolygu yn y dyfodol.

I liked your quote, which was about shady offshore companies, as well. At the moment—and I speak to people on a daily basis about this situation—it's very, very hard to hold a company like Oak Regeneration to account when they have those finances in the British Virgin Islands. As for Celtic Energy, yes, we can scrutinise them, but they are the operator in this situation, and so they will not take responsibility for what Oak Regeneration is doing. I met with Will Watson, who is now the chief exec of Celtic Energy, and he acknowledged that that was a very difficult situation to have happened, but if they knew that this was going to happen and we couldn't scrutinise them, then why did they do it? Because they didn't want to restore, did they? That's the elephant in the room.

Roeddwn i'n hoff o'ch dyfyniad, a oedd yn ymwneud hefyd â chwmnïau tramor amheus. Ar hyn o bryd—ac rwy'n siarad â phobl yn ddyddiol ynglŷn â'r sefyllfa hon—mae'n anodd iawn, iawn dwyn cwmni fel Oak Regeneration i gyfrif pan fo'r arian ganddynt yn Ynysoedd y Wryf. Ynglŷn â Celtic Energy, gallwn, fe allwn graffu, ond hwy yw'r gweithredydd yn y sefyllfa hon, ac felly ni fyddant yn cymryd cyfrifoldeb dros yr hyn y mae Oak Regeneration yn ei wneud. Cyfarfûm â Will Watson, sydd bellach yn brif weithredwr Celtic Energy, ac roedd yn cydnabod bod honno'n sefyllfa anodd iawn, ond os oeddent yn gwybod bod hyn yn mynd i ddiwydd ac na allem graffu arnynt, yna pam y gwnaethant hynny? Am nad oeddent yn awyddus i adfer, dyna pam. Dyna'r elfiant yn yr ystafell.

William Graham, of course, you emphasised the fact that you wouldn't want a complete ban. I suppose we would be different in that regard, but I do agree with your comments that appropriate weight needs to be given in terms of where we enforce the buffer zone and how the needs of the local people are paramount. It must be truly, demonstrably exceptional. I think that was the whole debate that we had, wasn't it, over the MTAN? The exceptions are so broad that you could justify quite a lot of things. In relation to economic development, it would fall into that bracket, would it not, in many situations? So, that needs to be tightened up.

With regard to William Powell, of course, we've had a lot of discussions on the Petitions Committee, and I particularly liked your comment from George Monbiot that never has there been a hole quite like it. Well, actually, now there is one—there is one in Margam. We've got a second one in Wales, so George Monbiot can write another article for us. It's not something that we really want to be promoting, but that's the situation that we're in. As somebody who is from Merthyr, the Ffos-y-Frân campaigners will know how passionately I feel for them against this particular development, as do my colleagues, Lindsay Whittle and Jocelyn Davies, beside me.

Gwenda Thomas, I think you spoke eloquently about the issues in both our respective areas. I would echo again your call to the Minister to request for the lakes application to be called in. We've been calling for this for some time, now, and despite millions being made, as you said, they are still telling us there's no money. The people of Cwmllynfell deserve better than that: they deserve to have their land restored. I had the report back yesterday from Neath Port Talbot council saying that they hope to have a new application there. I think the argument is that they can fund Margam via some of the money that they will make from extending at Cwmllynfell, but we don't buy that argument, and I think we will be together fighting against that.

With regard to David Rees's comments, of course, you focused on the UK Government, and rightly so, although I will say that, when I did a freedom of information request, the Welsh Government and the UK Government haven't corresponded on this issue for over five years. So, whoever wins the election, please do make it a priority to make sure that these injustices are sorted, once and for all.

William Graham, wrth gwrs, fe bwysleisioch y ffaith nad ydych yn dymuno cael gwaharddiad llwyr. Mae'n debyg ein bod yn wahanol yn hynny o beth, ond rwy'n cytuno â'ch sylwadau fod angen rhoi'r pwyslais priodol o ran lle'r ydym yn gorfodi'r clustogfeydd a sut y mae anghenion y bobl leol yn hollbwysig. Mae'n rhaid iddo fod yn wirioneddol eithriadol, ac yn amlwg felly. Rwy'n credu mai dyna'r holl ddadl a gawsom ynglŷn ag MTAN, onide? Mae'r eithriadau mor eang fel y gallech gyfiawnhau cryn dipyn o bethau. O ran datblygiad economaidd, byddai'n dod o fewn y categori hwnnw mewn llawer o sefyllfaoedd, oni fyddai? Felly, mae angen tynhau hynny.

Gan droi at William Powell, wrth gwrs, rydym wedi cael llawer o drafodaethau ar y Pwyllgor Deisebau, ac rwy'n arbennig o hoff o'ch dyfyniad gan George Monbiot na fu twll o'i fath erioed. Wel, mewn gwirionedd, mae yna un bellach—mae un ym Margam. Mae gennym ail dwll yng Nghymru, felly gall George Monbiot ysgrifennu erthygl arall ar ein cyfer. Nid yw'n rhywbeth y dylem fod yn ei hyrwyddo, ond dyna'r sefyllfa sy'n ein hwynebu. Fel un o Ferthyr, bydd ymgyrchwyr Ffos-y-Frân yn ymwybodol o ba mor angerddol rwy'n teimlo drostynt yn erbyn y datblygiad penodol hwn, fel y mae fy nghyd-Aelodau, Lindsay Whittle a Jocelyn Davies, wrth fy ymyl.

Gwenda Thomas, rwy'n credu eich bod wedi siarad yn huawdl am y problemau yn ein dwy ardal. Rwy'n ategu eich galwad ar y Gweinidog i'w gwneud yn ofynnol i gais y llynnoedd gael ei alw i mewn. Rydym wedi bod yn galw am hyn ers peth amser bellach ac er gwaethaf y miliynau sy'n cael eu gwneud, fel y dywedoch, maent yn dal i ddweud wrthym nad oes unrhyw arian. Mae pobl Cwmllynfell yn haeddu gwell na hynny: maent yn haeddu cael eu tir wedi'i adfer. Cefais yr adroddiad yn ôl ddoe gan gyngor Castell-nedd Port Talbot yn dweud eu bod yn gobeithio cael cais newydd yno. Credaf mai'r ddadl yw y gallant ariannu Margam gyda pheth o'r arian a wnânt drwy ymestyn yng Nghwmllynfell, ond nid ydym yn llyncu'r ddadl honno, a chredaf y byddwn yn ymladd yn erbyn hynny gyda'n gilydd.

O ran sylwadau David Rees, wrth gwrs, fe ganolbwyntioch ar Lywodraeth y DU, ac roeddech yn iawn i wneud hynny, er fy mod am ddweud hyn: pan gyflwynais gais rhyddid gwybodaeth, gwelais nad yw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gohebu ar y mater hwn ers dros bum mlynedd. Felly, pwy bynnag fydd yn ennil yr etholiad, os gwelwch yn dda, a wnewch chi ei gwneud yn flaenoriaeth i sicrhau bod yr anghyfiawnderau hyn yn cael eu datrys unwaith ac am byth?

15:09 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:09 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't have time. I'm over time.

Nid oes amser gennyf. Rwyf wedi rhedeg allan o amser.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member can take an intervention, if you wish.

Gall yr Aelod dderbyn ymyriad, os dymunwch.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:09

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Bethan. Today, we've spoken about the coal industry and how critical it's been to south Wales, but would you agree with me that the number of jobs that were created with deep mining in the past is not like with opencast, which, in the main, is not offering sustainable local jobs, and there are actually very few in number in comparison to the old days of deep mining?

Diolch, Bethan. Heddiw, rydym wedi siarad am y diwydiant glo a pha mor hanfodol y mae wedi bod i dde Cymru, ond a ydych chi'n cytuno nad yw'r nifer o swyddi a grëwyd ar gyfer mwyngloddio dwfn yn y gorffennol yr un peth â'r nifer ar gyfer cloddio glo brig nad yw, ar y cyfan, yn cynnig swyddi lleol cynaliadwy, a bod y nifer mewn gwirionedd yn isel iawn o'i gymharu â'r hen ddyddiau gyda mwyngloddio dwfn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:09

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will agree with that, and again I think that's something that is trying to make us not have this level of debate. It's having a gun to our heads, and, quite frankly, we should not be in this position now anyway. Those sites should have been restored so that we're not in the position of saying it is a jobs issue, because those jobs should now be sustainable and renewable jobs. When I speak to the operators, they say, 'Well, actually, coal is not selling now; we're going to have to change how we work; we don't even know what the future of our companies will be'. So, they need to start adapting now to the sustainable development agenda that we have here in Wales, so that we're not having coal as 'jobs for the future', and we're having other jobs such as what is happening with the tidal lagoon in Swansea.

Ydw, cytunaf â hynny, ac unwaith eto rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth sy'n ceisio gwneud i ni beidio â chynnal y ddadl ar y lefel hon. Mae'n ddryll at ein pennau, ac a dweud y gwir, ni ddylem fod yn y sefyllfa hon bellach beth bynnag. Dylai'r safleoedd fod wedi cael eu hadfer fel nad ydym mewn sefyllfa i ddweud mai mater o swyddi yw hyn, gan y dylai'r swyddi hynny bellach fod yn swyddi cynaliadwy ac adnewyddadwy. Pan fyddaf yn siarad â'r gweithredwyr, maent yn dweud, 'Wel, mewn gwirionedd, nid yw glo yn gwerthu bellach; bydd yn rhaid i ni newid y ffordd rydym yn gweithio; nid ydym yn gwybod beth fydd dyfodol ein cwmnïau hyd yn oed'. Felly, mae angen iddynt ddechrau addasu yn awr i'r agenda datblygu cynaliadwy sydd gennym yma yng Nghymru, fel nad yw glo yn cynnig 'swyddi ar gyfer y dyfodol', ac er mwyn i ni gael swyddi eraill megis yr hyn sy'n digwydd gyda'r morlyn llanw yn Abertawe.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Just to quickly come on to the Minister's contribution, I look forward to this summit. I don't know how much information we can get, as AMs. You've announced that today. I hope that can be productive and that everybody can be involved, from all points of view. You say there's going to be a focused review. We need more information on that. Again, you mentioned the UK Government. You know, what is just a bit galling for me and galling for other people is this isn't new. We've been here for long enough now, and we need action now. We can't be trying to shift responsibility onto other people time and again. We have to make sure that these communities have their lands restored, so that they can use them as they should be able to use them for the future.

I ddod yn gyflym at gyfraniad y Gweinidog, edrychaf ymlaen at yr uwchgynhadledd. Nid wyf yn gwybod faint o wybodaeth y gallwn ei chael, fel ACau. Rydych wedi cyhoeddi hynny heddiw. Gobeithiaf y gall fod yn gynhyrchiol ac y gall pawb gymryd rhan, beth bynnag fo'u barn. Fe ddywedwch fod bwriad i lunio adolygiad â ffocws pendant. Mae arnom angen rhagor o wybodaeth ynglŷn â hynny. Unwaith eto, fe sonioch am Lywodraeth y DU. Wyddoch chi, yr hyn sy'n fy nghytruaddo braidd ac yn cythruddo pobl eraill yw nad yw hyn yn newydd. Rydym wedi bod yma ers digon o amser bellach, ac mae angen gweithredu yn awr. Ni ddylem fod yn ceisio trosglwyddo'r baich i bobl eraill dro ôl tro. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod tiroedd y cymunedau hyn yn cael eu hadfer, er mwyn iddynt allu eu defnyddio fel y dylent ar gyfer y dyfodol.

I think that's the importance of this debate here today. We don't want to be here in another 10 years' time with different AMs and different colours of politicians saying how people's lives are affected by the blight of opencast mining, and how they can't live their lives so they've got to tolerate the noise, the dust, the lorries that are coming in and out, the voids, the water and the problem that they may get from that overflowing. No. We have to make sure that we can move to action now, as opposed to speaking about this issue time and again.

Credaf mai dyna pam y mae'r ddadl hon yma heddiw mor bwysig. Nid ydym am fod yma ymhen 10 mlynedd arall gyda gwahanol ACau a gwleidyddion o wahanol liwiau yn dweud sut y mae bywydau pobl yn cael eu heffeithio gan falltod cloddio glo brig, a sut nad ydynt yn gallu byw eu bywydau a bod yn rhaid iddynt ddioddef y sŵn, y llwch, y loriau sy'n dod i mewn ac allan, y tyllau, y dŵr a'r broblem a allai godi pe bai hwnnw'n gorlifo. Na. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gallu gweithredu yn awr, yn hytrach na siarad am y mater hwn dro ar ôl tro.

15:12

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I'll defer all voting on this item until voting time. I would like to say that I think that debate was a very good example of the kind of thing I was trying to achieve with cross-party backbench debates, so thank you very much.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Hoffwn ddweud fy mod yn credu bod y ddadl honno'n enghraifft dda iawn o'r math o beth y ceisiwn ei gyflawni gyda dadleuon trawsbleidiol gan y meinciau cefn, felly diolch yn fawr iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Economi

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Aled Roberts.

5. Welsh Conservatives Debate: The Economy

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, and amendments 3, 4 and 5 in the name of Aled Roberts.

15:12 Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move on to item 5, which is the Welsh Conservatives' debate on the economy, and I ask William Graham to move the motion.

Rydym bellach yn symud ymlaen at eitem 5, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar yr economi, a gofynnaf i William Graham i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5742 Paul Davies

Motion NDM5742 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod y bu polisiau Llywodraeth y DU ers 2010 yn hanfodol yn y gwaith o adfer economïau'r DU a Chymru;

1. Acknowledges that UK Government policies since 2010 were essential in the restoration of the UK and Welsh economies;

2. Yn cydnabod ymhellach fod economi gynyddol gryf y DU wedi tanategu twf yn y sector preifat a chreu dros 2 filiwn o swyddi; a

2. Further acknowledges that the strengthening UK economy has underpinned growth in the private sector and created over 2 million jobs; and

3. Yn cydnabod mai sector preifat ffyniannus yw'r sylfaen ar gyfer cynnal ein gwasanaethau cyhoeddus.

3. Recognises that a thriving private sector is the foundation for sustaining our public services.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:12 William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Conservative-led United Kingdom Government is creating 1,000 new jobs every day. We are now the fastest-growing major economy in the western world. We have the deficit down by half as a share of our economy, and jobs and livelihoods are growing in every part of the country. Conservatives are safeguarding our economy for the long term, and dealing with the deficit is essential to keep mortgage rates low for hard-working families, helping them to be more financially secure.

Mae Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig yn creu 1,000 o swyddi newydd bob dydd. Ein heconomi ni yw'r economi fawr sy'n tyfu gyflymaf yn y byd gorllewinol. Rydym wedi llwyddo i haneru'r diffyg fel cyfran o'r heconomi, ac mae swyddi a bywoliaeth ar gynydd ym mhob rhan o'r wlad. Mae'r Ceidwadwyr yn amddiffyn ein heconomi ar gyfer y tymor hir, ac mae delio gyda'r diffyg yn hanfodol er mwyn cadw cyfraddau morgais yn isel i deuluoedd gweithgar, i'w helpu i gael mwy o sicrwydd ariannol.

The United Kingdom Government has cut income tax for over 26 million people, saving the typical taxpayer £825 a year. This means that hard-working people keep more of the money they earn and are better able to provide for their families. We've cancelled Labour's planned fuel duty rises, helping small businesses, and saving around £10 when they fill their car. In Government, Labour raised income tax on the poorest in our society and increased fuel duty 12 times. Now, they want to spend more and borrow more, which all of us would eventually pay for with higher taxes.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gostwng y dreth incwm i fwy na 26 miliwn o bobl, gan arbed £825 y flwyddyn i'r trethdalwr cyffredin. Golyga hyn fod pobl weithgar yn cadw mwy o'r arian y maent yn ei ennill ac yn gallu darparu ar gyfer eu teuluoedd yn well. Rydym wedi canslo'r cynnydd yn y dreth ar danwydd a gynlluniwyd gan Lafur, gan helpu busnesau bach ac arbed tua £10 pan fyddant yn llenwi eu car. Pan oedd mewn grym, codai'r Llywodraeth Lafur dreth incwm ar y tlotaf yn ein cymdeithas a chynyddu'r dreth ar danwydd 12 gwaith. Yn awr, maent eisiau gwario mwy a benthycu mwy, a byddai pob un ohonom yn talu am hynny mewn trethi uwch yn y pen draw.

Indeed, last week, the Labour leader did exactly this and launched a manifesto that opened the door to a £3,000 tax rise for every working family. Labour's manifesto rules out a rise in the rate of income tax and national insurance, but nowhere have they ruled out reducing the threshold at which these rates are paid. If implemented, this would be a significant tax hike on ordinary families, who would pay the price for Ed Miliband's inability to manage our economy. Independent experts continue to confirm that Labour would still continue to borrow every year.

We need to stop going backwards and start moving forwards to ensure that Wales remains an increasingly attractive and viable place to do business. Conservatives are investing heavily in Wales's infrastructure to better connect our people and businesses alike. Funding the electrification of the Swansea and Valleys lines as part of our long-term economic plan for the whole of Wales, we will continue to support growth opportunities right across our nation, including the new super prison in Wrexham, the Wylfa nuclear plant in Anglesey—a £12 billion investment—the tidal lagoon project in Swansea, the new city deal for Cardiff, £50 million towards the M4 relief road around Newport, broadband roll-out and the HS2 connection, which will help north Wales.

The UK Government has announced that it intends to create 3 million new apprenticeships. This realises that apprenticeships and investing in apprenticeships is actually a win-win situation. It's good for the individual because they get the chance to acquire skills that will mean they can have a really worthwhile career. Research evidence suggests that those who undertake a higher-level apprenticeship can raise their earning potential through their working lives by £150,000. So it's a win for the people who undertake the apprenticeship. It's a win for the companies, because the Government is putting money into apprenticeships, allowing those companies to access great training, providing the skills that will be good for the individual and for the company. It's a win for the country. It's been proved that every £1 that the Government puts into apprenticeships pays off 20 times over. So, it would be mad not to invest heavily in this area, and it's just what the UK Government is doing.

Since the UK Government came to office, over 2 million people have started apprenticeship training. We are starting 0.5 million people each year, and we want to see those numbers expand further. Yet what do we see here in Wales? Last week, it was revealed that Labour's Government flagship jobs creation scheme has now been closed. This was Labour's flagship Welsh employment scheme, trumpeted by both the Labour leader and Labour's Welsh First Minister. Now, it's effectively scrapped. Well, you couldn't really make it up. It's yet more evidence of a Labour party that's entirely lost its way on the economy.

Yn wir, yr wythnos diwethaf, dyna'n union a wnaeth yr arweinydd Llafur a lansiodd fanifesto a agorai'r drws ar gynnydd o £3,000 yn y dreth i bob teulu sy'n gweithio. Mae manifesto'r Blaid Llafur yn diystyru cynnydd yng nghyfradd y dreth incwm ac yswiriant gwladol, ond nid ydynt wedi diystyru gostwng y trothwy ar gyfer talu'r cyfraddau hyn. Pe bai'n cael ei weithredu, byddai hyn yn gynnydd sylweddol yn y dreth i deuluoedd cyffredin a fyddai'n talu'r pris am anallu Ed Miliband i reoli ein heconomi. Mae arbenigwyr annibynnol yn parhau i gadarnhau y byddai Llafur yn parhau i fenthg bob blwyddyn.

Mae angen i ni roi'r gorau i symud yn ôl a dechrau symud ymlaen i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn lle mwyfwy deniadol a hyfyw i wneud busnes. Mae'r Ceidwadwyr yn buddsoddi'n helaeth yn seilwaith Cymru i gysylltu ein pobl a'n busnesau yn well. Trwy gyllido'r cynllun i drydaneiddio rheilffyrdd Abertawe a'r Cymoedd fel rhan o'n cynllun economaidd hirdymor ar gyfer Cymru gyfan, byddwn yn parhau i gefnogi cyfleoedd twf ledled ein cenedl, gan gynnwys y carchar mawr newydd yn Wrecsam, safle niwclear Wylfa ar Ynys Môn—buddsoddiad o £12 biliwn—prosiect morlyn llanw yn Abertawe, y fargen ddinesig newydd i Gaerdydd, £50 miliwn tuag at ffordd liniaru'r M4 o amgylch Casnewydd, cyflwyno band eang a'r cysylltiad HS2, a fydd yn gymorth i ogledd Cymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu creu 3 miliwn o brentisiaethau newydd. Dyma arwydd o'u sylweddoliad fod prentisiaethau a buddsoddi mewn prentisiaethau yn golygu y byddai pawb ar eu hennill mewn gwirionedd. Mae'n dda i'r unigolyn am y byddai'n cael cyfle i ennill sgiliau a fyddai'n arwain at gael gyrfa werth chweil. Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu y gall pobl sy'n dilyn prentisiaeth lefel uwch ychwanegu £150,000 at eu potensial i ennill cyflog drwy gydol eu bywyd gwaith. Felly mae'n fuddugoliaeth i'r bobl sy'n gwneud y brentisiaeth. Mae'n fuddugoliaeth i'r cwmnïau, oherwydd bod y Llywodraeth yn rhoi arian tuag at brentisiaethau, ac felly'n caniatáu'r cwmnïau i sicrhau hyfforddiant gwych, gan ddarparu'r sgiliau a fydd yn dda i'r unigolyn ac i'r cwmni. Mae'n fuddugoliaeth i'r wlad. Profwyd fod pob £1 y mae'r Llywodraeth yn ei roi tuag at brentisiaethau yn talu ei ffordd 20 gwaith drosodd. Felly, byddai'n wallgof peidio â buddsoddi'n helaeth yn y maes, a dyna'n union y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud.

Ers i Lywodraeth y DU ddod i rym, mae dros 2 filiwn o bobl wedi dechrau hyfforddiant prentisiaeth. Rydym yn dechrau prentisiaethau i 0.5 miliwn o bobl bob blwyddyn, ac rydym eisiau gweld y niferoedd hynny'n cynyddu eto. Ac eto beth a welwn yma yng Nghymru? Yr wythnos diwethaf, datgelwyd bod cynllun blaenllaw'r Llywodraeth Llafur i greu swyddi bellach wedi dod i ben. Cynllun cyflogaeth blaenllaw'r Blaid Llafur yng Nghymru oedd hwn, a gafodd ei ganmol gan yr arweinydd Llafur a Phrif Weinidog Llafur Cymru. Nawr, mae wedi cael ei ddileu i bob pwrpas. Wel, ni allech chi ddyfeisio'r stori hon mewn gwirionedd. Dyma dystiolaeth bellach o blaid Llafur sydd wedi colli ei ffordd yn llwyr o ran yr economi.

Brushing a key policy aside in Wales will give voters absolutely no hope that Labour can be trusted with our economy. It's an embarrassing admittance that all was not what it seemed and Labour's talk of the scheme's huge success has been rubbished.

This worrying rhetoric reveals how Labour had planned to deliver a panacea-type chronically shortsighted policy to tackle youth unemployment: another example of their unimaginative and poorly thought-through economic policies, reliant on European funding and, of course, the good old taxpayer. With this unforeseen u-turn on a flagship Welsh Labour policy, young people all over the United Kingdom are right to feel confused and let down by Labour, who are failing to offer concrete policies for young people.

15:16 **David Rees** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for taking the intervention. Do you not agree with me that we have seen thousands of young people in employment as a consequence of Jobs Growth Wales who would not have found employment? They have found permanent employment as a consequence of that and the scheme, actually, is coming to an end because of Welsh European Funding Office funding and the application coming in. You know full well that the application will be to allow the scheme to go forward in a slightly different variation, because of European rules.

15:17 **William Graham** [Bywgraffiad Biography](#)

Well, at the moment, it doesn't exist, does it? The scheme is abandoned until—. It's entirely dependent on new funding—entirely dependent on new funding.

So, Welsh Labour's policy on apprenticeships has followed the usual vein—more cuts, no explanation. If the UK Government realise the potential for rejuvenating our economy, why are Welsh Ministers so blind? New figures show that 2.2 million apprenticeships have now been created under the Conservative-led Government. This is a real-terms increase of 450,000 new apprenticeships year-on-year.

Last week, during the launch of the Conservative manifesto, the Prime Minister David Cameron stated that it's businesses not Governments that create jobs and our Conservative-led UK Government have provided 25,000 start-up loans and aim to provide 50,000 more. A country is nothing without economic security, and we aim to see through our economic plan.

Conservatives continue to make sure that hard work is always rewarded. Last week, we committed to go even further and change the law so that no-one earning the minimum wage will pay income tax ever again.

15:18 **Joyce Watson** [Bywgraffiad Biography](#)

Will you take an intervention?

Ni fydd ysgubo polisi allweddol o'r neilltu yng Nghymru yn rhoi unrhyw obaith o gwbl i bleidleiswyr ei bod yn bosibl ymddiried yn y Blaid Lafur gyda'n heconomi. Mae'n gyfaddefiad cywilyddus nad oedd popeth fel yr ymddangosai ac mae'r hyn a ddywedai'r Blaid Lafur am lwyddiant ysgubol y cynllun wedi cael ei wfftio.

Mae'r rhethreg hon yn peri pryder ac yn dangos sut yr oedd y Blaid Lafur wedi cynllunio i ddarparu polisi 'popeth i bawb' eithriadol o ddiwelediad, ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc: enghraifft arall o'u polisiâu economaidd diddychymyg heb eu hystyried yn iawn, sy'n ddibynnol ar gyllid Ewropeaidd, a'r trethdalwr bach wrth gwrs. Gyda'r tro pedol annisgwyl hwn ar bolisi blaenllaw Llafur Cymru, mae pobl ifanc ar hyd a lled y Deyrnas Unedig yn iawn i deimlo'n ddryslyd ac wedi'u siomi gan Lafur, sy'n methu cynnig polisiâu cadarn ar gyfer pobl ifanc.

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Onid ydych yn cytuno ein bod wedi gweld miloedd o bobl ifanc mewn cyflogaeth o ganlyniad i Twf Swyddi Cymru na fyddent wedi cael gwaith fel arall? Maent wedi dod o hyd i gyflogaeth barhaol o ganlyniad i hynny ac mae'r cynllun, mewn gwirionedd, yn dod i ben oherwydd cyllid Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r cais sy'n dod i mewn. Rydych yn gwybod yn iawn y bydd y cais yn caniatáu i'r cynllun fynd yn ei ffaen mewn modd ychydig yn wahanol, oherwydd rheolau Ewropeaidd.

Wel, ar hyn o bryd, nid yw'n bodoli, nac ydi? Mae'r cynllun wedi ei adael hyd nes—. Mae'n gwbl ddibynnol ar gyllid newydd—yn gwbl ddibynnol ar gyllid newydd.

Felly, mae polisi Llafur Cymru ar brentisiaethau wedi dilyn y drefn arferol—mwy o doriadau, dim esboniad. Os yw Llywodraeth y DU yn gwireddu potensial adfywio ein heconomi, pam y mae Gweinidogion Cymru mor ddall? Mae ffigurau newydd yn dangos bod 2.2 miliwn o brentisiaethau wedi eu creu bellach o dan arweiniad y Llywodraeth Geidwadol. Dyma gynnydd termau real o 450,000 prentisiaeth newydd o un flwyddyn i'r llall.

Yr wythnos diwethaf, yn ystod lansiad manifesto'r Ceidwadwyr, dywedodd y Prif Weinidog, David Cameron, mai busnesau ac nid Llywodraethau sy'n creu swyddi a bod Llywodraeth Geidwadol y DU wedi darparu 25,000 o fenthyciadau i gychwyn busnes, a'u bod yn anelu at ddarparu 50,000 yn rhagor. Nid yw gwlad yn ddim heb sicrwydd economaidd, ac rydym yn anelu i fwrw ymlaen â'n cynllun economaidd.

Mae'r Ceidwadwyr yn parhau i wneud yn siŵr fod gwaith caled yn cael ei wobrwyo bob amser. Yr wythnos diwethaf, fe ymrwymon ni i fynd hyd yn oed ymhellach a newid y gyfraith fel na fydd neb sy'n ennill yr isafswm cyflog yn gorfod talu treth incwm byth eto.

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:18	William Graham Bywgraffiad Biography	No.	Na.	Senedd.tv Fideo Video
15:18	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	No more interventions, sorry.	Dim mwy o ymyriadau, mae'n ddrwg gennyf.	Senedd.tv Fideo Video
15:18	William Graham Bywgraffiad Biography	Labour burdened hard-working people with too much tax, and Britain's lowest paid workers were amongst the hardest hit by Labour's great recession. In contrast, we can proudly say that the modern, compassionate Conservative party is the party of working people: for millions of workers not just the party of low tax, but the party of no tax at all.	Aeth Llafur ati i lethu pobl weithgar â gormod o dreth, ac roedd y gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf ym Mhrydain ymhlith y rhai a ddiodefodd fwyaf o ganlyniad i ddirwasgiad mawr Llafur. Ar y llaw arall, gallwn ddweud gyda balchder mai plaid y gweithwyr yw'r blaid Geidwadol fodern dosturiol: i filiynau o weithwyr, nid plaid y trethi isel yw hon yn unig, ond y blaid heb drethi o gwbl.	Senedd.tv Fideo Video
		We are getting it right for businesses in the United Kingdom and our companies are becoming more profitable than ever. New figures from the Office for National Statistics show that the overall rate of return for British companies is at its highest level in close on two decades. Services are making more money than at any time since records began. Over the medium term, that matters a lot. Why? Because profits are the fundamental driver of a free market economy, determining how much tax companies pay, how much they pay staff, and, most crucially, where and how much they invest.	Rydym yn gwneud pethau'n iawn i fusnesau yn y Deyrnas Unedig ac mae ein cwmnïau yn dod yn fwy proffidiol nag erioed. Mae ffigurau newydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod cyfradd adennill gyffredinol cwmnïau Prydeinig ar ei lefel uchaf ers dau ddegawd. Mae gwasanaethau yn gwneud mwy o arian nag ar unrhyw adeg ers dechrau cadw cofnodion. Dros y tymor canolig, mae hynny'n bwysig iawn. Pam? Am mai elw yw'r ysgogiad sylfaenol i economi marchnad rydd. Elw sy'n pennu faint o drethi y mae cwmnïau yn eu talu, faint y maent yn talu i'w staff, ac yn bwysicaf oll, ble a faint y maent yn ei fuddsoddi.	
		The figures for profitability over the whole of last year really stand out. The rate of return for private non-financial companies came in at nearly 12 per cent, the highest since 1998. It was, admittedly, a bit higher in 1997, at 13 per cent, but then fell steadily to touch a low of just 9 per cent in 2009. Of course, this coincides with Labour Government.	Mae'r ffigurau proffidioldeb dros y flwyddyn ddiwethaf yn sefyll allan mewn gwirionedd. Roedd cyfradd adennill cwmnïau preifat heb fod yn ariannol bron yn 12 y cant, yr uchaf ers 1998. Mae'n rhaid cyfaddef ei bod ychydig yn uwch yn 1997, ar 13 y cant, ond wedyn disgynnodd yn raddol i 9 y cant yn unig yn 2009. Wrth gwrs, mae hynny'n cyd-ddigwydd â Llywodraeth Lafur.	
		Since then, it has been climbing again, hitting decade-highs in the past year. It is not surprising that you might notice it started to recover once the Conservatives were back in charge of the economy. For many people on the left 'profit' is increasingly a dirty word. If companies are making money, Labour will either want to tax it, or else regulate it away with price freezes and higher wages.	Ers hynny, mae'r gyfradd wedi bod yn dringo unwaith eto, gan gyrraedd y pwyntiau uchaf ers degawd dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw'n syndod y gwelwch ei bod wedi dechrau gwella pan ddaeth y Ceidwadwyr yn ôl i ofalu am yr economi. I lawer o bobl ar y chwith, mae 'elw' yn mynd yn fwyfwy o air brwnt. Os yw cwmnïau yn gwneud arian, bydd Llafur naill ai am roi treth arno, neu fel arall, ei reoleiddio drwy rewi prisiau a chyflogau uwch.	
		In reality, profit is the key to a successful economy. It provides the money that companies need to keep growing. It tells businesses they need to invest, and, if British companies are making more money than ever, it's going to help the economy in three very specific ways: first, as companies make more profit, they pay more tax. We're already seeing it happening. Corporation tax revenues were up by nearly 7 per cent over the whole of last year, with 12 per cent in February alone. As companies make more money, they will pay more. No-one is able to give workers a pay rise when they're facing going broke. When they are making money, they are far more likely to increase wages. The rate of return determines investment. Levels of investment have been weak since 2008. If companies are making far higher profits, they're going to invest more. Similarly, if investing in Britain is more profitable than elsewhere, money will come here.	Mewn gwirionedd, elw yw'r allwedd i economi lwyddiannus. Mae'n darparu'r arian sydd ei angen ar gwmnïau i barhau i dyfu. Mae'n dweud wrth fusnesau fod angen iddynt fuddsoddi, ac os yw cwmnïau Prydeinig yn gwneud mwy o arian nag erioed, mae'n mynd i helpu'r economi mewn tair ffordd benodol iawn: yn gyntaf, wrth i gwmnïau wneud mwy o elw, maent yn talu mwy o drethi. Rydym eisoes yn gweld hyn yn digwydd. Cododd refeniw'r dreth gorfforaeth bron i 7 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf i gyd, a 12 y cant ym mis Chwefror yn unig. Wrth i gwmnïau wneud mwy o arian, byddant yn talu mwy. Nid oes neb yn gallu rhoi codiad cyflog i weithwyr pan fydd busnes yn wynebu methiant. Pan fyddant yn gwneud arian, maent yn llawer mwy tebygol o godi cyflogau. Y gyfradd adennill sy'n pennu buddsoddiad. Mae lefelau buddsoddi wedi bod yn wan ers 2008. Os yw cwmnïau'n gwneud elw llawer uwch, maent yn mynd i fuddsoddi mwy. Yn yr un modd, os yw buddsoddi ym Mhrydain yn fwy proffidiol na buddsoddi mewn mannau eraill, bydd yr arian yn dod yma.	

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:20.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:20.

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Profitability is the most fundamental measure of how well business is doing, and successful businesses are the bedrock of a growing economy, which we'll continue to support. Britain's GDP grew faster than at any other time and than any other of what the International Monetary Fund calls the 'major advanced economies'.

Unlike the Labour Government here in Wales, the Conservatives are listening to business and using all economic levers at their disposal to ensure that the economy and private sector growth are able to flourish. As a result, 2 million more jobs have been created, and Britain is experiencing some of the highest levels of employment for years. Here in Wales, despite the business community calling time and time again on the Welsh Government for support, little has been done. Business rates and corporation tax still remain too high. It is clear that, if the economy is to continue to thrive, develop and increase, and the country as a whole to strengthen, changing course from a Conservative Government would be wholly detrimental for the United Kingdom.

Proffidoldeb yw'r mesur mwyaf sylfaenol o ba mor dda y mae busnes yn ei wneud, a busnesau llwyddiannus yw conglfaen economi sy'n tyfu, a byddwn yn parhau i gefnogi hynny. Tyfodd cynnyrch domestig gros Prydain yn gyflymach nag erioed ac yn gynt nag unrhyw un o'r economïau datblygedig mawr, fel y cânt eu galw gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol.

Yn wahanol i'r Llywodraeth Lafur yma yng Nghymru, mae'r Ceidwadwyr yn gwrandao ar fusnesau ac yn defnyddio pob ysgogiad economaidd sydd ar gael iddynt er mwyn sicrhau bod yr economi a thwf y sector preifat yn gallu ffynnu. O ganlyniad, mae 2 filiwn yn fwy o swyddi wedi cael eu creu, ac mae Prydain yn gweld rhai o'r lefelau uchaf o gyflogaeth ers blyneddodded. Yma yng Nghymru, er bod y gymuned fusnes wedi galw dro ar ôl tro am gefnogaeth Llywodraeth Cymru, ychydig iawn a wnaed. Mae ardrethi busnes a'r dreth gorfforaeth yn dal i fod yn rhy uchel. Os yw'r economi am barhau i ffynnu, datblygu a thyfu, ac os yw'r wlad yn ei chyfanrwydd yn mynd i gryfhau, mae'n amlwg y byddai newid o Lywodraeth Geidwadol yn gwbl niweidiol i'r Deyrnas Unedig.

15:21

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I have selected the five amendments to the motion. I call on Alun Ffred Jones to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnis gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Amendment 1—Elin Jones

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Delete point 1 and replace with:

Yn cydnabod bod rhaglen galedi Llywodraeth y DU wedi methu yn erbyn ei thelerau ei hun ac yn gresynu at effeithiau economaidd a chymdeithasol y toriad diangen o 10% yng nghyllideb Cymru ers 2010.

Acknowledges that the UK Government's austerity programme has failed by its own terms and regrets the economic and social impacts of the unnecessary 10% cut to the Welsh budget since 2010.

Gwelliant 2—Elin Jones

Amendment 2—Elin Jones

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Delete point 2 and replace with:

Yn croesawu cyfleoedd gwaith newydd ond yn gresynu at y ffaith bod 17,000 o'r swyddi newydd a grëwyd yng Nghymru ers 2010 wedi bod yn rhan-amser.

Welcomes new employment opportunities but regrets that 17,000 of the new jobs created in Wales since 2010 have been part-time.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.

Amendments 1 and 2 moved.

Diolch am y cyfle i siarad yn y ddadl y prynhawn yma ac i gynnig y gwelliannau yn enw Elin Jones. Y peth cyntaf a ddywedaf i ydy ein bod ni i gyd yn chwilio am arwyddion o dwf yn yr economi. Mae unrhyw newyddion positif i'w groesawu, ond mae cynnig y Ceidwadwyr yn enghraifft ragorol o guddio pen yn y tywod ac o dwyllo'u hunain bod popeth yn iawn, bod argyfwng economaidd y blynyddoedd diwethaf yma ar ben a'n bod ni bellach yn ffynnu. Os gofynnwch chi i bobl ar hyd a lled Cymru—gofynnwch i bobl yn fetholaeth i—a ydyn nhw'n credu bod yr ardd bellach yn llawn rhosod, fe gewch chi ateb gwahanol.

Gadewch i mi eich atgoffa chi o realiti wrth droi at ein gwelliant cyntaf ni. Mi ddywedwyd wrthym ni yn 2010 bod toriadau cyflym o dwf mewn gwariant cyhoeddus yn angenrheidiol, ac y byddai hynny'n sicrhau bod y 'deficit' yn cael ei ddileu erbyn 2015 ac y byddai Prydain yn cadw'i statws credit AAA. Wel, mae'n 2015, a phum mlynedd o lymder yn ddiweddarach, mae gwasanaethau cyhoeddus yn gwegian, mae adnoddau cyhoeddus yn cael eu colli, fyth i gael eu hailgyflwyno mewn llawer achos, ac mae'r 'deficit' yn sefyll ar £90 biliwn, mae dyled y wlad yn £1.5 triliwn ac mae'r statws AAA wedi mynd. Mae llymder wedi methu.

Austerity has failed on the measures we were assured would be met: the deficit is £90 billion and debt is at £1.5 trillion. But the Conservatives learn nothing; the Westminster parties learn nothing. Austerity was just one option; another option is to take a growth-based approach to deficit reduction. Let me make it clear we want the deficit reduced as much as any other party: it's the key to getting the finances in order and the key to tackling debt. But surely it's been proved that cutting even deeper as a means to reach an unrealistic goal—unrealistic in timescale, certainly—doesn't work.

Plaid Cymru has published its fiscal plans and we've called for a modest increase in public spending of about 0.5 per cent of GDP per year in real terms, protecting public services and investing in growth. Under our plans, the deficit would go down from 4.2 per cent in 2015-16 to 1.4 per cent in 2019-20, still heading in the right direction, a reduction of over 60 per cent, without cutting education, without cutting health and without cutting services for the vulnerable. This isn't just for the benefit of Wales; this is for the benefit of communities that are struggling under the pressure of austerity and calling out for real, sustainable growth right across the UK.

As our amendment states, we absolutely welcome any growth in employment and, certainly, private sector employment, but dig a little deeper and we find why our economy is not moving. There are 386,000 people working part time in Wales, 71,000 of whom do so because they can't find a full-time job. Historically, this has been one of Wales's problems. We haven't done too badly on stark employment numbers, and let's celebrate where real long-term well-paid jobs are created. However, it is the standard of those jobs that we must improve if we want to close the GVA gap with the rest of the UK.

Thank you for the opportunity to speak in this debate this afternoon and to put forward the amendments in the name of Elin Jones. The first thing I would say is that we're all looking for signs of growth in the economy. Any positive news is to be welcomed, but the Conservatives' motion is an excellent example of hiding their heads in the sand and kidding themselves that everything is right, that the economic crisis of the past few years is over and that we are flourishing. If you ask people across Wales—ask people in my constituency—whether they believe that the garden is full of roses, you will get a different answer.

Let me remind you of the reality in turning to our first amendment. We were told in 2010 that swift cuts in the growth of public spending were crucial, and that that would ensure that the deficit was eliminated by 2015 and that Britain would maintain its AAA status. Well, it is 2015, and after five years of austerity, public services are under threat, public resources are being lost, never to be reintroduced in several cases, and the deficit stands at £90 billion, the country's debt is £1.5 trillion and the AAA status has gone. Austerity has failed.

Mae caledi wedi methu ar y mesurau y cawsom ein sicrhau y byddent yn cael eu cyflawni: £90 biliwn yw'r diffyg a £1.5 triliwn yw'r ddyled. Ond nid yw'r Ceidwadwyr yn dysgu dim; nid yw pleidiau San Steffan yn dysgu dim. Un opsiwn yn unig oedd caledi; opsiwn arall yw mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dwf i leihau'r diffyg. Gadewch i mi ei gwneud yn glir ein bod eisiau i'r diffyg gael ei leihau gymaint ag unrhyw blaid arall: dyna'r allwedd i gael trefn ar gyllid a'r allwedd i fynd i'r afael â dyled. Ond 'does bosibl na phrofwyd nad yw torri'n ddyfnach o hyd fel modd o gyrraedd nod afrealistig—afrealistig o ran amser, yn bendant—yn gweithio.

Mae Plaid Cymru wedi cyhoeddi ei chynlluniau cyllidol ac rydym wedi galw am gynnydd cymedrol mewn gwariant cyhoeddus o tua 0.5 y cant o'r cynnyrch domestig gros bob blwyddyn mewn termau real, gan ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a buddsoddi mewn twf. O dan ein cynlluniau, byddai'r diffyg yn lleihau 4.2 y cant yn 2015-16 i 1.4 y cant yn 2019-20, gan barhau ar y trywydd cywir, gostyngiad o dros 60 y cant, heb dorri addysg, heb dorri iechyd a heb dorri gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed. Nid yw hyn er lles Cymru yn unig; mae hyn er budd cymunedau sy'n ei chael hi'n anodd o dan bwysau caledi ac sy'n galw am dwf go iawn a chynaliadwy ar draws y DU.

Fel y mae ein gwelliant yn ei nodi, rydym yn croesawu unrhyw dwf mewn cyflogaeth ac yn sicr, cyflogaeth yn y sector preifat, ond wrth gloddio ychydig yn ddyfnach gellir dod o hyd i'r rheswm pam nad yw ein heconomi yn symud. Mae 386,000 o bobl yn gweithio'n rhan-amser yng Nghymru, a 71,000 ohonynt yn gwneud hynny am nad ydynt yn gallu dod o hyd i swydd amser llawn. Yn hanesyddol, mae hon wedi bod yn un o broblemau Cymru. Nid ydym wedi gwneud yn rhy ddrwg o ran niferoedd cyflogaeth moel, a gadewch i ni ddatlun pan fo swyddi hirdymor sy'n talu'n dda yn cael eu creu. Fodd bynnag, safon y swyddi hynny sy'n rhaid i ni ei wella os ydym am gau'r bwch yn y gwerth ychwanegol gros rhyngom a gweddill y DU.

Mae'n ffaith syml iawn iawn fod hi'n amlwg mai swyddi rhan amser a swyddi cyflog isel sydd yn cael eu creu oherwydd nad yw'r incwm i mewn i'r Trysorlys wedi ei gynyddu fel y dylai.

It's a very simple fact that it is obvious that it is part-time and low-paid jobs that are being created because the income into the Treasury has not increased as it should have.

I troi at y gwelliannau eraill, mi wnawn ni gefnogi gwelliant 3. Mae unrhyw fesurau economaidd positif i'w croesawu, wrth gwrs. Atal ein pleidlais fyddwn ni ar welliant 4. Rwy'n derbyn bod y polisi yma wedi lleihau treth i nifer o bobl ledled Cymru, ond byddai'n well gen i petai'r ddadl yma yn cael ei chynnal o gwmpas yswiriant cenedlaethol yn hytrach na threth incwm. Rwy'n ymwybodol bod yna polisiau gan y ddwy blaid yn y glymblaid ar hyn o bryd i ymestyn y polisi yma unwaith eto. Bydd hyn yn gostus ofnadwy a ni fydd yn cael effaith ar y rheini sydd yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn. Byddai'n well gan Blaid Cymru codi trothwy yswiriant cenedlaethol, byddai'n helpu'r tlotaf yn y gymuned.

Turning to the other amendments, we will support amendment 3. Any positive economic measures are to be welcomed, of course. We will be abstaining on amendment 4. I accept that this policy has reduced tax for a number of people across Wales, but would prefer to see this debate being held around national insurance rather than income tax. I'm aware that there are policies by the two coalition parties at present to extend this policy once again. This will be extremely costly and will not have an effect on those who earn less than £10,000 per annum. Plaid Cymru would prefer to see the national insurance threshold being increased, which would help the poorest in the community.

Mi bleidleisiwn ni yn erbyn gwelliant 5, er ein bod ni yn cefnogi'r egwyddor o 'mansion tax' sydd yn cael ei gyfeirio ato fo yn y gwelliant. Mi fyddwn ni'n pleidleisio yn erbyn oherwydd yr ymrwymiad i gael gwared ar y diffyg yn y gyllideb erbyn 2017-18. Pam erbyn hynny? Dim ond y Torïaid a'r Rhyddfrydwyr sy'n dweud hynny. Roedd hi'n ddiddorol darllen yr economegydd ac enillydd Gwobr Nobel Paul Krugman yn galw eich polisi yn obsesiwn anghyfrifol. Oes, mae eisiau dod a'r diffyg i lawr, ond mae gosod amserlen o'r fath yna yn ddiangen, yn beryglus ac yn niweidiol i'n cymunedau ni. Mae yna ffordd wahanol o wneud pethau. Diolch.

We'll vote against amendment 5, even though we do support the principle of the mansion tax referred to in the amendment. We'll be voting against because of the commitment to get rid of the deficit in the budget by 2017-18. Why by then? Only the Tories and the Liberal Democrats are saying that. It was interesting to read the words of Paul Krugman, the economist and Nobel Prize winner, calling your policy an irresponsible obsession. Yes, we need to bring the deficit down, but setting a timetable of this kind is unnecessary, dangerous and damaging to our communities. There is a different way of doing things. Thank you.

15:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I call on Eluned Parrott to move amendments 3, 4 a 5, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r ffaith mai economi'r DU yw'r economi sy'n tyfu'n gyflymaf o blith gwledydd y G7.

Welcomes that the UK's economy is now the fastest growing of the G7 countries.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r ffaith bod treth incwm 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru wedi cael ei dorri o £800, diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llywodraeth y DU yn cynyddu'r trothwy lwfans personol.

Welcomes that 1.2 million people in Wales have had an £800 income tax cut, thanks to the Liberal Democrats in the UK Government increasing the personal allowance threshold.

Gwelliant 5—Aled Roberts

Amendment 5—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu bod yn rhaid inni fantoli'r cyfrifon yn deg, gyda buddsoddiad mewn sgiliau uchel, economi carbon isel, dileu'r diffyg yn y gyllideb strwythurol erbyn 2017-18, sicrhau bod y bobl gyfoethocaf yn talu cyfran deg drwy gyflwyno treth plasty, ac amddiffyn y mwyaf agored i niwed o fewn cymdeithas.

Cynigiwyd gwelliannau 3, 4 a 5.

Believes that we must balance the books fairly, with investment in a high-skill, low-carbon economy, eliminate the structural budget deficit by 2017-18, ensure the wealthiest pay their fair share by introducing a mansion tax, and protect the most vulnerable in society.

Amendments 3, 4 and 5 moved.

15:26

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendments 3, 4 and 5.

I'd like to thank the Welsh Conservatives for bringing this debate today, and particularly William Graham for taking so much pride in the Liberal Democrat tax policies, which his party leader had called unaffordable before the formation of the coalition. I welcome your Damascene conversion, because we have lifted 144,000 of the lowest paid workers in Wales out of tax altogether, and that is certainly to be welcomed.

As we move towards the end of this Parliament, it really is perhaps inevitable that we will reflect on its record, particularly with regard to the economy, which was perhaps the most dangerous challenge facing the new Government back in 2010. The precariousness of our position at that time is, I would suggest, truly frightening. Between 2007-08 and 2009-10, the UK deficit multiplied by a factor of 10, passing the £100 billion mark for the first time in history. But, truly worrying, we'd been running a deficit of up to £20 billion a year for years before that, despite experiencing economic growth through that period. So, this meant that, when the economic crash hit, public spending cuts were inevitable. I think that, whilst there are disagreements about the speed and the level of those cuts, at least the parties in this Chamber will agree that there is an inevitability to some form of public sector restraint.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliannau 3, 4 a 5.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am ddod â'r ddaid hon yma heddiw, ac yn enwedig i William Graham am ddangos cymaint o falchder ym mhollisiau treth y Democratiaid Rhyddfrydol, a gafodd eu galw'n anfforddiadwy gan arweinydd ei blaid cyn ffurfio'r glymblaid. Croesawaf eich tröedigaeth Ddamascaidd, oherwydd rydym wedi arbed 144,000 o'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf yng Nghymru rhag gorfod talu treth yn gyfan gwbl, ac mae hynny'n sicr yn rhywbeth i'w groesawu.

Wrth i ni symud tuag at ddiwedd y Senedd hon, efallai ei bod hi'n anochel, mewn gwirionedd, ein bod yn myfyrio ar ei record, yn enwedig o ran yr economi, sef yr her fwyaf peryglus a wynebai'r Llywodraeth newydd yn ôl yn 2010 o bosibl. Byddwn yn awgrymu bod ansicrwydd ein sefyllfa ar y pryd yn wirioneddol frawychus. Rhwng 2007-08 a 2009-10, tyfodd diffyg y DU ddeng gwaith drosodd, gan basio'r marc £100 biliwn am y tro cyntaf mewn hanes. Ond yr hyn sy'n wirioneddol bryderus oedd ein bod wedi gweithredu ar ddiffyg ariannol o hyd at £20 biliwn y flwyddyn ers blynnyddoedd cyn hynny, er inni brofi twf economaidd drwy gydol y cyfnod hwnnw. Felly, pan gawsom ein taro gan y dirwasgiad economaidd, golygai hyn fod toriadau mewn gwariant cyhoeddus yn anochel. Er bod anghytuno ynglŷn â chyflymder a lefel y toriadau hynny, credaf y bydd y pleidiau yn y Siambr hon yn cytuno o leiaf fod cael rhyw ffurf ar ataliaeth yn y sector cyhoeddus yn anochel.

Now, some people start from the philosophical viewpoint that a smaller state is in and of itself a good thing. I am resolutely not one of those people. The state provides an absolutely essential safety net for those people for whom opportunities have not fallen into their laps. We need to make sure that we are maintaining it effectively. However, spending our way out of the crisis just wasn't an option for a number of reasons on this occasion. Firstly, the cost of servicing our debt has to be met from public finances. So, if we'd allowed the deficit to continue to grow at that terrifying rate that it was between 2007 and 2010, the deficit would now be over £350 billion a year. Paying back just the interest on that rapidly increasing debt would have meant that there would have been less and less and less money for us to spend on public services in the future, and we'd have been creating an even more pressing debt crisis for future generations to tackle too. Now, I am sure that those opposed to budgetary restraint as a response to the crisis will say, 'Yes, but we will only grow our economy out of trouble if we invest'. But there are two flaws in this: firstly, we are already the fastest-growing economy in the G7. So, the approach that we have taken has worked by comparison to approaches taken elsewhere, and, of course, we are bringing down that deficit so that, at some point, we can start paying down the debt as well.

Nawr, mae rhai pobl yn dechrau o'r safbwynt athronyddol fod gwladwriaeth lai o faint ynnddi ei hun yn beth da. Rwy'n benderfynol nad wyf i'n un o'r bobl hynny. Mae'r wladwriaeth yn darparu rhwyd ddiogelwch gwbl hanfodol i bobl nad ydynt wedi cael cyfleoedd wedi'u hestyn iddynt ar blât. Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn ei chynnal yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd gwario ein ffordd allan o'r argyfwng yn opsiwn ar yr achlysur hwn am nifer o resymau. Yn gyntaf, rhaid i gost ein dyled gael ei thalu o'r cyllid cyhoeddus. Felly, pe byddem wedi caniatáu i'r diffyg barhau i dyfu ar yr un gyfradd frawychus ag a wnâi rhwng 2007 a 2010, byddai'r diffyg bellach wedi cyrraedd dros £350 biliwn y flwyddyn. Byddai ad-dalu'r llog yn unig ar y ddyled honno a fyddai'n cynyddu'n gyflym wedi golygu y byddai llai a llai a llai o arian ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol, a byddem hefyd wedi bod yn creu argyfwng dyled hyd yn oed yn fwy enbyd i genedlaethau'r dyfodol ymdopi ag ef. Nawr, rwy'n sicr y bydd y rhai sy'n gwrthwynebu ataliaeth gyllidebol fel ymateb i'r argyfwng yn dweud, 'Ie, ond yr unig ffordd o dyfu ein heconomi allan o drwbl yw drwy fuddsoddi'. Ond mae dau wendid ynghlwm wrth hyn: yn gyntaf, ni yw'r economi sy'n tyfu gyflymaf yn y G7 eisoes. Felly, mae'r dull rydym wedi ei ddewis wedi gweithio o'i gymharu â dulliau a ddewiswyd mewn manau eraill, ac wrth gwrs, rydym yn lleihau'r diffyg fel y gallwn ddechrau talu costau'r ddyled hefyd ar ryw bwynt.

15:29 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you take an intervention?

A wnech chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:29 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:29 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's been proved that productivity is still falling in the UK economy, and it is one of the biggest drags on getting out of the present predicament. Why is that so after such a huge success, as you've just said?

Mae wedi cael ei brofi fod cynhyrchiant yn parhau i ostwng yn economi'r DU, a dyna pam ei bod mor anodd dod allan o'r sefyllfa bresennol. Pam ei bod hi felly ar ôl cymaint o lwyddiant ysgubol, fel rydych chi newydd ei ddweud?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:29 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are structural problems in the UK economy and, in particular, the loss of the manufacturing industries that left the economy in the late 1990s and 2000s under both a Conservative and a Labour Government have meant that, for a lot of people, skilled employment simply doesn't exist. We need to make sure that we are investing in skills, rather than, perhaps, job-creation schemes in the future, so that we can start to attract the kind of high-skilled jobs that we would want to see, and not be satisfied with low-skill, low-paid work, not selling Wales as a low-cost destination for inward investment. So that's, perhaps, one answer, but there may be others, of course.

Mae problemau strwythurol yn economi'r DU a cholli diwydiannau gweithgynhyrchu yn benodol o'r economi yn y 1990au hwyr a'r 2000au o dan Lywodraeth Geidwadol a Llywodraeth Lafur, wedi golygu'n syml nad oes cyflogaeth sgîl uchel ar gael i lawer o bobl. Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn buddsoddi mewn sgiliau yn y dyfodol, yn hytrach na chynlluniau i greu swyddi efallai, er mwyn i ni allu dechrau denu'r math o swyddi medrus y byddem am eu gweld, yn hytrach na bodloni ar waith heb sgiliau ar gyflog isel, a pheidio â gwerthu Cymru fel cyrchfan rhad ar gyfer mewnfuddsoddi. Felly efallai mai dyna un ateb, ond mae'n bosibl fod atebion eraill, wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Secondly, I'd suggest, though, that, if you're proposing a Keynesian approach to getting out of a recession, you haven't looked at the whole picture, because that approach, I would suggest, is a bit like the Pharaoh's dream in the biblical story of Joseph—the dream of seven fat calves being eaten by seven thin calves; it was a warning to save up a surplus in times of plenty, so that you can spend it in times of need. But, if you haven't done the saving, you can't do the spending without setting up an even bigger problem for future generations to fix.

The previous Government just did not do that. Gordon Brown was so sure, so certain that he'd ended the cycle of boom and bust, as he described it, that he left us completely unprepared for the recession when it came. Recessions in a global context are inevitable; we cannot assume that they will not happen again.

Yn ail, fodd bynnag, os ydych yn cynnig dull Keynesaidd o ddod allan o ddirwasgiad, byddwn yn awgrymu nad ydych wedi edrych ar y darlun cyfan, gan fod y dull hwnnw, byddwn yn awgrymu, yn debyg i freuddwyd y Pharo stori Feiblaidd Joseff—y freuddwyd am saith llo tew yn cael eu bwyta gan saith llo tenau; roedd yn rhybudd i gynilo gwarged mewn cyfnod o ffyniant, er mwyn i chi allu ei wario ar ddiwrnodau glawog. Ond os nad ydych wedi cynilo, ni allwch wario heb greu problem fwy byth y bydd yn rhaid i genedlaethau'r dyfodol ymdrin â hi.

Ni wnaeth y Llywodraeth flaenorol hynny. Roedd Gordon Brown mor siŵr, mor bendant ei fod wedi dod â'r cylch o ffyniant a methiant, fel y'i disgrifiodd, i ben nes iddo ein gadael heb baratoi o gwbl at y dirwasgiad pan ddaeth. Mae dirwasgiadau mewn cyd-destun byd-eang yn anochel; ni allwn gymryd yn ganiataol na fyddant yn digwydd eto.

15:31 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member doesn't have time for another intervention.

Nid oes gan yr Aelod amser am ymyriad arall.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:31 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Current projections suggest that, on the current course, the deficit will be eliminated in two years' time, at which point we can start bringing down the deficit—sorry, we can start bringing down the debt—we can start bringing down the cost of servicing that debt, and I hope we can start to rebuild our public services too. We all want to see the light at the end of the tunnel, and I hope that, whatever colour the next Government is, they will look to that tipping point as the point where we can start to rebuild.

Mae rhagamcanion ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd y diffyg, ar y trywydd presennol, yn cael ei ddileu ymhen dwy flynedd, a bryd hynny gallwn ddechrau dod â'r diffyg—mae'n ddrwg gennyf, gallwn ddechrau dod â'r ddyled i lawr—gallwn ddechrau dod â chost y ddyled honno i lawr, ac rwy'n gobeithio y gallwn ddechrau ailadeiladu ein gwasanaethau cyhoeddus hefyd. Mae pob un ohonom am weld y golau ar ddiwedd y twnnel, a pha liw bynnag fydd y Llywodraeth nesaf, rwy'n gobeithio y byddant yn edrych ar y trobwynt hwnnw fel man y gallwn ddechrau ailadeiladu ohono.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:31 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In 2010, Britain was facing the deepest recession for almost 100 years, the biggest budget deficit since the second world war, largest structural deficit of any western economy, and nowhere was it harder than here in Wales. Our unemployment rate doubled between July 2005 and March 2010; 92,000 Welsh children growing up in a home where no parent had ever had employment; 200,000 never having worked a single day in their lives. Yet, roll the clock forward, and, after only five years of Conservative Party-led governance, our UK economy has been transformed. From the great recession, there has been a great revival.

Yn 2010, roedd Prydain yn wynebu'r dirwasgiad dyfnaf ers bron i 100 mlynedd, y diffyg mwyaf yn y gyllideb ers yr ail ryfel byd, y diffyg strwythurol mwyaf mewn unrhyw economi orllewinol, ac ni chafodd unman ei daro'n waeth nag yma yng Nghymru. Dyblodd ein cyfradd ddiweithdra rhwng mis Gorffennaf 2005 a mis Mawrth 2010; 92,000 o blant Cymru yn cael eu magu mewn cartrefi lle nad oedd yr un rhiant erioed wedi gweithio; 200,000 ohonynt heb weithio un diwrnod yn eu bywydau. Eto i gyd, symudwch y cloc yn ei flaen, ac ar ôl pum mlynedd yn unig o dan arweiniad y Blaid Geidwadol, mae economi'r DU wedi cael ei thrawsnewid. O'r dirwasgiad mawr, cafwyd adfywiad mawr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We now have the fastest-growing economy of all G7 countries. The deficit has halved. We have a record number of people in employment—1,000 jobs are created per day, and more jobs have been created in the last five years than in all other EU states put together. Incomes rising by 2.2 per cent in February this year, with inflation at its lowest. Income tax cut for 26 million people. The state pension increased by £950. And it is clear that our long-term plan to secure a strong, healthy economy is now working for Wales. How? Since 2010, those in work have increased by 52,000. There are 46,000 fewer workless households in Wales, and more women are now working in Wales than ever before.

Erbyn hyn, ni sydd â'r economi sy'n tyfu gyflymaf o holl wledydd y G7. Mae'r diffyg wedi haneru. Mae gennym y nifer uchaf erioed o bobl mewn gwaith—caiff 1,000 o swyddi eu creu bob dydd, ac mae mwy o swyddi wedi cael eu creu yn ystod y pum mlynedd diwethaf nag yn holl wladwriaethau eraill yr UE gyda'i gilydd. Cafwyd cynnydd o 2.2 y cant mewn incymau ym mis Chwefror eleni, gyda chwyddiant ar ei isaf. Cafodd y dreth incwm ei gostwng i 26 miliwn o bobl. Cododd pensiwn y wladwriaeth £950. Ac mae'n amlwg fod ein cynllun hirdymor i sicrhau economi gref ac iach bellach yn gweithio i Gymru. Sut? Ers 2010, mae nifer y bobl mewn gwaith wedi cynyddu 52,000. Mae 46,000 yn llai o aelwydydd heb waith yng Nghymru, ac mae mwy o fenywod yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd nag erioed o'r blaen.

15:33 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could you clarify for me the number of people who are in work now on zero-hours contracts?

A allech chi ddweud wrthyf faint o'r bobl mewn gwaith sydd ar gontractau dim oriau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:33 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well I do know that, certainly, Welsh Labour employ many on zero-hours contracts, so you tell me. [Interruption.] Opposition parties continually talk of zero-hours contracts with such hypocrisy, having used them also.

Wel rwy'n sicr yn gwybod bod Llafur Cymru yn cyflogi llawer ar gontractau dim oriau, felly dywedwch chi wrthyf i. [Torri ar draws.] Mae'r gwrthbleidiau'n sôn byth a beunydd am gontractau dim oriau gyda chymaint o ragrith, ar ôl eu defnyddio hwy hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bedroom tax: introduced in 2001—[Interruption.] You use that term. Introduced by Labour, extended to the private sector in 2008: more hypocrisy. There are now 35,000 more people in full-time employment in Wales since the last general election, with around 1.2 million people in Wales taking home more money each month because we have increased the income tax personal allowance, with 144,000 taken out of income tax altogether.

Treth Ystafell Wely: fe'i cyflwynwyd yn 2001—[Torri ar draws.] Chi sy'n defnyddio'r term hwnnw. Fe'i cyflwynwyd gan Lafur, a chafodd ei hymestyn i'r sector preifat yn 2008: mwy o ragrith. Erbyn hyn mae 35,000 yn fwy o bobl mewn gwaith amser llawn yng Nghymru ers yr etholiad cyffredinol diwethaf, gyda thua 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru yn mynd â mwy o arian adref bob mis am ein bod wedi cynyddu lwfans personol y dreth incwm, gyda 144,000 wedi cael eu harbed rhag gorfod talu treth incwm yn gyfan gwbl.

It was during 2009, under the Labour Government, that the private sector took the brunt, yet it is now thriving once more, thanks to a Conservative-led Government. Our industry in Wales is coming back to life, with foreign inward investment at its highest level for almost 25 years; 22,500 more business start-ups; employment with micro and small businesses in Wales up more than 25,000 from 2013 alone. And, thanks to the Conservative-led UK Government, Wales is now back on its feet. Conservatives have put in place the right conditions for growth, giving Welsh families ambition, aspiration, and then rewarding them for their achievements. Our Government has tackled the reduction of childcare costs, we've addressed the agenda pay gap and we've increased flexible working, introducing shared parental leave.

Yn ystod 2009, o dan y Llywodraeth Lafur, y dioddefodd y sector preifat y gwaethaf ohoni, ond mae bellach yn ffynnu unwaith eto, diolch i Lywodraeth o dan arweiniad y Ceidwadwyr. Mae ein diwydiant yng Nghymru yn adfywio, gyda mewnfuddsoddi tramor ar ei lefel uchaf ers bron i 25 mlynedd; ceir 22,500 yn rhagor o fusnesau newydd; mae cyflogaeth gyda busnesau micro a bach yng Nghymru wedi cynyddu dros 25,000 ers 2013 yn unig. A diolch i Lywodraeth Geidwadol y DU, mae Cymru bellach yn ôl ar ei thraed. Mae'r Ceidwadwyr wedi rhoi'r amodau cywir ar gyfer twf ar waith, gan roi uchelgeisiau a dyheadau i deuluoedd yng Nghymru, ac yna eu gwobrwyo am eu cyflawniadau. Mae ein Llywodraeth wedi mynd i'r afael â lleihau costau gofal plant, rydym wedi mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu ac rydym wedi cynyddu gweithio hyblyg, gan gyflwyno absenoldeb rhiant ar y cyd.

But our work is not finished. In order to ensure that Wales remains an increasingly attractive and viable place to do business, the UK Government wants to continue investing heavily in Wales by promoting it on the world stage. Our Prime Minister, David Cameron, will continue to keep our economy secure, by running a surplus so that we can start paying down the debt left by Labour, who simply maxed out the credit card with a culture of spend, spend, spend. History always reminds us, doesn't it, that it's always Labour that breaks the economy and it is left to the Conservatives to rebuild it?

After 7 May, hopefully, the next Conservative Government will eliminate the deficit, increase the tax-free personal allowance to £12,500, make banks work for the public by continuing the successful funding for lending scheme, roll out Help to Grow, creating 2 million more new jobs. The Conservative Party's economic long-term plan is working and there must be no going back. I am proud to be part of a political party that has secured a better future for our children, our pensioners, our hard-working families and our business owners in Wales. There is more to do; roll on 7 May. [Interruption.]

Ond nid yw ein gwaith wedi gorffen. Er mwyn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn lle mwyfwy deniadol a hyfwy i gynnal busnes, mae Llywodraeth y DU am barhau i fuddsoddi'n helaeth yng Nghymru drwy hyrwyddo'r wlad ar lwyfan y byd. Bydd ein Prif Weinidog, David Cameron, yn parhau i gadw ein heconomi'n ddiogel, drwy gynilo gwarged er mwyn inni ddechrau talu'r ddyled a adawyd gan Lafur, a fenthycodd i'r eithaf ar y cerdyn credyd gyda diwylliant o wario, gwario, gwario. Onid yw hanes yn ein hatgoffa o hyd mai Llafur sydd bob amser yn torri'r economi a'r Ceidwadwyr sy'n cael eu gadael i'w hailadeiladu?

Ar ôl 7 Mai, gobeithio, fe fydd y Llywodraeth Geidwadol nesaf yn dileu'r diffyg, yn cynyddu'r lwfans personol di-dreth i £12,500, yn gwneud i fanciau weithio dros y cyhoedd drwy barhau â'r cynllun cyllid ar gyfer benthyca llwyddiannus, a chyflwyno Help to Grow, gan greu 2 filiwn o swyddi newydd. Mae cynllun economaidd hirdymor y Plaid Geidwadol yn gweithio a rhaid i ni beidio â throï'n ôl. Rwy'n falch o fod yn rhan o blaid wleidyddol sydd wedi sicrhau gwell dyfodol i'n plant, ein pensïynwyr, ein teuluoedd gweithgar a'n perchnogion busnesau yng Nghymru. Mae mwy i'w wneud; brysied y seithfed o Fai. [Torri ar draws.]

15:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. This isn't aimed at anyone in particular, but in this debate, the odd reference to the Welsh economy would be most valuable, I think.

Trefn. Nid yw hyn wedi'i anelu at unrhyw un yn benodol, ond yn y ddadl hon, byddai ambell gyfeiriad tuag at economi Cymru yn hynod o werthfawr, rwy'n credu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:36 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I want to bring us back to the real world, actually, because this debate is about the UK as well as Wales. I accept that all parties have launched their manifestos, with a real focus on the economy, but I have to say to Alun Ffred that I read in the local paper that Plaid's manifesto is a risk list that would be used really to have deals in Westminster and not in this establishment. The Conservatives are unlike Labour; Labour have policies aimed at balance and fairness, whilst living within our means, using measures such as a mansion tax, bank levies and a 50p rate for earnings over £150,000. But where are we now? I've been around knocking doors for the last month or so, and what are people telling me? They're telling me that they're suffering. One lady told me last week that, because of the bedroom tax, she is left with £20 a week to live on—£20 a week. That includes food and any other item that she wishes to buy.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf am ddod yn ôl i'r byd go iawn, mewn gwirionedd, gan fod y ddadl hon yn ymwneud â'r DU yn ogystal â Chymru. Rwy'n derbyn bod pob plaid wedi lansio ei manifesto, gyda ffocws go iawn ar yr economi, ond mae'n rhaid i mi ddweud wrth Alun Ffred fy mod wedi darllen yn y papur lleol mai rhestr risg yw manifesto Plaid Cymru a fyddai'n cael ei defnyddio, mewn gwirionedd, i wneud bargeinion yn San Steffan ac nid yn y sefydliad hwn. Mae'r Ceidwadwyr yn wahanol i Lafur; mae gan Lafur bolisiau sydd wedi'u hanelu tuag at gydbwysedd a thegwch, gan fyw yn ôl ein modd, a defnyddio dulliau fel treth plastai, lefi banciau a chyfradd o 50c ar enillion dros £150,000. Ond ble rydym ni yn awr? Bùm o gwmpas yn curo drysau am y mis diwethaf, a beth y mae pobl yn ei ddweud wrthyf? Maent yn dweud wrthyf eu bod yn dioddef. Dywedodd un ddynes wrthyf yr wythnos diwethaf mai £20 yr wythnos yn unig sydd ganddi ar ôl oherwydd y dreth ystafell wely—£20 yr wythnos. Mae hynny'n cynnwys bwyd ac unrhyw eitem arall y bydd hi'n dymuno ei brynu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:38 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:38 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Go on; I just want to see what you've got to say.

Evch ymlaen; rwyf eisiau gweld beth sydd gennych i'w ddweud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:38

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. As regards the bedroom tax, it's not a tax, actually. [Laughter.] Are you saying that you agree with it for the private sector? If you don't agree with that policy at all, why are you not standing up, when it was your party that brought it in in 2008 in the private sector?

Diolch yn fawr. O ran y dreth ystafell wely, nid yw'n dreth mewn gwirionedd. [Chwerthin.] A ydych yn dweud eich bod yn cytuno â'r dreth ar gyfer y sector preifat? Os nad ydych yn cytuno â'r polisi o gwbl, pam na ddywedwch hynny, o ystyried mai eich plaid chi a'i cyflwynodd yn 2008 yn y sector preifat?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:38

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will get rid of the bedroom tax and Ed Miliband has made that clear.

Byddwn yn cael gwared ar y dreth ystafell wely ac mae Ed Miliband wedi gwneud hynny'n glir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

But what are the other issues that I pick up on on the doorstep? The bedroom tax is one. Zero-hours contracts. There are 1.8 million people in the UK on zero-hours contracts, and 5 million in low-paid jobs. Young graduates are finding difficulties getting posts, and 1.3 million are working part-time on low wages. That's the situation we're in. Now, what have we done so far as Labour in Wales? Employment in Wales has continued to improve and remains steady at a level well above the historic average, while unemployment is lower than at the same time last year. On figures for Jobs Growth Wales—and it is coming back in the next three weeks, whatever people say—the programme has exceeded targets year on year and has helped just under 15,000 young people into work, with 770 in Carmarthenshire alone. The number of 16-year-olds in Wales not in employment, education or training fell in September to 8.3 per cent, down from 11.9 per cent in September 2013. With regard to investment in Wales, our budget includes a capital investment package totalling over £100 million. Locally, I have seen, in the constituency, the investment on the ground; for example, several twenty-first century school buildings. I recently visited Flying Start expansion sites within the authority. These are against a background not only of 10 per cent cuts to our block grant here, but a 30 per cent cut to capital investment grants to the Welsh Government.

Ond beth yw'r materion eraill rwy'n eu clywed ar garreg y drws? Mae'r dreth ystafell wely yn un ohonynt. Contractau dim oriau. Mae 1.8 miliwn o bobl yn y DU ar gontractau dim oriau, a 5 miliwn mewn swyddi cyflog isel. Mae graddedigion ifanc yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i swyddi, ac mae 1.3 miliwn yn gweithio'n rhan-amser ar gyflogau isel. Dyna ein sefyllfa ar hyn o bryd. Nawr, beth rydym ni yn y Blaid Lafur yng Nghymru wedi'i wneud? Mae cyflogaeth yng Nghymru wedi parhau i wella ac yn parhau i fod yn gyson ar lefel lawer uwch na'r cyfartaledd yn hanesyddol, ac mae diweithdra'n is nag ar yr un adeg y llynedd. O ran ffigurau Twf Swyddi Cymru—ac mae'n dod yn ei ôl yn y tair wythnos nesaf, beth bynnag y mae pobl yn ei ddweud—mae'r rhaglen wedi rhagori ar y targedau o flwyddyn i flwyddyn ac mae wedi helpu bron i 15,000 o bobl ifanc i gael gwaith, gyda 770 yn Sir Gaerfyrddin yn unig. Gostyngodd nifer y plant 16 mlwydd oed yng Nghymru nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ym mis Medi i 8.3 y cant, i lawr o 11.9 y cant ym mis Medi 2013. O ran buddsoddi yng Nghymru, mae ein cyllideb yn cynnwys pecyn buddsoddi cyfalaf gwerth dros £100 miliwn. Yn lleol, yn yr etholaeth, rwyf wedi gweld y buddsoddiad ar lawr gwlad; er enghraifft, sawl adeilad ysgol yr unfed ganrif ar hugain. Yn ddiweddar, ymwelais â safleoedd ehangu Dechrau'n Deg yn yr awdurdod. Mae'r rhain yn bodoli yng nghyd-destun toriadau o 10 y cant i'n grant bloc ni yma, yn ogystal â thoriadau o 30 y cant i grantiau buddsoddi cyfalaf Llywodraeth Cymru.

What are the Tories going to do? One thing, a Conservative coalition with UKIP would take Britain out of the European Union. This would have a devastating impact on the Welsh economy. Since 2007, almost £2 billion of EU regional funds have led to a total investment of £3.7 billion in the Welsh economy, 6,000 new enterprises and almost 20,000 jobs. Europe is Wales's largest trading partner: 600 firms export goods and services and around 150,000 jobs depend on that trade. What are they going to do? What have they done? The budget deficit: if we have the Conservatives still with us—it is already more than £75 billion this year—will increase. The national debt will have increased by around £530 billion since the Tory-led UK Government came to power. Yet, despite their pledge to balance the books, David Cameron will double public spending cuts: £13 billion from Government departments, £12 billion from welfare, £5 billion from tax evasion, leaving working families across Wales £1,600 a year worse off. Prices have risen faster than wages for 52 of 53 months of this Government.

Beth y mae'r Torïaid am ei wneud? Yn un peth, byddai clymlaid rhwng y Ceidwadwyr ag UKIP yn tynnu Prydain allan o'r Undeb Ewropeaidd. Byddai hyn yn cael effaith ddinistriol ar economi Cymru. Ers 2007, mae bron i £2 biliwn o gronfeydd rhanbarthol yr UE wedi arwain at gyfanswm buddsoddiad o £3.7 biliwn yn economi Cymru, 6,000 o fentrau newydd a bron i 20,000 o swyddi. Ewrop yw partner masnachu mwyaf Cymru: mae 600 o gwmnïau'n allforio nwyddau a gwasanaethau a thua 150,000 o swyddi'n dibynnu ar y fasnach honno. Beth a wnânt? Beth y maent wedi'i wneud? Y diffyg yn y gyllideb: os bydd y Ceidwadwyr yn parhau i fod mewn grym bydd y diffyg—sydd dros £75 biliwn eisoes eleni—yn cynyddu. Bydd y ddyled genedlaethol wedi cynyddu oddeutu £530 biliwn ers i Lywodraeth Geidwadol y DU ddod i rym. Eto i gyd, er gwaethaf eu haddewid i fantoli'r cyfrifon, bydd David Cameron yn dyblu toriadau mewn gwariant cyhoeddus: £13 biliwn o adrannau'r Llywodraeth, £12 biliwn o les, £5 biliwn o efadu trethi, gan adael teuluoedd sy'n gweithio ar draws Cymru £1,600 y flwyddyn yn waeth eu byd. Mae prisiau wedi codi'n gyflymach na chyflogau am 52 o'r 53 mis y bu'r Llywodraeth hon mewn grym.

The 2010-15 Parliament is the first Parliament since the 1920s where living standards have got worse. The plan is not working. Growth is set to slow next year and the year after and is being downgraded every year after 2016. Annual earnings have been revised down this year, next year and in 2016, when compared to the March budget. Economic policies are always to be fair and responsible to those we represent—

Senedd 2010-15 yw'r Senedd gyntaf ers y 1920au i weld safonau byw'n gwaethygu. Nid yw'r cynllun yn gweithio. Mae twf yn mynd i arafu y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn a bydd yn cael ei israddio bob blwyddyn ar ôl 2016. Mae enillion blynyddol wedi cael eu hadolygu a'u lleihau eleni, y flwyddyn nesaf ac yn 2016, o gymharu â chyllideb mis Mawrth. Mae'n rhaid i bolisiau economaidd fod yn deg ac yn gyfrifol bob amser i'r bobl rydym yn eu cynrychioli—

- 15:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Conclude now. Dewch â'r ddadl i ben yn awr.
- 15:42 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Continues.]—and not like the UK Government, whose policies have ensured that people have suffered. [Yn parhau.]—ac nid fel Llywodraeth y DU, y mae ei pholisiau wedi sicrhau bod pobl wedi dioddef.
- 15:42 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you. Mohammad Asghar. Diolch yn fawr. Mohammad Asghar.
- 15:42 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Deputy Presiding Officer. I am grateful for the opportunity to speak in this debate this afternoon and to highlight the transformation that has taken place in the United Kingdom's economy thanks to the policies of the Conservative-led coalition Government. It is five years since Labour lost power at Westminster. They left behind a dismal economic legacy. When the coalition came to power, Britain had suffered the deepest recession since the war. The country was borrowing over £150 billion a year. We had the second biggest structural deficit of any advanced economy. Unemployment had increased by nearly 0.5 million. Labour's legacy was one of debt, decline and despair. The incoming Government had to make realistic assessments about the state of the British economy. This involved taking the difficult decisions required to reduce the deficit and to control spending. Thanks to the hard working people of Great Britain this long-term economic plan is working now. There are now 2 million more people in work than there were in 2010. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl y prynhawn yma ac i dynnu sylw at y gweddnwidiad sydd wedi digwydd yn economi'r Deyrnas Unedig, diolch i bolisiau'r Llywodraeth glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr. Mae pum mlynedd ers i'r Blaid Lafur golli grym yn San Steffan. Gadawsant etifeddiaeth economaidd ddiagonal ar eu hôl. Pan ddaeth y glymblaid i rym, roedd Prydain wedi dioddef y dirwasgiad gwaethaf ers y rhyfel. Roedd y wlad yn benthyca dros £150 biliwn y flwyddyn. Gennym ni oedd y diffyg strwythurol mwyaf ond un o unrhyw economi ddatblygedig. Roedd diweithdra wedi cynyddu bron i 0.5 miliwn. Etifeddiaeth y Blaid Lafur oedd dyled, dirywiad ac anobaith. Roedd yn rhaid i'r Llywodraeth nesaf wneud asesiadau realistig o gyflwr economi Prydain. Roedd hyn yn cynnwys gwneud y penderfyniadau anodd a oedd eu hangen er mwyn lleihau'r diffyg a rheoli gwariant. Diolch i bobl weithgar Prydain, mae'r cynllun economaidd hirdymor hwn yn gweithio yn awr. Erbyn hyn mae 2 filiwn yn fwy o bobl mewn gwaith nag yn 2010.
- The Confederation of British Industry has upgraded its growth forecast for the UK this year to 2.7 per cent. Inflation, last month, stood at zero. The deficit has been cut by half and there are 760,000 more businesses now in the United Kingdom. The UK has even overtaken France to become the second-largest economy in Europe. Christine Lagarde, head of the International Monetary Fund, recently said in a meeting in Washington—in her words, Deputy Presiding Officer: Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi uwchraddio ei ragolygon twf ar gyfer y DU eleni i 2.7 y cant. Roedd lefel chwyddiant yn sero fis diwethaf. Mae'r diffyg wedi cael ei dorri yn ei hanner ac mae 760,000 yn fwy o fusnesau yn y Deyrnas Unedig bellach. Mae'r DU hyd yn oed wedi rhagori ar Ffrainc i ddod yn economi fwyaf ond un Ewrop. Mewn cyfarfod yn Washington yn ddiweddar, dywedodd Christine Lagarde, pennaeth y Gronfa Ariannol Ryngwladol—in ei geiriau hi, Dirprwy Lywydd:
- 'when we look at the comparative growth rates delivered by various countries in Europe, it's obvious that what's happening in the UK has actually worked'. 'pan fyddwn yn edrych ar y cyfraddau twf cymharol a gyflawnwyd gan wahanol wledydd yn Ewrop, mae'n amlwg fod yr hyn sy'n digwydd yn y DU wedi gweithio mewn gwirionedd'.
- The German finance Minister said— Dyweddodd Gweinidog cyllid yr Almaen—
- 15:44 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:44	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>Sorry, I can't. [Interruption.]</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf ond ni allaf. [Torri ar draws.]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:44	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Order. The Member doesn't have to explain why he's not taking an intervention. [Laughter.] Please continue.</p>	<p>Trefn. Nid oes rhaid i'r Aelod esbonio pam nad yw'n derbyn ymyriad. [Chwerthin.] Parhewch, os gwelwch yn dda.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:44	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>The German finance Minister said, Deputy Presiding Officer:</p> <p>'The UK economy has done a wonderful job in the last couple of years'. The UK and George Osborne has a very good plan for the future.'</p> <p>We, here in Wales, have also seen the benefits of economic transformation: 52,000 more people in Wales are in employment than there were in 2010.</p>	<p>Dywedodd Gweinidog cyllid yr Almaen, Ddirprwy Lywydd:</p> <p>'Mae economi'r DU wedi gwneud gwaith gwyh yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gan y DU a George Osborne gynllun da iawn ar gyfer y dyfodol.'</p> <p>Rydym ni yma yng Nghymru hefyd wedi gweld manteision gweddnewidiad economaidd: mae 52,000 yn fwy o bobl yng Nghymru mewn gwaith nag yn 2010.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:45	<p>David Rees Bywgraffiad Biography</p> <p>Will the Member take an intervention?</p>	<p>A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:45	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>I'm sorry; I'm not taking it. Listen to me and then answer.</p> <p>Unemployment fell by 80,000 in the last year. There are 22,000 more businesses in Wales now than in 2010. This economic growth is vital because we cannot have the strong public services we all want without a strong economy. It has allowed the UK Government to invest an unprecedented amount of money in Wales. This investment is significant. The structural projects will greatly strengthen and diversify the Welsh economy.</p> <p>The UK Government is delivering the largest development in Welsh railways since the Victorian era, with the electrification of the Swansea and Valleys lines. Tolls on the Severn bridge crossing will be reduced post 2018. Newport is also benefiting from the SuperConnected Cities scheme by gaining its share of £150 million-worth of investment for better broadband for small businesses.</p> <p>Deputy Presiding Officer, a great deal has been achieved, but there remains a lot to do. Everything could be placed at risk if we returned to the policies of the Labour Government on 7 May, because their policy is more spending, more borrowing and higher taxes, which this country cannot sustain anymore. All the good work that has been done by this Conservative coalition party will go for six if that party comes to power. So my message to all the people of Wales is to make sure that we stick to the policies and prosperity is in our very near future—we will all have a job and great prosperity in Wales. If you want better public services, more jobs, lower taxes for hard-working families and more investment in our infrastructure, we need a stronger economy; support the Conservatives. The Conservative-led Government has shown—</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf; nid wyf am ei dderbyn. Gwrandewch arnaf ac yna atebwch.</p> <p>Gostyngodd diweithdra o 80,000 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae 22,000 yn fwy o fusnesau yng Nghymru yn awr nag yn 2010. Mae'r twf economaidd hwn yn hanfodol oherwydd ni allwn gael y gwasanaethau cyhoeddus cryf y mae pawb ohonom eu heisiau heb economi gref. Mae hyn wedi caniatáu i Lywodraeth y DU fuddsoddi swm digynsail o arian yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad hwn yn arwyddocaol. Bydd y prosiectau strwythurol yn arallgyfeirio ac yn cryfhau economi Cymru yn fawr.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU yn darparu'r datblygiad mwyaf i reilffyrdd Cymru ers oes Fictoria, ac yn trydaneiddio rheilffyrdd Abertawe a'r Cymoedd. Bydd y tollau ar groesfan pont Hafren yn cael eu lleihau ar ôl 2018. Mae Casnewydd hefyd yn elwa o'r cynllun Dinasoedd Uwch-Gysylltiedig drwy ennill ei chyfran o £150 miliwn o fuddsoddiad i gael band eang gwell ar gyfer busnesau bach.</p> <p>Ddirprwy Lywydd, mae llawer iawn wedi cael ei gyflawni, ond mae llawer i'w wneud o hyd. Gellid peryglu popeth pe baem yn dychwelyd at bolisiau'r Llywodraeth Lafur ar 7 Mai, gan mai eu polisi hwy yw gwario mwy, benthyca mwy a threthi uwch, ac ni all y wlad gynnal hynny mwyach. Bydd yr holl waith da a wnaed gan y blaid Geidwadol glymbleidiol yn ofer os daw'r blaid Lafur i rym. Felly, fy neges i holl bobl Cymru yw gwneud yn siŵr ein bod yn cadw at y polisiau a bydd ffyniant yn y dyfodol agos iawn—bydd gan bob un ohonom swydd a bydd ffyniant mawr yng Nghymru. Os ydych eisiau gwell gwasanaethau cyhoeddus, mwy o swyddi, trethi is i deuluoedd gweithgar a mwy o fuddsoddi yn ein seilwaith, mae angen economi gryfach; cefnogwch y Ceidwadwyr. Mae'r Llywodraeth o dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi dangos—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

15:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Okay, thank you. Alun Davies.

Iawn, diolch. Alun Davies.

15:47 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. In terms of taking forward the Welsh economy from where it is at present, I think we do need to fully understand how we've ended up in a crisis, what caused that crisis, and how we can rebuild a fair economy following this crisis. Now, what we've heard so far this afternoon is that this crisis was entirely created in Downing Street and entirely the fault of one or two people who were leading the then Labour Government. Any GCSE student will know and will understand that this was a financial crisis, created largely in the United States, but spread across the world not by Governments, but by banks who had bought and sold sub-prime debt between themselves and so infected economies across the Atlantic. That is the absolute fact and that is the truth.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. O ran symud economi Cymru yn ei blaen o ble y mae ar hyn o bryd, rwy'n credu bod angen i ni ddeall sut rydym wedi glanio mewn argyfwng, beth a achosodd yr argyfwng, a sut y gallwn ailadeiladu economi teg yn dilyn y fath argyfwng. Nawr, yr hyn rydym wedi ei glywed hyd yn hyn y prynhaw yma yw bod yr argyfwng wedi cael ei greu yn gyfan gwbl yn Stryd Downing a bod y bai yn llwyr ar un neu ddau o bobl a oedd yn arwain y Llywodraeth Lafur bryd hynny. Bydd unrhyw fyfyrwr TGAU yn gwybod ac yn deall fod hwn yn argyfwng ariannol a grëwyd yn bennaf yn yr Unol Daleithiau, ond a ledaenwyd ar draws y byd nid gan Lywodraethau, ond gan fanciau a oedd wedi prynu a gwerthu dyled eilaidd rhyngddynt eu hunain ac felly wedi heintio economïau ar draws yr Iwerydd. Dyna'r ffaith absoliwt a dyna'r gwir.

Was it the fault of poor regulation? I think it probably was, but anyone who understands the City of London and how the City of London operates and is controlled and regulated will understand that most of that deregulation took place under Thatcher and Major, and when Blair took office in 1997, the then Conservative opposition criticised him, not for providing too much deregulation, as we now believe, but because he was too strict in regulation and the same criticisms were made of Gordon Brown.

Ai ar reoleiddio gwael oedd y bai? Rwy'n credu mai dyna oedd yn ôl pob tebyg, ond bydd unrhyw un sy'n deall Dinas Llundain a sut y mae Dinas Llundain yn gweithredu ac yn cael ei rheoli a'i rheoleiddio yn deall mai o dan lywodraethau Thatcher a Major y digwyddodd y rhan fwyaf o'r dadreoleiddio hwnnw, a phan ddaeth Blair i rym yn 1997, fe gafodd ei feirniadu gan yr wrthblaid Geidwadol ar y pryd, nid am ddadreoleiddio'n ormodol, fel rydym yn ei gredu yn awr, ond am ei fod yn rheoleiddio'n rhy llym a chafodd Gordon Brown ei feirniadu yn yr un modd.

And then we hear that we have this debt we have today because of overspending. We heard this in the pious words of Eluned Parrott earlier this afternoon. I don't know about anyone else in this Chamber, but I don't remember seeing Liberal Democrats marching down the street, holding up placards saying, 'We want to see public spending cuts', 10 years ago. I don't remember anyone here saying that we should be cutting back on public expenditure in the early years of this century. I don't remember the Liberals doing it; I don't remember anyone doing it.

Yna clywn fod y ddyled hon sydd gennym heddiw yn deillio o orwario. Clywsom hyn yng ngeiriau hunangyfiawn Eluned Parrott yn gynharach y prynhaw yma. Ni wn am bawb arall yn y Siambr, ond nid wyf yn cofio gweld y Democratiaid Rhyddfrydol yn gorymdeithio i lawr y stryd, yn dal placardiau gyda'r geiriau 'Rydym am weld toriadau mewn gwariant cyhoeddus' arnynt 10 mlynedd yn ôl. Nid wyf yn cofio neb yma'n dweud y dylem dorri'n ôl ar wariant cyhoeddus yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif hon. Nid wyf yn cofio'r Rhyddfrydwyr yn gwneud hynny; Nid wyf yn cofio neb yn gwneud hynny.

15:49 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

I'm sorry; I can't at the moment. In terms of where we are today, is the current debt and is the current deficit the consequence of overspending in those years? An analysis of the situation will make it understood that it was not. How did we accumulate that debt? Well, by two reasons: first of all because we had a significant reduction in tax takes, in corporation tax in the financial sector, and also because of the financial stimulus that was put in place by the Labour Government leading an international response to the crisis, and we all remember the way that Gordon Brown dominated the G20 held in the United Kingdom. That is how that debt was accumulated, not by recurrent overspending, but by ensuring that people remained in their homes at the height of one of the greatest financial crises this country has ever seen. I defy anyone—I defy anyone to say that that wasn't the right thing to do.

So, what do we do today? Where do we go today? We are led to believe by our friends in the Conservative party, and to some extent the Liberal Democrats, that we've had four years or five years of growth—we know that's not true—and that Conservative and Liberal Democrat policies are helping to encourage real growth in economies up and down the United Kingdom. We also know that is not true. Let me say this to you today: if there is any doubt that this Government's policies are not leading to growth, let me tell you about my constituency. Thirty-one million pounds a year are being taken, by welfare reforms, from the most vulnerable people in that community as a consequence of that Government's policies. You tell me—you tell me that that is going to invest in the economy of Blaenau Gwent, and that is going to lead to growth in Blaenau Gwent. We do see growth in some parts of the United Kingdom. We see growth in London and the south-east of England and we don't see growth in communities like Blaenau Gwent. We need a UK Government that is going to be fair to everybody in the United Kingdom and a Welsh Government that is able to invest in the Welsh economy.

I hope that, following 7 May, we will have a Government, a Labour Government, that will rebalance wealth in the United Kingdom as a key determinant and objective of policy. And I hope that the Welsh Government will continue to do what it is doing today—investing in people, investing in infrastructure and building a green economy, a sustainable economy. We discussed opencast earlier today. We know that those jobs, valuable as they are, are not the jobs upon which we can build a successful economy in the future. So, we need this Government to do what the market cannot and will not do, and that is to invest in people and places to create growth that will eradicate poverty and will create a very different society and community in the future. Thank you very much.

Mae'n ddrwg gennyf; ni allaf ar hyn o bryd. O ran ein sefyllfa heddiw, ai canlyniad gorwario yn y blynyddoedd hynny yw'r ddyled a'r diffyg sydd gennym ar hyn o bryd? Bydd dadansoddiad o'r sefyllfa yn ei gwneud yn amlwg nad felly roedd hi. Sut y cronnwyd y ddyled hon gennym? Wel, am ddau reswm: yn gyntaf oll oherwydd ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn derbyniadau treth, yn y dreth gorfforaeth yn y sector ariannol, a hefyd oherwydd yr ysgogiad ariannol a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth Lafur wrth iddynt arwain ymateb rhyngwladol i'r argyfwng, ac rydym i gyd yn cofio pa mor flaenllaw oedd Gordon Brown yng nghynhadledd y G20 a gynhaliwyd yn y Deyrnas Unedig. Dyna sut y cronnodd y ddyled, nid drwy orwario rheolaidd, ond drwy sicrhau bod pobl yn aros yn eu cartrefi ar anterth un o'r argyfyngau ariannol mwyaf y mae'r wlad hon erioed wedi'i weld. Rwy'n herio unrhyw un—rwy'n herio unrhyw un i ddweud nad dyna oedd y peth iawn i'w wneud.

Felly, beth sydd i'w wneud heddiw? I ble rydym yn mynd heddiw? Cawn ein harwain i gredu gan ein cyfeillion yn y blaid Geidwadol, ac i ryw raddau gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ein bod wedi cael pedair neu bum mlynedd o dwf—gwyddom nad yw hynny'n wir—a bod polisïau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn helpu i annog twf go iawn mewn economïau ledled y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn gwybod nad yw hynny'n wir. Gadewch i mi ddweud hyn wrthyh chi heddiw: os oes unrhyw amheuaeth nad yw polisïau'r Llywodraeth hon yn arwain at dwf, gadewch i mi sôn wrthyh am fy etholaeth. Mae tri deg un miliwn o bunnoedd y flwyddyn yn cael eu cymryd, drwy'r diwygiadau lles, oddi wrth y bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned o ganlyniad i bolisïau'r Llywodraeth honno. Dywedwch wrthyf—dywedwch wrthyf fod hynny'n mynd i fuddsoddi yn economi Blaenau Gwent, a bod hynny'n mynd i arwain at dwf ym Mlaenau Gwent. Rydym yn gweld twf mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig. Rydym yn gweld twf yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr ac nid ydym yn gweld twf mewn cymunedau fel Blaenau Gwent. Mae arnom angen Llywodraeth yn y DU sy'n mynd i fod yn deg i bawb yn y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru sy'n gallu buddsoddi yn economi Cymru.

Rwy'n gobeithio, ar ôl 7 Mai, y bydd gennym Lywodraeth, Llywodraeth Lafur, a fydd yn ailgydbwysio cyfoeth yn y Deyrnas Unedig fel penderfynydd ac amcan polisi allweddol. Ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud yr hyn y mae'n ei wneud heddiw—buddsoddi mewn pobl, buddsoddi mewn seilwaith ac adeiladu economi werdd, economi gynaliadwy. Buom yn trafod cloddio glo brig yn gynharach heddiw. Rydym yn gwybod nad y swyddi hynny, er mor werthfawr ydynt, yw'r swyddi a fydd yn caniatáu i ni adeiladu economi lwyddiannus yn y dyfodol. Felly, mae angen i'r Llywodraeth hon wneud yr hyn na all y farchnad ei wneud a'r hyn y mae'n gwrthod ei wneud, sef buddsoddi mewn pobl a lleoedd i greu twf a fydd yn dileu tlodi ac yn creu cymdeithas a chymuned wahanol iawn yn y dyfodol. Diolch yn fawr iawn.

15:52

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

I welcome the opportunity to speak in the debate this afternoon. I do take up Alun Davies's challenge, because, obviously, he's not a scholar of history—he's obviously trying to rewrite history—and as was pointed out, something that Gordon Brown did do, and I commend him for it, when he made the Bank of England independent—. But, at that time, he was urged to make sure that he reformed the regulatory environment that governed the City of London and also kept the competency of that governance under the Bank of England. He took that out and that was one of the fundamental planks that undermined the regulatory environment and that allowed many of the dodgy dealings that were going on at the time to flourish, and undermined the financial status of many of the institutions that caused part of—part of—the issues that the Conservative Government faced in 2010 in rebalancing the finances. But this—. [Interruption.] I'll take your intervention.

Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl y prynhawn yma. Rwy'n derbyn her Alun Davies, oherwydd mae'n amlwg nad yw'n ysgolhaig hanes—mae'n amlwg ei fod yn ceisio ailysgrifennu hanes—ac fel y nodwyd, rhywbeth y llwyddodd Gordon Brown i'w wneud, ac rwy'n ei gymeradwyo am hynny, pan wnaeth Fanc Lloegr yn annibynnol—. Ond ar y pryd, cafodd ei annog i wneud yn siŵr ei fod yn diwygio'r amgylchedd rheoleiddio a oedd yn llywodraethu yn Ninas Llundain a hefyd, cadwodd gymhwysedd y llywodraethiant dan Fanc Lloegr. Cafodd wared ar hynny ac roedd yn un o'r estyll sylfaenol a danseiliodd yr amgylchedd rheoleiddio a chaniataodd hynny i lawer o'r trafodion amheus a oedd yn digwydd ar y pryd i ffynnu, a thanseiliodd statws ariannol llawer o'r sefydliadau gan achosi rhan—rhan—o'r problemau a wynebodd y Llywodraeth Geidwadol yn 2010 o ran ailgydbwysu cyllid. Ond mae'r—. [Torri ar draws.] Rwy'n derbyn eich ymyriad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:53

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you share my concern that when that happened, when banking supervision was taken from the Bank of England to the FSA, the Financial Services Authority, Ed Miliband was Gordon Brown's special adviser, and in 2004 he was chair of the Treasury's economic advisory council when they transferred the regulation of mortgages from the Mortgage Code Compliance Board to the Financial Services Authority?

A ydych yn rhannu fy mhryder mai Ed Miliband oedd cyngorydd arbennig Gordon Brown pan ddigwyddodd hynny, pan gafodd y swyddogaeth i oruchwylio bancio ei symud o Fanc Lloegr i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, ac yn 2004 ef oedd cadeirydd cyngor ymgynghorol y Trysorlys ar yr economi pan gafodd y gwaith o reoleiddio morgeisi ei drosglwyddo o'r Bwrdd Cydymffurfio â Chod Morgeisi i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:54

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I take those points, and obviously the two Eds were at the heart of many of the problems, and now people are being asked to give them their confidence to do their damage all over again.

But, today, it is worth reflecting in the debate, because, obviously, there are links between the UK economy and the Welsh economy and the election is of vital importance to both parts. That is why, when I became leader, I set out that the tone that what we wanted to achieve was to build on the economic foundations that the UK Government had set, by bringing forward strategies on finance for Welsh businesses, on inward investment, on a housing strategy and also on high street regeneration, because it is vital that Wales does not get left behind the economic boom that is going on at the moment. You can't question that there isn't an economic boom going on at the moment. The employment figures last week bore that out, and the growth figures were revised up from 2.6 to 2.8.

Rwy'n derbyn y pwyntiau hynny, ac mae'n amlwg fod y ddau Ed wrth wraidd llawer o'r problemau, ac yn awr maent yn gofyn i bobl ymddiried ynddynt i wneud eu difrod i gyd eto.

Ond heddiw, mae'n werth ystyried yn y ddadl, oherwydd mae'n amlwg fod cysylltiadau rhwng economi'r DU ac economi Cymru ac mae'r etholiad yn hanfodol bwysig i'r ddwy ohonynt. Dyna pam, pan ddeuthum yn arweinydd, y nodais mai'r hyn roeddem am ei gyflawni oedd adeiladu ar y seiliau economaidd roedd Llywodraeth y DU wedi eu gosod, drwy gyflwyno strategaethau ar gyllid i fusnesau Cymru, ar fewnfuddsoddi, ar strategaeth tai a hefyd ar adfywio'r stryd fawr, am ei bod hi'n hollbwysig nad yw Cymru yn cael ei gadael ar ôl gan y ffyniant economaidd sy'n digwydd ar hyn o bryd. Ni allwch wadu nad oes ffyniant economaidd yn digwydd ar hyn o bryd. Roedd y ffigurau cyflogaeth yr wythnos diwethaf yn dangos hynny, a chafodd y ffigurau twf eu hadolygu a'u codi o 2.6 i 2.8.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We are the fastest growing economy in the western world. This is obviously a debate that the parties of the left clearly didn't think was going to happen in 2015, because they spent so much time in 2011, 2012 and 2013 talking of double-dip and triple-dip recessions. I well remember the debates and discussions with the First Minister here around First Minister's questions. When unemployment was going up, it was all the UK Government's fault. When there weren't businesses being created, it was all the UK Government's fault. But now, all of a sudden, everything is great and it is all the Welsh Government's doing, it is. Well, you can't have it both ways, you can't. I do accept that this Government, in fairness to it, under the current Minister, has worked to improve the inward investment offer that the Welsh Government has out there, from an appalling situation where its figures had dropped to about 2 per cent to 3 per cent of inward investment. We are now at the giddy heights of about 4.5 per cent of all inward investment into the United Kingdom. Historically, we have enjoyed figures of 15 per cent inward investment into the United Kingdom, so we still have a long, long way to go. But, when you look at the jobs market, and the flexibility within the jobs market, that is a critical component about new businesses being able to start up. I will gladly take an intervention, Joyce, because I know you have trying very hard.

Ni yw'r economi sy'n tyfu gyflymaf yn y byd gorllewinol. Mae hon yn amlwg yn ddadl nad oedd y pleidiau ar y chwith yn meddwl y byddai'n digwydd yn 2015, am eu bod wedi treulio cymaint o amser yn trafod dirwasgiadau dwbl a thriphlyg yn ystod 2011, 2012 a 2013. Rwy'n cofio'r dadleuon a'r trafodaethau gyda'r Prif Weinidog yma adeg cwestiynau i'r Prif Weinidog. Pan oedd lefelau diweithdra'n codi, bai Llywodraeth y DU oedd hynny. Pan nad oedd busnesau'n cael eu creu, bai Llywodraeth y DU oedd hynny. Ond yn awr, yn sydyn, mae popeth yn wych ac mae'r diolch am hynny i Lywodraeth Cymru. Wel, ni allwch ei chael hi bob ffordd. Rwy'n derbyn bod y Llywodraeth hon, er tegwch iddi, o dan y Gweinidog presennol, wedi gweithio i wella cynnig mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru o sefyllfa ofnadwy lle'r oedd ei ffigurau wedi gostwng i tua 2 y cant i 3 y cant o'r mewnfuddsoddiad. Rydym yn awr wedi cyrraedd uchderau o tua 4.5 y cant o'r holl fewnfuddsoddiad i'r Deyrnas Unedig. Yn hanesyddol, rydym wedi gweld ffigurau o 15 y cant o'r mewnfuddsoddiad i'r Deyrnas Unedig, felly mae gennym ffordd bell, bell i fynd eto. Ond pan edrychwch ar y farchnad swyddi, a'r hyblygrwydd yn y farchnad swyddi, mae honno'n elfen hanfodol sy'n galluogi busnesau newydd i gychwyn. Rwy'n hapus i dderbyn ymyriad, Joyce, oherwydd rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn ymdrechu'n galed iawn.

15:56 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. I do want to congratulate the Conservative Government on some of their growth areas. One of their growth areas has been the growth in zero-hour contracts. Another growth area that you have succeeded in is putting more people into poverty. The other growth area that you should be congratulated on is the bedroom tax and the number of people who are now homeless, and the people that I have met on the doorstep who are absolutely destitute as a consequence. That's the growth you've given to us.

Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. Rwyf am longyfarch y Llywodraeth Geidwadol ar rai o'u meysydd twf. Un o'u meysydd twf yw'r twf mewn contractau dim oriau. Maes twf arall rydych wedi llwyddo ynddo yw gwneud mwy o bobl yn dlawd. Y maes twf arall y dylech gael eich llongyfarch arno yw'r dreth ystafell wely a nifer y bobl sydd bellach yn ddiartref, a'r bobl rwyf wedi eu cyfarfod ar garreg y drws sy'n hollol ddiymgeledd o ganlyniad. Dyna'r twf rydych wedi ei roi i ni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:56 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The growth we've given is more families having take-home pay, more jobs in the market and, ultimately, more businesses opening here in Wales. Nearly 25,000 new businesses have been created in Wales. It is the right of the Labour Party to try and talk this economic miracle down, but it is happening, it is a success story and, as we have heard from the IMF and we've heard from other speakers tonight—today, I should say—who have highlighted Nobel laureates and Nobel award-winners that have said about UK performance—. Many of those learned individuals have had to eat their words, such as the chief economist at the IMF, who, two years ago, was damning George Osborne's performance. Now, his boss had to come back, eat humble pie and actually commend what the UK is doing. That is a fact and you can't talk that down.

Y twf rydym wedi'i roi yw sicrhau bod mwy o deuluoedd yn cael cyflog i fynd adref, mwy o swyddi yn y farchnad ac yn y pen draw, mwy o fusnesau yn agor yma yng Nghymru. Mae bron i 25,000 o fusnesau newydd wedi cael eu creu yng Nghymru. Mae gan y Blaid Lafur hawl i geisio bychanu'r wyrth economaidd hon, ond mae'n digwydd, mae'n llwyddiant ac fel y clywsom gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol a chan siaradwyr eraill heno—heddiw, dylwn ddweud—sydd wedi tynnu sylw at enillwyr gwobr Nobel a ddywedodd am berfformiad y DU—. Mae llawer o'r unigolion dysgedig hynny wedi gorfod cyfaddef eu bod yn anghywir, megis prif economegydd y Gronfa Ariannol Ryngwladol, a oedd yn beirniadu perfformiad George Osborne ddwy flynedd yn ôl. Nawr, roedd yn rhaid i'w bennaeth ddod yn ei ôl, dangos ychydig o wyleidd-dra a chymeradwyo'r hyn y mae'r DU yn ei wneud mewn gwirionedd. Mae hynny'n ffaith ac ni allwch wadu hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ultimately, when we are looking for the next five years and the working relationship between the future UK Government and the Welsh Government, it is vital that both Governments work to better the economic prospects of Wales. The way that that is done is by paying down the debt, making sure that the infrastructure capacity is built that the UK Government has invested in—on electrification and the metro system—and, above all, making sure that the economy continues on its path of growth and prosperity. All that could be put in jeopardy if people make the wrong choice on 7 May. That's why this motion is before the Assembly today, and that is why I commend it to the Assembly. Ultimately, the job needs finishing, and the long-term economic plan needs to be stuck to.

Yn y pen draw, pan edrychwn ar y pum mlynedd nesaf a'r berthynas waith rhwng Llywodraeth y DU yn y dyfodol a Llywodraeth Cymru, mae'n hanfodol fod y ddwy Lywodraeth yn gweithio i wella rhagolygon economaidd Cymru. Y ffordd i wneud hynny yw drwy dalu'r ddyled yn ôl, gan wneud yn siŵr fod capasiti'r seilwaith y mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi ynddo yn cael ei adeiladu—o ran trydaneiddio a'r system fetro—ac yn anad dim, drwy wneud yn siŵr fod yr economi yn parhau ar lwybr twf a ffyniant. Gellid peryglu'r cyfan hyn os bydd pobl yn gwneud y dewis anghywir ar 7 Mai. Dyna pam y mae'r cynnig hwn gerbron y Cynulliad heddiw, a dyna pam rwy'n ei gymeradwyo i'r Cynulliad. Yn y pen draw, mae angen gorffen y gwaith, ac mae angen cadw at y cynllun economaidd hirdymor.

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:58 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you, Deputy Presiding Officer. Let me begin by highlighting a point on which we can all agree, I think, which is, namely, the importance of a thriving private sector in generating wealth that helps to sustain our public services here in Wales. I don't think anyone can demur from that particular point.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Gadewch i mi ddechrau drwy dynnu sylw at bwynt y gall pawb ohonom gytuno arno, rwy'n credu, sef pwysigrwydd sector preifat ffyniannus i gynhyrchu cyfoeth sy'n helpu i gynnal ein gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru. Nid wyf yn credu y gall neb anghytuno â'r pwynt penodol hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If I can deal first, Deputy Presiding Officer, with the amendments that are before us today, we will be supporting amendment 1 in the name of Elin Jones. The impact of the UK Government's cuts to the Welsh budget mean that, by 2015-16, there is £1.5 billion less in our budget for public services than there was in 2010-11. So, I was very interested in Mohammad Asghar's contribution, when he said how committed they were to public services, when you realise, of course, that that is a reduction in our budget of about 9 per cent over this Assembly term. In cash terms, the budget deficit has reduced from £153 billion in 2009-10 to £97 billion in 2013-14. However, the UK economic recovery remains sluggish and potentially unbalanced, with exports performing poorly despite some recent improvements, and business investment is still too weak. Also as well, the budget deficit—and I thank Keith for these figures as well—will be at least £90 billion in the current financial year, well over twice as large as the coalition Government targeted when it announced its fiscal austerity policies in 2010. So, austerity has not coincided with the decline in the deficit expected by the coalition Government.

Os caf ymddrin yn gyntaf, Ddirprwy Lywydd, â'r gwelliannau sydd gerbron heddiw, fe fyddwn yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Elin Jones. Mae effaith toriadau Llywodraeth y DU i gyllideb Cymru yn golygu, erbyn 2015-16, fod £1.5 biliwn yn llai yn ein cyllideb ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus nag yn 2010-11. Felly, roedd gennyf ddiddordeb mawr yng nghyfraniad Mohammad Asghar, pan soniodd am eu hymrwymiad i wasanaethau cyhoeddus, pan sylweddolwch, wrth gwrs, fod hynny'n lleihad o tua 9 y cant i'n cyllideb dros dymor y Cynulliad hwn. Mewn termau ariannol, mae'r diffyg yn y gyllideb wedi gostwng o £153 biliwn yn 2009-10 i £97 biliwn yn 2013-14. Fodd bynnag, mae adferiad economaidd y DU yn parhau i fod yn swrth ac o bosibl yn anghytwys, gydag allforion yn perfformio'n wael er gwaethaf rhai gwelliannau diweddar, ac mae buddsoddiadau busnes yn dal i fod yn rhy wan. Yn ogystal, bydd y diffyg yn y gyllideb—a diolch i Keith am y ffigurau hyn hefyd—wedi cyrraedd £90 biliwn fan lleiaf yn y flwyddyn ariannol gyfredol, gryn dipyn yn fwy na dwywaith cymaint â tharged y Llywodraeth glymblaid pan gyhoeddodd ei pholisïau caledi ariannol yn 2010. Felly, nid yw caledi wedi arwain at y gostyngiad yn y diffyg a ddisgwylia'r Llywodraeth glymblaid.

In addition, we will be supporting amendment 2, which was well outlined in the points by Alun Ffred Jones. Using the annual population survey, the statistics for employment show a 36,000 increase in full-time workers, an 18,000 increase in part-time, plus 4,000 for those that did not state whether it was full or part-time, and, of the 18,000 extra part-time workers, 16,000 could not find a full-time job. So, that is the reality of the employment situation.

Yn ogystal, byddwn yn cefnogi gwelliant 2, a gafodd ei amlinellu'n dda yn y pwyntiau gan Alun Ffred Jones. Gan ddefnyddio'r arolwg poblogaeth blyneddol, mae'r ystadegau cyflogaeth yn dangos cynnydd o 36,000 yn nifer y gweithwyr amser llawn, 18,000 o gynnydd yn nifer y gweithwyr rhan-amser, yn ogystal â 4,000 o rai na nododd a oedd yn waith amser llawn neu ran-amser, ac o'r 18,000 o weithwyr rhan-amser ychwanegol, ni allai 16,000 ohonynt ddod o hyd i swydd amser llawn. Felly, dyna realiti'r sefyllfa gyflogaeth.

We will not be supporting the amendments from the Liberal Democrats. On amendment 3, saying the 'fastest growing of the G7 countries', we can't definitively say that statement is true, due to some varying statistic that actually now puts Germany in the lead, so I am advised.

On amendment 4, you might want to disassociate yourself from your coalition colleagues, but we won't be supporting the amendment because it's inaccurate; it was actually UK Government policy, not Liberal policy, regarding the £800 income tax cut. And, in terms of amendment 5, we will also be opposing it for reasons that I think have been outlined in discussion. We can't support the amendment due to the potential effect on the Welsh Government. The need for investment was underlined by the recent Institute of Welsh Affairs report on economic strategy for Wales, and the report highlights the importance of demanding fair funding for Wales, and the current settlement deprived us of resources that we could use for investment. So, further investment will not be delivered by a continuation of delivering cuts that are too deep and go too far.

In general terms, we work very closely as a Welsh Government with the private sector and are helping, I believe, businesses to deliver real and lasting benefits for the Welsh economy. Private sector output has increased at a faster pace in Wales than in the UK since the recession. Since 2010, the number of people employed in the private sector in Wales has increased by 78,900—an increase of 8.8 per cent, faster than the rate of increase in the UK. Last year was a record for inward investment, attracting 79 projects to Wales. This was the best performance since records began 30 years ago, and we continue to build on this success. Whilst numbers have yet to be finalised for the end of the financial year, my hope is that 2014-15 will prove to be another record year for inward investment into Wales. Many of these inward investors are new companies to Wales, creating new jobs, new investments and new supply chain opportunities for existing Welsh companies. In addition, we provide a range of support to companies to assist them in exploring, for example, financial support, assistance with documentation, advice on developing exports, and general advice on where and how to export particular goods. This year, we have supported exhibitions and trade missions in 16 overseas markets, including UAE, South Africa, Vietnam, Mexico and the USA. The value of the new export business secured in 2014-15 by companies we've supported is £52 million.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. O ran gwelliant 3, sy'n dweud mai ni yw'r wlad sy'n 'tyfu gyflymaf ymhlith gwledydd y G7', ni allwn ddweud yn bendant fod y datganiad yn wir, yn sgil rhyw ystadegyn amrywiol sydd mewn gwirionedd yn gosod yr Almaen ar y blaen bellach, yn ôl yr hyn a ddywedir wrthyf.

O ran gwelliant 4, efallai eich bod am ddatgysylltu eich hunain oddi wrth eich cydweithwyr yn y glymblaid, ond ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant am ei fod yn anghywir; polisi Llywodraeth y DU oedd y toriad o £800 yn y dreth incwm mewn gwirionedd, nid polisi Rhyddfrydol. Ac o ran gwelliant 5, fe fyddwn yn ei wrthwynebu hefyd am resymau a amlinellwyd yn y drafodaeth rwy'n credu. Ni allwn gefnogi'r gwelliant oherwydd yr effaith bosibl ar Lywodraeth Cymru. Cafodd yr angen am fuddsoddiad ei danlinellu yn yr adroddiad diweddar gan y Sefydliad Materion Cymreig ar strategaeth economaidd i Gymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd mynnu cyllid teg i Gymru, ac mae'r setliad presennol wedi ein hamddifadu o adnoddau y gallem fod wedi eu defnyddio i fuddsoddi. Felly, ni chaiff buddsoddi pellach ei gyflawni drwy barhau i gyflwyno toriadau sy'n rhy ddfwfn ac yn rhy eithafol.

Yn gyffredinol, rydym yn gweithio'n agos iawn fel Llywodraeth Cymru gyda'r sector preifat ac rwy'n credu ein bod yn helpu busnesau i sicrhau manteision gwirioneddol a pharhaol i economi Cymru. Mae allbwn y sector preifat wedi cynyddu'n gyflymach yng Nghymru nag yn y DU ers y dirwasgiad. Ers 2010, mae nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi yn y sector preifat yng Nghymru wedi cynyddu 78,900—cynnydd o 8.8 y cant, sy'n gyflymach na chyflymder y cynnydd yn y DU. Roedd y llynedd yn flwyddyn well na'r un o ran mewnfuddsoddi, a denwyd 79 o brosiectau i Gymru. Hwn oedd y perfformiad gorau ers i'r cofnodion ddechrau cael eu cadw 30 mlynedd yn ôl, ac rydym yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant. Er bod y niferoedd eto i'w cadarnhau ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol, rwy'n gobeithio mai 2014-15 fydd y flwyddyn orau eto o ran mewnfuddsoddiad i Gymru. Mae llawer o'r mewnfuddsoddwyr hyn yn gwmnïau newydd i Gymru, yn creu swyddi newydd, buddsoddiadau newydd a chyfleoedd newydd o ran y gadwyn gyflenwi i gwmnïau o Gymru sy'n bodoli eisoes. Yn ogystal, rydym yn darparu amrywiaeth o gymorth i gwmnïau i'w helpu i archwilio cymorth ariannol er enghraifft, neu gymorth gyda dogfennau, cyngor ar ddatblygu allforion, a chyngor cyffredinol ar ble a sut i allforio nwyddau penodol. Eleni, rydym wedi cefnogi arddangosfeydd a theithiau masnach mewn 16 o farchnadoedd tramor, gan gynnwys Yr Emiraethau Arabaidd Unedig, De Affrica, Fietnam, Mecsico ac UDA. Sicrhawyd gwerth £52 miliwn o fusnes allforio newydd yn 2014-15 gan gwmnïau a gefnogwyd gennym.

Whilst I can agree on the need for a thriving private sector in Wales, which we're working to encourage and support, I cannot endorse the vision of the UK economy set out by the Conservatives in this motion. As a Government, we are committed to ensuring long-term economic growth, and Welsh Government economic policies have fostered a marked improvement in economic conditions in Wales in recent years. Recent statistics have shown that the labour market in Wales is improving at a faster rate than across the UK as a whole over the last quarter. Unemployment and economic inactivity have fallen faster, and employment has increased at a higher rate than across the UK over the period. The claimant count is lower across all areas of Wales than at the same time last year, and the annual population survey shows that youth unemployment is also falling faster in Wales than across the UK. We've supported over 37,000 jobs in the last financial year and are continuing with wide-ranging actions to improve our economic prospects.

Whilst the recent upturn in the economy is to be welcomed, it's essential that we recognise that we have contributed to this success within Wales. We've continued to support jobs and growth right across Wales, investing in infrastructure, business finance, skills and innovation, despite the deep cuts that have occurred in our budget. We've worked to address the need for business to access finance to help them to grow—we have so many schemes in Wales. Andrew R.T. Davies, in his contribution, was saying about the focus they had for helping business. We started that focus a long time ago with the economic growth fund, the SME investment fund, the microbusiness loan fund, digital development—and I could go on. These are funds that are really making a difference to the economy. We're seeing very positive news here in Wales, but we do remain concerned about uncertainty and insecurity in the workplace resulting from the growing casualisation of the workforce.

Whilst this motion refers to the UK Government's policies being essential to the restoration of the UK economy, the reality is that nearly 700,000 people have zero-hours contracts in their main job, 1.3 million people are working part-time because they cannot get a full-time job, and half of all those in poverty live in working households. This is a real issue for us as we try to develop the Welsh economy. Now, the Wales TUC believes there is evidence that zero-hours contracts are contributing to in-work poverty, particularly in those sectors in which pay is relatively low, such as retail, hospitality, entertainment and leisure.

Er y gallaf gytuno â'r angen am sector preifat ffyniannus yng Nghymru, ac rydym yn gweithio i annog a chefnogi hynny, ni allaf gymeradwyo'r weledigaeth o economi'r DU fel y'i nodwyd gan y Ceidwadwyr yn y cynnig hwn. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau twf economaidd hirdymor, ac mae polisiau economaidd Llywodraeth Cymru wedi meithrin gwelliant amlwg yn yr amodau economaidd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ystadegau diweddar wedi dangos bod y farchnad lafur yng Nghymru yn gwella'n gyflymach na gweddill y DU yn gyffredinol dros y chwarter diwethaf. Mae lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd wedi gostwng yn gyflymach, ac mae lefelau cyflogaeth wedi cynyddu'n gyflymach na gweddill y DU dros y cyfnod. Mae nifer hawlwyr budd-daliadau'n is ar draws pob ardal o Gymru nag ar yr un adeg y llynedd, ac mae'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth yn dangos bod diweithdra ymhlith pobl ifanc hefyd yn gostwng yn gyflymach yng Nghymru na gweddill y DU. Rydym wedi cefnogi dros 37,000 o swyddi yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac yn parhau i weithredu camau amrywiol i wella ein rhagolygon economaidd.

Er bod y gwelliant diweddar yn yr economi i'w groesawu, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod ein bod wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn yng Nghymru. Rydym wedi parhau i gefnogi swyddi a thwf ledled Cymru, gan fuddsoddi yn y seilwaith, cyllid busnes, sgiliau ac arloesi, er gwaethaf y toriadau dwfn a wnaed i'n cyllideb. Rydym wedi gweithio i fynd i'r afael â'r angen i fusnesau gael mynediad at gyllid i'w helpu i dyfu—mae gennym gymaint o gynlluniau yng Nghymru. Roedd Andrew R.T. Davies, yn ei gyfraniad, yn sôn am eu ffocws ar helpu busnesau. Fe ddechreuom roi'r ffocws hwnnw amser maith yn ôl gyda'r gronfa twf economaidd, cronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolig, y gronfa fenthyciadau i ficrofusnesau, datblygu digido—a gallwn barhau. Mae'r rhain yn gronfeydd sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'r economi. Rydym yn gweld newyddion cadarnhaol iawn yma yng Nghymru, ond rydym yn parhau i fod yn bryderus ynglŷn ag ansicrwydd yn y gweithle o ganlyniad i natur achlysurol gynyddol y gweithlu.

Er bod y cynnig hwn yn cyfeirio at sut y mae polisiau Llywodraeth y DU yn hanfodol i adfer economi'r DU, y gwir amdani yw bod bron i 700,000 o bobl ar contractau dim oriau yn eu prif swydd, mae 1.3 miliwn o bobl yn gweithio'n rhan-amser gan nad ydynt yn gallu cael swydd amser llawn, ac mae hanner y rhai sy'n byw mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio. Mae hon yn broblem wirioneddol wrth i ni geisio datblygu economi Cymru. Nawr, mae TUC Cymru yn credu bod yna dystiolaeth fod contractau dim oriau yn cyfrannu at dlodi mewn gwaith, yn enwedig mewn sectorau lle y mae cyflogau'n gymharol isel, megis manwerthu, lletygarwch, adloniant a hamdden.

Now, qualification for in-work benefits is linked to the number of hours worked, and any variation in that number can lead to delays. We've also got to recognise as well that growth and sustainability are at the heart of our programme for government, and we've made it clear that our absolute focus is on supporting and boosting this. Now, it was very interesting, some of the comments on this debate. I have to say, in terms of apprenticeships and the way we've dealt with training with employers, it's good news in Wales, and employers will tell you that. Also as well, Jobs Growth Wales: you know there's a lot of peddling of false information. I don't want to be uncharitable in this Chamber, because at the end of day we all understand how European structural funds work—if we don't, we shouldn't be sitting in this Chamber. We know that one programme comes to an end and a new programme starts, and we're also aware that young people and employers know that there will be a new programme coming shortly, and what will happen with regard to that new programme is we've got to get agreement from the European Union on about what is done. That's the reality, and I do think it's disingenuous of people to make an issue of this.

Jeff Cuthbert a gododd—

Nawr, mae bod yn gymwys i gael budd-daliadau mewn gwaith yn gysylltiedig â nifer yr oriau a weithir, a gall unrhyw amrywiad i nifer yr oriau arwain at oedi. Mae'n rhaid i ni gydnabod hefyd fod twf a chynaliadwyedd yn ganolog i'n rhaglen lywodraethu, ac rydym wedi ei gwneud yn glir fod ein ffocws yn llwyr ar gefnogi a hybu hyn. Nawr, roedd rhai o'r sylwadau yn y ddadl hon yn ddi-ddorol iawn. Mae'n rhaid i mi ddweud bod prentisiaethau a'r ffordd rydym wedi delio â hyfforddiant gyda chyflogwyr yn newyddion da yng Nghymru, a bydd cyflogwyr yn dweud hynny wrthyf. Hefyd, Twf Swyddi Cymru: fe wyddoch fod llawer o wybodaeth anghywir yn cael ei lleadaenu. Nid wyf am fod yn angharedig yn y Siambr hon, oherwydd yn y pen draw rydym i gyd yn deall sut y mae cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn gweithio—os nad ydym yn deall hynny, ni ddylem fod yn eistedd yn y Siambr hon. Gwyddom fod un rhaglen yn dod i ben a rhaglen newydd yn dechrau, ac rydym hefyd yn ymwybodol fod pobl ifanc ac chyflogwyr yn gwybod y bydd rhaglen newydd yn dod cyn hir, ac mae'n rhaid i ni sicrhau cytundeb yr Undeb Ewropeaidd o ynglŷn â beth fydd yn digwydd i'r rhaglen newydd honno. Dyna'r realiti, ac rwy'n credu bod yn annidwyll yn gwneud môr a mynydd o hyn.

Jeff Cuthbert rose—

- 16:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We're up against the wire now, Jeff. Rydym yn brin o amser nawr, Jeff.
- 16:06 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Did you want— A oeddech chi eisiau—
- 16:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I'd rather you conclude now, Minister. Byddai'n well gennyf pe baech yn dod i ben yn awr, Weinidog.
- 16:06 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Okay. Thank you. So, I think we all understand the reality of some of these issues. We as a Government are concerned about getting the poorest in society and the most vulnerable in society into more sustainable employment, and to protect them. At the end of the day, I'm glad I was never George Osborne, who lost 26-1 when he objected to the European Union looking at bankers' bonuses. So, I think where your economic policies come from is not the same direction as ours, which are about social justice. lawn. Diolch yn fawr. Felly, rwy'n credu ein bod i gyd yn deall y gwir ynglŷn â'r materion hyn. Rydym ni fel Llywodraeth yn poeni ynglŷn â chael cyflogaeth fwy cynaliadwy i'r tlotaf a'r mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, a'u hamddiffyn. Yn y pen draw, rwy'n falch nad fi yw George Osborne, a gollodd 26-1 pan oedd yn gwrthwynebu i'r Undeb Ewropeaidd edrych ar daliadau bonws i fancwyr. Felly, nid wyf yn credu bod eich polisiau economaidd yn dod o'r un cyfeiriad â'n rhai ni, sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol.
- 16:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Nick Ramsay to reply to the debate. Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

16:06

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and can I thank everyone who has contributed to today's debate on the economy, particularly Alun Davies, I have to say? Alun, it's always good to hear from you, even if your own party don't always think so. I have to say that, if you miss your vocation as a politician, your vocation as a spin doctor is in no doubt, particularly when you said that the current overspending is the source of the country's problems. Well, of course, current debt is due to historical debt, as you well know, Alun, and I know in your heart of hearts you don't think that the country should have been left in the position it was by the last UK Labour Government.

This debate is about a motion that, political point-scoring aside, we should all be able to support. Because there is no doubt at all that the strengthening of the UK economy has indeed underpinned growth in the private sector and created over 2 million jobs. If I could turn to Plaid Cymru's amendment first, and the 'unnecessary', to use the words, '10% cut to the Welsh budget', well, of course, the savings that have been made have been difficult. There have been cuts not just to the Welsh budget but to budgets across the UK, and they haven't singled Wales out, but they have been extremely difficult. But that was sadly made necessary—not mentioned by your amendment—by the situation the UK coalition Government unfortunately found itself in. As Liam Byrne, the Labour MP, once famously noted, there is no money left. That was the reality of the situation. That was the reality of the inheritance from the last UK Labour Government. That was the legacy. Thank goodness that two parties, at least, were prepared to step up to the plate and draw this country back from the brink. Unpopular decisions, yes. Difficult decisions, yes. But decisions that had to be made; decisions that had to be faced. It's difficult to imagine now where we would be if some of the left-wing parties had been running the show, and we'd all stuck our heads in the sand and hoped that things had simply gone away. I tell you now, they wouldn't have gone away. Things would not simply have got better; they would have got worse. Yes, difficult decisions have been made, but they had to be made.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddafl heddiw ar yr economi, yn enwedig Alun Davies, mae'n rhaid i mi ddweud? Alun, mae hi bob amser yn dda clywed gennych, hyd yn oed os nad yw eich plaid eich hun bob amser yn meddwl hynny. Os daw eich galwedigaeth fel gwleidydd i ben, mae'n rhaid i mi ddweud nad oes amheuaeth y bydd eich galwedigaeth fel ddewin delwedd yn ddiogel, yn enwedig pan ddywedoch mai'r gorwariant cyfredol sydd wrth wraidd problemau'r wlad. Wel, wrth gwrs, mae'r ddyled sydd gennym ar hyn o bryd yn deillio o ddyled hanesyddol, fel y gwyddoch yn iawn, Alun, ac rwy'n gwybod nad ydych yn credu yng ngwaelod eich calon fod y wlad yn haeddu cael ei gadael yn yr un sefyllfa ag a wynebodd ar ôl y Llywodraeth Lafur ddiwethaf.

Gan roi sgorio pwyntiau gwleidyddol o'r neilltu, mae'r ddafl hon yn ymwneud â chynnig y dylai pawb ohonom allu ei gefnogi. Oherwydd nid oes amheuaeth o gwbl fod cryfhau economi'r DU wedi bod yn sail i dwf yn y sector preifat ac wedi creu mwy na 2 filiwn o swyddi. Os caf droi at welliant Plaid Cymru yn gyntaf, a'r 'toriad diangen o 10% yng nghyllideb Cymru', i ddefnyddio eu geiriau hwy, wel, wrth gwrs fod yr arbedion a wnaed wedi bod yn anodd. Cafwyd toriadau i gyllidebau ar draws y DU, nid i gyllideb Cymru'n unig, ac ni chafodd Cymru ei neilltuo, ond maent wedi bod yn hynod o anodd. Ond yn anffodus, roedd hynny'n angenrheidiol—ac ni chrybwyllwyd hyn yn eich gwelliant—o ganlyniad i'r sefyllfa a wynebodd Lywodraeth glymblaid y DU. Yng ngeiriau enwog Liam Byrne, yr AS Llafur, nid oes unrhyw arian ar ôl. Dyna oedd realiti'r sefyllfa. Dyna oedd realiti'r etifeddiaeth a adawodd Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU. Dyna oedd yr etifeddiaeth. Diolch byth fod dwy blaid, o leiaf, yn barod i fachu ar y cyfle i dynnu'r wlad yn ôl o ochr y dibyn. Roeddent yn benderfyniadau amhoblogaidd. Roeddent yn benderfyniadau anodd. Ond roeddent yn benderfyniadau roedd yn rhaid eu gwneud; penderfyniadau roedd yn rhaid eu hwynebu. Mae'n anodd dychmygu lle y byddem ni bellach pe bai rhai o'r pleidiau adain chwith wedi bod wrth y llyw, a byddai pob un ohonom wedi claddu ein pennau yn y tywod a gobeithio y byddai'r broblem yn diflannu. Rwy'n dweud wrthych yn awr, ni fyddai wedi diflannu. Ni fyddai pethau wedi gwella; byddent wedi gwaethygu. Do, gwnaed penderfyniadau anodd, ond roedd yn rhaid iddynt gael eu gwneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:08

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:08

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In one moment, Alun. Well, okay, now. I'll give way to you now.

Mewn munud, Alun. Wel, iawn, yn awr. Rwy'n ildio i chi yn awr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:09

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. You draw a picture there of an economy that was in crisis in 2010 that was saved by the work of the Conservatives and the Liberal Democrats. In fact, the economy in 2010 was recovering, and that recovery was stopped dead in its tracks by the policies of the coalition Government.

Diolch yn fawr iawn. Rydych yn paentio darlun o economi a oedd mewn argyfwng yn 2010 a gafodd ei hachub gan waith y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Yn wir, roedd yr economi yn 2010 yn adfer, a rhoddwyd diwedd ar yr adferiad ar amrantiad gan bolisiau'r Llywodraeth glymblaid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I do like being by accused by Alun Davies of painting a picture. Alun, the fact is, as you know full well, the debt that was racked up in the good times, back in the early 2000s—not in the first term of Tony Blair, but in the second term, when Gordon Brown as Chancellor was given a complete blank canvas to spend—that was what led to the problem, because the banking crisis doubled the deficit. It didn't create the deficit, it doubled the deficit. We shouldn't have been going into that situation as we did economically. We should—to use the phrase that I think Eluned Parrott was dying to use—have fixed the roof when the sun was shining. You steered clear of that, but I think in your contribution, Eluned, you also made the point that, in 2008, the UK debt situation should not have been in the situation it was. We should have sorted that problem out before then. And then, yes, the problem that happened afterwards, with the deregulation of the banking situation, that would not have hit Britain as hard as it did. But you're not to blame for that, Alun Davies. That's more the problem of Gordon Brown.

As Mohammad Asghar said, it has been tough. No-one pretended it would be easy. The Welsh Government, of course, has felt that. That is understandable. You have our sympathy on that. Of course, cuts have been made and the Welsh Government has had to make its own cuts as well. We might disagree with the priorities that you've set, but they are your priorities and you will face your own electorate next year with those priorities. But they had to be made in some way or other.

As Andrew R.T. Davies said, there is sometimes a feeling that the Labour Party almost wants the economy to be getting worse under the UK Government. I must be wrong in saying that; I'm sure no party would really want the situation at the moment to be getting worse. But when we on this side of the Chamber, and the Liberal Democrats indeed, talk about the growth forecast of the economy being upgraded to 2.7 per cent from 2.5 per cent, when Ángel Gurría of the OECD has described the performance of the Labour market in the UK as remarkable, all of these improvements are signs of how you can turn an economy around in a relatively short space of time if you are prepared to take the tough decisions that are necessary.

Wel, rwy'n hoff o gael fy nghyhuddo gan Alun Davies o baentio darlun. Alun, fel y gwyddoch yn iawn, mae'n ffaith fod y ddyled a oedd wedi cronni dros y dyddiau da, yn ôl ar ddechrau'r 2000au—nid yn ystod tymor cyntaf Tony Blair, ond yn ystod yr ail dymor, pan gafodd Gordon Brown fel Canghellor ganfas wag i wario arno—dyna a arweiniodd at y broblem, am fod yr argyfwng bancio wedi dyblu'r diffyg. Ni chreodd y diffyg, fe ddyblodd y diffyg. Ni ddylem fod wedi mynd i'r sefyllfa honno fel y gwnaethom yn economaidd. Dylem—a defnyddiaf yr ymadrodd y credaf fod Eluned Parrott yn ysu i'w ddefnyddio gynnu fach—fod wedi trwsio'r to pan oedd yr haul yn tywynnu. Fe gadwoch chi'n glir o hynny, ond rwy'n credu eich bod wedi gwneud y pwynt yn eich cyfraniad, Eluned, na ddylai'r DU fod wedi bod yn y sefyllfa roedd hi ynnddi yn 2008 o ran y ddyled. Dylem fod wedi datrys y broblem honno cyn hynny. Felly, ie, ni fyddai'r broblem a ddigwyddodd yn ddiweddarach, gyda dadreoleiddio'r sefyllfa fancio wedi taro Prydain mor ddrwg ag y gwnaeth. Ond nid eich bai chi yw hynny, Alun Davies. Problem yn ymwneud â Gordon Brown oedd hi'n bennaf.

Fel y dywedodd Mohammad Asghar, mae wedi bod yn anodd. Nid oedd neb yn esgus y byddai'n hawdd. Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, wedi teimlo hynny. Mae hynny'n ddealladwy. Rydym yn cydymdeimlo â chi o ran hynny. Wrth gwrs, mae toriadau wedi cael eu gwneud ac mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud ei thoriadau ei hun hefyd. Efallai ein bod yn anghytuno â'r blaenoriaethau rydych wedi'u gosod, ond eich blaenoriaethau chi ydynt a byddwch yn wynebu eich etholaethau eich hun y flwyddyn nesaf gyda'r blaenoriaethau hynny. Ond roedd yn rhaid iddynt gael eu gwneud mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Fel y dywedodd Andrew R.T. Davies, mae yna deimlad weithiau bron nad yw'r Blaid Lafur yn awyddus i weld yr economi'n gwaethygu o dan Lywodraeth y DU. Mae'n rhaid fy mod yn anghywir yn dweud hynny; rwy'n siŵr na fyddai'r un blaid eisiau i'r sefyllfa ar hyn o bryd fynd yn waeth. Ond pan fyddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr, a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn wir, yn siarad am ragolygon twf yr economi yn cael eu huwchraddio i 2.7 y cant o 2.5 y cant, pan fo Ángel Gurría o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dweud bod perfformiad y farchnad Lafur yn y DU yn rhyfeddol, mae pob un o'r gwelliannau hyn yn arwydd o sut y gallwch drawsnewid economi mewn cyfnod cymharol fyr o amser os ydych yn barod i wneud y penderfyniadau anodd sy'n angenrheidiol.

The Labour Party and Welsh Government doesn't always want to focus on that. Plaid Cymru don't either, for their own reasons. But I think we do need to reflect on just how far we have come in five years. Yes, there is more to do and things are not perfect, of course they're not. But we are heading in the right direction. This was a crisis that was built on the back of debt. For those who think that old-style Keynesian economics can get us out of this particular debt problem, well there is a very big problem there, because, of course, Keynes believes that you spend at a time of economic downturn. The problem is, if you go into an economic downturn with a huge mountain of debt already behind you, then your options for borrowing more are limited, so other solutions have to be found. Unfortunately, as I said before, the former UK Labour Government's decisions have led to the Welsh Government's problems now.

Nid yw'r Blaid Lafur a Llywodraeth Cymru bob amser yn awyddus i ganolbwyntio ar hynny. Nid yw Plaid Cymru ychwaith, am eu rhesymau eu hunain. Ond rwy'n credu bod angen i ni fyfyrto ar ba mor bell rydym wedi dod mewn pum mlynedd. Oes, mae mwy i'w wneud ac nid yw pethau'n berffaith, wrth gwrs nad ydynt. Ond rydym ar y trywydd cywir. Roedd hwn yn argyfwng a adeiladwyd ar ddyled. I'r rhai sy'n meddwl y gall economeg Keynesaidd hen ffasiwn ddatrys problem y ddyled yn benodol, wel mae yna broblem fawr iawn yn y fan honno, oherwydd, wrth gwrs, mae Keynes yn credu eich bod i fod i wario mewn cyfnod o ddirywiad economaidd. Y broblem yw, os ewch i mewn i ddirywiad economaidd gyda mynydd enfawr o ddyled y tu ôl i chi eisoes, yna mae eich opsiynau o ran benthyca mwy yn gyfyngedig, felly mae'n rhaid dod o hyd i atebion eraill. Yn anffodus, fel y dywedais yn gynharach, mae penderfyniadau Llywodraeth Lafur flaenorol y DU wedi arwain at broblemau presennol Llywodraeth Cymru.

The fact is the UK economy has grown 75 per cent faster than Germany, three times faster than the eurozone, and seven times faster than France. This hasn't happened by chance. But, of course, as Members have said, these statistics don't mean anything if people don't feel the benefit of economic improvement, and that does mean appropriate spending. Let us not forget that Wales is the only country in the UK where spending in the NHS was falling at a time when it was protected across the border.

Y gwir amdani yw bod economi'r DU wedi tyfu 75 y cant yn gyflymach nag economi'r Almaen, dair gwaith yn gyflymach nag economi ardal yr ewro, a saith gwaith yn gyflymach nag economi Ffrainc. Nid yw hyn wedi digwydd ar hap. Ond wrth gwrs, fel y mae Aelodau wedi ei ddweud, nid yw'r ystadegau hyn yn golygu dim os nad yw pobl yn teimlo mantais gwelliant economaidd, ac mae hynny'n golygu gwariant priodol. Gadewch i ni beidio ag anghofio mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle'r oedd gwariant ar y GIG yn gostwng ar adeg pan gâi ei ddiogelu dros y ffin.

- 16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
You need to conclude with this, please. Mae angen i chi ddod i ben gyda hyn, os gwelwch yn dda.
- 16:13 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
So, this is a question of priorities. Felly, cwestiwn sy'n ymwneud â blaenoriaethau yw hyn.
Finally, Deputy Presiding Officer, I heard Members on the Labour benches lamenting some of the decisions today. Let us not forget it is the Welsh Government that is responsible for setting priorities economically within Wales. If you have any issues and any concerns about the way the economy in Wales is being run then you need to look at your own front bench. Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, clywais Aelodau ar y meinciau Llafur yn gresynu ynghylch rhai o'r penderfyniadau a wnaed heddiw. Gadewch i ni beidio ag anghofio mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am osod blaenoriaethau economaidd yng Nghymru. Os oes gennych unrhyw broblemau ac unrhyw bryderon ynglŷn â'r ffordd y mae economi Cymru yn cael ei rhedeg, yna mae angen i chi edrych ar eich mainc flaen eich hun.
- 16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Finish now, please. Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.
- 16:13 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Britain is moving forward, not back. Mae Prydain yn symud ymlaen, nid yn ôl.
- 16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting under this item until voting time. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rwy'n gohirio'r pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.
Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio. *Voting deferred until voting time.*

6. Dadl Plaid Cymru: Addysg Ôl-16

Deholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 5 a 6 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Paul Davies.

6. Plaid Cymru Debate: Post-16 Education

The following amendments have been selected: amendments 1, 5 and 6 in the name of Aled Roberts, and amendments 2, 3 and 4 in the name of Paul Davies.

16:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 6, dadl Plaid Cymru ar addysg ôl-16. Galwaf ar Simon Thomas i wneud y cynnig.

Item 6, the Plaid Cymru debate on post-16 education. I call on Simon Thomas to move the motion.

Cynnig NDM5741 Elin Jones

Motion NDM5741 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi pwysigrwydd sefydliadau addysg bellach i ddarparu addysg ôl-16;
2. Yn nodi pwysigrwydd darparu cyfleoedd dysgu i oedolion ar gyfer oedolion sydd am ddatblygu sgiliau newydd;
3. Yn gresynu at effaith y toriadau i addysg ôl-16 ar y sector addysg bellach; a
4. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fonitro tâl uwch reolwyr mewn addysg uwch yn flynyddol ac yn annog hynny i gael ei ymestyn i addysg bellach.

1. Notes the importance of further education institutions to the provision of post-16 education;
2. Notes the importance of providing adult learning opportunities for adults wanting to acquire new skills;
3. Regrets the impact of cuts to post-16 education on the further education sector; and
4. Welcomes the Welsh Government's commitment to annually monitor the pay of senior management in higher education and urges that be extended to further education.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

16:13

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'm very pleased to introduce Plaid Cymru's debate on cuts in further education and indeed it does follow on a little from the previous debate, because this is the language of priorities, which is a socialist phrase, of course, and this is about the choices that the Welsh Government has made regarding its funding. In bringing forward this debate we do acknowledge, of course, that Westminster has cut Welsh funding over the past four or five years, but we also acknowledge that Labour Party plans are to cut it even further for the next Westminster Parliament, by an estimated 2.2 per cent per annum, if the Institute for Fiscal Studies is to be believed.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gyflwyno dadl Plaid Cymru ar doriadau mewn addysg bellach ac yn wir mae'n dilyn i raddau o'r ddadl flaenorol, gan mai iaith blaenoriaethau yw hon, sy'n ymadrodd sosialaidd wrth gwrs, ac mae'n ymwneud â'r dewisiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud ynglŷn â'i chyllid. Wrth gyflwyno'r ddadl hon rydym yn cydnabod, wrth gwrs, fod San Steffan wedi torri cyllid Cymru dros y pedair neu bum mlynedd diwethaf, ond rydym hefyd yn cydnabod mai bwriad y Blaid Lafur yw cyflawni toriad pellach o 2.2 y cant y flwyddyn amcangyfrifedig dros gyfnod Senedd nesaf San Steffan os yw'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid i'w gredu.

The decision to cut post-19 education so severely is very much a decision of this Welsh Government. The impact is only starting to be understood by the colleges and providers in Wales. Today is a day of action taken by several trades unions, the University and College Union, AMiE and the Association of Teachers and Lecturers amongst them, who are concerned that there could be up to 1,000 job losses throughout Wales. I think Members—hopefully—will take the opportunity of this debate to talk about their own areas and the job losses faced in that area.

Penderfyniad Llywodraeth Cymru yn bendant yw cyflawni toriad mor ddwfn i'r gyllideb addysg ôl-19. Dechrau deall yr effaith yn unig y mae colegau a darparwyr yng Nghymru. Mae heddiw yn ddiwrnod o weithredu gan nifer o undebau llafur, gydag Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, AMiE a'r Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr yn eu plith, sy'n pryderu y gallai hyd at 1,000 o swyddi gael eu colli ledled Cymru. Rwy'n credu y bydd yr Aelodau—gobeithio—yn manteisio ar y cyfle yn ystod y ddadl hon i siarad am eu hardaloedd eu hunain a'r diswyddiadau a wynebir ynddynt.

Plaid Cymru's concern is very much that, after years of investment in further education and continuing education, this slash-and-burn approach will leave many of our colleges scarred and weak, and adult education in particular destroyed. So, we are in danger of sacrificing investment over several years to meet the needs of a budget for one or two years. Now, this is a dreadful way to run a budget, let alone to delivery policy objectives. It is, as I said, a Labour Government choice: taking money from education to fund their own failure to get to grips with health spending and choosing to prioritise academic support over vocational support, which is actually the path chosen by most Welsh students. Two-thirds of those aged 16-19 are in further education.

Now, further education institutions also deliver around 80 per cent of post-16 qualifications in Wales, outside higher education. I believe that they help to promote social justice and inclusion, as well as supporting economic growth in their areas, and they contribute to the skills agenda throughout Wales. Cuts to further education will impact on all post-16 provision in colleges, because only statutory age education spending has been protected by this Welsh Government, which means, in effect, that the axe then falls heavier on other parts of education spending. The cuts will have the greatest impact on adult learners who study part time, many of whom are older students and women students seeking to improve their skills or return to the workplace. Further education provides adults with a second chance to learn new skills and improve their lives, and many staff at FE colleges who work with adults are, of course, working with the younger age groups as well, and if they face cuts to their employment, that weakens the college as a whole.

We welcome the fact in this motion that the Welsh Government agreed with us to annually monitor the pay of senior management in higher education in a previous debate that we brought forward, but we do seek in this debate also to extend that to further education. I note, for example, that one of the colleges talking about job losses is Coleg y Cymoedd, the same college that has given a 40 per cent increase to its principal recently. So, if the Welsh Government is serious about making savings from mergers for the benefit of learners and for the changes that have happened in the FE sector, it should also monitor the pay of senior management in that sector.

Now, what is the size of cuts that we are facing here? Well, according to the evidence provided to and scrutinised by the Children, Young People and Education Committee on 23 October 2014, the budget for post-16 education decreases by £29.1 million in this financial year, compared to previously published plans. The budget for the further education provision BEL, as it is called—the budget expenditure line—reduces by £14.1 million, and the workplace learning BEL reduces by £15 million, compared to plans previously published. That is a total decrease for further education, or post-16 education, I should say, of £58.2 million. It's why, incidentally, even if we were minded to, we can't accept the amendment from the Welsh Liberal Democrats, because, although I accept that there is an additional £5 million agreed in the budget agreement, that is a sticking plaster to staunch a gaping wound.

Mae Plaid Cymru yn pryderu'n fawr y bydd y dull hwn o dorri'n ddirugaredd ar ôl blynyddoedd o fuddsoddi mewn addysg bellach ac addysg barhaus yn creithio ac yn gwanhau llawer o'n colegau, ac yn dinistrio addysg i oedolion yn arbennig. Felly, rydym mewn perygl o aberthu buddsoddiad dros nifer o flynyddoedd er mwyn diwallu anghenion y gyllideb am flwyddyn neu ddwy. Nawr, mae hon yn ffordd ofnadwy o drefnu cyllideb heb sôn am gyflawni amcanion polisi. Dewis Llafur ydyw, fel y dywedais: mynd ag arian o addysg i ariannu eu methiant eu hunain i fynd i'r afael â gwariant ar iechyd a dewis blaenoriaethu cymorth academaidd ar draul cymorth galwedigaethol, sef y llwybr sy'n cael ei ddewis gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr Cymru. Mae dwy ran o dair o rai 16-19 oed mewn addysg bellach.

Nawr, sefydliadau addysg bellach hefyd sy'n darparu tua 80 y cant o gymwysterau ôl-16 yng Nghymru y tu allan i addysg uwch. Rwy'n credu eu bod yn helpu i hyrwyddo cyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â chefnogi twf economaidd yn eu hardaloedd, ac maent yn cyfrannu at yr agenda sgiliau ledled Cymru. Bydd toriadau i addysg bellach yn effeithio ar yr holl ddarpariaeth ôl-16 mewn colegau, gan mai gwariant ar addysg oedran statudol yn unig a ddiogelwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu, i bob pwrpas, fod y fwyell yn disgyn yn drymach wedyn ar elfennau eraill o wariant ar addysg. Bydd y toriadau'n cael yr effaith fwyaf ar oedolion sy'n sy'n astudio'n rhan-amser, gyda llawer ohonynt yn fyfyrwyr hŷn a menywod sy'n ceisio gwella eu sgiliau neu ddychwelyd i'r gweithle. Mae addysg bellach yn rhoi ail gyfle i oedolion ddyysgu sgiliau newydd a gwella eu bywydau, ac mae llawer o staff mewn colegau Addysg Bellach sy'n gweithio gydag oedolion yn gweithio gyda'r grwpiau oedran iau yn ogystal, wrth gwrs, ac os ydynt yn wynebu toriadau i'w cyflogaeth, mae hynny'n gwanhau'r coleg cyfan.

Rydym yn croesawu'r ffaith yn y cynnig fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno â ni mewn dadl flaenorol a gyflwynwyd gennym y dylid monitro cyflogau uwch-reolwyr addysg uwch yn flynyddol, ond yn y ddadl hon rydym yn ceisio ymestyn hynny i gynnwys addysg bellach hefyd. Nodaf, er enghraifft, mai un o'r colegau sy'n sôn am golli swyddi yw Coleg y Cymoedd, yr un coleg ag a roddodd godiad o 40 y cant i'w brifathro yn ddiweddar. Felly, os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif am wneud arbedion drwy drefniadau uno er lles dysgwyr a'r newidiadau a fu yn y sector addysg bellach, dylai hefyd fonitro cyflogau uwch-reolwyr yn y sector hwnnw.

Nawr, beth yw maint y toriadau a wynebn yma? Wel, yn ôl y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 23 Hydref 2014, ac a graffwyd gan y pwyllgor hwnnw, mae'r gyllideb ar gyfer addysg ôl-16 £29.1 miliwn yn llai yn y flwyddyn ariannol hon, o gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae'r gyllideb ar gyfer y ddarpariaeth addysg bellach, y BEL fel y'i gelwir—y llinell wariant yn y gyllideb—£14.1 miliwn yn llai, ac mae'r BEL ar gyfer dysgu yn y gweithle £15 miliwn yn llai o'i gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Dyna gyfanswm gostyngiad ar gyfer addysg bellach, neu addysg ôl-16, dylwn ddweud, o £58.2 miliwn. Gyda llaw, dyna pam na allwn dderbyn y gwelliant gan Ddemocratiaid Rhwyddfrydol Cymru hyd yn oed pe baem yn ystyried gwneud hynny, oherwydd, er fy mod yn derbyn bod fod £5 miliwn ychwanegol wedi'i gytuno yn y cytundeb cyllidebol, nid yw'n fwy na mymryn o blastr dros archoll agored.

The average cut in funding to colleges in Wales is, therefore, 6.14 per cent, but of course the real choice is what the colleges do with that cut—how they allocate the cut within their colleges. That's where we see the danger this year, because the University and College Union has reported that funding for part-time courses in most colleges is going to be cut by 50 per cent in this financial year and other courses by 2.6 per cent. So, the axe is falling heavier on that non-statutory, older provision and part-time provision. The effect of this is now being seen up and down Wales. Coleg y Cymoedd are talking about 41 full-time staff entering voluntary redundancy to save £1.3 million a year; Coleg Gwent—or rather, the unions there, I should say, in discussion with Coleg Gwent—say that around 60 lecturers face redundancy, plus 70 support staff, including technicians, caretakers and so forth. It also looks like it might lose something like 6,000 students and have 50,000 fewer teaching hours. That is to save £5.7 million. Bridgend College, in the First Minister's own constituency, is looking at a minimum of 60 administrative and teaching posts to go and some part-time further education courses will be cut as a result of meeting this new budget. They have to find savings of some £3 million. Coleg Sir Gâr have contacted me directly, as one of their regional representatives, as the unions are concerned at the loss of up to 60 jobs there.

Why is this important? Well, it's important because these losses and these cuts will in turn undermine the work we've done to support NEETs. Twenty-one per cent of 19 to 24 year olds in Wales are still NEETs—not in employment, education or training—and the Welsh Government, with support from Plaid Cymru in the past, has prioritised provision for this group. However, that is now being weakened by these cuts.

We also think it's dangerous because further education provides adults with a second chance to improve their skills, which can help raise families out of poverty. For example, school readiness for children of parents with tertiary education can be a year better than for those without that educational level. So, it's clearly an advantage in tackling the poverty gap as well that our young adults are trained in order to assist their own children going to school. Raising adult skills levels also enables the skills gap to be closed, and grows the economy.

It's also dangerous because it undermines the parity of esteem that we've talked about a lot, both in this Chamber and in committees of this Assembly—the parity of esteem that says that the vocational choice should be valued as much as the academic choice for students in Wales. But, FE students are bearing the brunt of unsustainable tuition fee policy in the long run.

Mae'r toriad cyfartalog yn y cyllid i golegau yng Nghymru felly, yn 6.14 y cant, ond wrth gwrs, y dewis go iawn yw'r hyn y mae'r colegau yn ei wneud â'r toriad—sut y maent yn dyrannu'r toriad o fewn eu colegau. Dyna lle'r ydym yn gweld y perygl eleni, gan fod Undeb y Prifysgolion a'r Colegau wedi dweud bod cyllid ar gyfer cyrsiau rhan-amser yn y rhan fwyaf o golegau yn mynd i gael ei dorri 50 y cant yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a chysiau eraill 2.6 y cant. Felly, mae'r fwyell yn disgyn yn drymach ar y ddarpariaeth anstatudol, hyn a'r ddarpariaeth ran-amser. Mae effaith hyn bellach i'w gweld ledled Cymru. Mae Coleg y Cymoedd yn sôn am 41 o staff llawn amser yn wynebu diswyddo gwirfoddol er mwyn arbed £1.3 miliwn y flwyddyn; mae Coleg Gwent—neu'n hytrach, yr undebau yno, dylwn ddweud, mewn trafodaethau â Choleg Gwent—yn dweud bod tua 60 o ddarlithwyr yn wynebu diswyddiadau, yn ogystal â 70 o staff cefnogi, gan gynnwys technegwyr, gofalwyr ac yn y blaen. Mae hefyd yn ymddangos y gallai golli rhywbeth tebyg i 6,000 o fyfyrwr a chynig 50,000 yn llai o oriau addysgu. Byddai hynny'n arbed £5.7 miliwn. Mae Coleg Penybont, yn etholaeth y Prif Weinidog ei hun, yn edrych ar isafswm o 60 o swyddi gweinyddol ac addysgu i fynd a bydd rhai cyrsiau addysg bellach rhan-amser yn cael eu torri er mwyn cadw o fewn y gyllideb newydd. Mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i arbedion o tua £3 miliwn. Mae Coleg Sir Gâr wedi cysylltu â mi'n uniongyrchol, fel un o'u cynrychiolwyr rhanbarthol, gan fod yr undebau yn pryderu ynglŷn â cholli hyd at 60 o swyddi yno.

Pam y mae hyn yn bwysig? Wel, mae'n bwysig gan y bydd y colledion a'r toriadau hyn yn eu tro yn tansellio'r gwaith rydym wedi'i wneud i gefnogi pobl mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae 21 y cant o bobl 19 i 24 oed yng Nghymru yn dal i fod yn NEET ac mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth gan Blaid Cymru yn y gorffennol, wedi blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn. Fodd bynnag, caiff hynny ei wanhau gan y toriadau hyn.

Rydym hefyd yn credu ei fod yn beryglus am fod addysg bellach yn rhoi ail gyfle i oedolion wella eu sgiliau, sy'n gallu helpu i godi teuluoedd allan o dlodi. Er enghraifft, mae plant rhieni sydd wedi cael addysg drydyddol yn gallu bod yn barod ar gyfer yr ysgol flwyddyn yn gynt na phlant rhieni nad ydynt wedi cyrraedd lefel addysgol o'r fath. Felly, mae'n amlwg yn fantais hefyd wrth fynd i'r afael â'r bwch tlodi fod ein hoedolion ifanc yn cael eu hyfforddi er mwyn cynorthwyo eu plant eu hunain i fynd i'r ysgol. Mae codi lefelau sgiliau oedolion hefyd yn galluogi i'r bwch sgiliau gael ei gau, ac yn hybu'r economi.

Mae hefyd yn beryglus oherwydd ei fod yn tansellio parch cydradd y soniwyd llawer amdano yn y Siambr hon ac ym mhwyllograu'r Cynulliad—y parch cydradd sy'n dweud bod dewisiadau galwedigaethol a dewisiadau academaidd myfyrwyr yng Nghymru yr un mor werthfawr. Ond mae myfyrwyr Addysg Bellach yn cynnal baich y polisi ffioedd dysgu anghynladwy yn y tymor hir.

The really interesting point here is that the worst of these effects could be avoided if the budget cuts had only been half of what they are. In other words, if something like £25 million had been cut, rather than £50-odd million, then the unions themselves—UCU, Unison—all believe that the worst of these cuts could have been alleviated. In other words, the sector was prepared to do something to contribute, but didn't expect this severe slash-and-burn approach, which will, I am concerned, destroy part-time and adult study in Wales, in effect. Seventy-one per cent of learners in FE colleges are over 19, and 76 per cent of enrolment at FE colleges is for part-time study, so that is the cohort that is going to be affected very much by these cuts.

Ultimately, these cuts are also damaging to the Welsh economy, because according to ColegauCymru, the representative body for FE colleges, further education provides economic benefits of £25 for every £1 spent in that sector. That is, it is true, research based on England, but I have no reason to suppose that it is very different here in Wales. So, investment in this sector ultimately benefits the economy, benefits the skills gap, benefits education and benefits all of us in society.

We will be accepting, judging from the debate, all the amendments apart from the final amendment from the Liberal Democrats, and I hope to listen to the debate and hear what people have to say from their own areas regarding these cuts. And I hope that, when I conclude the debate, I can say a little bit about some of the positive things we can do to restore some faith in this sector also.

Y pwynt diddorol iawn yma yw y gellid osgoi'r gwaethaf o'r effeithiau hyn pe bai'r toriadau yn y gyllideb ond wedi bod yn hanner yr hyn ydynt. Mewn geiriau eraill, pe bai rhywbeth tebyg i £25 miliwn wedi cael ei dorri, yn hytrach na thua £50 miliwn, mae'r undebau eu hunain—UCU, Unsain—i gyd yn credu y gallai'r gwaethaf o'r toriadau hyn fod wedi cael eu lleddfu. Mewn geiriau eraill, roedd y sector yn barod i wneud rhywbeth i gyfrannu, ond nid oedd yn disgwyl y toriadau didrugaredd a difrifol hyn, a fydd, rwy'n ofni, yn dinistrio addysg ran-amser ac addysg i oedolion yng Nghymru, i bob pwrpas. Mae 71 y cant o ddysgwyr mewn colegau addysg bellach dros 19 oed, a 76 y cant o'r rhai sy'n cofrestru mewn colegau addysg bellach yn gwneud hynny er mwyn astudio'n rhan-amser, felly dyna'r cohort sy'n mynd i gael eu heffeithio'n helaeth gan y toriadau hyn.

Yn y pen draw, mae'r toriadau hyn hefyd yn niweidiol i economi Cymru, oherwydd yn ôl ColegauCymru, y corff sy'n cynrychioli colegau addysg bellach, mae addysg bellach yn darparu buddion economaidd o £25 am bob £1 a werir yn y sector hwnnw. Ymchwil a wnaed yn Lloegr yw hwn, mae'n wir, ond nid oes gennyf unrhyw reswm i dybio ei fod yn wahanol iawn yma yng Nghymru. Felly, yn y pen draw mae buddsoddi yn y sector o fudd i'r economi, o fudd i'r bwch sgiliau, o fudd i addysg ac o fudd i bob un ohonom yn y gymdeithas.

A barnu o'r ddadl, byddwn yn derbyn yr holl welliannau ar wahân i'r gwelliant olaf gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ac rwy'n gobeithio gwrandao ar y drafodaeth a chlywed yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud am eu hardaloedd eu hunain mewn perthynas â'r toriadau hyn. Ac rwy'n gobeithio, pan fyddaf yn cloi'r ddadl, y gallaf ddweud ychydig hefyd am rai o'r pethau cadarnhaol y gallwn eu gwneud i adfer peth ffydd yn y sector hwn.

16:22

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dethol y chwech gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1, 5 a 6 a gyflwynwyd yn ei enw.

I have selected the six amendments to the motion. I call on Aled Roberts to move amendments 1, 5 and 6 tabled in his name.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Ar ddiwedd pwynt 3, mewnosoder:

At end of point 3 insert:

'ac yn nodi'r gostyngiad o 47% yn nifer y bobl a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau rhan-amser rhwng 2003 a 2013.'

'and notes the 47% decrease in people enrolling in part-time courses between 2003 and 2013.'

Gwelliant 5—Aled Roberts

Amendment 5—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Insert as new point 4 and renumber accordingly:

Yn nodi yr amcangyfrifir bod nifer y bobl 50 oed a throsodd nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) dair gwaith cymaint â nifer y bobl NEET o dan 25 oed ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddylunio a gweithredu rhaglen benodol i wella sgiliau a rhagolygon cyflogadwyedd pobl dros 50 nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

Notes that the number of people aged 50 and over who are not in employment, education or training (NEET) is estimated to be three times as many as those under 25 and calls on the Welsh Government to design and implement a specific programme to improve the skills and employability prospects of people over 50 who are NEET.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Amendment 6—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r cytundeb cyllideb rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru a oedd yn sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer 5,000 o brentisiaethau newydd a chynllun newydd sy'n darparu gofal plant ar gyfer rhieni mewn addysg bellach.

Welcomes the budget deal between the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government that ensured additional funding for 5,000 new apprenticeships and a new scheme providing childcare for parents in further education.

Cynigiwyd gwelliannau 1, 5 a 6.

Amendments 1, 5 and 6 moved.

16:22

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y gwelliannau sydd yn ymddangos yn enw'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac wrth wneud hynny rwy'n meddwl y dylwn i gyfeirio at y gofrestr buddiannau, sy'n dangos fod fy ngwraig i yn gweithio o fewn y sector yma.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendments in the name of the Liberal Democrats and, in doing so, I think I should refer to the register of Members' interests, which shows that my wife works within this sector.

Ac i ymateb i'r pwynt a wnaethpwyd gan Simon Thomas, rwyf wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth staff yng Ngrŵp Llandrillo Menai a hefyd yng Ngholeg Cambria sy'n dangos nid yn unig effaith y cwtogi yn ystod y flwyddyn, heb unrhyw fath o rybudd—neu ddim llawer o rybudd—ond hefyd bod yna lawer iawn ohonyn nhw'n poeni ynglŷn â'r cwtogi achlysurol sy'n mynd i fynd ymlaen yn ystod y gyllideb yma.

To respond to the point made by Simon Thomas, I have received correspondence from staff at 'Grŵp Llandrillo Menai' and Coleg Cambria that demonstrates not only the impact of the in-year cuts, without any warning—or very little warning, certainly—but the fact that many of them are concerned about the cuts that are likely to happen as a result of this budget.

Rwy'n mynd i ganolbwyntio ar y gwelliannau rydym ni wedi eu rhoi gerbron, achos rwy'n meddwl y dylem ni gydnabod bod maint y cwtogi yma yn ddifrifol. Rwyf hefyd, wrth wneud hynny, yn derbyn ein bod ni wedi ymatal ein pleidlais yn ystod y gyllideb, ond mae yna lawer iawn o'r cwtogi yma yn ystod y flwyddyn wedi digwydd achos bod arian o fewn cyllideb y Llywodraeth wedi cael ei drosglwyddo o un adran i'r llall, a hefyd wedi cael ei drosglwyddo o fewn adrannau. Achos mae ymateb y Llywodraeth ei hun yr wythnos yma i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gyrhaeddiad plant o gartrefi cyflogau isel yn dweud bod rhan o'r cwtogi yma er mwyn creu arian, sef £7.9 miliwn, a oedd angen ei ffeindio ar gyfer Her Ysgolion Cymru. Felly, rwy'n derbyn bod y sefyllfa ariannol yn un anodd i'r Llywodraeth, ond mae'r Llywodraeth wedi gwneud penderfyniadau eu hunain i dynnu arian o'r sector yma. Ac rwy'n meddwl, hwyrach, wrth ystyried y sefyllfa a'i goblygiadau ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni fel Cynulliad dderbyn bod llawer iawn o'n trafodaeth wedi canolbwyntio ar ysgolion a phrifysgolion a hwyrach, bod yr holl drafodaeth o ran y sector yma wedi bod o ran ailstrwythuro.

I will concentrate on the amendments that we've tabled, because I do think that we should recognise that the scale of these cuts is very grave. In doing so, of course, I accept that we abstained on the budget, but much of this cutting has happened because the budgets have been transferred from one department to another within Government, and also transferred within departments. The Government's response to the Children, Young People and Education Committee's inquiry into the educational attainment of children from low-income families states that some of these cuts have taken place in order to make available the £7.9 million that needed to be found for Schools Challenge Cymru. So, I accept that the financial situation is very difficult for the Government, but the Government has made its own decisions to withdraw funding from this sector. And I think, perhaps, in considering the current situation and its implications, we as an Assembly have to accept that many of our discussions have concentrated on schools and universities, and the debate on this sector has perhaps concentrated on restructuring.

Mae Simon Thomas wedi dweud bod yna broblemau sydd yn codi o hyn. Rwyf eisiau codi un pwynt, achos mae'r Llywodraeth hefyd wedi'i gwneud hi'n hollol glir i'r sector bod angen iddyn nhw ganolbwyntio ar oedran 16- 19. Oherwydd hynny, fel y dywedodd Simon Thomas, mae llawer iawn o'r cwtogi yma wedi mynd o ran addysg oedolion.

Simon Thomas stated that there are problems arising from this. I want to raise one point, because the Government has made it eminently clear to the sector that they should concentrate on the 16-19 age group. As a result of that, as Simon Thomas said, many of these cuts have affected adult education.

I think we should actually remind ourselves of some of the figures. Simon Thomas has referred to the NEETs in the 19 to 24-year-old age group. But, it's worth reminding ourselves, as far as the national study of adult skills in Wales is concerned, currently, 12 per cent of the Welsh population don't reach level 1 in basic literacy skills. That figure is even worse for those who are over 55, because it's 15 per cent of over 55-year-olds below level 1. And in numeracy, more than half of those in the 55 to 65 age bracket don't reach level 1.

So, what's frightening is that there's been a 47 per cent decrease in people enrolling in part-time courses in Wales between 2003 and 2013—a drop from 90,000 to 48,000—before these cuts actually came into being. So, what are we going to do with regard to that worsening situation as far as our older people are concerned? Numerous strategies, as far as the Welsh Government have told us, stressed, in the past, the importance of continued adult learning. We've had the economic benefits pointed out to us, and the crucial role that adult learning plays in the wellbeing of older people. The National Institute of Adult Continuing Education have pointed to a report by the Older People's Commissioner that estimates that there are as many as three times more NEETs aged over 50 than there are aged under 25. So, we're actually creating problems for ourselves, going forward.

Obviously, we were anxious that the full impact of the cuts as far as apprenticeships were concerned weren't brought to the fore. I accept that £5 million may be a touch in the ocean as far as Simon Thomas is concerned, but £5 million is better than zero. I do think that we need to actually ask ourselves what we can do to ensure that some of the impacts of these decisions are actually clearly understood.

In Wales, the number of apprentices has fallen by 17 per cent since 2007. Compare that to the situation in England. I'm not saying that England is the panacea, but we need to have regard to decisions taken by our own Government here in Wales and the impact that this will have on adult education and apprentices going forward.

Mewn gwirionedd, rwy'n credu y dylem atgoffa ein hunain ynghylch rhai o'r ffigurau. Cyfeiriodd Simon Thomas at y NEETs yn y grŵp oedran 9 i 24 oed. Ond o ran yr astudiaeth genedlaethol o sgiliau oedolion yng Nghymru, mae'n werth atgoffa ein hunain nad yw 12 y cant o boblogaeth Cymru ar hyn o bryd yn cyrraedd lefel 1 mewn sgiliau llythrennedd sylfaenol. Mae'r ffigur hyd yn oed yn waeth ar gyfer rhai dros 55 oed, gyda 15 y cant o rai dros 55 oed islaw lefel 1. Ac mewn rhifedd, nid yw dros hanner y rhai yn y grŵp oedran 55-65 yn cyrraedd lefel 1.

Felly, yr hyn sy'n frawychus yw'r gostyngiad o 47 y cant a fu yn nifer y bobl a gofrestrodd ar gyrsiau rhan-amser yng Nghymru rhwng 2003 a 2013—gostyngiad o 90,000 i 48,000—cyn i'r toriadau hyn ddod i fodolaeth mewn gwirionedd. Felly, beth rydym am ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa sy'n gwaethygu o ran ein pobl hŷn? Mae nifer o strategaethau, yn ôl yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi dweud wrthym, wedi pwysleisio yn y gorffennol pa mor bwysig yw dysgu parhaus i oedolion. Tynnwyd ein sylw at y manteision economaidd, yn ogystal â'r rôl allweddol sydd i addysg i oedolion yn cyfrannu at les pobl hŷn. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion wedi tynnu sylw at adroddiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn sy'n amcangyfrif bod cynifer â thair gwaith yn fwy o bobl NEET dros 50 oed na sydd o dan 25 oed. Felly, mewn gwirionedd rydym yn creu problemau i ni ein hunain yn y dyfodol.

Yn amlwg, roeddem yn bryderus na roddwyd sylw blaenllaw i effaith lawn y toriadau mewn perthynas â phrentisiaethau. Rwy'n derbyn mai diferyn o law yn y môr yw £5 miliwn i Simon Thomas, ond mae £5 miliwn yn well na dim. Rwy'n credu bod angen i ni ofyn i nŷn hunain mewn gwirionedd beth y gallwn ei wneud i sicrhau bod rhai o effeithiau'r penderfyniadau hyn yn cael eu deall yn glir.

Yng Nghymru, mae nifer prentisiaid wedi gostwng 17 y cant ers 2007. Cymharwch hyn â'r sefyllfa yn Lloegr. Nid wyf yn dweud mai'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr yw'r ateb i bob problem, ond mae angen ystyried y penderfyniadau a wneir gan ein Llywodraeth hunain yma yng Nghymru a'u heffaith ar addysg i oedolion a phrentisiaid yn y dyfodol.

16:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Paul Davies i gynbig gwelliannau 2, 3 a 4 a gyflwynwyd yn ei enw.

I call Paul Davies to move amendments 2, 3 and 4 tabled in his name.

Gwelliant 2—Paul Davies

Amendment 2—Paul Davies

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Add as new point 4 and renumber accordingly:

Yn nodi pwysigrwydd y Gronfa Blaenoriaethau Sector i sefydliadau addysg bellach o ran datblygu sgiliau dysgwyr.

Notes the importance of the Sector Priorities Fund to further education institutions for developing learners' skills.

Gwelliant 3—Paul Davies

Amendment 3—Paul Davies

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Add as new point 4 and renumber accordingly:

Yn gresynu at y ffaith bod llai o gyfleoedd prentisiaeth ar gael i feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sef dysgwyr 16 i 24 oed a phrentisiaethau uwch.

Regrets that fewer apprenticeship opportunities are available to the Welsh Government's priority areas of 16 to 24-year-old learners and higher apprenticeships.

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Add as new point 4 and renumber accordingly:

Yn gresynu at ddiffyg brys Llywodraeth Cymru wrth roi gwybod i sefydliadau addysg bellach a fyddant yn derbyn eu dyraniad o'r Gronfa Blaenoriaethau Sector.

Regrets the Welsh Government's lack of urgency in informing further education institutions whether they will receive their allocation of the Sector Priorities Fund.

Cynigiwyd gwelliannau 2, 3 a 4.

Amendments 2, 3 and 4 moved.

16:28

Paul Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am pleased to take part in this debate this afternoon and move the amendments tabled in my name.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma a chynnig y gwelliannau a gyflwynwyd yn fy enw i.

The further education sector plays a huge role in the future of our nation, which is why it's crucial that the sector receives the investment that it needs in order to develop a skilled workforce and create future economic growth.

Mae'r sector addysg bellach yn chwarae rhan enfawr yn nyfodol ein cenedl, a dyna pam ei bod yn hanfodol fod y sector yn cael y buddsoddiad sydd ei angen arno er mwyn datblygu gweithlu medrus a chreu twf economaidd yn y dyfodol.

Of course, after the age of 16, when education is no longer compulsory, young people have a variety of choices including remaining in education, whether that's at schools or at FE colleges, or perhaps undertaking work-based learning, which is generally aimed at providing skills and knowledge for a particular job. However, it's not just young people between the ages of 16 and 21 who are opting to take courses at FE colleges. Indeed, the FE sector is of growing importance in social and economic terms as it provides academic and vocational courses to learners of all types of backgrounds. By offering courses on both a full-time and part-time basis, working adults, stay-at-home parents and older people also have access to a range of important educational opportunities.

Wrth gwrs, ar ôl 16 oed, pan nad yw addysg yn orfodol, mae pobl ifanc yn cael amrywiaeth o ddewisiadau, gan gynnwys parhau mewn addysg, boed hynny mewn ysgol neu mewn coleg addysg bellach, neu ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith efallai, gyda'r nod cyffredinol o ddarparu sgiliau a gwybodaeth ar gyfer swydd benodol. Fodd bynnag, nid pobl ifanc rhwng 16 a 21 yn unig sy'n dewis dilyn cyrsiau mewn colegau Addysg Bellach. Yn wir, mae'r sector Addysg Bellach yn gynyddol bwysig yn gymdeithasol ac yn economaidd gan ei fod yn darparu cyrsiau academaidd a galwedigaethol i ddysgwyr o bob math o gefndiroedd. Drwy gynnig cyrsiau ar sail amser llawn a rhan-amser, gall oedolion sy'n gweithio, rhieni sy'n aros gartref a phobl hŷn hefyd fanteisio ar ystod o gyfleoedd addysgol pwysig.

Of course, I accept that the Welsh Government faces difficult financial circumstances. However, it's crucial that the Welsh Government spends taxpayers' money effectively and that we see real outcomes for that expenditure. It's not just about how much money is available, but also how that money is prioritised and spent, and the Welsh Government must be held accountable for its financial management. Unfortunately, there are plenty of examples across Government departments of financial waste and mismanagement, where money that has been misspent could have instead been used to invest in our FE sector.

Wrth gwrs, rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru yn wynebu amgylchiadau ariannol anodd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn gwario arian y trethdalwyr yn effeithiol a'n bod yn gwel canlyniadau gwirioneddol y gwariant hwnnw. Nid yw'n ymwneud yn unig â faint o arian sydd ar gael, ond hefyd â sut y caiff yr arian ei flaenoriaethu a'i wario, a rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn atebol am ei rheolaeth ariannol. Yn anffodus, mae digon o enghreifftiau ar draws adrannau'r Llywodraeth o wastraff a chamreoli ariannol, lle y gallai arian sydd wedi ei gamwario fod wedi cael ei ddefnyddio yn lle hynny i fuddsoddi yn ein sector Addysg Bellach.

A number of us in this Chamber have before raised the issue of funding the FE sector and, in the past, we've received reassurances from the Welsh Government that there would be better financial planning. However, here we are again, where FE institutions are, once again, unclear about their future funding arrangements. Those working in the FE sector are rightly concerned about the future of their colleges, as they face redundancies, reductions in course hours, loss of support staff and a drastic reduction in part-time provision. In light of the reduction of funding to FE colleges, I fail to see how the current quality of provision can be maintained, as colleges will be forced to make decisions to cut course hours and, perhaps, cut courses full stop, or at least increase class sizes and reduce the number of staff available. Indeed, the Welsh Government's lack of urgency in informing further education institutions about whether they will receive their share of the sector priorities programme fund means that the sector could face additional reductions in funding to their budgets, which is reflected, of course, in our amendments.

In light of these circumstances, it's clear that further education institutions cannot achieve the Welsh Government's expectations. For example, if by the end of this month my own FE college, Pembrokeshire College, doesn't receive its share of the sector priorities programme fund, it will see an overall reduction from 2014-15 of 16 per cent. Not only does this mean insufficient funds to finance part-time provision, but it could also lead to up to 80 job losses at the college as well.

Now, today's motion recognises the importance of providing learning opportunities for adults wanting to acquire new skills, and that's something that all Members will surely agree with. For workers who are in positions where they are facing redundancies such as, recently, workers from the Murco refinery in Milford Haven in my constituency, the FE sector can be a valuable lifeline. It offers the opportunity for workers to reskill and readjust to account for changes in the local economy. While schemes such as ReAct have gone some way to helping ex-workers develop new skills, reductions in funding to the FE sector will, surely, result in fewer opportunities for workers looking to diversify following redundancy. Indeed, the Welsh Government's skills implementation plan, which was announced last year, recognises the need to provide skills that respond to local needs, and the Deputy Minister, perhaps, in her response needs to tell us this afternoon how that plan is actually being implemented. So, perhaps she can tell us what mechanism the Welsh Government has in place to review regional skills provision, and how it decides on the future prioritisation of skills funding in line with regional employment and skills needs.

Mae nifer ohonom yn y Siambr hon wedi codi mater ariannu'r sector addysg bellach o'r blaen ac yn y gorffennol, rydym wedi cael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai gwelliannau o ran cynllunio ariannol. Fodd bynnag, dyma ni unwaith eto, lle y mae sefydliadau Addysg Bellach, unwaith eto, yn aneglur ynglŷn â'u trefniadau ariannu yn y dyfodol. Mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector Addysg Bellach yn iawn i fod yn bryderus am ddyfodol eu colegau wrth iddynt wynebu diswyddiadau, lleihau oriau cyrsiau, colli staff cymorth a gostyngiad enfawr yn y ddarpariaeth ran-amser. Yn sgil y gostyngiad yn y cyllid i golegau addysg bellach, ni allaf weld sut y gellir cynnal ansawdd presennol y ddarpariaeth, gan y bydd colegau'n cael eu gorfodi i wneud penderfyniadau ynghylch torri oriau cyrsiau a dileu cyrsiau'n llwyr o bosibl, neu o leiaf gynyddu maint dosbarthiadau a lleihau nifer y staff sydd ar gael. Yn wir, mae diffyg brys Llywodraeth Cymru ynghylch rhoi gwybod i sefydliadau addysg bellach a fyddant yn cael eu cyfran o'r gronfa blaenoriaethau sector yn golygu y gallai'r sector wynebu toriadau ychwanegol yn y cyllid i'w cyllidebau, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ein gwelliannau wrth gwrs.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n amlwg na all sefydliadau addysg bellach gyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, os nad yw fy ngholeg Addysg Bellach fy hun, Coleg Sir Benfro, yn cael ei gyfran o'r gronfa blaenoriaethau sector erbyn diwedd y mis hwn, bydd yn wynebu gostyngiad cyffredinol o 16 y cant o gymharu â 2014-15. Mae hyn yn golygu na fydd digon o arian i ariannu darpariaeth ran-amser, a hefyd, gallai arwain at golli hyd at 80 o swyddi yn y coleg.

Nawr, mae cynnig heddiw yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfleoedd dysgu i oedolion sydd am ennill sgiliau newydd, a dyna rywbeth y bydd pob Aelod yn sicr yn cytuno ag ef. Ar gyfer gweithwyr sydd mewn swyddi lle y maent yn wynebu diswyddiadau, fel gweithwyr purfa Murco yn Aberdaugleddau yn fy etholaeth yn ddiweddar, gall y sector Addysg Bellach fod yn achubiaeth werthfawr. Mae'n cynnig cyfle i weithwyr ddysgu sgiliau newydd ac ailaddasu mewn ymateb i newidiadau yn yr economi leol. Er bod cynlluniau megis ReAct wedi mynd beth o'r ffordd i helpu cyn-weithwyr i ddatblygu sgiliau newydd, bydd toriadau i gyllid y sector Addysg Bellach yn sicr o arwain at lai o gyfleoedd i weithwyr sydd am arallgyfeirio yn dilyn eu diswyddo. Yn wir, mae cynllun gweithredu sgiliau Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd y llynedd, yn cydnabod yr angen i ddarparu sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol, ac efallai bod angen i'r Dirprwy Weinidog ddweud wrthym yn ei hymateb y prynhawn yma sut y mae'r cynllun hwnnw'n cael ei weithredu mewn gwirionedd. Efallai y gall hi ddweud wrthym felly pa fecanwaith sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i adolygu'r ddarpariaeth sgiliau ranbarthol, a sut y mae'n penderfynu pa gyllid sgiliau i'w flaenoriaethau yn y dyfodol yn unol ag anghenion cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol.

I accept that 'Qualified for Life', the skills implementation plan and the youth engagement and progression framework provide us with some strategic direction for the FE sector for the future. I'm sure that we all agree that FE institutions across Wales provide an important lifeline for learners across Wales. However, reductions in funding to FE institutions will surely now make it difficult to deliver some of these strategies and some of these policies. Therefore, I urge the Deputy Minister to carefully consider the future shape of the FE sector and ensure that it actually receives the crucial investment that it needs. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Rwy'n derbyn bod 'Cymwys am Oes', y cynllun gweithredu sgliau a'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid yn rhoi rhywfaint o gyfeiriad strategol i'r sector Addysg Bellach ar gyfer y dyfodol. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno bod sefydliadau addysg bellach ar draws Cymru yn darparu achubiaeth bwysig i ddysgwyr ledled Cymru. Fodd bynnag, bydd gostyngiadau yn y cyllid i sefydliadau Addysg Bellach yn sicr yn ei gwneud yn anodd bellach i gyflawni rhai o'r strategaethau a rhai o'r polisiau hyn. Felly, rwy'n annog y Dirprwy Weinidog i ystyried ffurf y sector addysg bellach yn y dyfodol yn ofalus a sicrhau ei fod yn cael y buddsoddiad allweddol sydd ei angen arno mewn gwirionedd. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

16:33

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I'd like to pay tribute to those members from UCU who are having their day of action today, after having been forced into a position where they feel that they have to make a sound about this, because I think it is, at the moment, from what I'm hearing, a cinderella service in terms of education. It is a ticking time bomb, because we could be faced with a very strong educational system in the reforms that are coming from Donaldson, but then the young people will have, potentially, nowhere to go, or certain courses that they will not be able to take up, because those courses—. These are not basket weaving or wine tasting courses; these are courses like accountancy and engineering, which will have to be cut in instances such as in Bridgend College, in Neath Port Talbot and in Gower college. So, we must take this really seriously.

Hoffwn roi teyrnged i aelodau UCU sy'n cynnal eu diwrnod o weithredu heddiw ar ôl cael eu gorfodi i sefyllfa lle y teimlant fod yn rhaid iddynt godi llais ynglŷn â hyn, oherwydd o'r hyn rwy'n ei glywed ar hyn o bryd, rwy'n credu mai dyma wasanaeth sinderela y byd addysg. Mae'n fom sy'n tician, oherwydd gallew ni wynebu system addysgol gref iawn yn y diwygiadau sy'n dod gan Donaldson, ond ni fydd gan y bobl ifanc unman i fynd wedyn o bosibl, neu gyrsiau penodol na fyddant yn gallu manteisio arnynt, am fod y cyrsiau hynny—. Nid cyrsiau gwehyddu basgedi neu flasu gwin yw'r rhain, ond cyrsiau fel cyfrifeg a pheirianneg, a bydd yn rhaid eu colli mewn manau fel Coleg Penybont, yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yng Ngholeg Gŵyr. Felly, mae'n rhaid i ni roi sylw difrifol iawn i hyn.

At Bridgend, for example, the college needs to save £2.7 million in the next year, and some 70 staff, I am told this week, will have to go. Some 40 voluntary redundancies have already come forth from the college, but in some sectors of the college, they are saying that people are simply refusing to put their name forward, and I can understand that, because, obviously, they don't want to go; they want to be able to retain their jobs. But in this situation, I am told by all the colleges I've met in my region—the ones I've mentioned—that they will have to go and approach compulsory redundancies, in their view, if they don't get people on the voluntary side of things. So, you know, this is the stark reality that we face now, because unions will therefore trigger industrial action on this very basis. They feel disenfranchised at the moment because they know that it is not the fault of the colleges; they know that the colleges have nowhere to go, but they know that the cuts are coming.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, mae angen i'r coleg arbed £2.7 miliwn yn ystod y flwyddyn nesaf, a dywedir wrthyf yr wythnos hon y bydd yn rhaid colli tua 70 aelod o staff. Cafwyd tua 40 o ddiswyddiadau gwirfoddol eisoes o'r coleg, ond mewn rhai sectorau o'r coleg, maent yn dweud bod pobl yn gwrthod cynnig eu henwau, ac yn amlwg, gallaf ddeall hynny, am nad ydynt yn dymuno mynd; maent am allu cadw eu swyddi. Ond yn y sefyllfa hon, mae'r holl golegau y cyfarfûm â hwy yn fy rhanbarth—y rhai rwyf wedi'u crybwyll—yn dweud eu bod o'r farn y bydd yn rhaid iddynt droi at ddiswyddiadau gorfodol os na chânt bobl i ddewis mynd yn wirfoddol. Felly, wyddoch chi, dyma'r realiti llwm sy'n ein hwynebu yn awr, gan y bydd undebau'n ysgogi gweithredu diwydiannol ar yr union sail hon. Maent yn teimlo eu bod wedi'u difreinio ar hyn o bryd oherwydd eu bod yn gwybod nad bai'r golegau yw hyn; maent yn gwybod nad oes gan y golegau unman i fynd, ond maent yn gwybod bod y toriadau'n dod.

When we talk about adult learning, well, as Simon Thomas mentioned, it is about those not in education and training. They need to be going into education. For example, Bridgend is the second highest in Wales in terms of those not in education and training. So, if they don't access college then, they won't access college because they will not travel or not be able to travel to Cardiff or further afield for the said education.

Wrth sôn am addysg oedolion, wel, fel y crybwyllodd Simon Thomas, mae'n ymwneud â phobl nad ydynt mewn addysg a hyfforddiant. Mae angen iddynt gael addysg. Er enghraifft, Pen-y-bont ar Ogwr yw'r ardal ail uchaf yng Nghymru o ran niferoedd y rhai nad ydynt mewn addysg a hyfforddiant. Felly, os nad ydynt yn y coleg, yna ni fyddant yn mynd i'r coleg am na fyddant yn teithio i Gaerdydd, neu am na allant deithio i Gaerdydd neu ymhellach i gael yr addysg honno.

I'd like to hear the Minister's response because what I found out from Bridgend was quite interesting, whereby £1.7 million has been given for adult learning for Communities First recently. So, is that the way that it's going? So, the cuts will come to FE, but it will be delivered in a different way somewhere else. If that is the case, we'd rather that the Welsh Government be upfront about that, in that the Communities First area is where it's going to go. But, can they do it all? Will they be able to do it all? That is the question that colleges are asking me. Things will have to be considered. Again, Bridgend will have to look at merger—

Suzy Davies a gododd—

Hoffwn glywed ymateb y Gweinidog oherwydd roedd yr hyn a ddysgais gan Benybont yn ddiddorol, lle y mae £1.7 miliwn wedi'i roi i Cymunedau yn Gyntaf yn ddiweddar ar gyfer addysg i oedolion. Felly, ai dyna'r ffordd y mae pethau'n mynd? Bydd toriadau'n dod i addysg bellach, ond bydd yn cael ei gyflwyno mewn ffordd wahanol yn rhywle arall. Os yw hynny'n wir, byddai'n well gennym pe bai Llywodraeth Cymru yn agored ynglŷn â hynny, ei fod yn mynd at Cymunedau yn Gyntaf. Ond a allant wneud y cyfan? A fyddant yn gallu gwneud hyn i gyd? Dyna'r cwestiwn y mae'r colegau yn ei ofyn i mi. Bydd yn rhaid ystyried pethau. Unwaith eto, bydd yn rhaid i Benybont edrych ar uno—

Suzy Davies rose—

16:36 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes; two seconds. Gower has merged and they say to me, 'Well, we've done this; we've done what the Welsh Government has said', and like perhaps some other sectors in Wales, they've done what the Welsh Government has said, but they still are faced with these astronomical cuts.

lawn; dwy eiliad. Mae Gŵyr wedi uno ac maent yn dweud wrthyf, 'Wel, rydym wedi gwneud hyn; rydym wedi gwneud yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi dweud', ac fel sectorau eraill yng Nghymru o bosibl, maent wedi gwneud yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddweud, ond maent yn dal i wynebu'r toriadau eithriadol hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:36 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention, Bethan. Just to go back to your point about Communities First perhaps trying to fill a gap here, I'm sure that it would be a concern to the whole Assembly to know that only a quarter of the students entering Bridgend College have reached level 2 through the normal means of education. I would be concerned—and I wonder if you are—that Communities First would not have the expertise to upskill those young people with those very basic skills to reach level 2.

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad, Bethan. I fynd yn ôl at eich pwynt am Cymunedau yn Gyntaf yn ceisio llenwi bwlch yma, rwy'n siŵr y byddai'n bryder i'r Cynulliad cyfan wybod mai dim ond chwarter y myfyrwyr sy'n dechrau yng Ngholeg Penybont sydd wedi cyrraedd lefel 2 drwy'r dulliau addysg arferol. Fe fyddwn yn pryderu—a thybed os ydych chi—na fyddai gan Cymunedau yn Gyntaf yr arbenigedd i wella sgiliau pobl ifanc gyda sgiliau sylfaenol iawn o'r fath i gyrraedd lefel 2.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:37 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, and I think that's where we need to understand what the picture is and where the Government are taking this, because if they're taking money from one place and putting it in another, surely there should be a strategy around that. Is there a strategy around that? There will be lecturers with years of expertise, some of whom have only just got fixed-term contracts and have been transferred from being on zero-hours contracts, to feel that they're a part of the institution once and for all, and are now faced with this very real stark problem.

Ie, ac rwy'n meddwl mai dyna lle y mae angen i ni ddeall beth yw'r darlun a lle y mae'r Llywodraeth yn mynd â hyn, oherwydd os ydynt yn cymryd arian o un lle a'i roi mewn lle arall, yn sicr dylid cael strategaeth ar gyfer hynny. A oes strategaeth ar gyfer hynny? Bydd yna ddarlithwyr gyda blynyddoedd o arbenigedd, rai ohonynt newydd gael contractau cyfnod penodol ac wedi'u trosglwyddo o fod ar gontractau dim oriau, i deimlo eu bod yn rhan o'r sefydliad unwaith ac am byth, ac yn awr maent yn wynebu'r problem anodd a real hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In Gower, again, they're having to consider campus closures, voluntary redundancies, sick pay cuts, pay freezes, and additional fees for maths and music tuition, and that will mean that, again, there will be more pressure on them. I think, what was most interesting again, we heard Aled Roberts talk about apprenticeships. I don't think that anybody says that industry should not pay, but at the moment the culture is that they haven't been paying, and so how are we going to get industry to change their mindset on how they fund their workers through the system, when the stark reality is that the FE sector will not have any more money?

Yng Ngholeg Gŵyr, unwaith eto, maent yn gorfod ystyried cau campws, diswyddiadau gwirfoddol, toriadau i dâl salwch, rhewi cyflogau, a ffioedd ychwanegol am hyfforddiant mewn mathemateg a cherddoriaeth, a bydd hynny'n golygu, unwaith eto, y bydd mwy o bwysau arnynt. Yn ddiddorol iawn eto, rwy'n meddwl ein bod wedi clywed Aled Roberts yn siarad am brentisiaethau. Nid wyf yn credu bod neb yn dweud na ddylai diwydiant dalu, ond ar hyn o bryd y diwylliant yw nad yw wedi bod yn talu, ac felly sut ydym yn mynd i gael y diwydiant i newid ei ffordd o feddwl ynglŷn â sut y mae'n ariannu ei weithwyr drwy'r system, er mai'r gwir plaen yw na fydd y sector Addysg Bellach yn cael rhagor o arian?

I think that what's important that we have here today is some idea of where this is going to go because I'm being told that they simply cannot manage any more cuts, and that will mean fewer young people getting the education that they need, more families in poverty—

Credaf mai'r hyn sy'n bwysig yw bod gennym ryw syniad yma heddiw ynglŷn ag i ble y mae hyn yn mynd oherwydd dywedir wrthyf na allant ymdopi â rhagor o doriadau, a bydd hynny'n golygu llai o bobl ifanc yn cael yr addysg sydd ei hangen arnynt, mwy o deuluoedd mewn tldi—

16:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Conclude now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:38 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—and more problems with the sector in general.

[Yn parhau.]—a mwy o broblemau gyda'r sector yn gyffredinol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:38 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I am also pleased to take part in the debate this afternoon, and I will support the motion.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf hefyd yn falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma, a byddaf yn cefnogi'r cynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Everyone will agree that skills investment throughout the last decade is one of the most crucial economic drivers of today. Globalisation demands innovation, creativity and a modern workforce. When we talk about the economy in the context of policy or general elections, skills, education and training are at its core. I was very pleased to be at the Children, Young People and Education Committee this morning to discuss the Professor Donaldson report with Professor Donaldson, which cites what he believes are the four purposes of education, the first two of which say that all children and young people will be ambitious, capable learners who are ready to learn through their lives, and enterprising, realistic, creative contributors who are ready to play a full part in life and work. I'm pleased that the Welsh Government is designing an education system for learning excellence, from reception class to university, and I disagree with Bethan on this: I think further education is an essential part of that. The FE policy landscape is about as diverse and dynamic as the courses offered in the sector, as people have already mentioned adult learning. Research shows adult learning opportunities are essential in upskilling or re-skilling those already in the Welsh workforce, perhaps seeking to move out of low-paid or low-skilled jobs and certainly looking at education to enhance career prospects and pay, as cited by the 'It's About Time' report.

Bydd pawb yn cytuno bod buddsoddi mewn sgiliau drwy gydol y degawd diwethaf yn un o ysgogiadau economaidd mwyaf allweddol yr oes. Mae globaleiddio yn mynnu arloesedd, creadigrwydd a gweithlu modern. Pan siaradwn am yr economi yng nghyd-destun polisi neu etholiadau cyffredinol, mae sgiliau, addysg a hyfforddiant yn ganolog i'r drafodaeth. Roeddwn yn falch iawn o fod yn y Pwyllgor Plant, Addysg a Phobl Ifanc y bore yma i drafod adroddiad yr Athro Donaldson gyda'r Athro Donaldson, sy'n dyfynnu'r hyn y mae'n credu yw pedwar diben addysg, ac mae'r ddau gyntaf o'r rhain yn dweud y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau ac yn gyfranwyr mentrus, realistig a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru yn llunio system addysg ar gyfer rhagoriaeth dysgu, o'r dosbarth derbyn i'r brifysgol, ac rwy'n anghytuno â Bethan ar hyn: rwy'n meddwl bod addysg bellach yn rhan hanfodol o hynny. Mae tirwedd polisi addysg bellach tua'r un mor amrywiol a dynamig â'r cyrsiau a gynigir yn y sector, gan fod pobl eisoes wedi crybwyll addysg i oedolion. Mae ymchwil yn dangos bod cyfleoedd dysgu i oedolion yn hanfodol i wella sgiliau neu ailsgilio rhai sydd eisoes yn y gweithlu yng Nghymru, ac sydd efallai'n ceisio symud o swyddi ar gyflogau isel neu heb lawer o sgiliau ac yn sicr yn troi at addysg i wella rhagolygon gyrfa a chyflogau, fel y nodwyd yn yr adroddiad 'Mae'n Hen Bryd'.

The part-time element of adult learning is fundamental in the HE sector also. Well over half of Open University students are in employment while studying. Social justice and social mobility are at stake here. Part-time courses open up education to a wider range of people than would otherwise be the case under more traditional methods of study. I also, Simon, have received correspondence from parents, pupils, students, staff and unions related to Coleg Sir Gâr. With the Graig campus in Llanelli and three sites county-wide, the funding cut has attracted significant local attention. At the forefront of my mind are potential job losses. Mitigating these remains a priority. I'm aware that Government has convened working groups and officials have met with Coleg Sir Gâr's governing body. I ask the Minister for more detail on the outcome of these. What changes to strategic directions were discussed and agreed? What are the anticipated timelines and how do new, specific funding models apply directly to Carmarthenshire FE provision? I appreciate that FE institutions are autonomous bodies, however the role of Welsh Government and the legislature ought always to be one of support.

I accept also that these cuts are as a direct consequence of a reduced block grant from Westminster. We have a statutory duty to protect education for learners up to the age of 18, and that includes students in colleges. We've committed to keep education funding 1 per cent above the block grant to maintain investment in our schools. We protected Welsh students from the excessive tuition fee increases seen in England and we've kept the education maintenance allowance. However, we do have a problem in the £1.5 billion cut to Wales's funding passed down from Westminster, the scale of which makes it impossible to maintain funding levels everywhere. The Conservatives regularly demand ring-fenced budgets across Welsh Government departments, yet they are the ones passing down cuts to the Welsh block grant and have previously outlined education cuts themselves.

Deputy Minister, you've been open about the need to move away from a situation where the Government is the main source of skills training. Of course the Government ought to maintain strong support, but with employers also upping their level of investment. I agree with that and would like to see more employer support for college courses. We have initiatives, such as CCTAL in Carmarthenshire, which combines several smaller firms to offer apprenticeships. The firms alone, without the combined link with a college, would be unable to sustain the full-time apprentices. Coleg Sir Gâr also works with Tata Steel to support apprentices and there's also, hopefully, local innovation opportunities linked to developments like the Swansea tidal lagoon. However, it still remains that a large proportion of Welsh businesses are SMEs or microbusinesses. How are Government strategies seeking to reflect this? How will the apprenticeship unit increase employer engagement and converting that into levels of support? Replicating best practice will have a part to play, but it ultimately depends on employer engagement and early strategic planning. I would welcome, Deputy Minister, an update on the present position. Thank you.

Mae'r elfen ran-amser mewn addysg i oedolion yn hanfodol yn y sector Addysg Uwch hefyd. Mae ymhell dros hanner myfyrwyr y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth wrth astudio. Mae cyfiawnder cymdeithasol a symudedd cymdeithasol yn y fantol yma. Mae cyrsiau rhan-amser yn agor addysg i ystod ehangach o bobl nag a fyddai fel arall yn digwydd drwy ddulliau mwy traddodiadol o astudio. Rwyf innau hefyd, Simon, wedi cael gohebiaeth gan rieni, disgyblion, myfyrwyr, staff ac undebau sy'n gysylltiedig â Choleg Sir Gâr. Gyda champws y Graig yn Llanelli a thri safle ar draws y sir, mae'r toriad yn y cyllid wedi denu sylw lleol sylweddol. Mae'r posibilrwydd o golli swyddi ar flaen fy meddwl. Mae lliniaru hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rwy'n ymwybodol fod y Llywodraeth wedi sefydlu gweithgornau a swyddogion wedi cyfarfod â chorff llywodraethu Coleg Sir Gâr. Rwy'n gofyn i'r Gweinidog am fwy o fanylion ar ganlyniadau'r rhain. Pa newidiadau a drafodwyd ac a gytunwyd i'r cyfeiriadau strategol? Beth yw'r terfynau amser a ragwelir a sut y mae modelau ariannu newydd penodol yn uniongyrchol berthnasol i'r ddarpariaeth addysg bellach yn Sir Gaerfyrddin? Rwy'n gwerthfawrogi bod sefydliadau addysg bellach yn gyrrff ymreolaethol, ond dylai rôl Llywodraeth Cymru a'r ddeddfwrfa bob amser fod yn un gefnogol.

Rwy'n derbyn hefyd fod y toriadau hyn yn deillio o ganlyniad uniongyrchol i grant bloc llai o San Steffan. Mae gennym ddyletswydd statudol i ddiogelu addysg ar gyfer dysgwyr hyd at 18 oed, ac mae hynny'n cynnwys myfyrwyr mewn colegau. Rydym wedi ymrwymo i gadw cyllid addysg un y cant yn uwch na'r grant bloc i gynnal buddsoddiad yn ein hysgolion. Rydym wedi gwarchod myfyrwyr Cymru rhag y codiadau gormodol yn y ffioedd dysgu a welwyd yn Lloegr ac rydym wedi cadw'r lwfans cynhaliaeth addysg. Fodd bynnag, mae gennym broblem o ran y toriad o £1.5 biliwn i gyllid Cymru a drosglwyddwyd o San Steffan ac mae ei faint yn ei gwneud hi'n amhosibl cynnal lefelau cyllido ym mhob man. Mae'r Ceidwadwyr yn galw'n rheolaidd am neilltuo cyllidebau ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, eto i gyd hwy yw'r rhai sy'n trosglwyddo toriadau i grant bloc Cymru ac sydd wedi amlinellu toriadau addysg eu hunain yn flaenorol.

Ddirprwy Weinidog, rydych wedi bod yn agored ynglŷn â'r angen i symud o sefyllfa lle y mae'r Llywodraeth yn brif ffynhonnell hyfforddiant sgiliau. Wrth gwrs dylai'r Llywodraeth gynnal cefnogaeth gref, ond gyda chyflogwyr hefyd yn cynyddu lefel eu buddsoddiad. Rwy'n cytuno â hynny a byddwn yn hoffi gweld mwy o gefnogaeth gan gyflogwyr i gyrsiau coleg. Mae gennym fentrau, megis CCTAL yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cyfuno nifer o gwmnïau llai o faint er mwyn cynnig prentisiaethau. Ni fyddai'r cwmnïau hyn ar eu pennau eu hunain, heb y cysylltiad cyfunol â choleg, yn gallu cynnal prentisiaid amser llawn. Mae Coleg Sir Gâr hefyd yn gweithio gyda Tata Steel i gefnogi prentisiaid a cheir cyfleoedd arloesi lleol hefyd, gobeithio, yn gysylltiedig â datblygiadau megis y morlyn llanw yn Abertawe. Fodd bynnag, mae cyfran fawr o fusnesau Cymru yn fusnesau bach a chanolig neu'n microfusnesau. Sut y mae strategaethau Llywodraeth yn ceisio adlewyrchu hyn? Sut y bydd yr uned prentisiaethau yn cynyddu ymgysylltiad cyflogwyr ac yn trosi hynny'n lefelau cymorth? Bydd gan ddyblygu arfer gorau ran i'w chwarae, ond yn y pen draw, mae'n dibynnu ar ymgysylltu â chyflogwyr a chynllunio strategol cynnar. Ddirprwy Weinidog, fe fyddwn yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol. Diolch yn fawr.

The recent Estyn report has said some positive things about further education colleges in Wales, but education, as we've heard, doesn't stop at 16 and is not only found in schools, of course. Colleges educate more 16 to 19-year-olds in Wales than schools, actually, and the sector is central to the route out of long-term and short-term poverty and disadvantage. So, why are these colleges the latest part of Government being faced with a severe round of cuts?

Cutting further and higher education not only flies in the face of common sense, but contradicts what we know we have to do to build a better future, which is to invest in education now and in the future, and services for post 16 and adults should not be overlooked as an easy saving. My colleague Simon Thomas mentioned some of the senior pay that is being paid to some of the principals. Coleg y Cymoedd was mentioned. Llandrillo Menai could be mentioned. The vice chancellor of Cardiff University could be mentioned. I don't wish to particularly stir up resentment or personally victimise anybody. But, at this time, with the level of pressures that we face in terms of public spending, people really don't understand how amounts such as £145,000, £180,000 or £271,000 a year can be paid to these public servants. How can we justify it? And yet other people in the colleges are facing the sack, quite frankly, and that's simply not on.

We've heard from the colleges and higher education unions that, today, they have been out—whilst we are all talking here—with their placards on the picket line, trying to protect services. They rightly point out that further education plays a key role in delivering many of the Welsh Labour Government's policy objectives—how ironic is that—by providing second chances to people in low-paid, insecure employment or no employment at all. These cuts discriminate against lower-skilled members of the workforce and the unemployed who are striving to improve their employment prospects. The unions point out that further education is a route out of poverty, and this route is being cut off. An e-mail today from a principal in the south-east Wales region says: 'We are being forced to reduce apprenticeships just when they are, at long last, beginning to be seen as a high-quality route for able students to progress into high-skilled employment.'

Mae adroddiad diweddar Estyn wedi dweud pethau cadarnhaol am golegau addysg bellach yng Nghymru, ond fel y clywsom, nid yw addysg yn dod i ben yn 16 oed ac nid mewn ysgolion yn unig y mae i'w chael, wrth gwrs. Mae colegau'n addysgu mwy o rai 16 i 19 oed yng Nghymru nag y mae'r ysgolion, mewn gwirionedd, ac mae'r sector yn ganolog i'r llwybr allan o dlodi ac afantais yn y tymor hir a'r tymor byr. Felly, pam mai'r colegau yw'r rhan ddiweddaraf o'r Llywodraeth sy'n wynebu rownd ddirifrol o doriadau?

Mae torri addysg bellach ac addysg uwch yn groes i synnwyr cyffredin, a hefyd yn gwrth-ddweud yr hyn y gwyddom sy'n rhaid inni ei wneud i adeiladu gwell dyfodol, sef buddsoddi mewn addysg yn awr ac yn y dyfodol, ac ni ddylid anwybyddu gwasanaethau addysg i rai ôl-16 ac oedolion fel ffordd hawdd o arbed arian. Soniodd fy nghyd-Aelod Simon Thomas am gyflogau mawr sy'n cael ei dalu i rai o'r prifathrawon. Cafodd Coleg y Cymoedd ei grybwyll. Gellid crybwyll Llandrillo Menai. Gellid crybwyll is-ganghellor Prifysgol Caerdydd. Nid wyf yn arbennig o awyddus i ennyn drwgdeimlad neu erlid neb yn bersonol. Ond ar hyn o bryd, gyda lefel y pwysau sy'n ein hwynebu o ran gwariant cyhoeddus, nid yw pobl yn deall sut y gellir talu symiau fel £145,000, £180,000 neu £271,000 y flwyddyn i'r swyddogion cyhoeddus hyn. Sut y gallwn ei gyfiawnhau? Ac eto mae pobl eraill yn y colegau yn wynebu diswyddiadau, a dweud y gwir, ac nid yw hynny'n iawn o gwbl.

Rydym wedi clywed gan y colegau ac undebau addysg uwch heddiw eu bod wedi bod allan—wrth i ni siarad yma—gyda'u placardiau ar y llinell biced, yn ceisio amddiffyn gwasanaethau. Maent yn iawn i nodi bod addysg bellach yn chwarae rhan allweddol yn cyflawni llawer o amcanion polisi Llywodraeth Lafur Cymru—mae hynny mor eironig—drwy roi ail gyfle i bobl mewn swyddi ansicr ar gyflog isel neu heb fod mewn gwaith o gwbl. Mae'r toriadau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn aelodau o'r gweithlu heb lawer o sgiliau a'r di-waith sy'n ymdrechu i wella eu rhagolygon cyflogaeth. Mae'r undebau'n nodi bod addysg bellach yn llwybr allan o dlodi, ac mae'r llwybr hwn yn cael ei gau. Mae e-bost a ddaeth heddiw gan brifathro yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru yn dweud: 'Rydym yn cael ein gorfodi i gyfyngu ar brentisiaethau ar yr union adeg y maent o'r diwedd yn dechrau cael eu gweld fel llwybr o ansawdd i fyfyrwyr galluog symud ymlaen i waith sy'n galw am sgiliau uwch.'

Plaid Cymru has an alternative. We want to use further education not only to give the best shot to someone starting in life but also to offer hope for someone wanting change later on. Use further education colleges to be the centre for social change and improvement we know they can be. The long-term change for our economy can start in education, as well as in small businesses, I'm sure my friends on the other side will be glad to know. We must commit to investing in further education and be honest about the long-term impact these cuts will have. We have to recognise a further five years of austerity. What will that do? That is the root cause of this sort of evil. If this level of cuts is happening now, how much worse will it need to get in the future? We reject austerity as a party, as you know. The reductions in adult and community education will have a massive adverse impact on future levels of literacy and numeracy. Frequently, parents and grandparents lack confidence in their own literacy and numeracy, which affects the support provided in the home before, during and after school years. The reductions in adult and community education will only make matters worse. The reductions in funding jeopardise the development of the Welsh baccalaureate. This is an innovative and unique qualification that brings together education and skills and provides an important underpinning for employment and higher study. We value the importance of the FE sector, and we see it as a crucial part of tackling the long-term and the short-term problems of generational poverty and worklessness. We think that further education can be an empowering force for personal and social change now and in the future. Let's not short-change it now.

Mae gan Blaid Cymru ddewis arall. Rydym eisiau defnyddio addysg bellach, nid yn unig i roi'r cyfle gorau i rywun sy'n dechrau mewn bywyd, ond hefyd i gynnig gobaith i rywun sydd eisiau newid yn nes ymlaen. Defnyddiwch golegau addysg bellach i fod yn ganolfannau ar gyfer newid a gwella cymdeithas fel y gwyddom y gallant fod. Gall y newid hirdymor i'n heconomi ddechrau gydag addysg, yn ogystal â mewn busnesau bach, rwy'n siŵr y bydd fy ffrindiau ar yr ochr arall yn falch o wybod. Mae'n rhaid i ni ymrwymo i fuddsoddi mewn addysg bellach a bod yn onest am yr effaith hirdymor y bydd y toriadau hyn yn ei chael. Mae'n rhaid i ni gydnabod fod pum mlynedd arall o galedi yn dod i ni. Beth fydd hynny'n ei wneud? Dyna yw achos sylfaenol y math hwn o ddrwg. Os yw'r lefel hon o doriadau'n digwydd yn awr, faint yn waeth fydd angen iddi fynd yn y dyfodol? Rydym yn gwrthod caledi fel plaid, fel y gwyddoch. Bydd y toriadau ym maes addysg i oedolion ac addysg gymunedol yn cael effaith niweidiol enfawr ar lefelau llythrennedd a rhifedd yn y dyfodol. Yn aml, mae rhieni a neiniau a theidiau yn brin o hyder yn eu llythrennedd a'u rhifedd eu hunain, sy'n effeithio ar y cymorth a roddir yn y cartref cyn, yn ystod ac ar ôl blynyddoedd ysgol. Ni fydd y toriadau ym maes addysg i oedolion ac addysg gymunedol ond yn gwneud pethau'n waeth. Mae'r toriadau ariannol yn peryglu datblygiad bagloriaeth Cymru. Dyma gymhwyster arloesol ac unigryw sy'n dwyn ynghyd addysg a sgiliau ac yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer cyflogaeth ac astudiaethau uwch. Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y sector addysg bellach, ac rydym yn ei weld yn rhan hanfodol o'r broses o fynd i'r afael â phroblemau tlodi a bod heb waith o un genhedlaeth i'r llall yn y tymor hir a'r tymor byr. Credwn y gall addysg bellach rymuso newid personol a chymdeithasol yn awr ac yn y dyfodol. Gadewch i ni beidio â'i hesgeuluso yn awr.

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful for the opportunity to speak in this important debate today. Further and adult education is an issue very close to my heart, and it has been for most of my professional life. I'm a former governor of a further education college, as well as a former principal of a part-time adult education centre—both of which were based in my constituency. Furthermore, it was an issue in which I took a great deal of interest during my time as the Deputy Minister for Skills. I recognise the importance of further and adult education, and we must do all that we can to prioritise and support it in key areas during these fiscally straitened times. It's vital that we support further education colleges to work with employers and work-based learning providers to deliver the best possible training and career development opportunities for people who work both full time and part time, as well as support those who are out of work or want to work more hours to learn new skills to boost their employability levels. Further education colleges play a crucial role in the delivery of apprenticeships, and can I say on this point that I remember very well indeed the positive negotiations I had with Simon Thomas and Plaid Cymru over the allocation of the additional £20 million over two years some time ago, which increased the number of apprenticeships at that time, including, of course, higher-level apprenticeships. The figure has now, of course, reverted to its more normal figure. But what is absolutely crucial here is not the number of starts—it is important, of course—but the number of completions, and we can be very proud that, in Wales, our completion of apprenticeship rate is well over 80 per cent, amongst the best in the UK. And also making very good use of European structural funds.

Now, whilst links between further education and employers are important—and, here, can I endorse the comments of Keith Davies—the importance of developing co-financing regimes with employers needs to be improved, so that there is a greater contribution. And, of course, I'm old enough to remember when employers paid for all aspects of apprenticeships, but those days have long gone. So, links between further education, employers and work-based learning providers are important, but we must also ensure that we promote more and better links between further education colleges and schools.

Diolch am y cyfle i siarad yn y ddaidl bwysig hon heddiw. Mae addysg bellach ac addysg i oedolion yn fater sy'n agos iawn at fy nghalon, ac mae wedi bod am y rhan fwyaf o fy mywyd proffesiynol. Rwy'n gyn-lywodraethwr coleg addysg bellach yn ogystal â chyn-bennaeth canolfan addysg ran-amser i oedolion—roedd y ddau sefydliad yn fy etholaeth. Ar ben hynny, roedd yn fater yr oedd gennyf lawer iawn o ddi-ddordeb ynddo yn ystod fy nghyfnod fel y Dirprwy Weinidog Sgiliau. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd addysg bellach ac addysg i oedolion, a rhaid inni wneud popeth a allwn i'w blaenoriaethu a'u cefnogi mewn ardaloedd allweddol yn ystod y cyfnod anodd hwn yn ariannol. Mae'n hanfodol ein bod yn cynorthwyo colegau addysg bellach i weithio gyda chyflogwyr a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i ddarparu'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa gorau posibl i bobl sy'n gweithio yn amser llawn a rhan-amser, yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n ddi-waith neu eisiau gweithio rhagor o oriau i ddysgu sgiliau newydd er mwyn rhoi hwb i'w lefelau cyflogadwyedd. Mae colegau addysg bellach yn chwarae rhan hanfodol yn darparu prentisiaethau, ac a gaf fi ddweud ar y pwynt hwn fy mod yn cofio'n dda iawn y trafodaethau cadarnhaol a gefais gyda Simon Thomas a Phlaid Cymru dros ddyraniad yr £20 miliwn ychwanegol dros ddwy flynedd beth amser yn ôl a gynyddodd nifer y prentisiaethau ar y pryd, gan gynnwys prentisiaethau lefel uwch wrth gwrs. Mae'r ffigur bellach wedi dychwelyd i'w lefel fwy arferol wrth gwrs. Ond nid y nifer sy'n dechrau yw'r hyn sy'n gwbl allweddol yma—er ei fod yn bwysig, wrth gwrs—ond y nifer sy'n eu cwblhau, a gallwn fod yn falch iawn yng Nghymru fod y gyfradd sy'n cwblhau prentisiaethau ymhell dros 80 y cant, ymysg y gorau yn y DU. Mae hyn hefyd yn ddefnydd da iawn o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

Nawr, er bod y cysylltiadau rhwng addysg bellach a chyflogwyr yn bwysig—ac yma, a gaf fi ategu sylwadau Keith Davies—mae angen rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu cyfundrefnau cydarianu gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau mwy o gyfraniad. Ac wrth gwrs, rwy'n ddigon hen i gofio pan oedd cyflogwyr yn talu am bob agwedd ar brentisiaethau, ond mae'r dyddiau hynny wedi hen fynd. Felly, mae cysylltiadau rhwng addysg bellach, cyflogwyr a darparwyr dysgu yn y gwaith yn bwysig, ond rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn hyrwyddo mwy o gysylltiadau gwell rhwng colegau addysg bellach ac ysgolion.

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I appreciate your taking an intervention, but, in the talks that I've had with the colleges in my area, they're saying that those businesses simply will not carry forth those apprenticeships, and so that will be the end of it; there will be no more apprenticeships available for those in certain sectors.

Diolch am gymryd ymyriad. Yn y trafodaethau a gefais gyda'r colegau yn fy ardal i, maent yn dweud na fydd y busnesau hynny'n parhau â'r prentisiaethau, ac felly dyna ddiwedd arni; ni fydd mwy o brentisiaethau ar gael i rai mewn sectorau penodol.

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I can't comment on what has been said to you, but I don't accept that pessimistic view, and that's why I'm saying there must be more work done in that direction. I've also had many discussions with work-based learning providers, who give me a slightly different picture.

In terms of the better links between further education colleges and schools, this is where the 14-19 learning pathways come in, enabling learners to receive the appropriate balance of learning experiences that best meet their needs. I know that there is more work to be done in this area, with some schools and colleges better at working with each other than others. Nonetheless, it is key to our learning and skills agenda, and we must push ahead. I trust that the curriculum review of Professor Donaldson will also help to address this matter.

Now, I would urge the Welsh Government to begin a clear assessment of how well schools and further education colleges are working together so that we can have a clear idea of where we're at at the moment and what specific improvements are needed. Deputy Llywydd, we all know the financial pressures that further education colleges and local authorities are under when it comes to the provision of adult learning courses in particular, and I'm sure that many of you, like me, have been contacted by constituents with their concerns. Our hands, as has been mentioned many times, are currently tied by cuts from the Tory-led UK Government—something that I look forward to seeing changing after 7 May. The Welsh Government is right to focus on priority areas and helping those who are most vulnerable to boost their employability during these tough times, and, in an increasingly competitive labour market, we have to make sure that our workforce has the right skills for the future.

To conclude, I would once again like to emphasise the importance of further and higher education in boosting skills and employability levels, particularly amongst those people who do not pursue traditional academic and career progression pathways. I believe that there is a case for giving protection to further education like that which is given to schools spending, but that is for a future Welsh Government to decide. We've done a lot of good work in Wales to diversify learning platforms and make training provision more responsive to the learner by encouraging genuine collaboration—

Wel, ni allaf roi sylwadau ar yr hyn a ddywedwyd wrthyf, ond nid wyf yn derbyn y farn besimistaidd honno, a dyna pam rwy'n dweud bod yn rhaid gwneud mwy o waith yn hynny o beth. Rwyf hefyd wedi cael nifer o drafodaethau gyda darparwyr dysgu yn y gwaith, sy'n rhoi darlun ychydig yn wahanol i mi.

O ran cysylltiadau gwell rhwng colegau addysg bellach ac ysgolion, dyma lle y mae llwybrau dysgu 14-19 yn dod i mewn i bethau, gan alluogi dysgwyr i gael y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n diwallu eu hanghenion orau. Gwn fod mwy o waith i'w wneud yn y maes hwn, gyda rhai ysgolion a cholegau yn well nag eraill o ran gweithio gyda'i gilydd. Serch hynny, mae'n allweddol i'n hagenda addysg a sgiliau, a rhaid inni fwrw ymlaen. Hyderaf y bydd adolygiad cwricwlwm yr Athro Donaldson hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Nawr, byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ddechrau asesiad clir o ba mor dda y mae ysgolion a cholegau addysg bellach yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn i ni gael syniad clir ynglŷn â lle'r ydym ar hyn o bryd a pha welliannau penodol sydd eu hangen. Ddirprwy Lywydd, rydym i gyd yn gwybod am y pwysau ariannol sydd ar golegau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu cyrsiau dysgu i oedolion yn arbennig, ac rwy'n siŵr eich bod, fel ffinau, wedi cael etholwyr yn cysylltu â chi i fynegi eu pryderon. Fel y soniwyd lawer gwaith, mae ein dwylo wedi cael eu clymu ar hyn o bryd gan doriadau o Lywodraeth y DU dan arweiniad y Toriaid—rhywbeth rwy'n edrych ymlaen at ei weld yn newid ar ôl 7 Mai. Mae Llywodraeth Cymru yn iawn i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth a helpu'r rhai mwyaf agored i niwedd i roi hwb i'w cyflogadwyedd yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac mewn marchnad lafur sy'n gynyddol gystadleuol, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod y sgiliau cywir gan ein gweithlu ar gyfer y dyfodol.

I gloi, hoffwn ailddatgan pwysigrwydd addysg bellach ac addysg uwch i hybu sgiliau a lefelau cyflogadwyedd, yn enwedig ymhlith pobl nad ydynt yn dilyn llwybrau datblygu academaidd a gyrfaol traddodiadol. Credaf fod yna achos dros ddiogelu addysg bellach fel y caiff gwariant ar ysgolion ei ddiogelu, ond mater i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ei benderfynu yw hynny. Rydym wedi gwneud llawer o waith da yng Nghymru i arallgyfeirio plattfformau dysgu a gwneud y ddarpariaeth hyfforddiant yn fwy ymatebol i'r dysgwyr drwy annog cydweithredu go iawn—

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish quickly now, please.

Gorffennwch yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda.

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—between all of the key players in Wales. We've suffered devastating cuts, but we can still do good work.

[Yn parhau.]—rhwng pob un o'r chwaraewyr allweddol yng Nghymru. Rydym wedi dioddef toriadau dinistriol, ond gallwn ddal ati i wneud gwaith da.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish now. Alun Ffred Jones.

Gorffennwch yn awr. Alun Ffred Jones.

Diolch yn fawr. Rwy'n falch o gael cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth. Mi fyddaf i am gyfeirio yn benodol at bwysigrwydd addysg bellach yn y gogledd-orllewin trwy grŵp colegau Llandrillo Menai, ond yn gyntaf mi hoffwn i danlinellu'r anawsterau y mae'r ansicrwydd cyllidol yn ei greu yn y colegau ar hyn o bryd, i fyfyrwyr, i ddarpar fyfyrwyr, ac i'r staff wrth gwrs. Dros y blynyddoedd, fe welwyd y gyllideb yn ehangu ac yna'n crebachu fel llanw'r môr, ac mae hyn yn tansellio cynllunio tymor hir o ran cynllunio cyrsiau ac o ran staff a strwythur staff hefyd. Ac mae'r sefyllfa eleni, lle tynnwyd arian yn ôl yn ystod y flwyddyn, yn dangos diffyg rheolaeth ar gyllideb Llywodraeth Cymru ac, unwaith eto, mae'n tansellio cynllunio call a deallus. Tra rwy'n derbyn sylwadau Jeff Cuthbert ynglŷn â'r pwysau ariannol sydd wedi dod o Lundain efo'r gyllideb yn cael ei thorri yn fawr iawn, y gwir amdani ydy bod cynlluniau ei blaid ei hun yn golygu y bydd yna fwy byth o doriadau i'r dyfodol. Nid ydych yn dadwneud y toriadau. Wel, rydych yn ysgwyd eich pen, ond nid oes dim bwriad i ehangu'r gyllideb i Gymru yn y dyfodol. Felly, mae'r sefyllfa alaethus bresennol yn mynd i barhau.

Beth bynnag, i droi at y sefyllfa yn fy ardal i, fel y gwyddom ni'n dda, mae'r bobl ifanc a'r rhai hŷn sy'n manteisio ar gyrsiau colegau addysg bellach yn debycach o aros yn ein cymunedau na'r rhai sy'n mynd i addysg uwch. Ac, ar lawer ystyr, mae sicrhau ansawdd a dewis priodol i'r bobl ifanc yma sydd mewn addysg bellach yn bwysicach i ffyniant ein cymunedau a'n heconomi ni na ddim byd arall. Mae yna enghraifft dda yn agos i fy nghartref: Coleg Glynllifon, fel ag yr oedd, neu safle Glynllifon bellach, fel rhan o Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r safle yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol yn y maes amaethyddol, peirianneg a chrefftau a sgiliau cefn gwlad, ac mae adroddiad diweddar yr Athro Wynne Jones yn cydnabod bod y safle yn ganolfan o arbenigedd sy'n rhoi arweiniad a sgiliau cwbl hanfodol ar gyfer economi amrywiol ardal wledig. Eto, rhai blynyddoedd yn ôl, wrth gwrs, o dan gynllun cenedlaethol—un o'r cynlluniau sy'n dod heibio bob hyn a hyn—roedd bwriad i gau'r safle yn gyfan gwbl. Dim ond dyfal barhad ac arweiniad y prifathro ar y pryd a gadwodd y drysau ar agor, a phrofi i'r Llywodraeth bod y coleg yn cyflawni swyddogaeth hanfodol i bobl ifanc yr ardal, ac yn adnodd hollbwysig.

Thank you very much. I am pleased to have an opportunity to contribute to this debate. I want to refer specifically to the importance of further education in north-west Wales through the Llandrillo Menai colleges group, but first I would like to underline the difficulties that the fiscal uncertainty creates in the colleges at present for students, prospective students and staff, of course. Over the years, the budget has been seen rising and falling like the tide, and this undermines long-term planning, in the planning of courses as well as in terms of staff and staffing structures. And the situation this year, when money was withdrawn during the year, shows a lack of management of the budget by the Welsh Government and, again, undermines sensible and intelligent planning. While I accept Jeff Cuthbert's comments about the financial pressures that have come from London with the budget being heavily cut, the truth is that his own party's plans will mean even more cuts in the future. You are not undoing the cuts. Well, you shake your head, but there is no intention to increase the budget for Wales in the future. So, the current lamentable situation will continue.

But, to turn to the situation in my area, as we all know well, the young people and the older people who take advantage of further education college courses are more likely to stay within our communities than those who go to higher education. And in many ways, ensuring quality and appropriate choice for these young people who are in further education is more important for the prosperity of our communities and our economy than anything else. There is a good example close to my home: Coleg Glynllifon, as it was, or the Glynllifon site as it is now, as part of the Grŵp Llandrillo Menai. The site offers vocational training in the fields of agriculture, engineering and rural crafts and skills, and the recent report of Professor Wynne Jones acknowledges that the site is a centre of excellence that gives guidance and skills that are absolutely crucial for a varied rural economy. Yet, a few years ago, of course, under a national scheme—one of these schemes that come along every so often—there was an intention to close the site entirely. It was only the continued efforts and leadership of the headteacher at the time that kept the doors open, and proved to the Government that the college was fulfilling a crucial function for young people in the area, and was a resource that was crucial.

Heddiw, mae amrywiaeth y cyrsiau yn cael ei chwotgi eto, a dewis yn crebachu. Mi allwn i gyfeirio hefyd at Langefni, lle mae gennych chi ganolfan ragoriaeth yn sgiliau adeiladu a pheirianeg, hyn eto yn gwbl hanfodol o ran datblygu sgiliau i bobl ifanc Môn a Gwynedd gael mantais o gynlluniau uchelgeisiol ar Ynys Môn. Mae'n rhaid inni anelu'n uwch. Mae'n rhaid inni ehangu ein gorwelion. Ar ymweliad diweddar â Baden Württemberg gyda Phwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad, fe welsom ni'r twf anferth yn sgiliau yn ymwneud ag ynni gwyrdd. Yma, roedd polisiâu blaengar llywodraeth yr ardal, ymchwil o'r radd flaenaf, a hyfforddiant perthnasol wedi arwain at greu 12,000 o swyddi mewn 2,000 o gwmnïau yn ardal dinas Freiburg yn unig—dinas tua maint Caerdydd. Er gwaethaf llawer o eiriau teg, rydym ni ddegawd neu ddwy, byddwn i'n meddwl, ar ôl yr Almaen ar hyn o bryd, ac, oherwydd bod cyfleon ein pobl ifanc ni hefyd gymaint yn fwy cyfyng, mae hynny yn ei dro yn dal ein heconomi yn ôl. Felly, mae sicrhau ansawdd a dewis ym myd addysg bellach yn gwbl hanfodol i lwyddiant ein heconomi i'r dyfodol. Diolch.

Today, the variety of courses is being cut and choices are shrinking. I could also refer to Langefni, where you have a centre of excellence in construction and engineering, which, again, is crucially important in terms of developing the skills of the young people of Anglesey and Gwynedd so that they benefit from the ambitious plans in Anglesey. We must aim higher. We must broaden our horizons. During a recent visit to Baden Württemberg with the Assembly's Environment and Sustainability Committee, we saw the huge growth in skills related to green energy. Here, the innovative policies of the regional government, first-rate research and relevant training had led to the creation of 12,000 jobs in 2,000 companies in the Freiburg city region alone—a city the size of Cardiff. Despite many warm words, we are a decade or two, I would say, behind Germany at present, and, because the opportunities for our young people are so much more restricted, this, in turn, holds back our economy. So, ensuring quality and choice in the field of further education is vitally important to the success of our economy in future. Thank you.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Julie James.

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology, Julie James.

16:58 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

Thank you, Deputy Presiding Officer. I just want to start by saying that I very much welcome today's debate on further education and will confirm that we're very pleased to support the motion brought forward by Plaid Cymru. Before I address some of the substantive issues that have been raised by Members here in this place today, I do want to say that I'm also struck by the irony, as Simon Thomas mentioned, of the synergies with the previous debate. It's been very interesting first to listen to a load of neocons talking about the need for no state at all in that debate, particularly the current coalition, and then to listen to more or less the same people telling me that we need to spend more money now. So, I think that some people really need to get some of their sums back to basics.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn croesawu'r ddadl heddiw ar addysg bellach yn fawr iawn ac rwy'n cadarnhau ein bod yn falch iawn o gefnogi'r cynnig a gyflwynwyd gan Blaid Cymru. Cyn i mi fynd i'r afael â rhai o'r materion o sylwedd a godwyd gan Aelodau yma yn y lle hwn heddiw, rwyf am ddweud fy mod innau hefyd wedi fy nharo gan eironi'r synergeddau â'r ddadl flaenorol, fel y crybwyllodd Simon Thomas. Mae wedi bod yn ddiddorol iawn gwranddo yn gyntaf ar lwyth o neoconiaid yn sôn nad oes angen gwladwriaeth o gwbl yn y ddadl honno, yn enwedig y glymblaid bresennol, ac yna gwranddo ar yr un bobl fwy neu lai yn dweud wrthyf fod angen inni wario mwy o arian yn awr. Felly, credaf fod gwir angen i rai pobl fynd yn ôl i edrych ar eu symiau o'r dechrau.

Turning to the issues that have been raised today, I would also like to emphasise the critical role further education institutions play in the delivery of post-16 education in Wales, and also to the significant contribution they make to improving the lives of people in Wales and to enhancing our economy, particularly in helping young people and adults secure a better future for themselves.

Gan droi at y materion sydd wedi'u codi heddiw, hoffwn innau hefyd bwysleisio'r rhan allweddol y mae sefydliadau addysg bellach yn ei chwarae yn darparu addysg ôl-16 yng Nghymru, a hefyd y cyfraniad sylweddol y maent yn ei wneud i wella bywydau pobl yng Nghymru ac i wella ein heconomi, yn enwedig o ran helpu pobl ifanc ac oedolion i sicrhau dyfodol gwell iddynt eu hunain.

As Simon Thomas also acknowledged in his opening remarks, we are facing savage cuts across our budgets, and there is no point in trying to pretend that we have any good choices whatsoever facing us in terms of the money that we have available. But in spite of these exceptionally difficult times, it is also worth emphasising that our colleges are still performing exceptionally well.

Fel yr oedd Simon Thomas hefyd yn cydnabod yn ei sylwadau agoriadol, rydym yn wynebu toriadau llym ar draws ein cyllidebau, ac nid oes diben ceisio esgus bod gennym unrhyw ddewisiadau da o gwbl o ran yr arian sydd ar gael. Ond er gwaethaf y cyfnod eithriadol o anodd hwn, mae hefyd yn werth pwysleisio bod ein colegau yn eu dal i gyflawni'n eithriadol o dda.

I just want to say a couple of things about the detail of how some of these matters work and suggest that some Members need to refresh their memories about it. Our work-based learning contracts are tendered out by the Welsh Government on a cyclical programme. FE colleges and other work-based learning providers tender for those contracts and win them proportionately. So, where we have other providers, who are not FE colleges, providing work-based learning, that isn't instead of the FE colleges; that's because of the way the contracts work. I want to confirm to Bethan Jenkins and others who mentioned it that that is just how it works. We're not using Communities First moneys to back up FE colleges. This is a tender process. It always has been; it still is now. What you're seeing now is the allocations that were won by the various people who tendered for them, and I can provide you with a list of who and what if you would want me to do that.

I want to also concentrate on some of our positives, as I'm sure Simon Thomas will in his closing remarks. Her Majesty's inspectorate, Estyn, reported that, for the academic year 2013-14, for example, our colleges are delivering consistently high-quality learning and our principals and senior managers are providing clear strategic leadership. It's worth emphasising that, I think. Our statistics show that, in the same academic year, standards were maintained and 86 per cent of learning activities were successfully completed. As Jeff Cuthbert said as well, it's not just about how many start, it's about how many complete. We are well up amongst the best, if not the best in Europe, on our completion rates. So, it's worth emphasising that.

Rwyf am ddweud un neu ddau o bethau manwl ynglŷn â sut y mae rhai o'r materion hyn yn gweithio ac awgrymu bod angen i rai Aelodau atgoffa eu hunain yn eu cylch. Mae ein contractau dysgu seiliedig ar waith yn cael eu tendro gan Lywodraeth Cymru ar raglen gylchol. Mae colegau Addysg Bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith eraill yn cyflwyno tendr am y contractau ac yn eu hennill yn gyfrannol. Felly, lle y mae gennym ddarparwyr eraill, nad ydynt yn golegau Addysg Bellach, yn darparu dysgu seiliedig ar waith, nid yw hynny yn lle'r colegau Addysg Bellach; mae hynny oherwydd y ffordd y mae'r contractau'n gweithio. Rwyf am gadarnhau i Bethan Jenkins ac eraill a soniodd am hyn mai dyna'n union sut y mae'n gweithio. Nid ydym yn defnyddio arian Cymunedau yn Gyntaf i gynnal colegau Addysg Bellach. Proses dendro yw hon. Dyna yw hi wedi bod erioed; dyna yw hi'n dal i fod yn awr. Yr hyn rydych yn ei weld yn awr yw'r dyraniadau a enillwyd gan y gwahanol bobl a gyflwynodd dendrau ar eu cyfer, a gallaf roi rhestr i chi o bwy a beth os ydych am i mi wneud hynny.

Rwyf am ganolbwyntio hefyd ar rai o'r pethau cadarnhaol, fel y bydd Simon Thomas yn ei wneud yn ei sylwadau i gloi, rwy'n siŵr. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013-14, er enghraifft, adroddodd Arolygiaeth Ei Mawrhydi, Estyn, fod ein colegau yn darparu addysg o safon uchel yn gyson ac mae ein prifathrawon a'n huwch-reolwyr yn darparu arweinyddiaeth strategol glir. Mae'n werth pwysleisio hynny, rwy'n meddwl. Mae ein hystadegau'n dangos bod y safonau yn yr un flwyddyn academaidd wedi cael eu cynnal a bod 86 y cant o weithgareddau dysgu wedi eu cwblhau'n llwyddiannus. Fel y dywedodd Jeff Cuthbert hefyd, nid ymwneud yn unig â faint sy'n dechrau y mae hyn, mae'n ymwneud â faint sy'n cwblhau. Rydym ymhlith y goreuon, os nad y gorau yn Ewrop, o ran ein cyfraddau cwblhau. Felly, mae'n werth pwysleisio hynny.

17:01

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Recently, this Assembly passed the Higher Education (Wales) Act 2015 as a result of the Minister's concern that the widening access agenda, for exactly the kind of students you're talking about, might be jeopardised as direct funding diminishes. Do you consider that there is a chance that, if further education cuts continue in the way that they are, a similar Bill will be necessary to protect further education's widening access agenda?

Yn ddiweddar, pasiodd y Cynulliad Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 o ganlyniad i bryder y Gweinidog y gallai'r agenda ehangu mynediad, ar gyfer yn union y math o fyfyrwyr rydych yn sôn amdanynt, gael ei pheryglu wrth i arian uniongyrchol leihau. Os yw toriadau addysg bellach yn parhau yn y ffordd y maent yn ei wneud, a ydych chi'n ystyried y bydd angen Bil tebyg i ddiogelu agenda ehangu mynediad i addysg bellach?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:02

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll come on to what we're doing to protect it. So, the short answer is 'no', but I'll come on to the detail of that later on in this submission.

Ffe ddof at yr hyn rydym yn ei wneud i'w diogelu. Felly, yr ateb byr yw 'na', ond byddaf yn dod at fanylion hynny yn nes ymlaen yn y cyflwyniad hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I want to say, on our learner voice survey, eight out of 10 learners rated their overall learning experience as good or very good with learners particularly valuing the support given to them by their tutors and opportunities for independence offered by learning in further education. Often times, the academic route is held up as being something that we've protected and the FE route as somehow lesser. But, of course, in the academic route, students pay at least for some part of their learning experience themselves, through the loan scheme and so on. We're very proud of having made sure that our students are much less in debt than the equivalent ones in England. We do have a loan scheme available for further education—it's not very often used, but it is there—and I would like to draw Assembly Members' and, indeed, the wider public of Wales's attention to that scheme. So, if you do want to fund it yourself, we do offer a similar scheme for FE.

For example, last year, before I was in this portfolio, I visited a number of courses during adult learners week, which is a great event that we will be doing again this year, which were sold out and actually didn't get any Government funding at all. They were all work-based learning activities. They were not basket weaving—although, I don't want to denigrate basket weaving; I think it's an excellent thing to do. But I take the point you were making, Bethan. Many of the courses people are very happy to pay for themselves. This is part of our strategy.

It's very clear from your motion and from the contributions of all Members that you all feel as passionately as I do about the impact funding cuts are having on the further education sector in Wales. I can assure you that I also feel the impact of them. I want to emphasise again, there have been no good choices here. These cuts are as a direct result of the cuts imposed on us by the coalition Government in Westminster, propped up by the Liberal Democrats—one of the most heartless Tory Governments that I hope we will ever see; please God, if such a being exists, that they don't get in again.

The Welsh Government's budget is around 8 per cent lower in real terms than it was as a result of these cuts. As a result, we obviously have one of the most challenging budget settlements we've ever had and, again, I hope we ever will see. These decisions are very difficult indeed. They are not ones that we want to make, but we have done the very best to protect those priority areas that we felt needed protection.

Ynglŷn â'n harolwg llais y dysgwr, rwyf am ddweud fod 8 o bob 10 dysgwr wedi graddio eu profiad dysgu cyffredinol fel un da neu dda iawn gyda dysgwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig y gefnogaeth a roddwyd iddynt gan eu tiwtoriaid a'r cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth y mae dysgu'n eu cynnig mewn addysg bellach. Yn aml, mae'r llwybr academiaidd yn cael ei weld fel rhywbeth rydym wedi ei ddiogelu rywfaint mwy na'r llwybr Addysg Bellach. Ond wrth gwrs, ar y llwybr academiaidd, mae myfyrwyr yn talu am o leiaf ran o'u profiad dysgu eu hunain drwy'r cynllun benthyg ac yn y blaen. Rydym yn falch iawn o fod wedi gwneud yn siŵr fod ein myfyrwyr yn wynebu llawer llai o ddyled na myfyrwyr tebyg yn Lloegr. Mae gennyf gynllun benthygiadau ar gyfer addysg bellach—nid yw'n cael ei ddefnyddio'n aml iawn, ond mae ar gael—a hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Cynulliad ac yn wir, y cyhoedd yn ehangach yng Nghymru, at y cynllun hwnnw. Felly, os ydych am ei ariannu eich hun, rydym yn cynnig cynllun tebyg ar gyfer Addysg Bellach.

Er enghraifft, y llynedd, cyn i mi gael y portfolio hwn, ymwelais â nifer o gyrsiau yn ystod wythnos addysg oedolion, sy'n ddigwyddiad gwych y byddwn yn ei gynnal eto eleni. Roedd y cyrsiau'n llawn ac mewn gwirionedd ni chafodd y digwyddiad unrhyw gyllid gan y Llywodraeth o gwbl. Roeddent oll yn weithgareddau dysgu yn y gwaith. Nid gwehyddu basgedi oedd yn digwydd yno—er nad wyf am ddifrio gwehyddu basgedi; rwy'n credu ei fod yn beth am ddefnyddio i'w wneud. Ond rwy'n derbyn y pwynt a wnaethoch, Bethan. Roedd pobl yn hapus iawn i dalu am lawer o'r cyrsiau eu hunain. Mae hyn yn rhan o'n strategaeth.

Mae'n glir iawn o'ch cynnig ac o gyfraniadau pob Aelod eich bod oll yn teimlo mor angerddol â minnau ynghylch yr effaith y mae toriadau ariannol yn ei chael ar y sector addysg bellach yng Nghymru. Gallaf eich sicrhau fy mod innau hefyd yn teimlo'u heffaith. Rwyf am bwysleisio unwaith eto nad oes unrhyw ddewisiadau da yma. Canlyniad uniongyrchol y toriadau a orfodwyd arnom gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan wedi'i chynnal gan y Democratiaid Rhyddfrydol yw'r toriadau hyn—un o'r Llywodraethau Toriaidd mwyaf dideimlad a welwn byth, gobeithio; os oes Duw, na foed iddynt ddychwelyd i rym.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru oddeutu 8 y cant yn is mewn termau real na'r hyn a oedd o ganlyniad i'r toriadau hyn. O ganlyniad, mae'n amlwg ein bod wedi cael un o'r setliadau cyllidebol mwyaf heriol a gawsom erioed ac unwaith eto, rwy'n gobeithio na welwn ei thebyg byth eto. Mae'r penderfyniadau hyn yn anodd dros ben. Nid ydynt yn rhai rydym am eu gwneud, ond rydym wedi gwneud ein gorau i ddiogelu'r meysydd blaenoriaeth y teimlwn fod angen eu diogelu.

I visited Pembrokeshire College, an institute referenced by a number of Members here today, last month, where I met a load of people who were representing Wales at WorldSkills UK. They were inspirational people—really inspirational—both the tutors and the young people. Wales came second overall in the WorldSkills; we should be really, really proud of ourselves and our young people. So, I just want to say that, despite this austerity, we are still doing really excellent things here in Wales. That college has been working very hard to maximise its income from non-Government sources, through local employers and learners, for example. Indeed, in terms of the small employers that a number of Members have mentioned, they run a very successful shared apprenticeship scheme, which allows small employers to access apprenticeships in circumstances where they might not otherwise do so.

So, I want to reassure a number of Members who have mentioned it—Aled Roberts and Lindsay Whittle, for example, amongst others—that we have striven to protect learners as much as possible. Indeed, sometimes Members confuse the issue about continuing education, full-time education, for our 16 to 19-year-olds and adult education—as in, you're in work and you're getting skills-based education. We have protected the provision for 16 to 19-year-olds and we are very proud of this; that was no small thing to do. But the consequence of that is that the hardest hit is further education, part-time. I accept that. We're not hiding from that decision; it has been a very difficult decision to make. And that sector is looking at a 50 per cent reduction in funding. But I want to emphasise that we have also protected our most vulnerable learners. So, adult basic education has been protected, English for speakers of other languages has been protected, and discrete provision for learners with moderate or profound learning difficulties has also been protected. So, we have made no bones about the fact that, in a very difficult situation, we have chosen priorities, after much consideration, and we have chosen to protect the most vulnerable in our society. I am very proud that we have done that and the route we took to do it.

So, in these difficult times, we now move our focus to how we are using our resources and not what we have got. As Ministers, we do not have the luxury of just constantly bemoaning the fact that we don't have enough resources; we've got to get on with the job and do the best we can with what we've got. So, we have moved our thinking into a more can-do approach. We have delivered and are delivering much that Wales can be proud of, as I have already mentioned. One of the most ambitious apprenticeship programmes in Europe, with over 27,000 apprenticeships, as a result of the Plaid Cymru budget settlement, have been delivered. We're continuing to fund apprenticeships for those aged 16 to 24 and higher-level apprenticeships. Our completion rates are second to none, as we've already said, and we anticipate approvals of ESF funding shortly, which will support that apprenticeship programme into the future.

Y mis diwethaf, ymwelais â Choleg Sir Benfro, sefydliad y cyfeiriodd nifer o'r Aelodau yma heddiw ato, a chyfarfûm â llwyth o bobl a oedd yn cynrychioli Cymru yn WorldSkills UK. Roeddent yn llawn ysbrydoliaeth—yn wirioneddol ysbrydoledig—y tiwtoriaid a'r bobl ifanc. Daeth Cymru yn ail yn y WorldSkills; dylem fod yn falch dros ben ohonom ein hunain a'n pobl ifanc. Felly, rwyf am ddweud ein bod yn dal i wneud pethau gwirioneddol wych yma yng Nghymru er gwaethaf y caledi. Mae'r coleg hwn wedi bod yn gweithio'n galed iawn i wneud y gorau o'i incwm o ffynonellau anllywodraethol, drwy gyflogwyr a dysgwyr lleol, er enghraifft. Yn wir, o ran y cyflogwyr bach y cyfeiriodd llawer o'r Aelodau atynt, maent yn rhedeg cynllun rhannu prentisiaeth llwyddiannus iawn, sy'n caniatáu i gyflogwyr bach fanteisio ar brentisiaethau mewn amgylchiadau lle na fyddent yn gwneud hynny fel arall o bosibl.

Felly, rwyf am dawelu meddwl nifer o'r Aelodau a grybwyllodd hyn—Aled Roberts a Lindsay Whittle, er enghraifft, ymhlith eraill—ein bod wedi ymdrechu i ddiogelu dysgwyr gymaint ag y bo modd. Yn wir, weithiau mae Aelodau'n drysu rhwng addysg barhaus, addysg amser llawn, ar gyfer ein pobl ifanc 16 i 19 oed ac addysg i oedolion—yn yr ystyr eich bod mewn gwaith a'ch bod yn cael addysg sy'n seiliedig ar sgiliau. Rydym wedi diogelu'r ddarpariaeth ar gyfer rhai 16 i 19 oed ac rydym yn falch iawn o hyn; nid mater bach oedd gwneud hynny. Ond canlyniad hynny yw mai'r hyn sydd wedi'i daro galetaf yw addysg bellach ran-amser. Rwy'n derbyn hynny. Nid ydym yn cuddio rhag y penderfyniad hwnnw; roedd yn benderfyniad anodd i'w wneud. Ac mae'r sector yn edrych ar ostyngiad o 50 y cant yn ei gyllid. Ond rwyf am bwysleisio ein bod hefyd wedi diogelu ein dysgwyr mwyaf agored i niwed. Felly, mae addysg sylfaenol i oedolion wedi cael ei diogelu, mae Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill wedi cael ei ddiogelu, ac mae darpariaeth ar wahân ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol neu ddwys hefyd wedi cael ei ddiogelu. Felly, nid ydym wedi cuddio'r ffaith ein bod, mewn sefyllfa anodd iawn, wedi dewis blaenoriaethau, ar ôl llawer o ystyriaeth, ac rydym wedi dewis diogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Rwy'n falch iawn ein bod wedi gwneud hynny a'r llwybr a ddewiswyd ar gyfer gwneud hynny.

Felly, yn y cyfnod anodd hwn, rydym yn awr yn symud ein ffocws i'r modd y defnyddiwn ein hadnoddau yn hytrach na'r hyn sydd gennym. Fel Gweinidogion, ni allwn fforddio gwneud dim ond cwyno'n gyson am y ffaith nad oes gennym ddigon o adnoddau; mae'n rhaid i ni frwr ymlaen â'r gwaith a gwneud y gorau y gallwn ei wneud gyda'r hyn sydd gennym. Felly, rydym wedi newid ein ffordd o feddwl ac wedi mabwysiadu dull mwy cadarnhaol o wneud pethau. Rydym wedi cyflawni llawer y gall Cymru fod yn falch ohono, fel rwyf eisoes wedi sôn, ac rydym yn parhau i wneud hynny. Cyflawnwyd un o'r rhaglenni prentisiaeth mwyaf uchelgeisiol yn Ewrop, gyda thros 27,000 o brentisiaethau, yn sgil setliad cyllidebol Plaid Cymru. Rydym yn parhau i ariannu prentisiaethau ar gyfer rhai rhwng 16 a 24 oed a phrentisiaethau lefel uwch. Mae gennym gyfraddau cwblhau heb eu hail, fel rydym eisoes wedi sôn, ac rydym yn rhagweld cymeradwyaethau i gyllid ESF cyn bo hir a fydd yn cefnogi'r rhaglen brentisiaeth yn y dyfodol.

We also fought hard in the recent budget settlement to mitigate the effects of some of these cuts, and we secured an additional £5 million-worth of funding for more apprenticeships in 2015-16 and 2016-17. Obviously, of course, the Liberal Democrats in the budget also assisted us with moneys for apprenticeships in the care sector, amongst others. We've maintained funding for our traineeships and, again, the issue with talking about apprenticeships and comparing it with the UK is that we're not comparing apples with apples.

Hefyd, fe ymladdon ni'n galed yn y setliad cyllidebol diweddar i liniaru effeithiau rhai o'r toriadau hyn, ac rydym wedi sicrhau £5 miliwn ychwanegol ar gyfer rhagor o brentisiaethau yn 2015-16 a 2016-17. Yn amlwg, wrth gwrs, cawsom ein cynorthwyo gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn y gyllideb hefyd gydag arian ar gyfer prentisiaethau yn y sector gofal, ymhlith eraill. Rydym wedi cynnal cyllid ar gyfer ein hyfforddeiaethau ac unwaith eto, y broblem gyda sôn am brentisiaethau a'u cymharu â'r DU yw nad ydym yn cymharu tebyg at ei debyg.

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm being very generous, but I won't let you go beyond 10 minutes.

Rwy'n bod yn hael iawn, ond ni adawaf i chi fynd dros 10 munud.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:08 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay, there's one last point I wanted to make here. So, we've protected traineeships, which are a route into work for those most vulnerable people whom we've all mentioned. I just want to finish by saying that we have worked really hard, together with the colleges, through a Welsh Government-convened working group, to mitigate the impact of these cuts. We have great examples of how we're continuing to do that. There are many colleges that have been very entrepreneurial in their efforts to mitigate the impact of the cuts; others need to follow their example. Together with our investment in skills programme, we can get our employers and our learners to step up to the plate and make sure that we have a sustainable skills system for Wales.

Iawn, mae un pwynt olaf rwyf am ei wneud yma. Felly, rydym wedi eu diogelu hyfforddeiaethau, sy'n llwybr i waith i'r bobl fwyaf agored i niwed a grybwyllwyd gan bawb ohonom. Rwyf am orffen drwy ddweud ein bod wedi gweithio'n galed iawn, gyda'r colegau, drwy weithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, i liniaru effaith y toriadau hyn. Mae gennym enghreifftiau gwych o sut rydym yn parhau i wneud hynny. Mae llawer o golegau wedi bod yn entrepreneuriaidd iawn yn eu hymdrechion i liniaru effaith y toriadau; Mae angen i bobl eraill ddilyn eu hesiampl. Ynghyd â'n buddsoddiad mewn rhaglen sgiliau, gallwn gael ein cyflogwyr a'n dysgwyr i ymateb i'r alwad a gwneud yn siŵr fod gennym system sgiliau gynaliadwy ar gyfer Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddadl.

I call Simon Thomas to respond to the debate.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:08 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n credu, yn y pen draw, inni gael dadl werth chweil, achos roedd yn gyfle i bobl leisio barn ynglŷn ag effaith y toriadau hyn ar eu colegau lleol, a hefyd leisio barn ynglŷn â'r cyswllt rhwng datblygu sgiliau yn ein cymunedau a'r economi, ond hefyd datblygu sgiliau er lles yr unigolyn hefyd. Rwyf eisiau cefnogi llawer o'r hyn a gafodd ei ddweud yn ystod y ddadl.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I think that, ultimately, we had a worthwhile debate, because it was an opportunity for people to express their views about the impact of these cuts on their local colleges, and also about the link between the development of skills in our communities and the economy, but also the development of skills for the benefit of the individual. I want to support much of what was said during the debate.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Hoffwn ddechrau cloi'r ddadl drwy gyfeirio'n uniongyrchol at y Dirprwy Weinidog, a atebodd ar ran y Llywodraeth. Rwy'n falch bod y Llywodraeth wedi derbyn y cynnig a'r ffeithiau sydd y tu ôl i'r cynnig ynglŷn â maint y toriadau hyn a'u heffaith. Nid wyf yn amau am eiliad nad yw'r Dirprwy Weinidog yn ddiffuant yn yr hyn y mae wedi'i ddweud wrth y Cynulliad heddiw, ond mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud o ran maint y toriadau hyn sydd, yn fy marn i, yn tanseilio'r hyn roedd hi'n ei ddweud wrth ymateb i'r ddadl. Er enghraifft, er fy mod i yn ymuno â hi i longyfarch pawb sydd wedi llwyddo yn y gystadleuaeth sgiliau byd-eang ac yn llongyfarch pawb hefyd sydd wedi cwblhau yn llwyddiannus eu prentisiaethau neu eu hyfforddiant yn y gweithle, os nad ydym yn gallu gwyrddroi'r toriadau hyn yn fuan, byddwn yn gweld gwanychu sylweddol yn y meysydd hyn, a byddwn yn colli'r lle sydd gennym ni bellach yng Nghymru.

I would like to begin closing the debate by referring directly to the Deputy Minister, who responded on behalf of the Government. I am pleased that the Government has accepted the motion and the facts underpinning the motion in terms of the scale of these cuts and their impact. I don't doubt for a moment that the Deputy Minister is sincere in what she has said to the Assembly today, but decisions have been made in respect of the scale of these cuts that, in my view, undermine what she had to say in responding to the debate. For example, while I join with her in congratulating everyone who has been successful in the WorldSkills competition and congratulate everyone who has successfully completed their apprenticeships or workplace training, if we cannot reverse these cuts soon, we will see a significant weakening in these areas, and we will lose out in Wales as a result of that.

Mae'r sefyllfa bresennol yn ffrwyth buddsoddiad yn y sector yma dros nifer o flynyddoedd, gyda chefnogaeth o leiaf ddwy o'r pleidiau yn y fan hon, mae'n rhaid dweud. Ac mae'r penderfyniad presennol i dorri mor sylweddol yn y sector yma yn un tymor byr iawn, yn fy marn i, a fydd yn andwyo'r sector.

Felly, ym mha ffordd allwn ni fod yn fwy positif? Yn gyntaf oll, hoffwn i weld buddsoddi yn y sector yma yn cael ei weld yn llawer mwy fel buddsoddiad, yn hytrach na rhywbeth sydd yn ychwanegiad at addysg statudol. Rwyf o'r farn y dylem bellach drafod gadael ysgol fel rhywbeth sydd yn digwydd yn 18 oed, i bob pwrpas, gyda phob un person ifanc yng Nghymru naill ai dan hyfforddiant neu mewn addysg neu yn cael rhyw fath o gefnogaeth yn y gweithle tan yn 18 oed.

Roedd yn ddiddorol iawn gwranddo ar Jeff Cuthbert yn dweud y dylem drafod amddiffyn yr oedran yma yn y sector colegau addysg bellach hefyd, yn yr un ffordd ag y mae'r ysgolion wedi cael eu hamddiffyn gan y Llywodraeth. Yn sicr, o safbwynt y dynesiad sydd gennym ni ym Mhlaid Cymru, byddem yn cefnogi hynny.

Yr hyn sy'n allweddol i hyn, wrth gwrs, yw dadlau yn well dros setliad fwy teg ynglŷn â Barnett o San Steffan, achos yr hyn sydd yn dal Cymru'n ôl yw'r ffaith nad oes llawr Barnett wedi bod yna am y pum mlynedd diwethaf, beth bynnag yw'r closio sydd wedi digwydd yn awr, a'r ffaith nad oes yr un o'r prif bleidiau sy'n debyg o ddewis y Prif Weinidog y tro nesaf am gywiro Barnett o blaid Cymru.

Yr ail ran, i fod yn fwy positif, yw gweld llawer mwy o gydraddoldeb rhwng y dewisiadau galwedigaethol a'r dewisiadau academiaidd. Eto, er fy mod i'n derbyn llawer o'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog, yn arbennig yr hyn a ddywedodd hi a Jeff Cuthbert ynglŷn â phrentisiaethau a phrentisiaethau sgiliau uwch yn arbennig, nid yw hynny cystal â'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud mewn myfyrwyr sy'n dewis astudio mewn prifysgolion. Mewn sefyllfa o grebachu, lle mae cyfyngu ar y gyllideb addysg, mae'n rhaid gofyn a ydym yn defnyddio'r arian yn y ffordd fwyaf priodol. Mae pob un o'r pleidiau sydd yn debyg o fod mewn Llywodraeth, yng Nghymru beth bynnag, yn gytûn am gadw'r sefyllfa bresennol tan 2016. Y cwestiwn sy'n dilyn yn sgil hynny yw: ym mha ffordd y dylem ni gadw'r ddysgl yn wastad rhwng dewisiadau galwedigaethol a chefnogaeth i fyfyrwyr, ac ym mha ffordd y dylem ni ddefnyddio'r bunt Gymreig i fuddsoddi yn ein pobl ifanc, ond buddsoddi yn ein sefydliadau ni hefyd? Mae hwnnw'n fater sydd angen ailedrych arno.

Y peth olaf yn bositif yw prentisiaethau. Rwy'n cytuno ein bod ni'n fwy llwyddiannus yma yng Nghymru ynglŷn â chyflawni prentisiaethau, fel y dywedodd Jeff Cuthbert, ond byddwn hefyd yn defnyddio geiriau Jeff i'n hatgoffa ni ein bod wedi llithro yn ôl o ran y buddsoddiad o dros £40 miliwn a oedd gennym ni yn y cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru mewn prentisiaethau. A dweud y gwir, rydym eisieu gweld hynny yn dod yn ôl mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn ystod y Cynulliad nesaf.

Mae nifer o Aelodau wedi defnyddio—

The current situation is the result of investment in this sector over a number of years, with the support of at least two of the parties here, I must say. And the current decision to cut so substantially in this sector is very short-termist, in my view, and will be detrimental to the sector.

So, how can we be more positive? First of all, I would like to see investment in this sector being seen much more as investment, rather than as something that is an addition to statutory education. I am of the view that we should now discuss leaving school as something that occurs at the age of 18, to all intents and purposes, and that every young person in Wales should be either in training or in education or receive some kind of support in the workplace until they are 18.

It was very interesting to listen to Jeff Cuthbert saying that we should discuss the protection of this age group in the FE college sector also, in the same way that schools have been protected by Government. Certainly, from the perspective of the approach that we have in Plaid Cymru, we would support that.

The key to this, of course, is to argue more strongly for a fairer settlement through Barnett from Westminster, because what holds Wales back is the fact that there has been no Barnett floor in place for the last five years, whatever has occurred now, and the fact that none of the main parties likely to choose the next Prime Minister will revise Barnett for the benefit of Wales.

The second thing, to be more positive, is to see much more equality between vocational and academic choices. Again, while I accept much of what was said by the Deputy Minister, and particularly what she and Jeff Cuthbert said about apprenticeships and higher-level apprenticeship in particular, that is not the same as the investment being made in students who choose to study in universities. In a situation of cuts, where there are limits on the education budget, we must ask whether we are using the money in the most appropriate way. Each of the parties likely to be in Government, in Wales at least, agree that the status quo should be retained until 2016. The question that follows from that is: how should we strike a balance between vocational options and support for students, and how can we use the Welsh pound to invest in our young people, but to invest in our institutions as well? That is an issue that needs to be revisited.

The final positive issue is apprenticeships. I agree that we're more successful here in Wales on delivering apprenticeships, as Jeff Cuthbert said, but I would also use Jeff's words to remind everyone that we have actually slipped in terms of the investment of more than £40 million that we had in the agreement between Plaid Cymru and the Welsh Government on apprenticeships. If truth be told, we want to see that reinstated in one way or another in the next Assembly.

A number of Members have—

17:13 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Just to clarify, the additional £10 million for each of the two years—£20 million in total—was a one-off; it wasn't at any point said to be a continuing figure.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I egluro, taliad untro oedd y £10 miliwn ychwanegol ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd—£20 miliwn i gyd; ni ddywedwyd ar unrhyw adeg ei fod yn ffigur sy'n parhau.

17:13 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I accept that, Jeff, what I was saying was that that should be the way forward. We need to see more investment in apprenticeships in Wales, and Plaid Cymru has put forward a proposal for a £70 million three-year apprenticeship project to raise those skills in the workforce.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n derbyn hynny, Jeff, yr hyn roeddwn yn ei ddweud oedd y dylai honno fod yn ffordd ymlaen. Mae angen i ni weld mwy o fuddsoddi mewn prentisiaethau yng Nghymru, ac mae Plaid Cymru wedi cyflwyno cynnig ar gyfer prosiect prentisiaethau tair blynedd gwerth £70 miliwn i wella'r sgiliau hynny yn y gweithlu.

Mae Aelodau eraill, Ddirprwy Lywydd, wedi cyfeirio'n benodol, er enghraifft, at golegau yn eu hardaloedd nhw. Nid oes gen i amser i fynd drwy bopeth, ond mae cwpwl o bethau rwyf eisiau eu crybwyll. Un yw'r ffaith bod llythrennedd yn is ymysg pobl hŷn, fel y dywedodd Aled Roberts, ac rydym yn gweld bod y gwariant ar bobl dros 50 yn y sector yma yn ddim ond 86 y cant y pen. Mae'r pwytyn ynglŷn â chysylltiad y sector yma gyda Cymunedau yn Gyntaf, fel y dywedodd Bethan Jenkins, yn un pwysig. Er y cafwyd ateb o fath gan y Dirprwy Weinidog, rwy'n meddwl bod angen gweld mwy o gydlyniant yn y fan yna gan y Llywodraeth. Rydym hefyd yn gweld bod angen dyesu at yr holl sefyllfa yma mewn ffordd llawer callach. Roedd geiriau Alun Ffred yn bwysig yn y fan hon, pan soniodd am yr 'ups and downs', os leciwch chi, o fuddsoddi, a phwy oedd yn cael eu ffafrio o bryd i'w gilydd. Mae'r ffaith bod Glynllifon wedi llwyddo ac yn dadlau dros ei hachos yn rhywbeth, rwy'n credu, sy'n enghraifft i ni i gyd. Mae'r sector yma'n dioddef oherwydd toriadau. Rydym yn gwybod o ble mae'r toriadau'n dod, ond a allwn ddod i gytundeb bod yn rhaid trin y sector yma'n gyfartal ag ysgolion ac yn gyfartal â dewisiadau academiaidd prifysgolion? Os gwnawn ni hynny, byddwn yn gwneud y byd o les i'r rhan fwyaf o'n pobl ifanc ni dros 16 sy'n dewis aros yng Nghymru ac yn dewis y llwybr addysg bellach.

Other Members, Deputy Presiding Officer, have referred specifically to colleges in their own areas, for example. I don't have time to go through everything, but there are a couple of things that I want to mention. One is the fact that literacy is lower among older people, as Aled Roberts said, and we see that expenditure on people over 50 in this sector is only 86 per cent per capita. The point about the sector's links with Communities First, as Bethan Jenkins said, is an important one. Although there was a response of sorts from the Deputy Minister, I think we need to see greater cohesion there from Government. We also see the need to approach the whole situation with greater wisdom. Alun Ffred's words were important here; he mentioned about the 'ups and downs', if you like, in investment, and who was favoured one year and not the next. The fact that Glynllifon has succeeded in making its case and winning that case is, I think, an example to us all. This sector is suffering as a result of cuts. We know where those cuts are coming from, but can we come to an agreement that we need to treat this sector in an equal way with schools and the academic choice of universities? If we do that, we will benefit most of our young people over 16 who choose to stay in Wales and choose FE as their route.

17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio? A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

17:15 **7. Cyfnod Pleidleisio**

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so, we will vote first on the debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call for a vote on the motion tabled in the names of Bethan Jenkins, William Graham, Lynne Neagle and William Powell. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 30. There were no votes against. There were 16 abstentions. Therefore, the motion is approved.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 30, Yn erbyn 0, Ymatal 16.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5715.](#)

7. Voting Time

Mae amser pleidleisio yn awr yn dilyn. Cyn i mi barhau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes, felly byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar y ddatl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enwau Bethan Jenkins, William Graham, Lynne Neagle a William Powell. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 30 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Roedd 16 yn ymatal. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

Motion agreed: For 30, Against 0, Abstain 16.

[Result of the vote on motion NDM5715.](#)

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We will now vote on the Welsh Conservatives' debate on the economy. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 37. Therefore, the motion without amendment is not agreed and we will now vote on the amendments.

Pleidleisiwn yn awr ar ddafl y Ceidwadwyr Cymreig ar yr economi. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 37 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 9, Against 37, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5742.](#)

[Result of the vote on motion NDM5742.](#)

17:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 32. There voted against 14. Therefore, amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 32 o blaid. Pleidleisiodd 14 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 1 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 32, Yn erbyn 14, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 32, Against 14, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5742.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5742.](#)

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 32. There voted against 14. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 32 o blaid. Pleidleisiodd 14 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 32, Yn erbyn 14, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 32, Against 14, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5742.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5742.](#)

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 3 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23. There voted against 23. As required by Standing Order 6.20, I exercise my casting vote against the amendment, which consequently falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid. Pleidleisiodd 23 yn erbyn. Fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 6.20, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant, sydd felly'n cael ei wrthod.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 23, Against 23, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5742.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5742.](#)

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5. There voted against 32. There were 9 abstentions. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 32, Ymatal 9.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid. Pleidleisiodd 32 yn erbyn. Roedd 9 yn ymatal. Felly, nid yw gwelliant 4 wedi'i dderbyn.

Amendment not agreed: For 5, Against 32, Abstain 9.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5742.](#) [Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5742.](#)

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 5 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5. There voted against 41. Therefore, amendment 5 is not agreed.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 41, Ymatal 0.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid. Pleidleisiodd 41 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 5 wedi'i dderbyn.

Amendment not agreed: For 5, Against 41, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5742.](#) [Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5742.](#)

Cynnig NDM5742 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5742 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod bod rhaglen galedi Llywodraeth y DU wedi methu yn erbyn ei thelerau ei hun ac yn gresynu at effeithiau economaidd a chymdeithasol y toriad diangen o 10% yng nghyllideb Cymru ers 2010;

1. Acknowledges that the UK Government's austerity programme has failed by its own terms and regrets the economic and social impacts of the unnecessary 10% cut to the Welsh budget since 2010;

2. Yn croesawu cyfleoedd gwaith newydd ond yn gresynu at y ffaith bod 17,000 o'r swyddi newydd a grëwyd yng Nghymru ers 2010 wedi bod yn rhan-amser.

2. Welcomes new employment opportunities but regrets that 17,000 of the new jobs created in Wales since 2010 have been part-time; and

3. Yn cydnabod mai sector preifat ffyniannus yw'r sylfaen ar gyfer cynnal ein gwasanaethau cyhoeddus.

3. Recognises that a thriving private sector is the foundation for sustaining our public services.

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 32. There voted against 14. Therefore, the motion as amended is agreed.

Derbyniwyd cynnig NDM5742 fel y'i diwygiwyd: O blaid 32, Yn erbyn 14, Ymatal 0.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 32 o blaid. Pleidleisiodd 14 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.

Motion NDM5742 as amended agreed: For 32, Against 14, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5742 fel y'i diwygiwyd.](#) [Result of the vote motion NDM5742 as amended.](#)

17:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We will now vote on the Plaid Cymru debate on post-16 education. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 37. There voted against 9. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y ddatl Plaid Cymru ar addysg ôl-16. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 37 o blaid. Pleidleisiodd 9 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM3741.](#)

[Result of the vote on motion NDM3741.](#)

17:19

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly? Quickly please.

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda? Yn gyflym os gwelwch yn dda.

17:20

8. Dadl Fer: Gofal Iechyd yng Nghanolbarth Cymru

8. Short Debate: Healthcare in Mid Y Wales

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is the short debate, and I call on Russell George to speak on the topic he has chosen.

Eitem 8 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Russell George i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

17:20

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am grateful for the opportunity to introduce this short debate on healthcare in rural mid Wales. Over the last few weeks, whilst campaigning alongside my friend and colleague Glyn Davies in Montgomeryshire, healthcare has been, by far, the most frequent and important policy area that has been raised by my constituents. This is no surprise to me, as this issue has dominated my own postbag as an Assembly Member over the past four years. The overriding message that I have received from residents on the doorstep is that there is great pride in our NHS and its staff, and a grateful recognition of the way in which Glyn Davies has been an advocate for healthcare in mid Wales during his time as MP and in previous years to that.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno'r ddadl fer hon ar ofal iechyd yng nghefn gwlad canolbarth Cymru. Dros yr wythnosau diwethaf, wrth ymgyrchu ochr yn ochr â fy ffrind a fy nghydweithiwr, Glyn Davies, yn Sir Drefaldwyn, gofal iechyd yw'r maes polisi mwyaf cyffredin a mwyaf pwysig a godwyd gan fy etholwyr. Nid yw hyn yn syndod i mi, gan mai dyma'r mater a grybwyllwyd amlaf yn fy mag post fy hun fel Aelod Cynulliad dros y pedair blynedd diwethaf. Y neges bwysicaf a gefais gan drigolion ar garreg y drws yw bod balchder mawr yn ein GIG a'i staff, a chydnabyddiaeth ddiolchgar o'r ffordd y mae Glyn Davies wedi bod yn dadlau dros ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru yn ystod ei gyfnod fel Aelod Seneddol ac yn y blynyddoedd cyn hynny.

There is, however, great frustration from my constituents that they don't receive an adequate service of healthcare. Not only is the delivery of healthcare a concern, but the recent closure of the Institute of Rural Health in Newtown is regrettable. The institute was a hugely valuable discussion forum for rural healthcare issues, and it's disappointing that the institute was unsuccessful in securing a new grant for research. It's a big loss to rural healthcare, and I would be grateful for the Minister's view on how the closure of the institute can be mitigated, as it's clear that, without this provision, there will be a gap in ensuring that organisations adequately consider the needs of rural communities when developing healthcare services.

Fodd bynnag, mae yna gryn rwystredigaeth ymhlith fy etholwyr nad ydynt yn cael gwasanaethau gofal iechyd digonol. Mae'r ddarpariaeth gofal iechyd yn peri pryder, ond hefyd mae cau'r Sefydliad Iechyd Gwledig yn y Drenewydd yn ddiweddar yn destun gofid. Roedd y sefydliad yn fforwm trafod hynod o werthfawr ar gyfer materion gofal iechyd gwledig, ac mae'n siomedig bod y sefydliad wedi methu sicrhau grant newydd ar gyfer ymchwil. Mae'n golled fawr i ofal iechyd gwledig, a byddwn yn ddiolchgar am farn y Gweinidog ynglŷn â sut y gellid lliniaru effeithiau cau'r sefydliad, gan y bydd bwlch amlwg yn sgil colli'r ddarpariaeth hon o ran sicrhau bod sefydliadau yn ystyried anghenion cymunedau gwledig yn ddigonol wrth ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd.

Now, turning to the delivery of healthcare in mid Wales, there is a significant concern in all parts of my constituency that access to healthcare—. Services are moving further away from communities as services are centralised to populated areas. That means, of course, that my constituents have to travel huge distances to access healthcare and, even, in some cases, the time they have to travel could be the difference between life and death. These geographical challenges that mid Wales patients face in accessing NHS services within a reasonable time frame are significant indeed.

Nawr, gan droi at ddarparu gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru, mae pryder sylweddol ym mhob rhan o fy etholaeth fod mynediad at ofal iechyd—. Mae gwasanaethau'n cael eu symud ymhellach oddi wrth gymunedau wrth iddynt gael eu canoli mewn ardaloedd poblog. Mae hynny'n golygu, wrth gwrs, fod yn rhaid i fy etholwyr deithio pellteroedd mawr i gael mynediad at ofal iechyd ac mewn rhai achosion, gallai'r amser sy'n rhaid iddynt ei dreulio'n teithio olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw hyd yn oed. Mae'r heriau daearyddol hyn sy'n wynebu cleifion canolbarth Cymru wrth iddynt geisio defnyddio gwasanaethau GIG o fewn ffrâm amser rhesymol yn wirioneddol sylweddol.

I believe in the commonsense approach: that NHS services should be delivered as close to home as possible to the patients, to give them confidence that the NHS is there for them in their time of need. This is why I've constantly called for an urgent care centre in Montgomeryshire to be established, and why I support calls for a 24-hour minor injuries unit in Newtown to relieve the pressure on accident and emergency departments in Shrewsbury, Wrexham and Aberystwyth. Now, I use Newtown as an important example, because it's the largest town not only in my constituency, but also in the entirety of Powys. We don't have a district general hospital in Powys and I understand why, but you would have thought there would at least be a 24-hour minor injuries unit in the county's largest town. But that's not the case.

I was pleased with the Minister's response earlier today. I actually wrote to Powys health board recently and got a reply about 10 days ago from them. Now, their reply to me when I raised the issue of a minor injuries unit in Newtown was that it wasn't likely to happen at all, and it was quite a negative response in that regard. But I have to say that I like the Minister's answers much better. He responded in a different way today, and, from what I can remember of his response, said that there would be consultation on minor injuries units in Newtown and Welshpool later in the year. So, I will share the Powys teaching health board's response to me with the Minister and, again, I think his response was much more helpful. But, of course, it's important that a 24-hour, seven-day-a-week minor injuries unit is established in the county's largest town.

Now, with regard to ambulance provision, there are also concerns regarding ambulance response times and geographical cover. I've raised this issue consistently with the Welsh Ambulance Services NHS Trust since becoming a Member of this Assembly. Indeed, at present, due to our concerns about the future of the ambulance stations in a number of towns in Montgomeryshire, I have recently written to the interim chief executive of the trust regarding the proposed reduction of services. I would like to seek assurances from the Minister that there will be no reduction in cover from key towns in Montgomeryshire. If we are not to have a district general hospital, for which I understand the reasons why, then of course there must at least be appropriate cover with regard to the ambulance service.

Now, the Welsh Government's commitment to the new flying doctors unit, which is based out of Welshpool, is invaluable in saving lives and serving the needs of rural mid Wales and should be very much welcomed, but it shouldn't, of course, be a substitute for a comprehensive ambulance cover on the ground as well, for various reasons.

Rwy'n credu yn y dull synnwyr cyffredin o weithredu: y dylid darparu gwasanaethau GIG mor agos i gartrefi cleifion â phosibl, er mwyn rhoi hyder iddynt fod y GIG yn ar eu cyfer pan fyddant ei angen. Dyna pam rwyf wedi galw'n gyson am sefydlu canolfan gofal brys yn Sir Drefaldwyn, a pham rwy'n cefnogi galwadau am uned mân anafiadau 24 awr yn y Drenewydd i leddfur'wysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys yn yr Amwythig, Wrecsam ac Aberystwyth. Nawr, rwy'n defnyddio'r Drenewydd fel enghraifft bwysig, am mai dyna'r dref fwyaf, nid yn unig yn fy etholaeth, ond ym Mhowys gyfan. Nid oes gennym ysbty cyffredinol dosbarth ym Mhowys ac rwy'n deall pam, ond fe fyddech wedi meddwl y byddai gan dref fwyaf y sir uned mân anafiadau 24 awr. Ond nid yw hynny'n wir.

Roeddwn yn falch o glywed ymateb y Gweinidog yn gynharach heddiw. Ysgrifennais at fwrdd iechyd Powys yn ddiweddar a chael ateb ganddynt tua 10 diwrnod yn ôl. Nawr, yr ateb a gefais ganddynt pan grybwyllais uned mân anafiadau yn Y Drenewydd oedd nad oedd yn debygol o ddigwydd o gwbl, ac roedd yn ymateb pur negyddol yn hynny o beth. Ond rhaid i mi ddweud fy mod yn hoffi atebion y Gweinidog yn llawer gwell. Ymatebodd mewn ffordd wahanol heddiw, ac o'r hyn y gallaf ei gofio am ei ymateb, dywedodd y byddai ymgynghoriad ar unedau mân anafiadau yn y Drenewydd a'r Trallwng yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Felly, byddaf yn rhannu'r ymateb a gefais gan fwrdd iechyd addysgu Powys gyda'r Gweinidog ac unwaith eto, rwy'n meddwl bod ei ymateb yn llawer mwy defnyddiol. Ond wrth gwrs, mae'n bwysig bod uned mân anafiadau 24 awr, saith diwrnod yr wythnos yn cael ei sefydlu yn nhref fwyaf y sir.

Nawr, o ran darpariaeth ambiwlans, mae yna hefyd bryderon ynghylch amseroedd ymateb ambiwlansys a chwmpas daearyddol y ddarpariaeth. Rwyf wedi dwyn y mater i sylw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn gyson ers dod yn Aelod o'r Cynulliad hwn. Yn wir, ar hyn o bryd, oherwydd ein pryderon am ddyfodol y gorsafoedd ambiwlans mewn nifer o drefi yn Sir Drefaldwyn, yn ddiweddar fe ysgrifennais at brif weithredwr dros dro yr ymddiriedolaeth ynghylch y lleihad arfaethedig yn y gwasanaethau. Hoffwn ofyn am sicrwydd gan y Gweinidog na fydd unrhyw leihad yn y gwasanaeth o drefi allweddol yn Sir Drefaldwyn. Os nad ydym i gael ysbty cyffredinol dosbarth, ac rwy'n deall y rhesymau pam, yna mae'n rhaid cael darpariaeth briodol mewn perthynas â'r gwasanaeth ambiwlans o leiaf.

Nawr, mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r uned meddygon awyr newydd o'r Trallwng yn amhrisiadwy ar gyfer achub bywydau a diwallu anghenion cefn gwlad canolbarth Cymru, a dylid ei groesawu'n fawr iawn, ond ni ddylai fodoli yn lle darpariaeth ambiwlans gynhwysfawr ar y ddaear hefyd wrth gwrs, am amryw o resymau.

Health services in Shropshire are currently under review, and it is likely that an emergency centre for the treatment of serious injuries will be created and supported by anywhere between four and seven urgent care centres in Shropshire. None of those will be in Montgomeryshire, as it currently stands. Again, the Minister said in his earlier response—and I appreciate that he understood the consultation going on, and he understands the implications for my constituents, and I was grateful for that. However, my long-held view is that Powys Teaching Local Health Board needs to react quickly to the changes that are occurring in Shropshire to provide an urgent care centre somewhere in mid Wales—in one of Montgomeryshire's largest towns or a new site. If this is to occur, the health board needs to be properly financed, of course, by the Welsh Government to allow them to do that. But as the debate in Shropshire is now under way, it's time that those options are now given serious consideration so that the people of Montgomeryshire are not disadvantaged.

I know that there's a great degree of cross-party support in the Assembly, so I welcome the Minister's views on how this proposal for an urgent care centre in Montgomeryshire can be taken forward.

I should say that despite an excellent collaboration between parties on this issue here in the Assembly, the use of the NHS as a political football by some political parties in Montgomeryshire during the current election campaign has been disappointing. Now, it's not normally my style to be partisan or to make party political points, but there are some issues that need to be highlighted. Last week, my home received a letter from, it appeared, a Mrs Sheena Atkinson, a retired retailer. It went on—and there were no party logos on this letter at all—to say that she was very worried about the Conservatives' plans for the Welsh NHS. Of course, it didn't mention at all the fact that the Welsh Conservatives have continuously called for the health service to be protected in Wales. Now, this letter is seeking, I believe, to exploit people's lack of knowledge about devolution. Of course, when you carefully inspect it with a magnifying glass, you can see that, at the very bottom, it says that it's been promoted by T. Gordon of the Liberal Democrats at George Street, London. Now, I think that to stoop to these depths is really the worst kind of negative campaigning that I have seen, and shouldn't be part of a mature debate when talking about the NHS in Wales. I have allowed William Powell one minute to contribute to this debate, and if possible perhaps he'll be able to respond on behalf of T. Gordon of—can you read it very carefully, Suzy?—George Street, London. That's it. So, I do believe, as well, that the people of Montgomeryshire—I'll give them more credit—won't believe the scaremongering from this particular party.

I should say as well that, today, Jeremy Hunt, the UK health secretary was in Montgomeryshire, in Newtown, speaking to a number of my constituents—a small group of activists campaigning locally—and they would also be very keen to meet the Minister here. So, perhaps after the general election that small group of people could also meet with you as well, Minister.

Mae gwasanaethau iechyd yn Swydd Amwythig dan adolygiad ar hyn o bryd, ac mae'n debygol y bydd canolfan argyfwng ar gyfer trin anafiadau difrifol yn cael ei chreu a'i chefnogi gan rywle rhwng pedair a saith canolfan gofal brys yn Swydd Amwythig. Ni fydd yr un o'r rheini yn Sir Drefaldwyn, fel y mae pethau ar hyn o bryd. Unwaith eto, dywedodd y Gweinidog yn ei ymateb cynharach—ac rwy'n derbyn ei fod wedi deall yr ymgynghoriad sydd ar y gweill, ac yn deall y goblygiadau i fy etholwyr, ac roeddwn yn ddiolchgar am hynny. Fodd bynnag, fy marn hirsefydlog yw bod angen i Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys ymateb yn gyflym i'r newidiadau sy'n digwydd yn Swydd Amwythig i ddarparu canolfan gofal brys rywle yng nghanolbarth Cymru—yn un o drefi mwyaf Sir Drefaldwyn neu ar safle newydd. Os yw hyn yn mynd i ddigwydd, mae angen i'r bwrdd iechyd gael ei gyllido'n iawn gan Lywodraeth Cymru wrth gwrs i'w alluogi i wneud hynny. Ond gan fod y ddadl ar y gweill bellach yn Swydd Amwythig, mae'n bryd ystyried yr opsiynau hynny o ddirif bellach fel nad yw pobl Sir Drefaldwyn dan anfantais.

Gwn fod llawer iawn o gefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad, felly rwy'n croesawu barn y Gweinidog ar sut y gellid datblygu'r argymheliad i gael canolfan gofal brys yn Sir Drefaldwyn.

Er bod cydweithredu rhagorol rhwng pleidiau ar y mater yma yn y Cynulliad, dylwn ddweud bod y defnydd o'r GIG fel pêl-droed wleidyddol gan rai pleidiau gwleidyddol yn Sir Drefaldwyn yn ystod yr ymgyrch etholiadol bresennol wedi bod yn siomedig. Nawr, nid yw'n arfer gennyf fod yn bleidiol neu wneud pwyntiau gwleidyddol pleidiol, ond mae yna rai materion sydd angen eu hamlygu. Yr wythnos diwethaf, daeth llythyr i fy nghartref llythyr gan ryw Mrs Sheena Atkinson, mae'n ymddangos, siopwraig wedi ymddeol. Aeth ymlaen i ddweud—ac nid oedd unrhyw logos parti ar y llythyr o gwbl—ei bod yn bryderus iawn ynglŷn â chynlluniau'r Ceidwadwyr ar gyfer y GIG yng Nghymru. Wrth gwrs, nid oedd yn sôn gair am y ffaith fod y Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn galw'n barhaus am ddiogelu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Nawr, yn fy marn i, mae'r llythyr yn ceisio camfanteisio ar ddiffyg gwybodaeth pobl ynghylch datganoli. Wrth gwrs, pan edrychwch arno'n ofalus gyda chwyddwydr, gallwch weld ar y gwaelod un ei fod yn dweud mai'r hyrwyddwr yw T. Gordon ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol yn George Street, Llundain. Nawr, rwy'n meddwl bod disgyn i'r lefel hon yn enghraifft o'r math gwaethaf o ymgyrchu negyddol a welais, ac ni ddylai fod yn rhan o drafodaeth aeddfed wrth siarad am y GIG yng Nghymru. Rwyf wedi caniatáu i William Powell gael munud i gyfrannu at y ddadl hon, ac os yn bosibl, efallai y gall ymateb ar ran T. Gordon o—a allwch ei ddarllen yn ofalus iawn, Suzy?—George Street, Llundain. Dyna ni. Felly, rwy'n credu hefyd na fydd pobl Sir Drefaldwyn yn credu'r math hwn o godi bwganod gan y blaid benodol hon—mae gennyf fwy o feddwl ohonynt na hynny.

Dylwn ddweud hefyd fod Jeremy Hunt, ysgrifennydd iechyd y DU, yn Sir Drefaldwyn heddiw, yn y Drenwydd, yn siarad â nifer o fy etholwyr—grŵp bach o ymgyrchwyr sy'n ymgyrchu'n lleol—a byddent yn awyddus iawn hefyd i gwrdd â'r Gweinidog yma. Felly, ar ôl yr etholiad cyffredinol efallai y gallai'r grŵp bach hwnnw o bobl gyfarfod â chithau hefyd, Weinidog.

Now, I have to say—and to show that this isn't a party political broadcast on my behalf—I've actually been pleased with how the Minister here has responded. The Welsh Labour Government has become a lot more engaged in tackling the ongoing challenges of providing healthcare in rural mid Wales. Indeed, I was pleased to be able to attend the conference at Cefn Lea Park in Dolfor, just outside Newtown, in my constituency, which brought healthcare professionals together to look at the study undertaken by the Welsh Institute for Health and Social Care last year. Members will be aware that the study recommended that unnecessary journey times to access care should be eliminated to reflect travel difficulties in mid Wales and recognised the strategic importance of Bronglais district general hospital, especially for those in the west of my constituency. Now, I have to say, if Bronglais is going to adequately serve my constituents, and those in mid Wales in general, the serious issues relating to the ongoing cancellation of elective operations due to so-called winter pressures must be addressed immediately. I know the Minister has reinforced my concerns with the chair of Hywel Dda health board, but I am pleased that the Minister has acknowledged that there are issues there. I know one of my constituents has been waiting over 60 weeks and has been passed from pillar to post. I would like to see elective operations begin again at Bronglais at the earliest opportunity, so I welcome the Minister's commitment to looking into these issues. I look forward to receiving an update on behalf of my constituents.

Finally, I just want to just concentrate on the cross-border issues—I think the most disappointing aspect of the mid Wales healthcare study. Lots of positive issues were raised at the conference, but there was little reference to cross-border health issues, so my view is that we have to have been very careful that there is not a new boundary that's created through the middle of Powys, whereby the west of Montgomeryshire is served by Bronglais, but the east is served by the—or a line through the middle and is not served at all. I was particularly concerned that representatives from Shrewsbury and Telford health board trust weren't initially invited to the conference, despite the fact that changes to the provision in Shropshire are key considerations when considering healthcare. There was very little mention of cross-border healthcare at the conference.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, the provision of a world-class national health service is of paramount importance to me and my constituents. It's an issue that I feel very passionate about. However, there are significant challenges relating to the provision of healthcare in mid Wales, if this world-class health service is going to become a reality. I'm grateful for the opportunity to raise these issues on the floor of the Assembly this afternoon. I look forward to the Minister's views on how these challenges can be overcome in the interests of the residents across mid Wales.

Nawr, rhaid i mi ddweud—ac i ddangos nad darllediad plaid wleidyddol ar fy rhan yw hyn—rwyf wedi bod yn falch mewn gwirionedd o'r modd y mae'r Gweinidog yma wedi ymateb. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi dod i gymryd llawer mwy o ran yn ymladd yr heriau parhaus sy'n deillio o ddarparu gofal iechyd yng nghefn gwlad canolbarth Cymru. Yn wir, roeddwn yn falch o allu mynychu'r gynhadledd ym Mharc Cefn Lea, Dolfor, ger y Drenewydd, yn fy etholaeth i, a ddaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol at ei gilydd i edrych ar yr astudiaeth a gynhaliwyd gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru y llynedd. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod yr astudiaeth yn argymhell y dylid cael gwared ar amseroedd teithio diangen i gael gofal i adlewyrchu anawsterau teithio yng nghanolbarth Cymru ac roedd yn cydnabod pwysigrwydd strategol ysybytu cyffredinol dosbarth Bronglais yn enwedig, i rai yng ngorllewin fy etholaeth. Nawr, rhaid i mi ddweud, os yw Bronglais yn mynd i roi gwasanaeth digonol i fy etholwyr, a phobl canolbarth Cymru yn gyffredinol, rhaid mynd i'r afael ar unwaith â'r materion difrifol sy'n codi o ganslo llawdriniaethau dewisol yn barhaus o ganlyniad i'r hyn a elwir yn bwysau'r gaeaf. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi ategu fy mhryderon wrth gadeirydd bwrdd iechyd Hywel Dda, ond rwy'n falch fod y Gweinidog wedi cydnabod bod problemau'n bodoli. Gwn fod un o fy etholwyr wedi bod yn aros am fwy na 60 wythnos ac wedi cael ei basio o bared i bost. Hoffwn weld llawdriniaethau dewisol yn dechrau eto ym Mronglais ar y cyfle cyntaf, felly rwy'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i edrych ar y materion hyn. Edrychaf ymlaen at glywed y newyddion diweddaraf ar ran fy etholwyr.

Yn olaf, rwyf am ganolbwyntio ar y materion trawsffiniol—agwedd fwyaf siomedig yr astudiaeth o ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru yn fy marn i. Cyfeiriwyd at lawer o faterion cadarnhaol yn y gynhadledd, ond nid oedd llawer o gyfeiriad at faterion iechyd trawsffiniol, felly yn fy marn i, mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn na chaiff ffin newydd ei chreu drwy ganol Powys, lle y caiff yr ardal i'r gorllewin o Sir Drefaldwyn wasanaeth ym Mronglais, ond lle y bydd yr ardal i'r dwyrain yn cael gwasanaeth yn—neu linell drwy'r canol a chael dim gwasanaeth o gwbl. Roeddwn yn hynod o bryderus nad oedd cynrychiolwyr o ymddiriedolaeth bwrdd iechyd Amwythig a Telford wedi cael gwahoddiad i'r gynhadledd yn wreiddiol, er bod newidiadau i'r ddarpariaeth yn Swydd Amwythig yn ystyriaethau allweddol wrth ystyried gofal iechyd. Ychydig iawn o sôn a gafwyd am ofal iechyd trawsffiniol yn y gynhadledd.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, mae darparu gwasanaeth iechyd gwladol o safon fyd-eang yn hollbwysig i mi a fy etholwyr. Mae'n fater rwy'n teimlo'n angerddol iawn yn ei glych. Fodd bynnag, mae yna heriau sylweddol yn ymwneud â darparu gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru, os yw gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf yn mynd i gael ei wireddu. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i godi'r materion hyn ar lawr y Cynulliad y prynhawn yma. Edrychaf ymlaen at glywed barn y Gweinidog ar sut y gellir goresgyn yr heriau er budd trigolion ar draws canolbarth Cymru.

17:32

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I'm very grateful to Russell George for allocating a moment of his time for me in this very important debate. I would also echo the comments that Russell made in terms of the fact that there is much good news and much to celebrate about the health service in Montgomeryshire. I think particularly of the flying doctor initiative and the vital role of Welshpool airport. I think of the fact that Veronica Jarman is the Welsh nurse of the year and is absolutely central to the work of Llanidloes hospital, and that is to be celebrated. Finally, I joined the Minister, as indeed did Russell George, at the opening of the dialysis unit at Welshpool in August of 2013. Really good news, but it is absolutely clear that the population of north Powys is very, very exposed to changes in the English NHS and we need to insulate ourselves and we need to build the case for that urgent care centre, and not only does Russell George agree with that, but I agree with that and I am promoting that as well, and so does the delightful lady who I met, hopefully without giving her some cause for alarm, Mrs George of Llanidloes Road, Newtown. She is of that view and I think that's the unanimous view across these benches today.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Russell George am roi peth o'i amser i mi yn y ddaidl bwysig hon. Hoffwn innau hefyd adleisio'r sylwadau a wnaeth Russell o ran y ffaith fod llawer o newyddion da a llawer i'w ddathlu am y gwasanaeth iechyd yn Sir Drefaldwyn. Rwy'n meddwl yn arbennig am y fenter meddygon awyr a rôl hanfodol maes awyr y Trallwng. Rwy'n meddwl am Veronica Jarman, nyrs y flwyddyn Cymru, sy'n gwbl ganolog i waith ysbyty Llanidloes, ac mae hynny i'w ddathlu. Yn olaf, ymunais â'r Gweinidog, fel yn wir y gwnaeth Russell George, yn agoriad yr uned ddialysis yn y Trallwng ym mis Awst 2013. Roedd yn newyddion gwirioneddol dda, ond mae'n gwbl glir fod poblogaeth gogledd Powys yn agored tu hwnt i newidiadau yn y GIG yn Lloegr ac mae angen inni ofalu amdanom ein hunain ac adeiladu'r achos dros y ganolfan gofal brys. Nid yn unig y mae Russell George yn cytuno â hynny, ond rwyf innau'n cytuno â hynny ac rwy'n hyrwyddo hynny hefyd, ac felly hefyd y ddyns hyfryd y cyfarfûm â hi, heb roi achos iddi ddychryn gobeithio, Mrs George o Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd. Dyna ei barn hi ac rwy'n credu mai dyna'r farn unfryd ar draws y meinciau hyn heddiw.

17:33

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Health and Social Services to reply—Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb—Mark Drakeford.

17:33

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

I will begin by thanking Russell George for sponsoring this debate this afternoon. It's been interesting to hear the two contributions. Both of them, I think, are very sensibly grounded in the idea that there is a great deal to be proud about in the services that are provided in mid Wales, but we often don't do enough to sell those achievements to others in order to attract them into working in the service and we need to do more to make sure that, in future, we tailor the way that services are provided in this part of Wales to the needs of local circumstances.

Dechreuaf drwy ddiolch i Russell George am hyrwyddo'r ddaidl y prynhawn yma. Mae wedi bod yn ddiddorol clywed y ddau gyfraniad. Mae'r ddau ohonynt, rwy'n meddwl, wedi'u seilio'n synhwyrol iawn ar y syniad fod yna lawer iawn i ymfalchïo ynddo yn y gwasanaethau a ddarperir yng nghanolbarth Cymru, ond yn aml nid ydym yn gwneud digon i werthu'r cyflawniadau hyn i bobl eraill er mwyn eu denu i weithio yn y gwasanaeth ac mae angen i ni wneud mwy i sicrhau, yn y dyfodol, ein bod yn teilwra'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn y rhan hon o Gymru i anghenion sy'n deillio o amgylchiadau lleol.

I might begin, Dirprwy Lywydd, with the issue that Russell George ended with, and that's cross-border issues. The border between England and Wales is long and it's porous and cross-border movements have been a fact of life for many years, including in healthcare. My view is very simple: as much as we can make it, the border ought not to be any form of barrier to providing the right care for people who need that care in the right way. There have always been significant contracts in place with English providers. We spend over £200 million in the Welsh NHS on buying services that are provided by our English counterparts. My ambition is to make that system work as best we possibly can make it, for the benefit of Welsh patients. That's true in both directions. There are nearly 6,000 more English patients registered on Welsh GP lists than Welsh patients who are registered with English GPs. There is a symbiotic relationship across the border, and our ambition ought to be to make it work as well as we can make it work.

That can come under strain. It can come under strain when there are changes that happen along the border. We heard Russell refer to the changes that are currently being thought of in Shropshire. It is a fact of life, I think, that as services change on the English side of the border, there is a drift of services east and, therefore, further away from Welsh residents. We must make sure that our interests are properly represented in those discussions. English providers along our border could not survive the loss of Welsh business. They rely on Welsh patients for the finance that follows those patients, but it is also because the volume of activity that you have to have in order to go on getting Royal College accreditation requires Welsh patients to be served in those services. So, we have to work a bit harder sometimes to persuade English providers to recognise that they are not doing us a favour by providing services for Welsh patients—their services rely on the business that we provide to them. I'm very glad that Powys local health board is a full member of the group that is looking at those changes, so that the interests of Montgomeryshire and other Welsh patients can be taken fully into account.

Gallwn ddechrau, Ddirprwy Lywydd, gyda'r mater y gorffennodd Russell George ag ef, sef materion trawsffiniol. Mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn hir a heb fod yn soled, ac mae symudiadau trawsffiniol wedi bod yn un o ffeithiau bywyd ers blynnyddoedd lawer, gan gynnwys ym maes gofal iechyd. Mae fy marn i'n syml iawn: i'r graddau sy'n bosibl, ni ddylai'r ffin fod yn unrhyw fath o rwystr i ddarparu'r gofal cywir i bobl sydd angen y gofal hwnnw yn y ffordd iawn. Mae contractau sylweddol bob amser wedi bod ar waith gyda darparwyr yn Lloegr. Rydym yn gwario dros £200 miliwn yn y GIG yng Nghymru ar brynu gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein cymheiriaid yn Lloegr. Fy uchelgais yw gwneud i'r system weithio cystal ag y gallwn wneud iddi weithio, er budd cleifion yng Nghymru. Mae hynny'n wir i'r ddau gyfeiriad. Mae bron i 6,000 yn fwy o gleifion o Loegr wedi'u cofrestru ar restrau meddygon teulu yng Nghymru na sydd o gleifion o Gymru wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu yn Lloegr. Ceir perthynas symbiotig ar draws y ffin, a gwneud iddi weithio cystal ag y gallwn wneud iddi weithio ddylai ein huchelgais fod.

Gall hynny ddod o dan straen. Gall ddod o dan straen pan fydd newidiadau'n digwydd ar hyd y ffin. Clywsom Russell yn cyfeirio at y newidiadau sy'n cael eu hystyried yn Swydd Amwythig ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl ei bod yn un o ffeithiau bywyd fod gwasanaethau'n driffio tua'r dwyrain ac ymhellach oddi wrth drigolion Cymru wrth i wasanaethau newid ar ochr Lloegr i'r ffin. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod ein buddiannau yn cael eu cynrychioli'n briodol yn y trafodaethau hynny. Ni allai darparwyr yn Lloegr ar hyd ein ffin oroesi colli busnes yng Nghymru. Maent yn dibynnu ar gleifion Cymru am y cyllid sy'n dilyn y cleifion hynny, ond hefyd, mae maint y gweithgaredd sy'n rhaid i chi ei gael er mwyn parhau i gael achrediad y Coleg Brenhinol yn ei gwneud yn ofynnol i gleifion o Gymru gael eu cynnwys yn y gwasanaethau hynny. Felly, mae'n rhaid i ni weithio ychydig yn galetach weithiau i berswadio darparwyr yn Lloegr i gydnabod nad ydynt yn gwneud ffrâf â ni drwy ddarparu gwasanaethau i gleifion o Gymru—mae eu gwasanaethau'n dibynnu ar y busnes a ddarparwn ar eu cyfer. Rwy'n falch iawn fod bwrdd iechyd lleol Powys yn aelod llawn o'r grŵp sy'n edrych ar y newidiadau hyn, fel bod modd rhoi ystyriaeth lawn i fuddiannau Sir Drefaldwyn a chleifion eraill yng Nghymru

Russell George also referred to his attendance at the conference that was held on 12 March. Other Members, such as Elin Jones here, were certainly there at the conference as well, and a very good conference it was too, characterised by the passionate interest that people in that part of Wales have in the services that they receive. I was grateful to Russell for what he said in this debate and earlier on, about the way in which the mid Wales study—the Longley report—has had, I hope, a galvanising impact on that range of players locally who have to come together in a shared ambition: a willingness sometimes to overcome differences of view, and nuances of view, in order to see the bigger prize that is there, if people can persuade one another to work together to provide a service that is right for that part of Wales. All the relevant boards—the three local health boards and the Welsh ambulance service—have discussed the report at board level. Each of them has written to me, recognising the analysis and supporting its recommendations. I was pleased to be able to appoint Dr Ruth Hall, who will be known to many Members here as a former Chief Medical Officer for Wales, and Jack Evershed, a former leading participant in the national CHC movement in Wales, to jointly chair the mid Wales healthcare collaborative board. That was the first of the Longley recommendations. I was keen to make sure that the board was independently chaired, and chaired by people who would have genuine credibility amongst local patients and the public, and amongst local clinicians as well. The first formal meeting of the collaborative board will take place in public on 5 May, and I have promised to be in contact with Dr Hall and with Jack after that meeting is over to do what I can to continue to provide impetus to that whole set of developments.

One of the recommendations in the report is to make mid Wales a centre for rural healthcare excellence and to establish a body that would have academic credibility in underlining the quality of care that is provided there and the nature of care that is provided there, and maybe that will be one of the ways in which we will help to overcome the loss that will have been experienced as a result of the fate of the institute. Russell George hasn't said it today, but I know that, in earlier questions in the Assembly, he was anxious about whether the work of the Longley review would simply create a different sort of border in Wales—recreating a different sort of the border. As he knows, we've no intention whatsoever of creating a line down the centre of Powys; there will continue to be patients from Powys who access health services in England, but it is quite possible that, as services on the other side of the border alter, services further west in Wales will become more attractive to a wider number of people who live in Powys.

Soniodd Russell George hefyd ei fod wedi mynychu'r gynhadledd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth. Yn sicr, roedd Aelodau eraill, megis Elin Jones fan hyn yn y gynhadledd hefyd, a chynhadledd dda iawn oedd hi, wedi'i nodweddu gan y diddordeb angerddol sydd gan bobl yn y rhan honno o Gymru yn y gwasanaethau y maent yn eu cael. Roeddwn yn ddiolchgar i Russell am yr hyn a ddywedodd yn y ddaidl hon yn gynharach, am y ffordd y mae astudiaeth canolbarth Cymru—adroddiad Longley—wedi cael effaith sydd, gobeithio, yn atgyfnerthu'r amrywiaeth o bobl leol a ddaeth at ei gilydd i rannu uchelgais: parodrwydd weithiau i oresgyn gwahaniaethau ac amrywiadau barn, er mwyn gweld y wobwr fwy sydd yno, os gall pobl berswadio ei gilydd i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth sy'n iawn ar gyfer y rhan honno o Gymru. Mae pob un o'r byrddau perthnasol—y tri bwrdd iechyd lleol a gwasanaeth ambiwlans Cymru—wedi trafod yr adroddiad ar lefel bwrdd. Mae pob un ohonynt wedi ysgrifennu ataf, gan gydnabod y dadansoddiad a chefnogi ei argymhellion. Roeddwn yn falch o allu penodi Dr Ruth Hall, a fydd yn gyfarwydd i lawer o'r Aelodau yma fel cyn-Brif Swyddog Meddygol Cymru, a Jack Evershed, cyn-gyfranogwr blaenllaw yn y mudiad Cynghorau Iechyd Cymuned cenedlaethol yng Nghymru, i gydgadeirio bwrdd cydweithredol gofal iechyd canolbarth Cymru. Dyna oedd argymhelliad cyntaf Longley. Roeddwn yn awyddus i wneud yn siŵr fod y bwrdd yn cael ei gadeirio'n annibynnol, ac yn cael ei gadeirio gan bobl â hygredded go iawn ymysg cleifion lleol a'r cyhoedd, ac ymhlith clinigwyr lleol yn ogystal. Cynhelir cyfarfod ffurfiol cyntaf y bwrdd cydweithredol yn gyhoeddus ar 5 Mai, ac rwyf wedi addo bod mewn cysylltiad â Dr Hall a Jack ar ôl i'r cyfarfod ddoed i ben i wneud yr hyn a allaf er mwyn parhau i ysgogi'r gyfres gyfan o ddatblygiadau.

Un o'r argymhellion yn yr adroddiad yw gwneud canolbarth Cymru yn ganolfan ragoriaeth gofal iechyd gwledig a sefydlu corff a fyddai â hygredded academiaidd o ran tanlinellu ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu yno a natur y gofal sy'n cael ei ddarparu yno, ac efallai y bydd hynny'n un o'r ffyrdd y byddwn yn helpu i oresgyn y golled a brofwyd o ganlyniad i dynged y sefydliad. Nid yw Russell George wedi ei ddweud heddiw, ond gwn ei fod yn poeni, mewn cwestiynau yn gynharach yn y Cynulliad, na fyddai gwaith adolygiad Longley ond yn creu math gwahanol o ffin yng Nghymru—yn ail-greu math gwahanol o ffin. Fel y gŵyr, nid oes gennym fwiad o fath yn y byd i greu llinell ar hyd canol Powys; bydd cleifion o Bowys yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn Lloegr, ond mae'n eithaf posibl y bydd gwasanaethau ymhellach i'r gorllewin yng Nghymru yn dod yn fwy deniadol i nifer ehangach o bobl sy'n byw ym Mhowys wrth i wasanaethau newid dros y ffin.

The mid Wales study was clear that the role of Powys health board as a full member of the mid Wales collaborative will be key in making sure that all that happens. And I am made optimistic by the first reading that I have had of Powys local health board's three-year plan, submitted earlier in April, and being considered now by my officials. I think it has a genuinely ambitious sense for creating the future of services in Powys. It wants to repatriate services from other parts of Wales, and from England. Where those services rely on out-patients and day-case work in particular, they are looking to bring back inside Powys work in orthopaedics, ophthalmology, rheumatology, dermatology, cardiology, endoscopy and urology. Dirprwy Lywydd, when you look at what Powys achieves when it provides services for its own residents now, then you can see why they would want to do that. Where Powys provides its own services, then 99.7 per cent of all Powys patients are seen within 26 weeks. When people are seen in urgent care centres in Powys, then 99.9 per cent of them are seen within four hours, and there are no people who wait over 12 hours. Its MRSA rate, in its own hospitals, is zero, and it has some of the best care at primary care level anywhere in Wales.

Roedd astudiaeth canolbarth Cymru yn nodi'n glir y bydd rôl bwrdd iechyd Powys fel aelod llawn o fenter gydweithredol canolbarth Cymru yn allweddol er mwyn sicrhau bod hyn oll yn digwydd. Ac rwy'n optimistaidd ar ôl un darlleniad o gynllun tair blynedd bwrdd iechyd lleol Powys, a gyflwynwyd yn gynharach ym mis Ebrill, ac sy'n cael ei ystyried gan fy swyddogion ar hyn o bryd. Rwy'n credu bod iddo naws wirioneddol uchelgeisiol o ran creu dyfodol i wasanaethau ym Mhowys. Mae'n awyddus i weld gwasanaethau o rannau eraill o Gymru, ac o Loegr yn dychwelyd. Lle y mae'r gwasanaethau hynny'n dibynnu ar gleifion allanol a gwaith achosion dydd yn arbennig, maent yn ystyried dod â gwaith orthopedeg, offthalmoleg, rheumatoleg, dermatoleg, cardioleg, endosgopi ac wroleg yn ôl i mewn i Bowys. Ddirprwy Lywydd, pan edrychwch ar yr hyn y mae Powys yn ei gyflawni pan fo'n darparu gwasanaethau ar gyfer ei thrigolion ei hun yn awr, gallwch weld pam y byddent am wneud hynny. Lle y mae Powys yn darparu ei gwasanaethau ei hun, caiff 99.7 y cant o holl gleifion Powys eu gweld o fewn 26 wythnos. Pan fydd pobl yn cael eu gweld mewn canolfannau gofal brys ym Mhowys, caiff 99.9 y cant ohonynt eu gweld o fewn pedair awr, ac nid oes neb yn aros dros 12 awr. Nid oes unrhyw achosion o MRSA ganddi yn ei hysbytai ei hun, ac mae ganddi beth o'r gofal gorau drwy Gymru ar lefel gofal sylfaenol.

- 17:43 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wneuch chi dderbyn ymyriad?
- 17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You are allowed, Minister. Russell George. Fe gewch wneud hynny, Weinidog. Russell George.
- 17:43 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I think you did say that there was a good response. There aren't any urgent care centres in Powys, which perhaps reflects why the statistics perhaps say what they do say, but there aren't any urgent care centres in Powys. Rwy'n meddwl eich bod wedi dweud bod yna ymateb da. Nid oes unrhyw ganolfannau gofal brys ym Mhowys, sydd efallai'n adlewyrchu pam y mae'r ystadegau efallai'n dweud yr hyn y maent yn ei ddweud, ond nid oes unrhyw ganolfannau gofal brys ym Mhowys.
- 17:43 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
No, and I wasn't referring to urgent care centres by themselves, but Powys does provide minor injury units. Those figures are collected within the A&E wait figures that we have in Wales, as they are in Scotland and in England, and those centres do provide very effective and rapid care. And when I met some of the staff at one of those centres, with Kirsty Williams, earlier this month, they certainly explained to me that they felt that they provided care on the spot to people who in any other part of Wales would have been drawn much further into the healthcare system. But, it's a success story, and all I'm saying is I think we ought to build on that success, and the three-year plan that Powys has put forward is predicated on exactly that. Na, ac nid oeddwn yn cyfeirio at ganolfannau gofal brys yn unig, ond mae Powys yn darparu unedau mân anafiadau. Mae'r ffigurau'n cael eu casglu o fewn y ffigurau aros ar gyfer yr adrannau damweiniau ac achosion brys sydd gennym yng Nghymru, fel y maent yn yr Alban ac yn Lloegr, ac mae'r canolfannau hynny'n darparu gofal yn effeithiol ac yn gyflym iawn. A phan gyfarfûm â rhai o'r staff yn un o'r canolfannau hynny, gyda Kirsty Williams, yn gynharach y mis hwn, cefais esboniad pendant ganddynt eu bod yn teimlo eu bod yn darparu gofal yn y fan a'r lle i bobl a fyddai wedi cael eu tynnu'n llawer pellach i mewn i'r system gofal iechyd mewn unrhyw ran arall o Gymru. Ond mae'n stori lwyddiant, a'r cyfan rwy'n ei ddweud yw fy mod yn meddwl y dylem adeiladu ar y llwyddiant hwnnw, ac ar hynny'n union y mae'r cynllun tair blynedd a gyflwynodd Powys yn seiliedig arno.

It's part of why I am very keen to invest further in primary care in Wales—over £1 million will go directly to clusters in Hywel Dda and Powys as a result of the £10 million that we have already announced, and there's £40 million more that we are going to invest in primary care this year. I am optimistic that Powys and other parts of mid Wales will have a substantial draw-down on that sum of money in order to diversify the primary care team, to make more of the talents of all the different clinicians who are part of that team, and to demonstrate in many ways to other parts of Wales what a primary care service that doesn't have immediate recourse to a hospital-based service on its doorstep is able to provide for patients. I think that care in mid Wales in so many ways can be at the forefront of those developments.

Thank you to both earlier Members for what they have said about the EMRTS service. It is a very important part of confidence building amongst local populations that, when they are remote from specialist centres, there are rapid ways in which, in an emergency, either the service will come to them, or they will go to the service in a way that guarantees that they will get safe and sustainable care.

Dirprwy Lywydd, when you put all these things together, I believe that, despite the challenges that are undoubtedly there in providing services in remoter and more sparsely populated parts of Wales, we are drawing together a series of strands that will allow us in the future to make sure that health services in this part of Wales are designed properly to meet the needs of that population and will be able to do so successfully. Thank you very much.

Mae'n rhan o'r rheswm pam rwy'n awyddus iawn i fuddsoddi ymhellach mewn gofal sylfaenol yng Nghymru—bydd dros £1 miliwn yn mynd yn uniongyrchol i glystyrau yn Hywel Dda a Phowys yn sgil y £10 miliwn rydym eisoes wedi cyhoeddi, ac rydym yn mynd i fuddsoddi £40 miliwn yn rhagor mewn gofal sylfaenol eleni. Rwy'n optimistaidd y bydd Powys a rhannau eraill o ganolbarth Cymru yn tynnu cryn dipyn o'r swm hwnnw o arian i lawr er mwyn arallgyfeirio'r tîm gofal sylfaenol, i fanteisio ymhellach ar dalentau'r holl wahanol glinigwyr sy'n rhan o'r tîm, a dangos mewn llawer o ffyrdd i rannau eraill o Gymru yr hyn y gall gwasanaeth gofal sylfaenol heb wasanaeth ysbyty uniongyrchol ar garreg ei ddrws ei ddarparu ar gyfer cleifion. Rwy'n credu y gall gofal yng nghanolbarth Cymru fod ar flaen y gad yn y datblygiadau hynny mewn cymaint o wahanol ffyrdd.

Diolch yn fawr i'r ddau Aelod yn gynharach am yr hyn y maent wedi ei ddweud am y gwasanaeth EMRTS. Mae'n rhan bwysig iawn o adeiladu hyder ymysg poblogaethau lleol sy'n bell o ganolfannau arbenigol, fod yna ffyrdd cyflym o ddod â'r gwasanaeth atynt hwy mewn argyfwng, neu o'u cludo hwy at y gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau y byddant yn cael gofal diogel a chynaliadwy.

Ddirprwy Lywydd, pan fyddwch yn rhoi'r holl bethau hyn at ei gilydd, er gwaethaf yr heriau sydd yno'n ddi-os o ran darparu gwasanaethau mewn rhannau anghysbell o Gymru sydd â phoblogaeth fwy gwasgaredig, rwy'n credu ein bod yn dod â chyfres o elfennau at ei gilydd a fydd yn caniatáu i ni wneud yn siŵr yn y dyfodol fod gwasanaethau iechyd yn y rhan hon o Gymru yn cael eu cynllunio'n briodol i gwrrdd ag anghenion y boblogaeth honno ac y bydd yn gallu gwneud hynny'n llwyddiannus. Diolch yn fawr iawn.

17:46

9. Dadl Fer: Darparu Difidend Datganoli ar gyfer Cymru Gyfan

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Item 9 has been withdrawn.

That brings today's proceedings to a close. Thank you.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:46.

9. Short Debate: Delivering a Devolution Dividend for the Whole of Wales

Mae eitem 9 wedi cael ei thynnu'n ôl.

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben. Diolch yn fawr.

The meeting ended at 17:46.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)